# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2012
Tuesday, 24 January 2012

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

31 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

37 Datganiad: Cynnydd ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol
Statement: Progress on the Social Services Bill

52 Datganiad: Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru
Statement: Priorities for the Welsh Historic Environment

64 Datganiad: Compact Simpson gyda Llywodraeth Leol
Statement: The Simpson Compact with Local Government

75 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles
Legislative Consent Motion on the Welfare Reform Bill

84 Rhaglenni Ewropeaidd
European Programmes

110 Cymunedau yn Gyntaf
Communities First

140 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Prif Weinidog yr Alban

### The First Minister of Scotland

***1. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *Pa bryd y cyfarfu'r Prif Weinidog ddiwethaf â Phrif Weinidog yr Alban. OAQ(4)0314(FM) W*

***1. Lord Elis-Thomas:*** *When did the First Minister last meet with the First Minister of Scotland. OAQ(4)0314(FM) W*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Y tro diwethaf i mi gyfarfod ag ef oedd ar 13 Ionawr yn Nulyn.

**The First Minister (Carwyn Jones):** I last met him on 13 January in Dublin.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Yn ei gyfarfod â Phrif Weinidog yr Alban, a gafodd Prif Weinidog Cymru gyfle i'w sicrhau na fydd e'n ymyrryd mewn materion mewnol yn yr Alban, ac a yw Prif Weinidog Cymru wedi cael cyfle i gyfarwyddo Prif Weinidog y Deyrnas Unedig sut i ymddwyn yn y materion hyn? Tra fy mod i ar fy nhraed, a all ddweud rhagor wrthym am y confensiwn a lansiwyd ganddo ddoe? O'r hyn a welaf i, yr wyf yn gefnogol iawn i'r arweiniad hyn.

**Lord Elis-Thomas:** In his meeting with the Scottish First Minister, did the First Minister of Wales have an opportunity to assure him he will not interfere in internal matters in Scotland, and has the First Minister of Wales had an opportunity to direct the Prime Minister of the United Kingdom on how to behave in these issues? While I am on my feet, can he tell us more about the convention that he launched yesterday? From what I can see, I am very supportive of this step.

**Y Prif Weinidog:** Diolch am hynny. Yn gyntaf, yr wyf wedi mynegi fy marn yn gyhoeddus mai rhywbeth i bobl yr Alban yw dyfodol yr Alban. O ran y confensiwn, mae'n bwysig dros ben i ni ystyried sefyllfa'r Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, wrth gofio'r datganoli sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd, er mwyn sicrhau bod mwy o eglurder ynglŷn â'r gwahanol bwerau sydd gan y Cynulliad hwn, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban a Senedd y Deyrnas Unedig.

**The First Minister:** Thank you for that. First, I have made public my view that the future of Scotland is for the people of Scotland. Regarding the convention, it is exceptionally important that we consider the current position of the UK, bearing in mind the devolution that we have seen over the years, in order to secure more clarity on the various powers of this Assembly, the Northern Ireland Assembly, the Scottish Parliament and the UK Parliament.

**Julie Morgan:** Does the First Minister agree that when voters in Scotland come to put their crosses in the vote on Scottish independence, they should consider that they are breaking away not just from England, but from Wales and Northern Ireland—two fellow Celtic nations? Does he think that they should consider that when they vote?

**Julie Morgan:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno y dylai pleidleiswyr yn yr Alban, pan fyddant yn mynd ati i roi eu croesau yn y bleidlais ar annibyniaeth yr Alban, ystyried eu bod yn torri i ffwrdd nid yn unig o Loegr, ond o Gymru a Gogledd Iwerddon—dwy gyd-genedl Geltaidd? A yw'n credu y dylent ystyried hynny pan fyddant yn pleidleisio?

**The First Minister:** I very much hope that the people of Scotland vote to remain part of the UK; they are a very important part of the UK. Scotland adds balance to the UK; that much we know, and the UK would be very much worse off without Scotland in it.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd pobl yr Alban yn pleidleisio dros aros yn rhan o'r DU; maent yn rhan bwysig iawn o'r DU. Mae'r Alban yn ychwanegu cydbwysedd i'r DU; yr ydym yn gwybod hynny, a byddai'n llawer iawn gwaeth ar y DU pe na fyddai'r Alban yn rhan ohoni.

**Nick Ramsay:** First Minister, I know that, occasionally, we disagree on a few things, but on the issue of the future of the United Kingdom, I know that you share my view that the United Kingdom has stood Wales and its other constituent parts in good stead for 300 years, and hopefully will continue on into the future. Following on from Julie Morgan's question, would you, once again, state your belief in the importance of Scotland to Wales and in the United Kingdom remaining together? Do you agree that it was very important that the Prime Minister indicated that there should be an early referendum because, in the meantime, businesses are suffering from the uncertainty that has been created by the Scottish National Party? I am sure that you would not want to see insecurity.

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, gwn ein bod, o bryd i'w gilydd, yn anghytuno ar rai pethau, ond ar gwestiwn dyfodol y Deyrnas Unedig, gwn eich bod yn cyd-fynd â mi fod y Deyrnas Unedig wedi bod o fudd i Gymru ac i rannau eraill y deyrnas ers 300 o flynyddoedd, a gobeithio y bydd yn parhau i'r dyfodol. Yn dilyn cwestiwn Julie Morgan, a fyddech, unwaith eto, yn datgan eich cred ym mhwysigrwydd yr Alban i Gymru ac ynghylch cadw'r Deyrnas Unedig yn gyfan? A gytunwch ynghylch pwysigrwydd y ffaith i Brif Weinidog y DU fynegi y dylid cael refferendwm yn gynnar oherwydd, yn y cyfamser, mae busnesau yn dioddef yn sgîl yr ansicrwydd a grëwyd gan Blaid Genedlaethol yr Alban? Rwyf yn siŵr na fyddech eisiau gweld ansicrwydd.

**The First Minister:** As I said, what happens in Scotland is a matter for the people of Scotland. I am not convinced that it is a wise intervention on the part of the Prime Minister with regard to Scottish affairs, but, that said—let me reiterate the point—I would very much regret seeing Scotland leaving the UK. I very much believe in the unity of the UK, and it would certainly be a great loss to us in Wales if Scotland were to leave the UK.

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, mater i bobl yr Alban yw'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban. Nid wyf yn argyhoeddedig ei fod yn ymyriad doeth ar ran Prif Weinidog y DU mewn perthynas â materion yr Alban, ond, wedi dweud hynny—gadewch imi ailadrodd y pwynt—fe fyddai'n ddrwg iawn gennyf weld yr Alban yn gadael y DU. Rwyf yn credu'n gryf yn undod y DU, a byddai'n sicr yn golled fawr i ni yng Nghymru pe byddai'r Alban yn gadael y DU.

**The Presiding Officer:** While we are having a good start this afternoon, I remind Members that it is one question and short preambles.

**Y Llywydd:** Er ein bod yn cael dechrau da y prynhawn yma, rwyf am atgoffa Aelodau mai un cwestiwn a rhagymadroddion byr a ganiateir.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus**

**Public Transport**

***2. Paul Davies:*** *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru. OAQ(4)0316(FM)*

***2. Paul Davies:*** *What is the Welsh Government doing to improve public transport accessibility across Wales. OAQ(4)0316(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cyflawni gwelliannau i hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru. Ymysg y rhain,

**The First Minister:** We are delivering accessibility improvements to public transport across Wales. These include the new train

mae'r gwasanaethau trên newydd i Abergwaun, ailagor gorsaf Wdig yn y dyfodol agos, a'r gwelliannau mawr sy'n digwydd ar hyn o bryd i orsaf Stryd Fawr Abertawe.

services to Fishguard, the forthcoming reopening of Goodwick station, and the current major improvements to Swansea High Street station.

**Paul Davies:** Un o'r cynlluniau sydd wedi bod yn llwyddiannus trwy gydol Cymru yw'r cynllun *town rider* sydd wedi gwella hygyrchedd i nifer o bobl, yn enwedig yr hŷn a'r bregus. Deallaf fod arian y cynllun hwn yn dod i ben oherwydd penderfyniad eich Llywodraeth chi. Mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi i ddweud eu bod yn poeni'n fawr fod y cynllun hwn yn dod i ben, oherwydd mae llawer yn teimlo bod y gwasanaeth yn 'llinell bywyd' iddynt. A wnaiff y Prif Weinidog sicrhau bod y Llywodraeth yn ailystyried y penderfyniad hwn, ac os na fydd hynny'n digwydd, a all ddweud wrthym beth fydd yn cymryd lle'r gwasanaeth gwerthfawr hwn?

**Paul Davies:** One plan that has been successful across Wales in the town rider scheme, which has increased accessibility for many people, particularly the elderly and vulnerable. I understand that the funding for this scheme is to come to an end because of a decision taken by your Government. Many constituents have contacted me and are very concerned that this scheme is to come to an end, because many feel that this service is a lifeline for them. Will the First Minister ensure that the Government reconsiders this decision and, if not, can he tell us what will replace this valuable service?

**Y Prif Weindog:** Yn anffodus, nid yw'r arian ar gael i gyllido'r cynllun hwn ar ran y Llywodraeth mwyach. Deallaf fod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn bryd gyda'r awdurdod lleol ynglŷn â dyfodol gwasanaethau *town rider* ar ôl mis Mawrth.

**The First Minister:** Unfortunately, the funding for that scheme is no longer available to the Government. I understand that talks are ongoing with the local authority regarding the future of town rider services after March.

**Jenny Rathbone:** At Prime Minister's questions last week, we heard that the Conservative Government is axing the Labour initiative to contain the prices of transport. Can you say what can be done to ensure that the price of train and bus fares is as important as the accessibility issue?

**Jenny Rathbone:** Yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, clywsom fod y Llywodraeth Geidwadol yn dileu'r fenter gan Lafur i reoli prisiau trafnidiaeth. A allwch ddweud beth y gellir ei wneud i sicrhau bod pris tocynnau trên a bws yr un mor bwysig â'r mater ynghylch hygyrchedd?

**The First Minister:** It is crucial that people feel that they are able to travel on public transport and at a reasonable price. The great danger is that if rail fares are allowed to rise in an unregulated way, then those fares will rise to such an extent that people will feel that they are not able to access the railways. It is absolutely crucial that there is proper regulation in place across the whole of the UK.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n hanfodol bod pobl yn teimlo eu bod yn gallu teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac am bris rhesymol. Y perygl mawr os caniateir i docynnau trên godi mewn modd nad yw wedi'i reoleiddio yw y bydd y prisiau hynny'n codi i'r fath raddau fel na fydd pobl yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad i'r rheilffyrdd. Mae'n gwbl hanfodol bod rheoleiddio priodol ar waith ledled y DU gyfan.

**Alun Ffred Jones:** Mae eich Llywodraeth yng Nghymru newydd gyflwyno gostyngiad o 25% yn y grant i gwmnïau bysus. Mae hyn yn uwch na'r gostyngiad yn Lloegr. Hwn yw'r grant sy'n helpu i dalu treth tanwydd. Cafodd y toriad hwn ei wneud gyda rhybudd o 10 wythnos yn unig, er bod cytundebau

**Alun Ffred Jones:** Your Government in Wales has just cut the grant for bus companies by 25%. That is higher than the figure in England. This is the grant that helps with fuel duty payments. This cut has been made with just 10 weeks' notice, although contracts are in place with the county

gyda'r cynghorau sir yn eu lle. Pam mae'r toriad hwn mor uchel yng Nghymru a pham rhoddwyd cyn lleied o rybudd i'r cwmnïau bysus a fydd yn dioddef ac yn gorfod torri gwasanaethau?

councils. Why is this cut so high in Wales and why was so little warning given to the bus companies, which will suffer as a result and will have to cut services?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cymhorthdal yn dal i fod yn uwch na'r hyn a geir yn Lloegr. Wrth ystyried litr o danwydd, mae hwn yn dal i fod yn iawn. Gan gofio'r cyllid a gawsom gan Lundain, mae'n rhaid i ni ystyried ym mha ffordd y gallwn dorri rhai gwasanaethau. Yn anffodus, mae hon yn ardal lle rydym wedi gorfod cwtogi'r swm sydd ar gael ond, unwaith eto, rwy'n pwysleisio bod mwy o arian ar gael os ystyriwch chi'r cymhorthdal a roddir fesul litr o danwydd yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr.

**The First Minister:** The subsidy continues to be higher that it is in England—per litre of fuel, that continues to be the case. Given the funding that we have received from London, we have to consider how to cut some services. Unfortunately, this is an area in which we have to reduce the sum made available, but I once again emphasise that more money is available per litre of fuel in Wales than in England.

**Aled Roberts:** Mae nifer o ardaloedd yn y gogledd lle nad oes trafnidiaeth gyhoeddus a lle mae'r cyhoedd, yn enwedig pobl hŷn, yn ddibynnol ar drafnidiaeth gymunedol. Pryd fydd eich Llywodraeth mewn sefyllfa i roi sicrwydd ynglŷn ag arian y flwyddyn nesaf?

**Aled Roberts:** In a number of areas of north Wales there is no public transport, and where the public, particularly the elderly, are dependent upon community transport. When will your Government be in a position to give some assurance on funding for next year?

**Y Prif Weinidog:** Yn anffodus, fel y dywedais eisoes, rydym mewn sefyllfa lle nad yw'n bosibl inni roi sicrwydd y byddwn yn gallu rhoi cymaint o arian ag y byddem yn dymuno'i roi. Serch hynny, wrth gwrs, rydym am edrych ar bob math o ffyrdd i sicrhau trafnidiaeth ym mhob rhan o Gymru er mwyn gweld a oes unrhyw gymorth y gallwn ei roi yn y dyfodol.

**The First Minister:** Unfortunately, as I said, we are in a situation of being unable to give assurances that we can give as much money as we would like to give. However, we want to look at every way possible of ensuring that transport is provided in all parts of Wales, in order to see whether there is any assistance that we can give in the future.

**Rebecca Evans:** First Minister, disabled people are more likely than non-disabled people to be victims of crime. Public transport can be a particular hot spot for that, so much so that many disabled people feel unable to access the public transport that exists. Will you provide us with an update on what you are doing to tackle hate crime, particularly against people with disabilities, so that they can feel safe in public places and to open up access to public transport for them?

**Rebecca Evans:** Brif Weinidog, mae pobl anabl yn fwy tebygol na phobl nad ydynt yn anabl o ddioddef oherwydd troseddau. Gellir gweld llawer o achosion o hynny ar gludiant cyhoeddus, i'r fath raddau fel bod llawer o bobl anabl yn teimlo na allant ddefnyddio'r cludiant cyhoeddus sy'n bodoli. A rowch inni'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn yr ydych yn ei wneud i fynd i'r afael â throseddau casineb, yn enwedig yn erbyn pobl ag anableddau, er mwyn iddynt allu teimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus ac er mwyn gwneud cludiant cyhoeddus yn fwy agored iddynt?

**The First Minister:** The issue of hate crime against disabled people has been raised before on the floor of the Chamber. It is one that we take very seriously and we deplore

**Y Prif Weinidog:** Mae troseddau casineb yn erbyn pobl anabl yn fater sydd wedi cael ei godi o'r blaen ar lawr y Siambr. Mae'n fater yr ydym yn ei gymryd o ddifrif ac rydym yn

the fact that people should seek to target those who are in a position of particular vulnerability. We have been working with authorities in the past to ensure that hate crime is dealt with and, in particular, that it is taken seriously.

gresynu at y ffaith bod pobl yn targedu'r rhai sy'n arbennig o agored i niwed. Rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau yn y gorffennol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â throseddau casineb ac, yn benodol, eu bod yn cael eu cymryd o ddifrif.

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**
**Questions Without Notice from the Party Leaders**

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, in your programme for government, you talk about encouraging greater levels of private sector investment and employment. Will you explain what you would measure as a success at the end of your programme for government, as to that increase in private sector investment and employment?

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, yn eich rhaglen lywodraethu, soniwch am annog lefelau uwch o fuddsoddiad a chyflogaeth yn y sector preifat. A esboniwch beth y byddech yn ei ystyried yn llwyddiant ar ddiwedd eich rhaglen lywodraethu, o ran y cynnydd yn y buddsoddiad a chyflogaeth yn y sector preifat?

**The First Minister:** Success would be more businesses and jobs and an increase in gross disposable household income.

**Y Prif Weinidog:** Llwyddiant fyddai mwy o fusnesau a swyddi a thwf incwm aelwydydd crynswth i'w wario.

**Andrew R.T. Davies:** I think that those are aspirations we would all agree with. One of the deficits in the Welsh economy is the inability to attract high-end jobs to Wales, namely headquarter jobs, be they at the headquarters of UK companies or those of European or global operations. Recent evidence taken from an article by the chief executive of Admiral highlighted that if the company was considering locating in the current climate, it most probably would not look at locating its headquarters in Wales. What action is the Government taking to fully engage with the private sector so that those high-end jobs and companies come to Wales?

**Andrew R.T. Davies:** Credaf y byddai pob un ohonom yn cytuno â'r dyheadau hynny. Un o ddiffygion economi Cymru yw'r anallu i ddenu swyddi uwchraddol i Gymru, yn bennaf swyddi prif swyddfa, boed y rheini'n swyddi ym mhencadlysoedd cwmnïau o'r DU neu weithrediadau Ewropeaidd neu fyd-eang. Mae tystiolaeth ddiweddar a gymerwyd o erthygl gan brif weithredwr Admiral yn tynnu sylw at y ffaith na fyddai, yn ôl pob tebyg, yn ystyried lleoli ei brif swyddfa yng Nghymru petai'r cwmni'n ystyried lleoli yn yr hinsawdd bresennol. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i ymgysylltu'n llawn â'r sector preifat fel bod y swyddi uwchraddol a'r cwmnïau hynny'n dod i Gymru?

**The First Minister:** Let me give one example. The central business district of Cardiff has been designated as an enterprise zone. That will be crucial in attracting financial services such as Admiral to our capital city in future. Of course, we will also continue with the contacts we make in other countries. I have been to China and I will be going to the US and India over the course of the next few months to ensure that investment opportunities from those countries for Wales are maximised.

**Y Prif Weinidog:** Gadewch imi gynnig un enghraifft. Mae ardal fusnes canol Caerdydd wedi'i dynodi'n ardal fenter. Bydd hynny'n hanfodol wrth ddenu gwasanaethau ariannol megis Admiral i'n prifddinas yn y dyfodol. Wrth gwrs, fe fyddwn hefyd yn parhau â'r cysylltiadau yr ydym yn eu gwneud mewn gwledydd eraill. Rwyf wedi bod yn Tsieina a byddaf yn mynd i'r Unol Daleithiau ac India dros y misoedd nesaf i sicrhau bod y cyfleoedd buddsoddi gan y gwledydd hynny ar gyfer Cymru yn cael eu gwireddu i'r eithaf.

**Andrew R.T. Davies:** No-one could disagree with the sentiments you have put across this afternoon. However, regrettably, the issue is that the record for the first 10 years of the Assembly Government's performance on attracting those sorts of companies is not good. As a regional member for South Wales Central, I fully endorse the efforts behind the Cardiff business district. However, we need to hear from you what different measures and proactive activity your Government will be undertaking to engage with those high-value customers—including those businesses that offer the opportunity for graduate placements—and promoting Wales around the world.

**Andrew R.T. Davies:** Nid all neb anghytuno â'r farn yr ydych wedi'i chyflwyno y prynhawn yma. Fodd bynnag, gwaetha'r modd, nid yw record Llywodraeth y Cynulliad yn ei 10 mlynedd cyntaf o ran ei pherfformiad wrth ddenu'r mathau hynny o gwmnïau yn dda. Fel Aelod rhanbarthol ar gyfer Canol De Cymru, rwyf yn llwyr gefnogi'r ymdrechion o ran ardal fusnes Caerdydd. Fodd bynnag, mae angen inni glywed oddi wrthych pa wahanol fesurau a gweithgarwch rhagweithiol y bydd eich Llywodraeth yn ymgymryd â hwy er mwyn ymgysylltu â'r cwsmeriaid uchel eu gwerth hynny—gan gynnwys y busnesau hynny sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer lleoliadau i raddedigion—ac i hyrwyddo Cymru ledled y byd.

**The First Minister:** We already have the anchor companies that have been designated. They are the largest employers in Wales. We work very closely with them not only to retain them in Wales, but to attract further investment in Wales in future.

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym eisoes y cwmnïau angori sydd wedi'u dynodi. Hwy yw'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos iawn â hwy, nid yn unig i'w cadw yng Nghymru, ond i ddenu buddsoddiad pellach yng Nghymru yn y dyfodol.

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Brif Weinidog, a gaf innau hefyd groesawu'r drafodaeth rydych wedi'i hagor ar y cyfansoddiad? Wrth gwrs, y broblem gydag agor trafodaeth o'r fath yw bod rhaid ichi ddweud lle rydych yn sefyll. Pa newidiadau cyfansoddiadol y byddech yn eu ffafrio i Gymru?

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** First Minister, may I also welcome the debate that you have opened on the constitution? Of course, the problem with opening such a debate is that you then have to say where you stand on the issue. What constitutional changes would you favour for Wales?

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, o ran rhan 1 comisiwn Silk, dylem ystyried pethau fel trethi tirlenwi a meysydd awyr yn ogystal â phethau fel trethi stamp er mwyn sicrhau bod modd inni ddatblygu trethi yng Nghymru, o gofio'r ffaith eu bod yn rhan o'r cyfrifoldebau sydd gennym ar hyn o bryd.

**The First Minister:** First, with regard to part 1 of the Silk commission, we should consider issues such as taxation for landfill and airports as well as issues such as stamp duty in order to ensure that we have a way of developing taxes in Wales, bearing in mind the fact that they fall within the responsibilities we have currently.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr hyn rydych yn ei ddweud felly, Brif Weinidog, yw eich bod yn hapus gyda'r setliad cyfansoddiadol fel ag y mae ond y byddech yn ffafrio rhyw dincro, os caf ei roi felly, gyda mân drethi a fyddai'n codi rhyw ychydig gannoedd o filoedd neu filiynau yn hytrach na phethau fel treth incwm, trethi corfforaethol ac yn y blaen. Onid yw'n wir dweud mai'r rheswm dros gynnal y drafodaeth bresennol yw bod

**Ieuan Wyn Jones:** What you are saying, therefore, First Minister, is that you are happy with the constitutional settlement as it stands but that you would favour some tinkering, if I may put it that way, with some minor issues of taxation, which could raise a few hundred thousands or millions of pounds, rather than income tax, corporation tax and so on. Is it not true to say that the reason the current debate is ongoing is that there is full

eglurder llwyr ar yr hyn mae'r Alban yn gofyn amdano? Mae Alex Salmond yn gofyn am annibyniaeth i'r Alban. Y broblem yw nad oes eglurder, mewn gwirionedd, ar yr hyn rydych chi'n gofyn amdano. Y realiti, ac rwyf wedi darllen yn ofalus yr hyn roeddech yn ei ddweud yn y gynhadledd i'r wasg, yw eich bod yn osgoi ateb y cwestiwn ynglŷn â lle yn union rydych yn meddwl mae dyfodol cyfansoddiadol Cymru—yn wir, eich uchelgais dros Gymru. Er eich bod wedi gwrthod ateb yn y gynhadledd i'r wasg, a allwch ddweud wrth y Cynulliad heddiw lle rydych yn sefyll mewn gwirionedd?

clarity with regard to what Scotland is requesting? Alex Salmond is asking for independence for Scotland. The problem is that there is no clarity with regard to what you are requesting or seeking. The reality—and I have read very carefully what you said in your press conference—is that you have evaded the question of where exactly you see the constitutional future of Wales or, indeed, what your ambition is for Wales. Although you refused to answer that question in your press conference, can you tell the Assembly where you truly stand?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf o blaid annibyniaeth. Gallaf ddweud yn hollol glir bod hynny'n rhywbeth i bleidiau eraill. Dyna fy marn i. Mae gennym gomisiwn Silk ac rydym o blaid cael pwerau benthyca ac rydym o blaid gweld peth datganoli trethi. Rydym o blaid ystyried pethau fel edrych ar ynni a chaniatáu prosiectau ynni yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'r Cynulliad cyfan yn cefnogi hynny. Rwyf am sicrhau bod y Cynulliad hwn yn cael y pwerau sy'n berthnasol i bobl Cymru ond nid wyf am fynd dros y dibyn o ran cefnogi annibyniaeth; gadawaf hynny i Blaid Cymru.

**The First Minister:** I am not in favour of independence. I can make it perfectly clear that that is for other parties. That is my opinion. We have the Silk commission and we are in favour of borrowing powers and some devolution regarding taxation. We are in favour of looking at issues such as energy and being able to permit energy projects in Wales. Of course, the whole Assembly is in favour of that. I want this Assembly to have powers that are relevant to the people of Wales, but I do not want to go over the cliff regarding independence; I leave that to Plaid Cymru.

**Ieuan Wyn Jones:** Mae'n rhaid imi ddweud, Brif Weinidog, mai'r unig amser y mae tân yn eich bol yw pan rydych yn dweud eich bod yn erbyn annibyniaeth. Y realiti yw eich bod, ar bopeth arall, yn swnio'n eithaf gwan, ac yn dangos arweiniad. Os ydym i gael trafodaeth ystyrlon ar y newidiadau cyfansoddiadol hyn, mae'n rhaid i bob plaid osod ei safbwynt yn llawer cliriach. Rydych wedi sôn am bethau sy'n gymharol fach o ran newidiadau cyfansoddiadol. Fodd bynnag, mae newidiadau sylweddol rhwng y pwynt rydych yn ei awgrymu ac annibyniaeth. Yn yr Alban, mae posibilrwydd y bydd cwestiwn ar yr hyn a elwir yn *devo max*, er enghraifft.

**Ieuan Wyn Jones:** I have to say, First Minister, that the only time you have fire in your belly is when you say that you are against independence. The reality is that, on every other issue, you sound weak, and show a lack of leadership. If we are going to have a considered debate on these constitutional changes, all parties will have to set out their stalls far more clearly. You have been mentioning relatively minor issues in terms of constitutional change. However, there is a huge gap between what you are suggesting and independence. In Scotland, there is a possibility that there may be a question on what has been described as 'devo max' for example.

1.45 p.m.

Felly, rhwng y pwynt presennol ac annibyniaeth, a allwch chi ddweud wrthym lle y sefwch yn union ar hyn? Os ydym i gael trafodaeth ystyrlon ar y materion hyn, rhaid inni gael gwybod lle mae'r Prif Weinidog yn sefyll.

Therefore, between our current position and independence, can you tell us exactly where you stand on this? If we are to have a considered discussion on these matters, we must know where the First Minister stands.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi'i wneud yn hollol glir beth yw fy marn i. Fodd bynnag, dywedir popeth ar sail newid fformiwla Barnett. Mae'n bwysig bod Barnett yn cael ei ystyried cyn bod unrhyw beth arall yn newid, neu byddwn, o ran cyllid Cymru, yn cael ein cloi i mewn i system o godi trethi ar sail wan. Rwy'n ddigon hapus i gael y ddadl hon gydag arweinydd Plaid Cymru. Gall gyhoeddi wrth bobl ym mis Mai bod ei blaid o blaid annibyniaeth. Byddaf yn ddigon hapus i fod yn rhan o'r ddadl honno gydag ef.

**The First Minister:** I have made my opinion completely clear. However, everything was said on the condition of Barnett formula reform. It is important that Barnett is considered before anything else changes, or, with regard to the finance of Wales, we will be locked into a system of raising taxes with a weak foundation. I am perfectly happy to have this debate with the leader of Plaid Cymru. He can tell the people in May that he is in favour of independence. I would be happy to have that debate with him.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, the most recent set of the Programme for International Student Assessment results show that Welsh students are falling behind in reading, mathematics and science. Are the workshops that have been approved and funded by your Minister for Education and Skills to train teachers and schools to teach to the test an adequate response to the shortcomings in our education system?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, mae'r set ddiweddaraf o ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yn dangos bod myfyrwyr Cymru ar ei hôl hi o ran darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. A yw'r gweithdai a gymeradwywyd ac a ariennir gan eich Gweinidog Addysg a Sgiliau i hyfforddi athrawon ac ysgolion i addysgu ar gyfer cynnwys y prawf yn ymateb digonol i'r diffygion yn ein system addysg?

**The First Minister:** PISA is part of the picture, not the whole picture. Yes, we want to see an improvement in the PISA results when they next come around.

**Y Prif Weinidog:** Rhan o'r darlun yw PISA, nid y darlun cyfan. Ydym, rydym am weld gwelliant yn y canlyniadau PISA pan gaiff y rhai nesaf eu cyhoedd.

**Kirsty Williams:** I can understand why you want to save your Government from another embarrassing set of poor PISA results. However, as you say, it is not just about PISA. In your Minister for education's own Cabinet report, he said that PISA is only one part of the jigsaw, but its messages are reflective of other evidence. Examination results are rising, but are not keeping pace with England and our learners do not get the same proportion of high grades as their UK counterparts at either GCSE or A-level. Could you detail what support you are now offering to those schools that have recently been placed in band 5 of your banding system?

**Kirsty Williams:** Gallaf ddeall pam yr ydych am arbed eich Llywodraeth rhag cywilydd set arall o ganlyniadau PISA gwael. Fodd bynnag, fel y dywedwch eich hun, nid PISA yn unig sy'n bwysig yma. Dywedodd eich Gweinidog addysg eich hun yn ei adroddiad i'r Cabinet mai dim ond un rhan o'r jigsô yw PISA, ond mae ei negeseuon yn adlewyrchiad o dystiolaeth arall. Mae canlyniadau arholiadau yn codi, ond nid ar yr un cyflymder â Lloegr ac nid yw ein dysgwyr yn cael yr un gyfran o raddau uchel â'u cyfoedion yn y DU o ran TGAU na Safon Uwch. A allech roi manylion y cymorth yr ydych yn ei gynnig nawr i'r ysgolion hynny sydd wedi eu rhoi ym mand 5 eich system fandio yn ddiweddar?

**The First Minister:** It is, of course, a matter for local authorities to identify the support that those schools need. The Minister for education is entirely correct in his analysis. It is right that parents and teachers should have

**Y Prif Weinidog**: Mater i'r awdurdodau lleol, wrth gwrs, yw canfod pa gymorth sydd ei angen ar yr ysgolion hynny. Mae'r Gweinidog addysg yn hollol gywir yn ei ddadansoddiad. Mae'n briodol i rieni ac

an idea of what needs to be done in schools, and banding provides that evidence.

athrawon gael syniad o'r hyn sydd angen ei wneud mewn ysgolion, ac mae bandio yn darparu'r dystiolaeth honno.

**Kirsty Williams:** It is quite extraordinary, First Minister, that you have absolved your Government of any responsibility in ensuring that those schools get the support that they need. I have no problem with giving parents information about how schools are doing, but I want to see that matched by action to help those schools improve. One headmaster of a band 5 school wanted to know, if this is targeted support, where is it, and what is it? That school had had no follow-up from anyone since the publication of these figures. You are happy to coach and to pay for schools to pass the PISA to save your Government's blushes. When and how are you going to target assistance at the schools in the lower bands to help them improve?

**Kirsty Williams**: Mae'n eithaf anhygoel, Brif Weinidog, eich bod wedi rhyddhau eich Llywodraeth o unrhyw gyfrifoldeb o ran sicrhau bod yr ysgolion hynny'n cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Nid oes gennyf ddim problem gyda rhoi gwybodaeth i rieni am sut y mae ysgolion yn gwneud, ond i gyd-fynd â hynny rwyf am weld camau i helpu'r ysgolion hynny i wella. Roedd prifathro un ysgol ym mand 5 am gael gwybod, os mai cymorth wedi'i dargedu yw hwn, lle y mae'r cymorth hwnnw, a beth ydyw? Nid oes neb wedi bod mewn cysylltiad â'r ysgol honno ers cyhoeddi'r ffigurau hynny. Rydych yn hapus i hyfforddi ac i dalu er mwyn i ysgolion lwyddo yn y PISA er mwyn arbed cywilydd i'ch Llywodraeth. Pryd a sut yr ydych am dargedu cymorth ar gyfer yr ysgolion yn y bandiau isaf i'w helpu i wella?

**The First Minister:** The budget provides resources for education that go beyond the resources that were provided by the UK Government. We are very transparent about this. We are more than happy to publish performance levels and to publish funding levels on an annual basis, which is something that the UK Government has refused to do in England. That means that we can no longer compare funding per head in Wales and in England, because the UK Government, of which your party is a part, has refused to publish the figures for comparison. I very much regret that.

**Y Prif Weinidog**: Mae'r gyllideb yn darparu adnoddau ar gyfer addysg sy'n mynd y tu hwnt i'r adnoddau a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU. Rydym yn dryloyw iawn am hyn. Rydym yn fwy na hapus i gyhoeddi lefelau perfformiad a chyhoeddi lefelau cyllido yn flynyddol, ac mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ei wneud yn Lloegr. Mae hynny'n golygu na allwn, bellach, gymharu cyllid y pen yng Nghymru a Lloegr, gan fod Llywodraeth y DU, y mae eich plaid chi yn rhan ohoni, wedi gwrthod cyhoeddi'r ffigurau ar gyfer eu cymharu. Mae hynny'n ofid i mi.

### Parthau Clustogi

### Buffer Zones

**3. Simon Thomas:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglyn â pharthau clustogi ar gyfer datblygiadau glo brig. OAQ(4)0324(FM)*

**3. Simon Thomas:** *Will the First Minister make a statement regarding buffer zones for opencast developments. OAQ(4)0324(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn eich cyfeirio at 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2 (Cymru): Glo'.

**The First Minister:** I would refer you to 'Minerals Technical Advice Note 2 (Wales): Coal'.

**Simon Thomas:** Trwy gyfeirio at y nodyn technegol hwnnw, bydd y Prif Weinidog yn gwybod ei fod yn cyfeirio at 500m o glustog ar gyfer datblygiadau glo brig. Pam felly y

**Simon Thomas:** By referring to that technical advice note, the First Minister will know that it refers to a 500m buffer zone for opencast mining developments. Why then

rhoddwyd caniatâd cynllunio yn Ystradgynlais i estyn gwaith glo brig Nant Helen, a fydd yn mynd ag ef o fewn 500m i dai'r bobl leol ac i feysydd chwarae un o'ch ysgolion newydd sbon chi o'r cynllun ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif? Beth yw eich neges i etholwyr sy'n pryderu nad yw'r rheolau wedi'u dilyn yn yr achos hwn?

was planning permission granted to extend the Nant Helen opencast mine in Ystradgynlais, which will take it within 500m of local people's houses and the playing fields of one of your brand new schools from the twenty-first century schools programme? What is your message to constituents who are concerned that the rules have not been followed in this case?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn fater i'r awdurdod cynllunio lleol. Ni allaf sôn am unrhyw gynllun unigol, ond mae'r polisi yn dal i fodoli, ac felly mae'r polisi ynghylch y clustog yn y nodyn technegol hefyd yn dal i fodoli.

**The First Minister:** This is a matter for the local planning authority. I can not talk about any individual scheme, but the policy still exists, and therefore the policy regarding the buffer zone in the technical note also still exists.

**David Rees:** It is important that the 500m buffer zone is adhered to by local authorities and enforced as much as possible. Do you agree that it is also important to ensure that businesses that operate opencast mines restore the land so that it goes back to the way that it was? If you agree with that, what action will the Welsh Government take to ensure that that happens?

**David Rees:** Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cadw at y glustogfa o 500m ac yn gorfodi hynny gymaint â phosibl. A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig hefyd sicrhau bod busnesau sy'n gweithredu pyllau glo brig yn adfer y tir fel ei fod yn dychwelyd i'r hyn ydoedd? Os ydych yn cytuno â hynny, pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod hynny'n digwydd?

**The First Minister:** It is the responsibility of those who operate opencast mines to restore the land once mining operations have finished. That is an obligation that everyone in the wider world would support. In terms of how we can enforce this, it has to be done at the outset, under a section 106 agreement, on the part of the local planning authority, which will retain the responsibility for enforcing restoration conditions imposed when the planning applications were first dealt with.

**Y Prif Weinidog:** Cyfrifoldeb y rhai sy'n gweithredu pyllau glo brig yw adfer y tir wedi i'r gwaith cloddio ddod i ben. Mae hynny yn rhwymedigaeth y byddai pawb yn y byd ehangach yn ei chefnogi. O ran sut y gallwn orfodi hyn, mae'n rhaid iddo gael ei wneud ar y cychwyn, o dan gytundeb adran 106, ar ran yr awdurdod cynllunio lleol, a fydd yn cadw'r cyfrifoldeb dros orfodi adfer y tir, fel y cawfodd yr amodau eu gosod pan drafodwyd y ceisiadau cynllunio gyntaf.

**William Graham:** With the increasing focus on energy-generating fuels, especially opencast, in which we are fortunate to have some resources in Wales, is it not time to look again at your policy with regard to enforcement and what the previous speaker said? In England, section 106 agreements are going to come to an end.

**William Graham:** Rydym yn ffodus yng Nghymru bod gennym rai adnoddau tanwydd cynhyrchu ynni, a chan fod mwy a mwy o ganolbwyntio ar hynny, onid yw'n bryd edrych eto ar eich polisi gorfodi a'r hyn a ddywedodd y siaradwr blaenorol? Yn Lloegr, mae cytundebau adran 106 yn dod i ben.

**The First Minister:** There is no buffer zone in England—opencast mines can go anywhere. We do not think that that is the right approach. You raise an important point about section 106; when the planning Bill is considered next year we should consider whether there are ways of strengthening it.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes unrhyw glustogfa yn Lloegr—gall pyllau glo brig fynd i unrhyw le. Nid ydym yn credu mai dyna'r dull cywir o weithredu. Rydych yn codi pwynt pwysig am adran 106; pan fydd y Bil cynllunio yn cael ei ystyried y flwyddyn nesaf dylem ystyried a oes ffyrdd o'i gryfhau.

There is a limitation, because the community infrastructure levy imposes limitations on the implementation of section 106 in a way that we do not welcome. It would be far better if the community infrastructure levy was either devolved, which it is not, or phrased in a less prescriptive way than is currently the case.

Ceir cyfyngiad, am fod yr ardoll seilwaith cymunedol yn rhoi cyfyngiadau ar weithredu adran 106 mewn ffordd nad ydym yn ei chroesawu. Byddai'n llawer gwell pe bai'r ardoll seilwaith cymunedol, naill ai wedi'i datganoli, ond nid ydyw, neu wedi'i geirio mewn ffordd lai penodol nag yw ar hyn o bryd.

**Bethan Jenkins:** The previous Minister for environment promised a review of buffer zones once the new law was tested. Following that, the current Minister for Environment and Sustainable Development said that he did not believe that this was necessary, because the local development plan and Welsh Government guidance 'provided a balance', in his words. However, many of us went to a meeting with Oak Regeneration lawyers who want to look at areas in Ochr-y-Waun in Cwmllynfell and in Margam. They told us that they wanted to deconstruct the statutory instrument so that their clients could press ahead with plans to opencast in those areas without going straight into restoration. What are your views on this case, given your answers to your colleague David Rees?

**Bethan Jenkins**: Addawodd y Gweinidog blaenorol dros yr amgylchedd adolygiad o'r clustogfeydd wedi i'r gyfraith newydd gael ei phrofi. Yn dilyn hynny, dywedodd y Gweinidog presennol, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, nad oedd yn credu bod hyn yn angenrheidiol, gan fod y cynllun datblygu lleol a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn darparu cydbwysedd, yn ei eiriau ef. Fodd bynnag, cyfarfu llawer ohonom â chyfreithwyr Oak Regeneration, sydd am edrych ar ardaloedd yn Ochr-y-waun yng Nghwmllynfell ac ym Margam. Maent yn dweud wrthym eu bod eisiau dadwneud yr offeryn statudol fel y gellid bwrw ymlaen â chynlluniau i gloddio glo brig yn yr ardaloedd hynny heb fynd yn syth i broses o adferiad. Beth yw eich barn chi am yr achos hwn, o ystyried eich atebion i'ch cyd-Aelod David Rees?

**The First Minister:** We would resist any attempt to deconstruct the planning guidance exceptionally strongly. We take a dim view of attempts that are made to get around planning guidance in order to facilitate opencast mining. The planning guidance is there and it is clear, and the buffer zone is clear.

**Y Prif Weinidog**: Byddem yn gwrthsefyll yn gryf unrhyw ymgais i ddadwneud y canllawiau cynllunio. Rydym yn ffromi ar ymdrechion a gaiff eu gwneud i osgoi canllawiau cynllunio er mwyn hwyluso cloddio glo brig. Mae'r canllawiau cynllunio yno ac maent yn amlwg, ac mae'r glustogfa yn glir.

**Busnesau Bach**

**Small Businesses**

***4. Eluned Parrott:*** *Beth mae'r Prif Weinidog yn ei wneud i gefnogi busnesau bach yng Nghanol De Cymru. OAQ(4)0315(FM)*

***4. Eluned Parrott:*** *What is the First Minister doing to support small businesses in South Wales Central. OAQ(4)0315(FM)*

**The First Minister:** We have made clear commitments to support businesses, which are set out in the programme for government**.**

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi gwneud ymrwymiadau clir i gefnogi busnesau, sydd wedi'u nodi yn y rhaglen  lywodraethu.

**Eluned Parrott:** One visible step that you have taken to support business was to establish the sector panels, ostensibly to give Welsh businesses a voice in Government. Yet, despite the fact that 94% of Welsh businesses are described as microbusinesses,

**Eluned Parrott:** Un cam gweladwy yr ydych wedi'i gymryd i gynorthwyo busnes oedd sefydlu'r paneli sectorau, ôl pob golwg er mwyn rhoi llais i fusnesau Cymru yn y Llywodraeth. Eto i gyd, er gwaethaf y ffaith bod 94% o fusnesau Cymru yn cael eu

only 20% of the representatives on the sector panels are from small and medium-sized enterprises, let alone microbusinesses, and on some panels it is none at all. On behalf of the 40,000 microbusinesses in South Wales Central, what will you do to redress this imbalance and give those small businesses the voice that they deserve in your Government?

disgrifio fel microfusnesau, dim ond 20% o'r cynrychiolwyr ar y paneli sectorau sy'n dod o fentrau bach a chanolig, heb sôn am ficrofusnesau, a neb o gwbl ar rai paneli. Ar ran y 40,000 o ficrofusnesau yng Nghanol De Cymru, beth a wnewch i unioni'r anghydbwysedd hwn a rhoi llais haeddiannol i'r busnesau bach hynny yn eich Llywodraeth?

**The First Minister:** You know that the microbusiness task and finish group launched its findings last Wednesday. Officials are now considering the details of its recommendations. They will be taken forward in due course.

**Y Prif Weinidog**: Gwyddoch fod y grŵp gorchwyl a gorffen ar ficrofusnesau wedi lansio ei ganfyddiadau ddydd Mercher diwethaf. Mae swyddogion yn awr yn ystyried manylion ei argymhellion. Byddant yn cael eu datblygu maes o law.

**Christine Chapman:** I know that many small businesses in my constituency will welcome the recommendations of the recent task and finish group on microbusinesses set up by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. When I have spoken to SMEs in Cynon Valley, I have often been told that they feel that the feedback mechanisms in place are not as responsive as they could be—for example, in letting businesses know what they could do differently next time if unsuccessful in bidding for a public sector contract. Will you give assurances that strong feedback mechanisms will be central to your Government's response to the report's recommendations regarding support and advice?

**Christine Chapman**: Gwn y bydd llawer o fusnesau bach yn fy etholaeth yn croesawu argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen yn ddiweddar ar ficrofusnesau a sefydlwyd gan y Gweinidog Menter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth. Pan wyf wedi siarad â busnesau bach a chanolig yng Nghwm Cynon, rwyf wedi cael gwybod yn aml eu bod yn teimlo nad yw'r dulliau adborth sydd ar waith mor ymatebol ag y gallent fod—er enghraifft, o ran gadael i fusnesau wybod beth y gallent ei wneud yn wahanol y tro nesaf os ydynt yn aflwyddiannus yn cynnig am gontract y sector cyhoeddus. A wnewch roi sicrwydd y bydd dulliau adborth cryf yn ganolog i ymateb eich Llywodraeth i argymhellion yr adroddiad ynghylch cefnogaeth a chyngor?

**The First Minister:** Absolutely. Feedback on services that we provide is important to us. Our response to the microbusiness report recommendations will have suitable feedback mechanisms in place.

**Y Prif Weinidog**: Yn bendant. Mae adborth ar y gwasanaethau a ddarparwn yn bwysig i ni. Bydd gan ein hymateb i argymhellion yr adroddiad ar ficrofusnesau ddulliau adborth addas ar waith.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the fact that the task and finish group's report is with the Minister for business. However, time and again, small businesses come to speak to me about the delay in getting information and, in particular, the flow of information from the Welsh Government that would allow them to participate in the procurement contracting process that local government undertakes. When will the Minister for business and the Welsh Government be in a position to bring forward information on the proposals being considered in order to streamline the process?

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y ffaith bod adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen gan y Gweinidog busnes. Fodd bynnag, dro ar ôl tro, daw busnesau bach ataf i siarad am yr oedi wrth gael gwybodaeth ac, yn arbennig, y llif gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n eu galluogi i gymryd rhan yn y broses contractau caffael y mae llywodraeth leol yn ymgymryd â hi. Pryd y bydd y Gweinidog busnes a Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gyflwyno gwybodaeth am y cynigion sy'n cael eu hystyried er mwyn symleiddio'r broses?

**The First Minister:** That is why the microbusiness task and finish group was set up. An implementation plan will be drawn up and will be published shortly. The task and finish group will continue to meet on a quarterly basis to monitor the implementation of its recommendations.

**Y Prif Weinidog**: Dyna pam y sefydlwyd y grŵp gorchwyl a gorffen ar ficrofusnesau. Caiff cynllun gweithredu ei lunio a'i gyhoeddi cyn bo hir. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn parhau i gyfarfod yn chwarterol i fonitro'r gwaith o weithredu ei argymhellion.

**Leanne Wood:** First Minister, there is a possibility—some say, a probability—that the Welsh economy is currently in recession, but due to the infrequent and out-of-date gross domestic product statistics that we receive there is no way for us to know for sure. While the UK economy teeters just above negative growth, there is a strong suspicion that south-east England is skewing the overall figures. Will you insist upon the collection and publication of up-to-date quarterly statistics, such as are produced in Scotland? Assembly Members could then have a full picture of the Welsh economy and policies could be tailored to that. For example, there could be measures to help small businesses in my region—small business are struggling in every part of Wales—take on new people, or at the very least to safeguard existing jobs.

**Leanne Wood**: Brif Weinidog, mae posibilrwydd—tebygolrwydd, yn ôl rhai—fod economi Cymru ar hyn o bryd mewn dirwasgiad, ond oherwydd yr ystadegau anfynych a hen a gawn am y cynnyrch mewnwladol crynswth, nid oes dim modd inni wybod yn sicr. Tra mae economi'r DU yn simsanu ychydig yn uwch na'r twf negyddol, mae amheuaeth gref bod de-ddwyrain Lloegr yn camystumio'r ffigurau cyffredinol. A wnewch fynnu bod yr ystadegau chwarterol diweddaraf yn cael eu casglu a'u cyhoeddi, fel y rhai sy'n cael eu cynhyrchu yn yr Alban? Yna, gallai Aelodau'r Cynulliad gael darlun llawn o economi Cymru a gallai polisïau gael eu teilwra i hynny. Er enghraifft, gallai fod mesurau i helpu busnesau bach yn fy rhanbarth—mae busnesau bach mewn trafferth ym mhob rhan o Gymru—i gyflogi pobl newydd, neu o leiaf i ddiogelu swyddi presennol.

**The First Minister:** The Member raises an important point. We are looking at how we could secure more up-to-date GDP figures for Wales in future, along the lines of those that are already available in Scotland.

**Y Prif Weinidog**: Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig. Rydym yn edrych ar sut y gallem sicrhau ffigurau CMC mwy diweddar ar gyfer Cymru yn y dyfodol, tebyg i'r rhai sydd eisoes ar gael yn yr Alban.

**Gemau Olympaidd 2012**

**The 2012 Olympic Games**

***5. William Powell:*** *Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith bosibl Gemau Olympaidd 2012 ar Gymru. OAQ(4)0326(FM)*

***5. William Powell:*** *What assessment has the First Minister made of the potential impact of the 2012 Olympic Games on Wales. OAQ(4)0326(FM)*

**The First Minister:** The Department for Business, Enterprise, Technology and Science is finalising an economic impact assessment of London 2012 tier 1, 2 and 3 contracts with Welsh-based businesses. The UK Government has also commissioned an evaluation of the UK-wide legacy of the games.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn cwblhau asesiad effaith economaidd o gontractau haen 1, 2 a 3 Llundain 2012 gyda chwmnïau o Gymru. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi comisiynu gwerthusiad o waddol y gemau i'r DU gyfan.

**William Powell:** First Minister, thank you

**William Powell:** Brif Weinidog, diolch am

for that answer. As you may be aware, the European Tour Operators Association has this month argued that the tourism benefits of holding Olympic events are sometimes overstated. That is coupled with recent comments by tourism expert and former board member of Tourism Partnership Mid Wales, John Wake, that Wales has yet to capitalise fully on major-events-based tourism. What commitments are you prepared to make to ensure that we further develop this sector, which is particularly critical for the rural Welsh economy?

yr ateb hwnnw. Fel y gwyddoch efallai, mae'r Gymdeithas Gweithredwyr Teithiau Ewropeaidd wedi dadlau y mis hwn fod y manteision i dwristiaeth yn sgîl cynnal digwyddiadau Olympaidd yn cael eu gorbwysleisio weithiau. Ynghyd â hynny mae'r sylwadau'n ddiweddar gan John Wake, yr arbenigwr twristiaeth a chyn aelod o fwrdd Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, fod Cymru eto i fanteisio'n llawn ar dwristiaeth sy'n gysylltiedig â digwyddiadau mawr. Pa ymrwymiadau yr ydych yn barod i'w gwneud er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu'r sector hwn ymhellach, sy'n arbennig o bwysig i economi Cymru wledig?

**The First Minister:** The Member will know that there is a Government action plan on securing a legacy for Wales. We have a good record of securing tourism for major events. The Ryder Cup was a prime example of that. The success of the Ryder Cup was that it encouraged people to travel around Wales. Golf clubs in Wales benefitted strongly from the tourism input of the Ryder Cup.

**Y Prif Weinidog**: Bydd yr Aelod yn gwybod bod gan y Llywodraeth gynllun gweithredu ar sicrhau gwaddol i Gymru. Mae gennym record dda o sicrhau twristiaeth ar gyfer digwyddiadau mawr. Roedd Cwpan Ryder yn enghraifft berffaith o hynny. Llwyddiant Cwpan Ryder oedd ei fod wedi annog pobl i deithio o amgylch Cymru. Cafodd clybiau golff yng Nghymru fudd mawr o gyfraniad Cwpan Ryder at dwristiaeth.

**Mohammad Asghar:** First Minister, the Welsh Government's strategic action plan for securing a legacy for Wales stated that it would focus on maximising the economic legacy for Wales by promoting trade and investment, boosting tourism and enhancing Wales's global reputation leading up to, during and following the games. Many local business in the South Wales East region are concerned that they will not benefit from the Olympics and Paralympics, just like they did not see a boost in profits as a result of the Ryder Cup being on their doorstep. What assurances can the Welsh Government give to instil confidence in local businesses? Can the First Minister confirm that they will reap the rewards for the Olympics and Paralympics in South Wales East?

**Mohammad Asghar** Brif Weinidog, dywedodd cynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau gwaddol i Gymru y byddai'n canolbwyntio ar wneud y mwyaf o'r waddol economaidd i Gymru drwy hyrwyddo masnach a buddsoddiad, hybu twristiaeth a gwella enw da Cymru yn fyd-eang yn y cyfnod yn arwain at y gemau, yn ystod y gemau ac yn dilyn y gemau. Mae llawer o fusnesau lleol yn rhanbarth Dwyrain De Cymru yn pryderu na fyddant yn elwa o'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd, yn yr un modd yn union ag y bu iddynt fethu gweld hwb i'w helw pan oedd Cwpan Ryder ar garreg eu drws. Pa sicrwydd y gall Llywodraeth Cymru ei roi i feithrin hyder busnesau lleol? A all y Prif Weinidog gadarnhau y byddant yn elwa o'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn Nwyrain De Cymru?

**The First Minister:** We are looking through the action plan that you rightly referred to to ensure that there is a secure legacy for Wales. There will be occasions when it will be difficult to plan for events that are cancelled—such as the Welsh Tory conference in Llandudno. Many hoteliers in

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn edrych drwy'r cynllun gweithredu yr oeddech yn iawn wrth gyfeirio ato er mwyn sicrhau gwaddol sicr i Gymru. Bydd rhai adegau pan fydd yn anodd cynllunio ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu canslo—fel cynhadledd y Ceidwadwyr Cymreig yn Llandudno. Mae llawer o'r

Llandudno have been left out of pocket by the cancellation of the Welsh Conservative conference. I want to be charitable to the party opposite and say that, of course, we want to encourage major events in Wales, but we cannot really categorise the Welsh Tory conference as a major event. [*Laughter.*]

gwestywyr yn Llandudno wedi colli arian oherwydd bod cynhadledd y Ceidwadwyr Cymreig wedi cael ei chanslo. Hoffwn fod yn garedig wrth y blaid gyferbyn a dweud ein bod, wrth gwrs, am annog digwyddiadau mawr yng Nghymru, ond ni allwn, mewn gwirionedd, roi cynhadledd y Ceidwadwyr Cymreig yn y categori hwnnw. [*Chwerthin.*]

**Bethan Jenkins:** Brif Weinidog, mae Cymru wedi colli allan yn syfrdanol ar yr arian loteri nad ydym wedi'i gael yn sgîl cynnal y Gemau Olympaidd ym Mhrydain. A ydych yn siŵr y bydd buddiannau economaidd yn dod i Gymru yn sgîl y gemau? Gallai nifer fawr o gystadlaeuthau fod wedi'u cynnal yng Nghymru adeg y gemau, er enghraifft beicio mynydd yn Ogwr, ond ni fyddant yn digwydd.

**Bethan Jenkins:** First Minister, Wales has lost out dramatically with regard to the lottery money that we have not received as a result of the Olympic Games being hosted in Britain. Are you sure that the games will bring economic benefits to Wales? A large number of competitions could have been held in Wales as part of the games, such as mountain biking in Ogmore, but these will not take place.

2.00 p.m.

**Y Prif Weinidog:** Drwy'r cynllun gweithredu, rydym yn ceisio sicrhau bod gennym etifeddiaeth fawr ar ôl y Gemau Olympaidd. Mae'n rhaid inni gofio hefyd y bydd llawer o dimau yn dod i Gymru i hyfforddi cyn y gemau a bydd hynny'n gyfle i sicrhau ein bod yn gwerthu Cymru i'r timau hynny a'u bod yn cyfrannu i'r economi lleol lle maent yn aros.

**The First Minister:** Through the action plan, we will try to ensure that we have a substantial legacy following the Olympic Games. We must also bear in mind that many teams will come to Wales to train before the games and that will also be an opportunity to ensure that we sell Wales to those teams and that they make a contribution to the local economy where they are staying.

### Y System Lles

### The Welfare System

***6. Leanne Wood:*** *A yw'r Prif Weinidog wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Senedd y DU ynghylch effaith newidiadau i'r system lles ar bobl Cymru. OAQ(4)0318(FM)*

***6. Leanne Wood:*** *Has the First Minister made any representations to the UK Government about the impact that changes to the welfare system will have on Welsh people. OAQ(4)0318(FM)*

**The First Minister:** We have collectively as a Government expressed our concerns about the welfare reform proposals. You will be aware that the Minister for Education and Skills released a statement on welfare reform on 9 January that outlined the Welsh Government's concerns about the UK Government's welfare reforms. A further oral statement will be issued next month.

**Y Prif Weinidog:** Rydym ar y cyd, fel Llywodraeth, wedi mynegi ein pryderon ynghylch y cynigion diwygio lles. Byddwch yn ymwybodol bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi rhyddhau datganiad ar ddiwygio lles ar 9 Ionawr a oedd yn amlinellu pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Bydd datganiad llafar pellach yn cael ei gyhoeddi y mis nesaf.

**Leanne Wood:** The plans by the Westminster coalition to slash the welfare budget are having a drastic effect on many people throughout Wales and will continue to do so while these ideological policies are

**Leanne Wood:** Mae cynlluniau'r glymblaid yn San Steffan i gwtogi'r gyllideb les yn cael effaith syfrdanol ar lawer o bobl ledled Cymru a byddant yn parhau i wneud hynny tra bydd y polisïau ideolegol hyn yn cael eu

being pursued. I am sure that many Welsh families who are being hit by a substantial drop in income would like to know where you stand on the question, First Minister. Do you disagree with your Labour Party colleague and shadow Chancellor Ed Balls, who, in effect, endorsed the coalition's right-wing agenda when he said that the next Labour Government would have to keep all these cuts? Do you agree with Ed Balls?

dilyn. Rwyf yn siŵr y byddai llawer o deuluoedd yng Nghymru sy'n cael eu taro gan ostyngiad sylweddol yn eu hincwm yn hoffi gwybod ble yr ydych chi, Brif Weinidog, yn sefyll ar hyn. A ydych yn anghytuno ag Ed Balls, eich cyd-Aelod Llafur a Changhellor yr wrthblaid sydd, i bob pwrpas, wedi cymeradwyo agenda asgell dde'r glymblaid pan ddywedodd y byddai'n rhaid i'r Llywodraeth Lafur nesaf gadw'r holl doriadau hyn? A ydych yn cytuno ag Ed Balls?

**The First Minister:** That is not what Ed Balls said. What he said was that it was difficult, at this stage, to make commitments with regard to an incoming Labour Government in 2015. We do not know much of a mess the UK will be in by 2015. I think that it is wise, from his point of view, not to make those commitments. However, let us make it absolutely clear that, as a party, we stand for fairness, justice and equality of opportunity in a way that the UK governing parties never will.

**Y Prif Weinidog**: Nid dyna a ddywedodd Ed Balls. Yr hyn a ddywedodd oedd ei bod yn anodd, ar hyn o bryd, gwneud ymrwymiadau o ran pan ddaw Lywodraeth Lafur i rym yn 2015. Ni wyddom faint o lanast y bydd y DU ynddi erbyn 2015. Credaf ei bod yn ddoeth, o'i safbwynt ef, peidio â gwneud yr ymrwymiadau hynny. Fodd bynnag, gadewch i ni ei gwneud yn hollol glir ein bod, fel plaid, yn sefyll dros gyfiawnder, tegwch a chyfle cyfartal mewn ffordd na fydd y pleidiau sy'n llywodraethu yn y DU fyth.

**Lynne Neagle:** It is incredibly disappointing that the Tory-led UK Government has pledged to press ahead with its plans to restrict the employment and support allowance for chemotherapy patients, despite its proposals being rejected in the House of Lords last week. As Macmillan Cancer Support put it recently in an open letter to Iain Duncan Smith, the idea that supporting cancer patients at the time of their greatest need encourages dependency 'is utterly without foundation'. Do you agree that this is a completely reprehensible move on the part of the Conservatives at Westminster and that the Tories at this end of the M4 should make it clear whether they support these plans, which will leave thousands of cancer patients facing poverty, including many in Wales?

**Lynne Neagle**: Mae'n hynod siomedig bod Llywodraeth y DU a arweinir gan y Torïaid wedi addo bwrw ymlaen â'i chynlluniau i gyfyngu ar y lwfans cyflogaeth a chymorth i gleifion cemotherapi, er i'w chynigion gael eu gwrthod yn Nhŷ'r Arglwyddi yr wythnos diwethaf. Fel y dywedodd Cymorth Canser Macmillan yn ddiweddar mewn llythyr agored at Iain Duncan Smith, mae'r syniad bod cefnogi cleifion canser ar adeg pan fydd mwyaf o angen arnynt yn annog dibyniaeth 'yn gwbl ddi-sail'. A ydych yn cytuno bod hyn yn gam hollol resynus ar ran y Ceidwadwyr yn San Steffan ac y dylai'r Torïaid y pen hwn i'r M4 ei gwneud yn glir a ydynt yn cefnogi'r cynlluniau hyn, a fydd yn peri i filoedd o gleifion canser wynebu tlodi, gan gynnwys llawer yng Nghymru?

**The First Minister:** You are absolutely correct. I know that Macmillan recently estimated that as many as 7,000 patients across Britain could lose £94 a week in sickness benefit as a result of the UK Government's proposed changes to the employment and support allowance. Once again, it is a sad example of the UK Government saying that we are all in it together, but targeting the most vulnerable in

**Y Prif Weinidog**: Yr ydych yn gwbl gywir. Rwy'n gwybod bod Macmillan wedi amcangyfrif yn ddiweddar y gallai cymaint â 7,000 o gleifion ar draws Prydain golli £94 yr wythnos o fudd-dal salwch o ganlyniad i newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU yn y lwfans cyflogaeth a chymorth. Unwaith eto, mae'n enghraifft drist o Lywodraeth y DU yn dweud ein bod i gyd yn yr un cwch, ond yn targedu'r rhai mwyaf agored i niwed

society.

mewn cymdeithas.

**Janet Finch-Saunders:** The disability living allowance is a prime example of an allowance that has remained largely unchanged for the past 20 years and it costs the working, taxpaying family approximately £3,000 per year. The number of people receiving DLA has risen by 30% and almost 0.25 million people in Wales now receive it. Liam Byrne MP said in June last year:

**Janet Finch-Saunders**: Mae'r lwfans byw i'r anabl yn enghraifft wych o lwfans sydd wedi aros yn ddigyfnewid yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf ac mae'n costio tua £3,000 y flwyddyn i deulu sy'n gweithio ac yn talu treth. Mae nifer y bobl sy'n cael lwfans byw i'r anabl wedi codi 30% ac mae bron 0.25 miliwn o bobl yng Nghymru yn ei gael erbyn hyn. Dywedodd Liam Byrne AS ym mis Mehefin y llynedd:

'We support a cap on benefits if it saves public money'.

Rydym yn cefnogi cap ar fudd-daliadau os bydd yn arbed arian cyhoeddus.

First Minister, do you support the view of your colleague in Westminster and what discussions have you had with the UK Government to ensure that the transition from DLA to the personal independence payment is a smooth one?

Brif Weinidog, a ydych yn cefnogi barn eich cyd-Aelod yn San Steffan a pha drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y pontio o'r lwfans byw i'r anabl i'r taliad annibyniaeth personol yn un llyfn?

**The First Minister:** It is a great shame that, when offered the opportunity to express support for cancer sufferers, the Conservative party in Wales has failed to do so. The opportunity was there in this Chamber to disagree with UK Government's proposals for cancer sufferers and the cut in support for cancer sufferers, and it is a sad fact that that opportunity was not taken.

**Y Prif Weinidog**: Mae'n drueni mawr bod y blaid Geidwadol yng Nghymru, pan fydd yn cael cynnig cyfle i fynegi cefnogaeth i ddioddefwyr canser, wedi methu â gwneud hynny. Roedd y cyfle yno yn y Siambr hon i anghytuno â chynigion Llywodraeth y DU ar gyfer y rhai sy'n dioddef canser a'r toriad yn y cymorth i ddioddefwyr canser, ac mae'n ffaith drist nad achubwyd y cyfle hwnnw.

**Jenny Rathbone:** I share the First Minister's concerns, and, indeed, Ed Balls's concerns, about the way in which the reform of disability benefits is being operated. Last week, in my surgery, I saw a young man who had been booted off incapacity benefit and refused unemployment support allowance because somebody said so. However, this young man is, both physically and mentally, completely unfit for work. He walks with a stick and he was forced to stand for most of our discussion, because sitting down causes him pain. On top of that, he is agoraphobic and could only come to the surgery with the support of a member of his family. The idea that this young man is ready for work and that he will get a job by signing on at the jobcentre makes a complete travesty of the whole benefits system. Clearly, he needs physical and mental support to enable him—

**Jenny Rathbone**: Rwyf finnau'n pryderu yr un fath â'r Prif Weinidog, ac, yn wir, Ed Balls, ynghylch y ffordd y mae diwygio budd-daliadau anabledd yn cael ei weithredu. Yr wythnos diwethaf, yn fy nghymhorthfa, gwelais ddyn ifanc a oedd wedi cael ei daflu oddi ar fudd-dal analluogrwydd a gwrthodwyd lwfans cymorth diweithdra iddo am fod rhywun yn dweud na fyddai'n ei gael. Fodd bynnag, nid yw'r dyn ifanc hwn, yn gorfforol nac yn feddyliol, mewn cyflwr i weithio. Mae'n cerdded â ffon a bu'n rhaid iddo sefyll am y rhan fwyaf o'n trafodaeth, gan fod eistedd i lawr yn achosi poen iddo. Ar ben hynny, mae'n agoraphobig a dim ond gyda chefnogaeth aelod o'i deulu y gallai ddod i'r feddygfa. Mae'r syniad bod y dyn ifanc hwn yn barod ar gyfer gwaith ac y caiff swydd drwy gofrestru yn y ganolfan waith yn camddarlunio'r holl system fudd-daliadau yn llwyr. Mae'n amlwg bod angen cymorth corfforol a meddyliol i'w alluogi—

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the question?

**Y Llywydd**: Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn?

**Jenny Rathbone:** What indication does the Welsh Government have of the number of people in a similar situation?

**Jenny Rathbone**: Pa syniad sydd gan Lywodraeth Cymru o nifer y bobl sydd mewn sefyllfa debyg?

**The First Minister:** In August 2010, there were about 142,000 people between the ages of 16 and 64 receiving DLA in Wales. My concern is that Iain Duncan Smith said that he wanted to reduce the number of people receiving DLA by 20%, regardless of their need. How on earth can it be a fair reform of the system if a Minister declares beforehand that 20% of people will lose their allowance, whatever happens and whatever their need? That cannot be right, and it shows that a fundamental rethink is needed with regard to the plans that are before the House of Lords at present.

**Y Prif Weinidog**: Ym mis Awst 2010, roedd tua 142,000 o bobl rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru sy’n cael lwfans byw i’r anabl. Fy mhryder i yw bod Iain Duncan Smith wedi dweud ei fod am leihau nifer y bobl sy’n cael lwfans byw i’r anabl o 20%, waeth beth fo’u hangen. Sut ar y ddaear y gall fod yn ffordd deg o ddiwygio’r system os yw’r Gweinidog yn datgan ymlaen llaw y bydd 20% o bobl yn colli eu lwfans, beth bynnag sy’n digwydd a beth bynnag fo’u hangen? Ni all hynny fod yn iawn, ac mae’n dangos bod angen ailystyried yn sylfaenol o ran y cynlluniau sydd gerbron Tŷ’r Arglwyddi ar hyn o bryd.

**Tlodi Plant**

**Child Poverty**

***7. David Rees:*** *Pa gamau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau tlodi plant. OAQ(4)0322(FM)*

***7. David Rees:*** *What action will the Welsh Government be taking to reduce child poverty. OAQ(4)0322(FM)*

**The First Minister:** The programme for government includes a commitment to develop a tackling poverty action plan.

**Y Prif Weinidog**: Mae’r rhaglen lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer mynd i’r afael â thlodi.

**David Rees:** Thank you for that response, First Minister. A recent survey highlighted that several wards in my constituency have a high level of child poverty. The Institute for Fiscal Studies reported that the welfare and taxation reforms proposed by the UK Government—as highlighted in a previous question—would have the effect of increasing child poverty levels, although the claim is that it would get people back into work. I am sure that you agree that getting people back into work is important. However, childcare costs can have a huge impact on families and can restrict people’s ability to get back to work and to escape the poverty trap. What action is the Welsh Government taking to support such families in getting back to work?

**David Rees:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Brif Weinidog. Dangosodd arolwg diweddar fod lefel uchel o dlodi plant mewn nifer o wardiau yn fy etholaeth. Mae’r Sefydliad Astudiaethau Cyllidol y byddai’r diwygiadau lles a threthu a gaiff eu cynnig gan Lywodraeth y DU—fel yr amlygwyd yn y cwestiwn blaenorol—yn codi lefelau tlodi plant, er mai’r honiad yw y byddai’n cael pobl yn ôl i’r gwaith. Rwyf yn siŵr eich bod yn cytuno bod cael pobl yn ôl i waith yn bwysig. Fodd bynnag, gall costau gofal plant gael effaith enfawr ar deuluoedd a gall gyfyngu ar allu pobl i fynd yn ôl i weithio ac i ddianc o fagl tlodi. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi teuluoedd o’r fath i ddychwelyd i’r gwaith?

**The First Minister:** The issue of childcare will be taken forward as part of the tackling

**Y Prif Weinidog**: Bydd gofal plant yn cael ei ystyried yn rhan o’r cynllun gweithredu i

poverty action plan. It is an important part of this Government's work, and we will take it forward in order to deal with the many problems that families will face over the next few years as a consequence of the policies being pursued at Westminster.

fynd i'r afael â thlodi. Mae'n rhan bwysig o waith y Llywodraeth hon, a byddwn yn ei gyflwyno er mwyn ymdrin â'r holl broblemau y bydd teuluoedd yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i'r polisïau y mae San Steffan yn eu dilyn.

**Russell George:** First Minister, one of the key objectives in your child poverty strategy is to improve the skills of parents or carers and young people living in low-income households, so that they can secure well-paid employment. With the Government's development of enterprise zones as a vehicle to drive economic growth, what work has your Government been doing to align the promotion of the relevant skills required for those zones with the local training providers in those areas? Also, what potential investment streams will be available to companies locating to those areas for the development of work-based training?

**Russell George**: Brif Weinidog, un o amcanion allweddol eich strategaeth tlodi plant yw gwella sgiliau rhieni neu ofalwyr a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel, fel y gallant sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda. Wrth i'r Llywodraeth ddatblygu ardaloedd menter fel cyfrwng i sbarduno twf economaidd, pa waith y mae eich Llywodraeth wedi bod yn ei wneud i beri bod hyrwyddo'r sgiliau perthnasol sydd eu hangen ar gyfer yr ardaloedd hyn yn cyd-fynd â'r darparwyr hyfforddiant lleol yn yr ardaloedd hynny? Hefyd, pa ffrydiau buddsoddiad posibl fydd ar gael i gwmnïau sy'n symud i'r ardaloedd hynny ar gyfer datblygu hyfforddiant seiliedig ar waith?

**The First Minister:** Well, as we have said, we still await final confirmation regarding the situation with capital allowances. We are, of course, investing heavily in skills. You can see what we have done with Skills Growth Wales in particular over the past two or three weeks since the announcement was made. We also have a fundamental commitment to double the number of families that are eligible for the Flying Start scheme. That is an excellent way of ensuring that people can access work, access the skills that they need and have the support in place for them to go to work. That is why Flying Start will remain an important part of this Government's work.

**Y Prif Weinidog**: Wel, fel yr ydym wedi dweud, rydym yn dal i aros am gadarnhad terfynol ynghylch y sefyllfa gyda lwfansau cyfalaf. Rydym, wrth gwrs, yn buddsoddi llawer iawn mewn sgiliau. Gallwch weld yr hyn yr ydym wedi'i wneud gyda Twf Sgiliau Cymru yn enwedig dros y ddwy neu dair wythnos diwethaf ers i'r cyhoeddiad gael ei wneud. Mae gennym hefyd ymrwymiad sylfaenol i ddyblu nifer y teuluoedd sy'n gymwys ar gyfer y cynllun Dechrau'n Deg. Mae hynny'n ffordd ragorol o sicrhau y gall pobl gael gafael ar waith, cael gafael ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt a chael cymorth er mwyn iddynt fynd i'r gwaith. Dyna pam y bydd Dechrau'n Deg yn parhau i fod yn rhan bwysig o waith y Llywodraeth hon.

**Lindsay Whittle:** I thank Dave Rees for pinching my supplementary question.

**Lindsay Whittle**: Diolch i Dave Rees am ddwyn fy nghwestiwn atodol.

First Minister, how will the Government and the Assembly monitor the effectiveness of the anti-poverty action plan?

Brif Weinidog, sut y bydd y Llywodraeth a'r Cynulliad yn monitro effeithiolrwydd y cynllun gweithredu yn erbyn tlodi?

**The First Minister:** It will be monitored, of course. There will be a report. We will give consideration to ensuring that the Assembly has an opportunity to scrutinise the plan itself and the Government's actions as a result of

**Y Prif Weinidog**: Bydd yn cael ei fonitro, wrth gwrs. Bydd adroddiad. Byddwn yn ystyried sicrhau y bydd gan y Cynulliad gyfle i graffu ar y cynllun ei hun ac ar gamau gweithredu'r Llywodraeth o ganlyniad i'r

that plan.

cynllun hwnnw.

**Datblygu Economi Cymru**

**Developing the Welsh Economy**

***8. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economi Cymru. OAQ(4)0321(FM)*

***8. Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister make a statement regarding the Welsh Government's priorities for developing the Welsh economy. OAQ(4)0321(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhaglen lywodraethu'n disgrifio ein blaenoriaethau o ran datblygu'r economi.

**The First Minister:** The programme for government sets out our priorities for developing the economy.

**Alun Ffred Jones:** Yn wyneb cwtogi'r arian cyfalaf sydd ar gael i'r Llywodraeth, ar ddiwedd Llywodraeth Cymru'n Un, ysgrifenodd Jane Hutt, y Gweinidog ar pryd, at Lywodraeth San Steffan ynglŷn â'r syniad am gynllun Adeiladu dros Gymru, ac roedd cyfarfod rhwng swyddogion y ddwy Lywodraeth. Pa gyfarfodydd pellach sydd wedi bod rhwng Gweinidogion neu swyddogion i drafod y mater penodol hwn?

**Alun Ffred Jones:** Given the cuts in the capital funding available to the Government, at the end of the One Wales Government, Jane Hutt, the Minister at the time, wrote to the Westminster Government about the Build for Wales scheme, and there was a meeting between officials from both Governments. What further meetings have been held between Ministers or officials to discuss this specific issue?

**Y Prif Weinidog:** Mae sawl cyfarfod wedi bod rhwng y Gweinidog Cyllid a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, a rhyngof innau a Phrif Weinidog y DU, yn ogystal â'r Canghellor, o ran sicrhau pwerau benthyca i'r Cynulliad.

**The First Minister:** There have been several meetings between the Finance Minister and the Chief Secretary to the Treasury, and between myself and the Prime Minister, as well as the Chancellor, regarding ensuring borrowing powers for the Assembly.

**The Presiding Officer:** I call Antoinette Sandbach—

**Y Llywydd**: Galwaf ar Antoinette Sandbach—

**Alun Ffred Jones:** May I ask a supplementary question as a spokesperson?

**Alun Ffred Jones**: A gaf ofyn cwestiwn atodol fel llefarydd?

**The Presiding Officer:** I do not have you down as a spokesperson, but, if you are the spokesperson, please ask your second question.

**Y Llywydd**: Nid ydych i lawr gennyf fel llefarydd, ond, os mai chi yw'r llefarydd, gofynnwch eich ail gwestiwn.

**Alun Ffred Jones:** Diolch yn fawr. Mae pwerau benthyca yn fater ychydig yn wahanol. Roeddwn yn gofyn yn benodol ynglŷn â'r model hwn. Felly, a fyddech cystal â rhyddhau'r ohebiaeth sydd wedi bod rhwng y ddwy Lywodraeth ar y mater hwn?

**Alun Ffred Jones:** Thank you. Borrowing powers are a slightly different issue. I was asking specifically about this model. Therefore, would you be so kind as to release the correspondence between the two Governments on this issue?

**Y Prif Weinidog:** Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd. Mae'r trafodaethau hynny'n gyfrinachol ar hyn o bryd, ond gallaf ddweud bod trafodaethau wedi'u cynnal ynglŷn ag edrych ar bwerau benthyca i'r Llywodraeth ac ym mha ffordd y gellid

**The First Minister:** Discussions are ongoing. Those discussions are confidential at present, but I can say that discussions have taken place regarding looking at borrowing powers for the Government and in what way those powers can be delivered.

delifro'r pwerau hynny.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, you will be aware of the value of supporting entrepreneurs in north Wales. Only last week, the European Commission published its small and medium-sized enterprise performance review, which found that 85% of new jobs that were created between 2002 and 2010 were created by small to medium-sized businesses. Do you recognise that your decision to abandon the tried, tested and successful entrepreneurship action plan in 2005 was regrettable and can you confirm what specific plans your Government has to encourage new business creation and potential entrepreneurs, so that they can deliver the private sector jobs that north Wales so badly needs?

**Antoinette Sandbach**: Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o werth cefnogi entrepreneuriaid yng ngogledd Cymru. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei adolygiad perfformiad o fentrau bach a chanolig, a chanfu fod 85% o swyddi newydd a grëwyd rhwng 2002 a 2010 wedi'u creu gan fusnesau bach a chanolig. A ydych yn cydnabod bod eich penderfyniad i roi'r gorau i'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth llwyddiannus yn 2005 yn destun gofid ac a allwch gadarnhau pa gynlluniau penodol sudd gan eich Llywodraeth i annog creu busnesau newydd ac entrepreneuriaid posibl, fel y gallant gynnig y swyddi yn y sector preifat y mae cymaint o'u hangen yn y gogledd?

**The First Minister:** You are asking me to comment on plans that came forward two Governments ago, when I was not First Minister. However, I can tell you that we have a good record of supporting small and medium-sized enterprises. The SME growth fund is one example of that.

**Y Prif Weinidog**: Rydych yn gofyn i mi roi sylwadau ar gynlluniau a gyflwynwyd ddwy Lywodraeth yn ôl, pan nad oeddwn yn Brif Weinidog. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrthych fod gennym record dda o gefnogi busnesau bach a chanolig. Mae cronfa twf y busnesau bach a chanolig yn un enghraifft o hynny.

**Peter Black:** First Minister, I am aware that your Minister for business is drawing up an alternative to the Prince of Wales Innovation Scholarships scheme. Do you have a timetable for when that will come forward? Can I have your assurance that you are seeking to provide the sort of freedoms, in terms of the development of entrepreneurship, that the POWIS scheme provided? Obviously, it would require better control of the finances.

**Peter Black**: Brif Weinidog, yr wyf yn ymwybodol bod eich Gweinidog busnes yn llunio dewis amgen yn lle cynllun Ysgoloriaethau Arloesi Tywysog Cymru. A oes gennych amserlen ar gyfer pryd y caiff ei gyflwyno? A allaf gael cadarnhad gennych eich bod yn ceisio darparu'r math o ryddid, o ran datblygu entrepreneuriaeth, a ddarparwyd gan y cynllun POWIS? Mae'n amlwg y byddai angen gwell rheolaeth ar y cyllid.

**The First Minister:** The Minister will look to make a further announcement next week. The idea is, of course, to ensure that any new scheme that comes forward is more robust than the previous scheme.

**Y Prif Weinidog**: Bydd y Gweinidog yn ystyried gwneud cyhoeddiad pellach yr wythnos nesaf. Y syniad, wrth gwrs, yw sicrhau bod unrhyw gynllun newydd a gaiff ei gyflwyno yn fwy cadarn na'r cynllun blaenorol.

### Diogelwch ar y Ffyrdd

*9. **Christine Chapman:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd o ran gwella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. OAQ(4)0310(FM)*

### Road Safety

*9. **Christine Chapman**: Will the First Minister make a statement on progress in improving road safety in Wales. OAQ(4)0310(FM)*

**The First Minister:** There has been a significant reduction in the number of people killed and seriously injured on Welsh roads in recent years. We provide financial support at a national and local level around education, engineering and enforcement.

**Y Prif Weinidog**: Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar lefel genedlaethol a lleol mewn cysylltiad ag addysgu, peirianneg a gorfodi.

**Christine Chapman:** I welcome the new safety targets set by your Government. Along with many of my Labour colleagues, I have long campaigned for safety improvements to the A465 because of the disproportionate amount of accidents leading to death or serious injury that occur on this road. I am delighted that the prioritised national transport plan contains a commitment to improve its safety between Hirwaun and Dowlais Top and, furthermore, that it notes the economic and social benefits that this will bring. First Minister, are you able to provide any more details on this, which I know will be very much welcomed by my constituents in the Cynon valley?

**Christine Chapan:** Rwyf yn croesawu'r targedau diogelwch newydd a osodwyd gan eich Llywodraeth. Ynghyd â nifer o fy nghyd-Aelodau Llafur, rwyf wedi bod yn ymgyrchu ers tro byd dros welliannau diogelwch i'r A465 oherwydd y nifer anghymesur o ddamweiniau sy'n arwain at farwolaeth neu anaf difrifol sy'n digwydd ar y ffordd hon. Rwyf wrth fy modd bod y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a flaenoriaethwyd yn cynnwys ymrwymiad i wella ei diogelwch rhwng Hirwaun a Dowlais Uchaf a'i fod, ar ben hynny, yn nodi'r manteision economaidd a chymdeithasol y bydd hyn yn eu sicrhau. Brif Weinidog, a ydych yn gallu rhoi rhagor o fanylion am hyn, a gwn y caiff groeso brwd gan fy etholwyr yng Nghwm Cynon?

**The First Minister:** Yes. We have recently completed high-friction surfacing on the eastbound approach to the Dowlais roundabout, we will be installing average-speed cameras between Dowlais Top and Hirwaun this year, we are developing a scheme to prohibit u-turns in the locality of the lay-bys near the Gurnos farm, and there will be improved signage at the Ebbw Vale roundabout further east to ensure that the whole stretch of road becomes safer.

**Y Prif Weinidog**: Gallaf. Rydym newydd gwblhau wyneb ffrithiant uchel ar y ffordd tua'r dwyrain i gylchfan Dowlais, byddwn yn gosod camerâu cyflymder cyfartalog rhwng Dowlais Uchaf a Hirwaun eleni, rydym yn datblygu cynllun i wahardd tro pedol ger ardal y cilfannau wrth fferm Gurnos, a bydd arwyddion gwell yn cael eu gosod ar gylchfan Glynebwy ymhellach i'r dwyrain er mwyn sicrhau bod y darn cyfan hwnnw o ffordd yn dod yn fwy diogel.

**Darren Millar:** I also welcome the announcement yesterday that the targets in terms of the road casualty reductions that the Welsh Government is seeking have been reviewed and increased. First Minister, you will recall that, in November 2009, the Welsh Government produced guidance to local authorities on speed limits in their areas. Many local authorities set about reviewing speed limits within council boundaries, but some local authorities are way behind in reviewing speed limits in their areas. What action is the Welsh Government taking to encourage those local authorities that have not reviewed speed limits in their communities to get on and do that so that

**Darren Millar**: Yr wyf finnau'n croesawu'r cyhoeddiad ddoe fod y targedau y mae Llywodraeth Cymru yn eu ceisio, o ran lleihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu ar y ffyrdd, wedi cael eu hadolygu a'u codi. Brif Weinidog, byddwch yn cofio i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ym mis Tachwedd i awdurdodau lleol ar y cyfyngiadau cyflymder yn eu hardaloedd. Aeth llawer o awdurdodau lleol ati i adolygu'r cyfyngiadau cyflymder o fewn ffiniau cynghorau, ond mae rhai awdurdodau lleol ymhell ar ei hôl hi o ran adolygu'r cyfyngiadau cyflymder yn eu hardaloedd hwy. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog yr awdurdodau lleol

people can live a safer life in those areas where they need to be reviewed?

hynny nad ydynt wedi adolygu cyfyngiadau cyflymder yn eu cymunedau i wneud hynny fel y gall pobl fyw bywyd mwy diogel yn yr ardaloedd hynny lle y mae angen iddynt gael eu hadolygu?

**The First Minister:** We would encourage them to do that. Otherwise, they will have to explain why that has not been done in the elections in May.

**Y Prif Weinidog**: Byddem yn eu hannog i wneud hynny. Fel arall, bydd yn rhaid iddynt esbonio, yn yr etholiadau ym mis Mai, pam nad yw hynny wedi cael ei wneud.

2.15 p.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, rwyf innau hefyd yn croesawu’r datganiad ar ddiogelwch ar yr heolydd. Rwy’n siŵr ein bod i gyd yn falch o glywed y datganiad hwnnw. Cyfeiriaf eich sylw at y datganiad a wnaethpwyd yn ddiweddar am y ffaith bod y gwaith o wneud ffordd Blaenau’r Cymoedd yn ffordd ddeuol i’w gwblhau yn 2020. Roedd hwn yn ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru’n Un pan oedd Ieuan Wyn Jones yn Weinidog trafnidiaeth. O ystyried y sefyllfa ariannol presennol a record Llafur mewn llywodraeth gyda chynlluniau o’r math hwn, a ydych yn hyderus y bydd y cynllun hwn—sy’n bwysig iawn o ran diogelwch ar y heolydd—yn cael ei gwblhau yn erbyn 2020? A allwch chi roi ymrywmiad inni brynhawn yma y bydd hynny’n digwydd?

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, I also welcome the statement on road safety. I am sure that we are all pleased to hear that particular statement. I direct your attention to the statement made recently on the fact that the dualling of the Heads of the Valleys road is to be completed in 2020. This was a One Wales Government commitment when Ieuan Wyn Jones was Minister for transport. Given the current financial climate, and also Labour’s record in government on such schemes, are you confident that this scheme—which is very important in terms of road safety—will be completed by 2020? Can you commit to that date this afternoon?

**Y Prif Weinidog:** Gallaf.

**The First Minister:** Yes.

*Ni ofynnwyd cwestiwn 10, OAQ(4)0312(FM).*
*Question 10, OAQ(4)0312(FM), not asked.*

### Safoni Gwyliau Ysgol

### Standardising School Holidays

***11. Bethan Jenkins:*** *A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried safoni gwyliau’r ysgol ledled Cymru er mwyn iddynt ddechrau a gorffen ar yr un dyddiadau. OAQ(4)0317(FM)*

***11. Bethan Jenkins:*** *Will the Welsh Government consider standardising school holidays across Wales so that they begin and end on the same dates. OAQ(4)0317(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn fater i awdurdodau lleol. Deallaf erbyn hyn fod mwy o ddyddiadau tymhorau’n cael eu pennu ar y cyd, ac rydym yn croesawu hynny.

**The First Minister:** This is a matter for local authorities. However, I understand that more term dates are now being set collaboratively, and we welcome this.

**Bethan Jenkins:** Mae nifer o bobl, yn enwedig yn ardal Castell-nedd, wedi cysylltu â fi gan eu bod yn gweithio yn ardal un awdurdod ac yn byw mewn awdurdod arall. Mae ganddynt swyddi ac maent yn rhieni hefyd, ac maent am gael yr un gwyliau â’u

**Bethan Jenkins:** A number of people, particularly in the Neath area, have been in contact with me regarding the fact that they work in one local authority area and live in another. They have jobs, but are also parents, and they want to take the same holidays as

plant. A oes unrhyw ffordd y gallai'r Llywodraeth edrych ar hyn gydag awdurdodau lleol a chyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn sicrhau nad yw problemau o'r fath yn codi yn y dyfodol o ran patrymau gwyliau ysgol? Mae'n creu llawer o broblemau i deuluoedd, ac i famau sengl yn arbennig.

their children. Is there any way that your Government could look at this along with local authorities and the Welsh Local Government Association to ensure that these kinds of problems do not arise with school holiday patterns? It creates so many problems for families, and single mothers in particular.

**Y Prif Weinidog:** Mae hwnnw'n bwynt teg. Ar hyn o bryd, mae'r pwerau i bennu dyddiadau ysgol i gyd yn nwylo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion. Byddai'n bosibl rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, ond byddai'n rhaid pasio deddfwriaeth yn y Cynulliad i wneud hynny. Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau yn y maes hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n wir dweud y byddai'n llawer rhwyddach i rieni pe bai'r dyddiadau yr un peth ym mhob awdurdod. Byddai cynllunio o fewn y teulu yn llawer rhwyddach.

**The First Minister:** That is a fair point. Presently, all the powers for the setting of dates are with local authorities and school governing bodies. It would be possible to give Welsh Ministers those powers, but we would have to pass legislation in the Assembly in order to do that. Welsh Ministers do not currently have powers in this regard. However, it is true to say that it would be much easier for parents if term dates were the same in all local authority areas. It would make planning within families that much easier.

**Cynlluniau Buddsoddi**

**Investment Plans**

***12. Elin Jones:*** *Beth yw cynlluniau buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(4)0323(FM) W*

***12. Elin Jones:*** *What are the Welsh Government's investment plans for the next six months. OAQ(4)0323(FM) W*

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru flaengynlluniau gwariant manwl yn ei chyllideb ar gyfer twf a swyddi.

**The First Minister:** The Welsh Government published detailed forward spending plans in its budget for growth and jobs.

**Elin Jones:** Mae'n ymddangos bod byrddau iechyd yn awr yn gohirio cyflwyno eu cynlluniau adolygu gwasanaethau iechyd tan ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai, am resymau gwleidyddol o bosibl. Mae eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r byrddau iechyd eu hunain wedi bod yn dweud na fyddant yn cytuno ar gynlluniau cyfalaf yn yr NHS nes i'r cynlluniau gwasanaeth hyn gwblhau'r broses ymgynghori a phenderfynu. Gallai hynny olygu bod 18 mis cyntaf eich tymor chi fel Llywodraeth yn mynd heibio heb unrhyw gytuno ar wariant cyfalaf newydd yn y gwasanaeth iechyd. A yw hynny'n dderbyniol yn eich barn chi?

**Elin Jones:** The health boards appear to be deferring the introduction of their plans for health service reviews until after the local elections in May, possibly for political reasons. Your Minister for Health and Social Services, and the health boards themselves, have been saying that they will not agree on capital programmes and projects within the NHS until the service plans go through the consultation and decision process. This could mean that the first 18 months of your term in Government will not have seen any agreement on new capital expenditure in the health service. Is this acceptable in your opinion?

**Y Prif Weinidog:** Rhoddaf dair enghraifft i chi o'r gwaith sydd i ddechrau dros y chwe mis nesaf: ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd; gwasanaethau iechyd a chymdeithasol newydd i bobl Llanfair-ym-Muallt; a

**The First Minister:** I will give you three examples of work that is due to start over the next six months: the redevelopment of Ysbyty Glan Clwyd; new health and social services for people in Builth Wells; and a

chanolfan adnoddau ambiwlans newydd yn y gogledd-ddwyrain. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud yn barod yn ysbyty Bronglais.

new ambulance resource centre for north-east Wales. This builds upon the significant work that has already been done at ysbyty Bronglais.

**Rheilffyrdd Cyflym Newydd**

**High-speed Railway Lines**

1***3. Vaughan Gething***: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith ar Gymru yn sgil cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer rheilffyrdd cyflym newydd. OAQ(4)0319(FM)*

***13. Vaughan Gething:*** *Will the First Minister make a statement on the impact upon Wales of the UK Government's proposals for new high speed railway lines. OAQ(4)0319(FM)*

**The First Minister:** There are no proposals for high-speed railway lines in Wales or to Wales, so there are no direct benefits to Wales.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer rheilffyrdd cyflym yng Nghymru neu i Gymru, felly nid oes unrhyw fuddiannau uniongyrchol i Gymru.

**Vaughan Gething:** While I am not opposed to new high-speed railway lines in other parts of the UK, I am concerned about their impact on Wales. It will be quicker to travel from London and Heathrow to places like Manchester and Birmingham than it will to Cardiff and south Wales. I am concerned that we may be disadvantaged in terms of attracting business and jobs. Do you believe, as I do, that the amount of money allocated for high-speed rail without any additional transport funding for Wales strengthens our argument for the UK Government to fully invest in and fund the electrification of the Valleys lines?

**Vaughan Gething:** Er nad wyf yn gwrthwynebu rheilffyrdd cyflym newydd mewn rhannau eraill o'r DU, rwyf yn poeni am eu heffaith ar Gymru. Bydd yn gyflymach teithio o Lundain a Heathrow i leoedd fel Manceinion a Birmingham nag y bydd i Gaerdydd a de Cymru. Rwyf yn pryderu y gallwn fod o dan anfantais o ran denu busnes a swyddi. A ydych yn credu, fel finnau, bod y swm o arian a ddyrannwyd ar gyfer rheilffyrdd cyflym heb fod unrhyw gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru yn cryfhau ein dadl y dylai Llywodraeth y DU ariannu'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a buddsoddi'n llawn ynddo?

**The First Minister:** I believe that it does. The reality is that the rail budget for infrastructure is held by the UK Government on behalf of England and Wales. We have made robust business cases with regard to Valleys lines electrification and the electrification of the line to Swansea. Given the recent announcements made in England, you would expect Wales to get its fair share.

**Y Prif Weinidog:** Credaf ei fod yn gwneud hynny. Y gwirionedd yw bod y gyllideb reilffordd ar gyfer seilwaith yn cael ei ddal gan Lywodraeth y DU ar ran Cymru a Lloegr. Rydym wedi gwneud achosion busnes cadarn mewn perthynas â'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r rheilffordd i Abertawe. O ystyried y cyhoeddiadau diweddar a wnaed yn Lloegr, byddech yn disgwyl i Gymru gael cyfran deg.

**Byron Davies:** Will the First Minister update us on the progress of the Welsh Government's business plan to electrify the Great Western line from Cardiff to Swansea? In light of this, what constructive action is he taking in terms of meetings, letters and lobbying to secure this important improvement?

**Byron Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynnydd cynllun busnes Llywodraeth Cymru i drydaneiddio'r rheilffordd Great Western rhwng Caerdydd ac Abertawe? O ystyried hyn, pa gamau adeiladol y mae'n eu cymryd o ran cyfarfodydd, llythyrau a lobïo i sicrhau'r gwelliant pwysig hwn?

**The First Minister:** The business case is finished; it is the UK Government's business case, rather than ours. The Minister for Local Government and Communities met the Secretary of State for Transport on 16 January to discuss rail electrification, and the Secretary of State recognised that there were strong business cases for the electrification of the Valleys network and the line to Swansea.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r achos busnes wedi'i orffen; achos busnes Llywodraeth y DU yw, yn hytrach na'n hachos busnes ni. Cyfarfu'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar 16 Ionawr i drafod trydaneiddio rheilffyrdd, a chydnabu'r Ysgrifennydd Gwladol fod achosion busnes cadarn o blaid trydaneiddio rhwydwaith y Cymoedd a'r rheilffordd i Abertawe.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, rydych yn awgrymu eich bod yn gefnogol i drydaneiddio'r linell reilffordd o Gaerdydd i Abertawe. Rydych yn sôn am eich cefnogaeth i drenau cyflym. Mae cyllid Ewropeaidd gwerth £50 biliwn ar gael ar gyfer cysylltiadau o fewn Ewrop. Byddai £10 biliwn o'r arian hwnnw yn addas i ardaloedd fel gorllewin Cymru a'r Cymoedd. A allwch chi esbonio pam roedd Aelodau Seneddol Llafur yn dadlau yn erbyn gwneud cais am yr arian hwnnw mewn dadl yn San Steffan ddydd Iau diwethaf? A allwch chi hefyd ddweud wrthyf a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud cais am yr arian hwn i wella'r system reilffordd yng Nghymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, you suggest that you support the electrification of the railway line from Cardiff to Swansea. You have talked about your support for fast trains. European funding worth £50 billion is available for connections within Europe. Some £10 billion of that money would be suitable for areas such as west Wales and the Valleys. Can you explain why Labour Members of Parliament argued against applying for that money in a debate in Westminster last Thursday? Can you also tell me whether the Welsh Government intends to apply for this funding to improve the railway system in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi bod yn lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r arian hwn ers wythnosau. Nid yw'n berthnasol dweud ein bod yn colli mas yng Nghymru yn sgîl cynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd. Y gwahaniaeth yw ein bod ni yma wedi bod yn arwain ar y pwnc hwn—mae Alun Davies fel Dirprwy Weinidog wedi bod yn trafod y pwnc hwn mewn cyfarfodydd yn Llundain, ond dim ond nawr mae Aelodau Seneddol Plaid Cymru wedi dod i ddeall bod y fath beth ar gael.

**The First Minister:** We have been lobbying the United Kingdom Government regarding this funding for weeks. It is not relevant to say that Wales is losing out as a result of the UK Government's plans at the moment. The difference is that we here have been leading on this subject—Alun Davies, as the Deputy Minister, has been discussing this subject at meetings in London, but it is only now that Plaid Cymru Members of Parliament have come to understand that such funding is available.

**Mike Hedges:** First Minister, do you agree that if £500 million can be found to build a tunnel to hide a high-speed line through Buckinghamshire to avoid upsetting certain people, including the Prime Minister's father-in-law, £500 million can be found to fund electrification of the line from Cardiff to Swansea?

**Mike Hedges:** Brif Weinidog, a gytunwch os gellir dod o hyd i £500 miliwn i adeiladu twnnel i guddio rheilffordd gyflym drwy swydd Buckingham i osgoi peri gofid i bobl benodol, gan gynnwys tad-yng-nghyfraith y Prif Weinidog, y gellid dod o hyd i £500 miliwn i ariannu'r gwaith o drydaneiddio'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe?

**The First Minister:** 'Yes' is the simple answer to that. I have no comment to make on HS2. I accept that there is a need for investment in high-speed rail lines, but

**Y Prif Weinidog:** 'Ydw' yw'r ateb syml i hynny. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar HS2. Derbyniaf fod angen buddsoddiad mewn rheilffyrdd cyflym, ond

apparently there is a need to build a tunnel of 1.4 miles in order to facilitate that. I think that the people of Wales would be within their rights to make the point that if that money can be found for a tunnel, surely it can be found for extensive infrastructure improvements in Wales.

mae'n debyg bod angen adeiladu twnnel 1.4 milltir o hyd er mwyn hwyluso hynny. Rwy'n credu y byddai gan bobl Cymru hawl i wneud y pwynt y gellid yn sicr ddod o hyd i'r arian ar gyfer gwneud gwelliannau sylweddol i'r seilwaith yng Nghymru os gellir dod o hyd i'r arian ar gyfer twnnel.

**Adnoddau'r GIG**

**NHS Resources**

***14. Darren Millar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adnoddau sydd ar gael i'r GIG. OAQ(4)0320(FM)*

***14. Darren Millar:*** *Will the First Minister make a statement on the resources available to the NHS. OAQ(4)0320(FM)*

**The First Minister:** Following the announcement in October that Cabinet had agreed to provide the NHS with additional funding in the current year, all health boards are required to deliver on their financial targets.

**Y Prif Weinidog:** Yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Hydref bod y Cabinet wedi cytuno i ddarparu cyllid ychwanegol i'r GIG yn y flwyddyn gyfredol, mae'n rhaid i'r holl fyrddau iechyd gyrraedd eu targedau ariannol.

**Darren Millar:** The reality is that your Government is embarking upon the biggest ever cuts in the history of the Welsh NHS, and that front-line services are beginning to pay the price for that. We have seen temporary closures of wards and minor injuries units over the past few months, and LHBs are already telling us that they will be £50 million in the red by the end of this financial year. You will know that a number of services are under review in Wales, not least accident and emergency services at a number of hospitals in west and north Wales. What assurances can you give the Welsh public that there will be no downgrading or removal of accident and emergency services where they already exist in Wales?

**Darren Millar:** Y gwirionedd yw bod eich Llywodraeth yn ymgymryd â'r toriadau mwyaf erioed yn hanes y GIG yng Nghymru, a bod gwasanaethau rheng flaen yn dechrau talu'r pris am hynny. Rydym wedi gweld wardiau ac unedau mân anafiadau yn cau dros dro yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae byrddau iechyd lleol eisoes yn dweud wrthym y byddant £50 miliwn yn y coch erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Gwyddoch fod nifer o wasanaethau yn cael eu hadolygu yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau damweiniau ac achosion brys mewn nifer o ysbytai yng ngorllewin a gogledd Cymru. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r cyhoedd yng Nghymru na fydd unrhyw wasanaethau damwain ac achosion brys yn cael eu hisraddio neu eu dileu lle maent eisoes yn bodoli yng Nghymru?

**The First Minister:** We want a service that is excellent and safe, and those are the only principles that will guide us. There have been issues in some parts of Wales, not to do with money but with well-documented staff shortages of which we are aware. This is why we are launching the recruitment campaign at the end of the month. I am surprised that the Conservatives have raised this issue given the chaos that exists in England over NHS reform. At least we do not have the Chair of the British Medical Association telling us that our health policies are dangerous, which is what the party opposite is getting across the

**Y Prif Weinidog:** Rydym eisiau gwasanaeth ardderchog a diogel, a dyna'r unig egwyddorion a fydd yn ein harwain. Bu problemau mewn rhai rhannau o Gymru, nad oeddent yn ymwneud ag arian ond â'r prinder staff y bu llawer o sôn amdano ac yr ydym yn ymwybodol ohono. Dyna'r rheswm dros lansio'r ymgyrch recriwtio ar ddiwedd y mis. Rwyf yn synnu bod y Ceidwadwyr wedi codi'r mater hwn o ystyried yr anhrefn sy'n bodoli yn Lloegr dros ddiwygio'r GIG. O leiaf nid yw Cadeirydd Cymdeithas Feddygol Prydain yn dweud wrthym fod ein polisïau iechyd yma'n beryglus, sef yr hyn y mae'r

border.

blaid gyferbyn yn ei glywed ar draws y ffin.

**Twf Swyddi**

**Jobs Growth**

***15. Julie James:*** *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i hybu twf swyddi yng Nghymru. OAQ(4)0325(FM)*

***15. Julie James:*** *What plans does the Welsh Government have to promote job growth in Wales. OAQ(4)0325(FM)*

**The First Minister:** Those plans are set out in our programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae’r cynlluniau hynny wedi’u nodi yn ein rhaglen lywodraethu.

**Julie James:** I would very much like to welcome your recent commitment to £30 million of funding to extend a successful Welsh Government scheme that aims to support the creation of 3,000 jobs over the next three years in Wales. Only yesterday, a report published by the Centre for Cities research group identified Swansea and Newport as being among the most vulnerable of our cities to rises in unemployment in 2012 due to reliance on public sector employment and a low base of knowledge economy workers. In Swansea, for example, four in 10 workers work in the public sector. The Government in London is completely blind to the fact that we are not all in this together. People in my constituency are the most likely to bear the brunt of the sort of cuts that we have seen in the public sector, driven by ideology rather than any practical application. Would the First Minister restate his commitment to upskill our workforce and to work alongside Swansea’s exceptional universities to boost our city’s chance of future growth and employment, focused on a knowledge economy?

**Julie James:** Hoffwn groesawu’n fawr iawn eich ymrwymiad diweddar i ddarparu £30 miliwn o gyllid i ymestyn cynllun llwyddiannus Llywodraeth Cymru sy’n anelu at gefnogi creu 3,000 o swyddi dros y tair blynedd nesaf yng Nghymru. Dim ond ddoe y bu i adroddiad a gyhoeddwyd gan grŵp ymchwil y Centre for Cities enwi Abertawe a Chasnewydd fel y dinasoedd mwyaf agored i gynnydd mewn diweithdra o blith ein dinasoedd yn 2012 o ganlyniad i ddibyniaeth ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus a’r sylfaen isel o weithwyr yn yr economi wybodaeth. Yn Abertawe, er enghraifft, mae pedwar o bob 10 o weithwyr yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Mae’r Llywodraeth yn Llundain yn hollol ddall i’r ffaith nad yw pawb gyda’i gilydd yn hyn o beth. Y bobl yn fy etholaeth i yw’r rhai sydd fwyaf tebygol o ysgwyddo baich y math o doriadau yr ydym wedi’u gweld yn y sector cyhoeddus, sydd wedi’u hysgogi gan ideoleg yn hytrach nag unrhyw ystyriaethau ymarferol. A wnaiff y Prif Weinidog ailddatgan ei ymrwymiad i wella sgiliau ein gweithlu ac i weithio ochr yn ochr â phrifysgolion arbennig Abertawe i hybu cyfle ein dinas yn y dyfodol i sicrhau twf a chyflogaeth, gyda phwyslais ar yr economi wybodaeth?

**The First Minister:** Yes, we take the issue of working with universities to upskill people very seriously indeed. A total of 343 companies receive financial assistance at present to work with universities to upskill their workforce.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ddiau o ddifrif ynghylch y mater o weithio gyda phrifysgolion i wella sgiliau pobl. Mae cyfanswm o 343 o gwmnïau yn cael cymorth ariannol ar hyn o bryd i weithio gyda phrifysgolion i wella sgiliau eu gweithlu.

**Mark Isherwood:** What role is the Welsh Government playing in delivering the UK Government’s work programme in Wales? According to the Spotlight North Wales 2011 conference last November, the Welsh Government is playing a key role in this.

**Mark Isherwood:** Pa rôl y mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae wrth gyflwyno rhaglen waith Llywodraeth y DU yng Nghymru? Yn ôl cynhadledd Goleuo’r Gogledd 2011 fis Tachwedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth.

**The First Minister:** Of course, we always seek to ensure that programmes designed to get people into work and provide them with the skills that they need are given priority. This builds on the numerous schemes that we have introduced to help the Welsh economy and that have been announced in this Chamber already.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, rydym wastad yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i raglenni a gynlluniwyd i gael pobl i mewn i waith ac i roi iddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn adeiladu ar y cynlluniau niferus rydym wedi'u cyflwyno i helpu economi Cymru ac sydd wedi'u cyhoeddi yn y Siambr hon eisoes.

**Alun Ffred Jones:** Mae denu a chreu swyddi yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi profi'n anodd iawn. Serch hynny, mae gan y Llywodraeth gyfle yn awr i wneud rhywbeth am y sefyllfa honno. Bydd corff newydd yn cael ei greu drwy uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. A fyddwch yn ystyried lleoli pencadlys y corff newydd hwnnw yn y gogledd-orllewin, lle mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru eisoes wedi'i sefydlu?

**Alun Ffred Jones:** Attracting and creating jobs in west Wales and the Valleys has proved to be very difficult. However, the Government now has the opportunity to do something about that. A new body will be created by merging the Environment Agency Wales, the Countryside Council for Wales and the Forestry Commission Wales. Will you consider locating the new organisation's headquarters in north-west Wales, where the Countryside Council for Wales already has offices?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwn yn fater i'w drafod ar ôl i'r ddeddfwriaeth briodol fynd drwy'r Cynulliad. Bydd yn rhaid ystyried y mater yn sgîl hynny.

**The First Minister:** That is a matter to be discussed after the relevant legislation has made its way through the Assembly. The matter will have to be discussed in that light.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** There are no changes to report to this week's planned business, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement found among the agenda papers available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i'r busnes sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr wythnos hon, a bydd y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y nodwyd yn y datganiad a chyhoeddiad busnes ymysg y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

**Paul Davies:** Leader of the House, I have received a number of representations from constituents recently who are concerned that the local health board in my area will only treat one eye for patients with cataracts. Indeed, two weeks ago, I met a constituent who had been told that she would not receive treatment on one eye because the other was completely healthy. I raised this with the First Minister, and he said:

'I think that it is extremely important that people have the opportunity to have two operations for cataracts.'

**Paul Davies:** Arweinydd y Tŷ, rwyf wedi cael nifer o sylwadau yn ddiweddar gan etholwyr sy'n pryderu y bydd y bwrdd iechyd lleol yn fy ardal i yn trin un llygad yn unig ar gyfer cleifion â chataractau. Yn wir, bythefnos yn ôl, cyfarfûm ag etholwr a oedd wedi cael gwybod na fyddai'n cael triniaeth ar un llygad am fod y llall yn gwbl iach. Codais hyn gyda'r Prif Weinidog, a dywedodd:

'Rwy'n credu ei bod yn eithriadol o bwysig bod pobl yn cael y cyfle i gael dwy lawdriniaeth ar gyfer cataractau.'

He also said:

'It is extremely important that the local health boards ensure that such a service is available.'

Clearly, this is not the case in my area. Therefore, could the Leader of the House ask the Minister for Health and Social Services to bring forward a statement as a matter of urgency to clarify the Government's position on this, and to ensure that patients in my constituency receive the treatment that they absolutely deserve?

**Jane Hutt:** It is important that this is taken on board by the health board. I presume that clinical delivery of this is an operational matter. I will certainly ensure that the Minister for Health and Social Services looks into the matter.

**Rebecca Evans:** On 8 March, we will be joining countries across the globe in celebrating International Women's Day. The overarching theme for this year is 'connecting girls, inspiring futures'. I would welcome a statement from the Welsh Government on how it is supporting International Women's Day, and particularly on how the Government is ensuring that girls will be involved, educated and inspired by this year's events. I would hope that one legacy of this year's International Women's Day would be for girls in Wales to become more inspired to fulfil their potential and to enjoy equal and fulfilling futures.

**Jane Hutt:** I thank the Member for that question. International Women's Day is an opportunity for us to celebrate the achievements and opportunities in terms of realising their potential. It is the responsibility of all Ministers here to contribute to that, and I will be making a statement about funding for International Women's Day events, which will focus on that important agenda item.

Dywedodd hefyd:

'Mae'n hynod bwysig bod y byrddau iechyd lleol yn sicrhau bod gwasanaeth o'r fath ar gael.'

Yn amlwg, nid dyma sy'n digwydd yn fy ardal i. Felly, a allai Arweinydd y Tŷ ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyno datganiad fel mater o frys er mwyn egluro safbwynt y Llywodraeth ar hyn, ac i sicrhau bod cleifion yn fy etholaeth i yn cael y driniaeth y maent yn ei llwyr haeddu?

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ystyried gan y bwrdd iechyd. Rwy'n tybio bod hyn yn fater gweithredol o ran sut y caiff hyn ei gyflwyno'n glinigol. Byddaf yn sicr yn sicrhau bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych i mewn i'r mater.

**Rebecca Evans:** Ar 8 Mawrth, byddwn yn ymuno â gwledydd ledled y byd i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Y thema gyffredinol ar gyfer eleni yw 'cysylltu merched, ysbrydoli dyfodol'. Byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'n cefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac yn enwedig ynghylch sut y mae'r Llywodraeth yn sicrhau y bydd merched yn cymryd rhan yn nigwyddiadau eleni ac yn cael eu haddysgu a'u hysbrydoli ganddynt. Gobeithiaf mai un peth a fydd yn digwydd yn dilyn Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni yw y bydd merched yng Nghymru yn teimlo'n fwy ysbrydoledig i gyflawni eu potensial ac i fwynhau dyfodol cyfartal a llawn.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gyfle inni ddathlu cyflawniadau a chyfleoedd o ran gwireddu eu potensial. Cyfrifoldeb pob Gweinidog yma yw cyfrannu at hynny, a byddaf yn gwneud datganiad am gyllid ar gyfer digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, a fydd yn canolbwyntio ar yr eitem bwysig honno ar yr agenda.

2.30 p.m.

**Peter Black:** Minister, I press you once again for a statement on the situation regarding the investigation into the All Wales Ethnic Minority Association. I have had communication with some AWEMA partners and they are worried about the length of time that this investigation is taking; that is having an impact on partner organisations in relation to the European projects in which they are engaged with AWEMA. Also, some of the staff who signed the original letter regarding this organisation have not been interviewed by anyone, and concerns have been expressed to me about the security of documentation relating to this investigation and whether or not that was made secure before officials went in to investigate. Will you give me some assurances that this investigation is moving ahead at full speed, that those members, and former members of staff, who have an interest and knowledge of this organisation will be interviewed as soon as possible, that all actions have been taken to secure documentation relating to this investigation, and that the partners of AWEMA, in terms of European funding, are being assured as to the future of those projects?

**Peter Black**: Weinidog, erfyniaf arnoch unwaith eto am ddatganiad ar y sefyllfa ynglŷn â'r ymchwiliad i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Rwyf wedi cael gohebiaeth gan rai o bartneriaid AWEMA ac maent yn pryderu ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i gynnal yr ymchwiliad hwn; mae hynny'n cael effaith ar sefydliadau partner mewn perthynas â'r prosiectau Ewropeaidd y maent yn ymwneud â hwy drwy AWEMA. Hefyd, nid yw rhai o'r staff a lofnododd y llythyr gwreiddiol ynghylch y sefydliad hwn wedi cael eu cyfweld gan unrhyw un, ac rwyf wedi cael gwybod am bryderon ynghylch diogelwch y ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r ymchwiliad ac ynghylch a wnaed y ddogfennaeth yn ddiogel ai peidio cyn i swyddogion ddechrau ymchwilio. A wnewch roi rhywfaint o sicrwydd i mi fod yr ymchwiliad hwn yn symud ymlaen ar gyflymder llawn, y bydd yr aelodau, a'r cyn-aelodau hynny o staff, sydd â diddordeb yn y sefydliad a gwybodaeth amdano yn cael eu cyfweld cyn gynted ag y bo modd, bod yr holl gamau wedi cael eu cymryd i ddiogelu dogfennaeth sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, a bod partneriaid AWEMA, o ran cyllid Ewropeaidd, yn cael sicrwydd ynghylch dyfodol y prosiectau hynny?

**Jane Hutt:** I can assure Peter Black that we recognise the importance of this investigation, which I am monitoring very closely, ensuring that it is rigorous and that it includes the Welsh European Funding Office and the Big Lottery Fund. I will certainly be reporting back directly to those who have an interest, in terms of constituency and wider policy matters, and to the whole Assembly on the outcome of this investigation.

**Jane Hutt**: Gallaf sicrhau Peter Black ein bod yn cydnabod pwysigrwydd yr ymchwiliad hwn, ac rwyf yn ei fonitro yn agos iawn, gan sicrhau ei fod yn drylwyr a'i fod yn cynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr. Byddaf yn sicr yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r rhai sydd â diddordeb, o ran materion etholaethol a materion polisi ehangach, ac i'r Cynulliad cyfan, ar ganlyniad yr ymchwiliad hwn.

**Antoinette Sandbach:** Minister, just last week there was an event in the Oriel to celebrate farmhouse breakfast week. I was approached at that event by a farmer who was in severe distress because his farm had very recently been placed under TB restrictions. You will recall that the Minister for environment made a statement to the Assembly last term stating that he would make a statement on the scientific review in the autumn. Can you update the Chamber on when that statement is going to made? If it is not going to be made, can you update the

**Antoinette Sandbach**: Weinidog, dim ond wythnos diwethaf roedd digwyddiad yn yr Oriel i ddathlu wythnos brecwast y ffermdy. Daeth ffermwr ataf yn y digwyddiad hwnnw, a oedd mewn gofid difrifol am fod ei fferm wedi cael ei gosod o dan gyfyngiadau TB yn ddiweddar iawn. Byddwch yn cofio bod Gweinidog yr amgylchedd wedi gwneud datganiad i'r Cynulliad y tymor diwethaf yn datgan y byddai'n gwneud datganiad ar yr adolygiad gwyddonol yn yr hydref. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr o ran pryd y caiff y datganiad hwnnw ei

Chamber as to whether or not that scientific report will be placed in the public domain?

wneud? Os nad yw am gael ei wneud, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ynghylch a fydd yr adroddiad gwyddonol hwnnw ar gael i'r cyhoedd ai peidio?

**Jane Hutt:** I can assure Antoinette Sandbach that the Minister is considering the report that he received from the Bovine TB science review panel. As you know, he has already issued a statement outlining that he is considering the report and its implications for the overall programme, and he will report further on this early this year.

**Jane Hutt:** Gallaf sicrhau Antoinette Sandbach fod y Gweinidog yn ystyried yr adroddiad a gafodd gan y panel adolygiad gwyddonol ar TB gwartheg. Fel y gwyddoch, mae eisoes wedi cyhoeddi datganiad yn amlinellu'r ffaith ei fod yn ystyried yr adroddiad a'i oblygiadau ar gyfer y rhaglen gyffredinol, a bydd yn adrodd ymhellach ar hyn yn gynnar y flwyddyn hon.

**Aled Roberts:** Weinidog, wrth ymateb i un o gwestiynau Kirsty Williams, dywedodd y Prif Weinidog mai Llywodraeth Prydain a oedd yn gwrthod cyhoeddi gwybodaeth sy'n cymharu gwariant ar addysg yng Nghymru gyda gwariant yn Lloegr. Nid wyf yn credu bod y Gweinidog ei hun wedi ymwneud â'r penderfyniad, ond mae'n debyg mai yn y Cynulliad y gwnaethpwyd y penderfyniad hwnnw. A wnewch chi fel Llywodraeth wneud datganiad yn esbonio'n union beth sy'n mynd ymlaen, ac yn esbonio a ydych mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Prydain i sicrhau sefyllfa lle mae'n briodol i ni fel Aelodau Cynulliad gymharu gwariant rhwng Cymru a Lloegr?

**Aled Roberts:** Minister, in response to one of Kirsty Williams's questions, the First Minister said that it was the British Government that was refusing to publish information on education spend in England compared with Wales. I do not think that the Minister was personally involved in the decision, but it appears to be the case that that decision was taken in the Assembly. Will you as a Government make a statement explaining exactly what is going on, and explaining whether you are in talks with the British Government on making arrangements so that we as Assembly Members are able to relevantly compare expenditure in England and Wales?

**Jane Hutt:** It is important to recognise that it was the chief statistician who concluded that we were unable to publish local authority budget expenditure on schools 2011-12, due to the changing education policy landscape in England, to which the First Minister has already responded in answers to questions this afternoon, and the large number of schools moving to academy status in year and, therefore, out of local government control. However, we have made the interest in this comparison clear to the chief statistician. It is the UK Government that is not enabling us to ensure that we make this comparison transparent and open.

**Jane Hutt**: Mae'n bwysig cydnabod mai'r prif ystadegydd a ddaeth i'r casgliad na allem gyhoeddi gwariant cyllidebol awdurdodau lleol ar ysgolion ar gyfer 2011-12, oherwydd bod tirwedd y polisi addysg yn Lloegr yn newid—ac mae'r Prif Weinidog eisoes wedi ymateb i hyn wrth atebion cwestiynau y prynhawn yma—ac oherwydd bod nifer fawr o ysgolion yn newid i gael statws academi ymhen blwyddyn ac, felly, byddant y tu allan i reolaeth llywodraeth leol. Fodd bynnag, rydym wedi datgan ein diddordeb yn y gymhariaeth hon yn glir i'r prif ystadegydd. Llywodraeth y DU sy'n ein rhwystro rhag sicrhau ein bod yn gwneud y gymhariaeth hon yn dryloyw ac yn agored.

**Mohammad Asghar:** Minister, I understand that the First Minister will soon be visiting India and the United States of America for a trade mission. It is a wonderful idea. However, I believe that it would be beneficial

**Mohammad Asghar**: Weinidog, deallaf y bydd y Prif Weinidog yn ymweld yn fuan ag India ac Unol Daleithiau America ar daith fasnach. Mae'n syniad gwych. Fodd bynnag, credaf y byddai'n fuddiol i'r Prif Weinidog

for the First Minister to include a delegate from each political party in the Chamber to ensure that the Welsh Government is adequately represented and that foreign investors are able to see the unity that exists in the Chamber—[*Interruption*.]

gynnwys cynrychiolydd o bob plaid wleidyddol yn y Siambr er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli'n ddigonol a bod buddsoddwyr tramor yn gallu gweld yr undod sy'n bodoli yn y Siambr—[*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn**.**

**Mohammad Asghar:** This is especially so on economic development. Sometimes, common language and ethnicity do more good than reading 1,000 pages.

**Mohammad Asghar:** Mae hyn yn arbennig o wir o ran datblygu economaidd. Weithiau, mae iaith gyffredin ac ethnigrwydd yn gwneud llawer mwy o dda na darllen 1,000 o dudalennau.

**Jane Hutt:** The First Minister is going to India. He is going as the First Minister of Wales in order to ensure that Wales is put in the right position in terms of opportunities, as he did when he visited China last year. It is the First Minister and the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science who are leading the drive for growth and jobs in relation to Wales's position in the world. I am sure that any contributions, in terms of briefings, before that visit would be welcome.

**Jane Hutt**: Mae'r Prif Weinidog yn mynd i India. Mae'n mynd fel Prif Weinidog Cymru er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei rhoi yn y safle cywir o ran cyfleoedd, fel y gwnaeth pan ymwelodd â Tsieina y llynedd. Y Prif Weinidog a'r Gweinidog Menter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth sy'n arwain yr ymgyrch dros dwf a swyddi mewn perthynas â sefyllfa Cymru yn y byd. Rwyf yn siŵr y byddai unrhyw gyfraniadau, o ran sesiynau briffio, cyn yr ymweliad hwnnw yn cael eu croesawu.

**The Presiding Officer:** I call—I have forgotten your name. I beg your pardon. Darren Millar, I apologise. [*Laughter.*]

**Y Llywydd**: Galwaf—rwyf wedi anghofio eich enw. Mae'n ddrwg gennyf, Darren Millar. [*Chwerthin*.]

**Darren Millar:** I know that I look as though I am in disguise, Presiding Officer, but I can assure you that it is a permanent arrangement on my chin. [*Laughter.*] Minister, I call for a ministerial statement on the unlawful occupation of caravans. In north Wales, in particular, there are problems with people staying in caravans all year round, even though sites are often not licensed for such occupation. This is putting significant pressure on local authority and health services and on community safety. I wonder whether we can have a ministerial statement from an appropriate Minister on that particular concern.

**Darren Millar**: Gwn fy mod yn edrych fel pe bawn mewn gwisg ffansi, Lywydd, ond gallaf eich sicrhau ei fod yn drefniant parhaol ar fy ngên. [*Chwerthin*.] Weinidog, galwaf am ddatganiad gweinidogol ar feddiannu carafanau yn anghyfreithlon. Yng ngogledd Cymru, yn arbennig, mae problemau gyda phobl sy'n aros mewn carafanau drwy gydol y flwyddyn, er nad yw'r safleoedd wedi'u trwyddedu yn aml ar gyfer deiliadaeth o'r fath. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd ac ar ddiogelwch cymunedol. Tybed a allwn gael datganiad gweinidogol gan Weinidog priodol ar y pryder arbennig hwnnw.

Secondly, I understand that we are still awaiting a formal Welsh Government response to the Dilnot inquiry. I have recently had a spate of constituents in my surgeries who are concerned about the cost of care for their relatives and loved ones. There is a real sense of injustice about the costs that some

Yn ail, yr wyf yn deall ein bod yn dal i aros am ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru i ymchwiliad Dilnot. Yn ddiweddar rwyf wedi cael cyfres o etholwyr yn fy nghymorthfeydd, sy'n pryderu am y gost o ofalu am eu perthnasau a'u hanwyliaid. Mae gwir ymdeimlad o anghyfiawnder am y costau y

people are paying, while others, who may not have made provisions for themselves, are getting that care for free. I wonder whether we can have a statement from the Deputy Minister for Children and Social Services on that particular issue as soon as possible.

mae'n rhaid i rai pobl eu talu, tra mae eraill, nad ydynt o bosibl wedi gwneud darpariaethau ar eu cyfer eu hunain, yn cael y gofal hwnnw am ddim. Tybed a allwn gael datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater penodol hwnnw cyn gynted ag y bo modd.

**Jane Hutt:** I hesitate to say 'Who is the man with the beard?' It is Darren Millar, of course. [*Laughter.*] Local authorities are responsible for ensuring that mobile homes and caravans are lawfully occupied throughout the year. I know that this is an issue for local authorities. Of course, Peter Black is bringing forth a Member proposed Bill on park homes, which may be an opportunity to look at those issues.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn petruso i ddweud 'Pwy yw'r dyn â'r barf?' Darren Millar, wrth gwrs. [*Chwerthin*.] Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod cartrefi symudol a charafanau yn cael eu meddiannu'n gyfreithlon drwy gydol y flwyddyn. Gwn fod hyn yn broblem i awdurdodau lleol. Wrth gwrs, mae Peter Black yn cyflwyno Bil arfaethedig Aelod ar gartrefi mewn parciau, ac efallai y bydd yn gyfle i edrych ar y materion hynny.

It is important to recognise that the Deputy Minister for social services has been pioneering with regard to taking forward the package of support for local authorities in terms of supporting people with a maximum limit of £50 per week and supporting the coalition for fairer charging. It is the UK Government that now has to step up to the mark in relation to how it is going to deliver on care needs and ensure that our funding settlement is adequate to support our policies.

Mae'n bwysig cydnabod bod y Dirprwy Weinidog gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn arloesol o ran bwrw ymlaen â'r pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol o ran cefnogi pobl gydag uchafswm o £50 yr wythnos a chefnogi'r glymblaid o ran codi tâl tecach. Llywodraeth y DU sydd bellach i gamu ymlaen mewn perthynas â sut mae'n bwriadu cyflawni o ran anghenion gofal a sicrhau bod ein setliad cyllid yn ddigonol i gefnogi ein polisïau.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, could we have a statement from the Minister for business on the Government's engagement with Cardiff Airport. This is something that I raise periodically, because it is an important issue in the South Wales Central region, and the airport has enormous potential to be a driver for economic prosperity for the whole of the south-east Wales economy. It is important, especially with spring and summer—its busiest time—approaching, that Members understand what engagement the Government has been having with the airport through the winter months. What confidence can Members have that the Government is working proactively with the airport's management to make use of this fabulous asset in south Wales?

**Andrew RT Davies**: Arweinydd y Tŷ, a allem gael datganiad gan y Gweinidog busnes ynghylch ymgysylltiad y Llywodraeth â Maes Awyr Caerdydd. Mae hyn yn rhywbeth rwyf yn ei godi o dro i dro, oherwydd ei fod yn fater pwysig yn rhanbarth Canol De Cymru, ac mae gan y maes awyr botensial enfawr i fod yn sbardun ar gyfer ffyniant economaidd i economi de-ddwyrain Cymru i gyd. Mae'n bwysig, yn enwedig wrth wynebu'r gwanwyn a'r haf—ei amser prysuraf—bod yr Aelodau yn deall yr hyn beth fu'r ymgysylltiad rhwng y Llywodraeth a'r maes awyr dros fisoedd y gaeaf. Pa hyder y gall yr Aelodau ei fagu, bod y Llywodraeth yn gweithio'n rhagweithiol gyda rheolwyr y maes awyr i wneud defnydd o'r ased gwych hwn yn ne Cymru?

**Jane Hutt:** The leader of the opposition will be aware that St Athan has been identified as one of the first tranche of enterprise zones and that Cardiff Airport, which is adjacent to

**Jane Hutt**: Bydd arweinydd yr wrthblaid yn ymwybodol bod Sain Tathan wedi ei nodi fel un o'r haenau cyntaf o ardaloedd menter ac y bydd Maes Awyr Caerdydd, sydd gerllaw

St Athan, will be part of the remit in terms of the opportunity for that zone status.

Sain Tathan, yn rhan o'r cylch gwaith o ran y cyfle i statws yr ardal honno.

## Datganiad: Cynnydd ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol
## Statement: Progress on the Social Services Bill

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Rydym wedi cytuno ar sawl achlysur, ac yn fwyaf diweddar yn y ddadl ar 15 Tachwedd, na fydd gwasanaethau cymdeithasol yn gallu diwallu anghenion pobl Cymru heb raglen drawsnewid. Nid ydynt yn gynaliadwy. Bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i'r trawsnewid hwnnw, gan bennu'r fframwaith cyfreithiol craidd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** We have agreed on a number of occasions, and most recently in the debate on 15 November, that, without a programme of transformation, social services will not be able to meet the needs of the people of Wales. They are not sustainable. The social services Bill will be central to that transformation by specifying the core legal framework for social services and social care.

Mae ein ffordd ni o feddwl wedi cael ei llywio gan drafodaethau a gynhaliwyd yn y Siambr hon, â rhanddeiliaid ers cyhoeddi 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru', a chan ystod o dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol, Comisiwn y Gyfraith a'n hadolygiad o ddiogelu. Cyn y Nadolig, derbyniais ymatebion i wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â Chyngor Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Our thinking has been informed by the debates in this Chamber, with stakeholders since 'Sustainable Social Services for Wales' was published and by a range of evidence, including that of the Independent Commission on Social Services, the Law Commission and our review of safeguarding. Before Christmas, I also received responses to sustainable social services from the Welsh Local Government Association and Association of Directors of Social Services, as well as the Care Council for Wales and Care and Social Services Inspectorate Wales.

Rwy'n sicr bod rhaid inni dynnu ar gryfderau pobl sy'n aelodau o'u teuluoedd, rhwydweithiau a chymunedau. Rwyf hefyd yn sicr bod pobl yn unigolion â chanddynt eu hanghenion penodol eu hunain. Rydym am weld y ddeddfwriaeth hon yn sail i ffordd gyffredin o feddwl—un sy'n atgyfnerthu hawliau ac amrywiaeth yr anghenion.

I am clear that we must draw on the strengths of people being members of their families, networks and communities. I am also clear that people are precisely that: individuals with their own particular needs. We want this legislation to underpin a common way of thinking—one that reinforces rights and diversity of need.

We want a legal framework that supports the delivery of services in an integrated way, to people as people, not to children and adults separately. This Bill will wipe away inappropriate distinctions between people based on predetermined categories of need, such as age. Of course we recognise that there are different implications for children, who do not have the same autonomy as most adults, and we have been clear—with our

Rydym am weld fframwaith cyfreithiol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig, ar gyfer pobl fel pobl, nid i blant ac oedolion ar wahân. Bydd y Bil hwn yn cael gwared ar wahaniaethau amhriodol rhwng pobl, yn seiliedig ar gategorïau angen penodol, megis oedran.Wrth gwrs rydym yn sylweddoli bod goblygiadau amrywiol i blant, nad ydynt yn meddu ar yr un annibyniaeth â'r rhan fwyaf o

seven core aims for children, for example—about the particular services that they need. We place very great store by their rights. However, children, like adults, are not a homogenous group. Therefore, we will define social services in a way that starts with a commitment to people in need—an active, not passive, concept. We will expect local authorities and their statutory partners to maintain and enhance the wellbeing of people in need, and the Bill will provide the definition for that.

oedolion. Rydym wedi bod yn glir; er enghraifft gyda'n saith amcan craidd i blant; am y gwasanaethau penodol y mae eu hangen arnynt. Rydym yn rhoi gwerth mawr iawn ar eu hawliau. Ond nid yw plant, nac ychwaith oedolion, yn grŵp homogenaidd. Felly, byddwn yn diffinio gwasanaethau cymdeithasol mewn modd sy'n dechrau gydag ymrwymiad i bobl mewn angen; sy'n gysyniad actif, nid goddefol. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol a'u partneriaid statudol i gynnal a gwella lles y bobl mewn angen, a bydd y Bill yn darparu'r diffiniad ar gyfer hynny.

Social services cannot be sustainable without delivering more early intervention. We are not prepared to sit by as fewer and fewer people receive the support they need. We will require local government to understand the dimensions and shape of the population in need in their areas, to make this public, and to have powers to make arrangements to provide a range of services to meet those needs. Of course, some people will require an intensive and comprehensive range of services. We will make it clear that local authorities have a duty to provide, or make arrangements to provide, social care services, and we will bring forward a definition of these services that will draw on the existing definitions and the Law Commission's proposals.

Ni all gwasanaethau cymdeithasol fod yn gynaliadwy heb ymyrraeth gynharach. Nid ydym yn barod i eistedd yn ôl wrth i lai a llai o bobl gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Byddwn yn gofyn i lywodraeth leol ddeall maint a hanfod y boblogaeth mewn angen yn eu hardaloedd, gwneud hyn yn gyhoeddus, a chael pwerau i wneud trefniadau i ddarparu ystod o wasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny. Wrth gwrs bydd angen amrywiaeth gynhwysfawr a dwys o wasanaethau ar rai pobl. Byddwn yn egluro bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu, neu wneud trefniadau i ddarparu, gwasanaethau cymdeithasol, a byddant yn cyflwyno diffiniad o'r gwasanaethau hyn a fydd yn tynnu ar y diffiniadau presennol a chynigion Comisiwn y Gyfraith.

Sustainability depends on people having a stronger voice and real control. The starting point is enabling individuals to fully understand how care and support may help them. We want to make access to assessments a right, and those assessments to focus on the outcomes that people themselves are seeking. They must be involved. Assessments must be about needs, not, in the first instance, about services.

Mae cynaliadwyedd yn dibynnu ar roi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl. Y man cychwyn yw galluogi unigolion i ddeall yn llawn sut gall gofal a chymorth eu helpu nhw. Rydym am wneud mynediad i asesiadau yn hawl, ac rydym am i'r asesiadau hynny ganolbwyntio ar y canlyniadau y mae pobl yn anelu atynt. Rhaid i'r bobl fod yn rhan o hyn. Rhaid i asesiadau ymwneud ag anghenion yn gyntaf, nid y gwasanaethau.

2.45 p.m.

The Bill will give people the right to access information, advice, and assistance in finding out about services. We need a more coherent framework for services and so we will improve consistency of access through the creation of a portable assessment of need and give Ministers the powers to establish a national eligibility framework. The Bill will

Bydd y Bil yn rhoi'r hawl i bobl gael mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth am sut i ddod o hyd i wasanaethau. Mae angen inni gael fframwaith mwy cydlynol ar gyfer gwasanaethau ac felly byddwn yn gwella cysondeb o ran mynediad drwy gynnal asesiad cludadwy o'r angen a rhoi'r pwerau i Weinidogion sefydlu fframwaith

extend the range of services for which people have the right to a direct payment where that is their wish, and extend the rights of carers to an assessment by introducing a single duty that will allow us to extend the right for a carer's assessment more widely, when circumstances permit. We will also strengthen the complaints procedure and extend the public services ombudsman's powers to consider complaints.

cymhwysedd cenedlaethol. Bydd y Bil yn ehangu'r ystod o wasanaethau fel y bydd gan bobl yr hawl i daliad uniongyrchol, os mai dyna yw eu dymuniad, ac yn ymestyn hawliau gofalwyr i gael asesiad, drwy gyflwyno un ddyletswydd a fydd yn ein galluogi i ymestyn yr hawl i ofalwr gael asesiad yn ehangach, pan fydd amgylchiadau'n caniatáu hynny. Byddwn hefyd yn cryfhau'r weithdrefn gwyno ac yn ymestyn pwerau'r ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus i ystyried cwynion.

'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' and 'Together for Health' make it clear that a step change in integrating services, particularly for frail, older people, is an urgent necessity. The Bill will, therefore, extend the duty on social services and the NHS to collaborate on the delivery of integrated services, including the expectation of the use of pooled budgets and other flexibilities.

Mae 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' a 'Law yn Llaw at Iechyd' yn egluro bod angen gwneud newid sylweddol o ran integreiddio gwasanaethau, yn arbennig ar gyfer pobl hŷn, fregus, ar frys. Bydd y Bil hwn felly'n ymestyn y ddyletswydd ar wasanaethau cymdeithasol a'r GIG i gydweithio wrth gyflwyno gwasanaethau integredig, gan gynnwys y disgwyliad y defnyddir cyllidebau cyfun a dulliau hyblyg eraill.

We have made it clear that social services need stronger national direction. The Bill will set out powers to establish a national outcomes framework and set standards for social services. However, we also want to be clear about local accountability. The Bill will, therefore, establish a duty requiring local authorities to appoint a competent director of social services to lead and manage family-focused social services. This will include powers to share directors of social services.

Rydym wedi egluro bod angen cyfarwyddyd cenedlaethol cryfach ar wasanaethau cymdeithasol. Bydd y Bil yn pennu pwerau i sefydlu fframwaith canlyniadau cenedlaethol ac yn pennu safonau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym hefyd am fod yn glir ynghylch atebolrwydd lleol. Bydd y Bil felly'n gosod dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn penodi cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol cymwys i arwain a rheoli gwasanaethau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar deuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys pwerau i rannu cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.

I have already announced that we will provide a statutory basis for adult protection, stronger national direction, and establish clearer links between child and adult protection, through the new legal framework. There will be strategic changes to the regulatory system for social care, including clarifying the responsibilities of employers and the regulator's role in checking the financial viability of providers. We need to strengthen and build the confidence of our key professionals by regulating their training and conduct.

Rwyf eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn darparu sylfaen statudol i amddiffyn oedolion a chyfarwyddyd cenedlaethol cryfach, ac yn sefydlu cysylltiadau cliriach rhwng amddiffyn plant ac oedolion, drwy'r fframwaith cyfreithiol newydd. Bydd newidiadau strategol i'r system reoleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys egluro cyfrifoldebau cyflogwyr, a rôl y rheoleiddwyr wrth wirio hyfywedd ariannol y darparwyr. Mae angen inni gryfhau a chynyddu hyder ein gweithwyr proffesiynol allweddol drwy reoleiddio eu hyfforddiant

a'u hymddygiad.

Finally, the Bill will simplify arrangements in relation to adoption by placing a duty on the 22 local authorities to require them to come together to establish a single adoption agency. The foundation for these changes has been made through the protection of social services budgets. 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' makes it clear that the changes proposed require stopping doing some things and working in new ways. The approach will reduce regulation and bureaucracy so that organisations can focus on delivery and reprioritise to deliver efficiency as well as service change.

Yn olaf, bydd y Bil yn symleiddio trefniadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu drwy osod dyletswydd ar y 22 o awdurdodau lleol i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddod ynghyd i sefydlu un asiantaeth fabwysiadu. Lluniwyd y sylfaen ar gyfer y newidiadau hyn drwy ddiogelu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol. Mae 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' yn ei gwneud yn glir bod y newidiadau arfaethedig yn gofyn inni roi'r gorau i wneud rhai pethau a gweithio mewn ffyrdd newydd. Bydd y dull hwn o weithredu'n lleihau rheoleiddio a biwrocratiaeth fel y gall sefydliadau ganolbwyntio ar gyflenwi ac ail-flaenoriaethu er mwyn sicrhau effeithlonrwydd yn ogystal â newid gwasanaethau.

I am sure that Members and the public will want to see and debate the details of the Bill. There will be an opportunity to do so when we launch a full public consultation in March, with a view to introducing the Bill into the National Assembly in October 2012. That is, however, only the first stage of our journey. Regulations and a code of practice for social services will be developed once the Bill has received Royal Assent. The Bill provides us with the legislative basis to meet the changing needs of the people of Wales. I have valued the degree of cross-party agreement about the job that we have to do. I look forward to engaging with you on our proposals so that we can ensure that we have all the tools that we need to seize the opportunities ahead.

Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau sydd yma heddiw, a'r cyhoedd, yn dymuno gweld manylion y Bil a'u trafod. Bydd cyfle i wneud hynny pan fyddwn yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus llawn ym mis Mawrth, gyda'r bwriad i'w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2012. Fodd bynnag, dim ond cam cyntaf y daith yw hyn. Bydd rheoliadau a chod ymarfer ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu datblygu unwaith y bydd y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Bil yn darparu'r sylfaen deddfwriaethol sy'n diwallu anghenion cyfnewidiol pobl Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi bod rhywfaint o gytundeb trawsbleidiol ar y gwaith y mae'n rhaid inni ei wneud. Edrychaf ymlaen at gysylltu â chi i drafod ein cynigion fel y gallwn sicrhau bod gennym yr holl ddulliau sydd eu hangen arnom i fanteisio ar y cyfleoedd o'n blaenau.

**William Graham:** I thank the Deputy Minister for bringing forward this interim statement on the social services Bill; it was immensely helpful for all. All parties in the Assembly have realised that this is a real opportunity to make essential improvements to the services that are delivered, as well as to reduce the bureaucracy that social workers currently face. How we care for some of the most vulnerable in our society has recently been near the top of the United Kingdom's news and political agendas. Only yesterday, we had figures on the abuse of the elderly.

**William Graham:** Diolch i'r Dirprwy Weinidog am gyflwyno'r datganiad interim hwn ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol; roedd yn hynod ddefnyddiol i bawb. Mae pob plaid yn y Cynulliad wedi sylweddoli bod hwn yn gyfle gwirioneddol i wneud gwelliannau hanfodol i'r gwasanaethau a ddarperir, yn ogystal â lleihau'r fiwrocratiaeth a wynebir gan weithwyr cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae'r ffordd rydym yn gofalu am rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas wedi bod yn agos at frig agendâu newyddion a gwleidyddol y Deyrnas

Research by Age Cymru indicates that much abuse and neglect of older people occurs in their own homes at the hands of friends and family members, contrary to the more widespread public perception that abuse happens in institutional care settings. Can the Deputy Minister confirm that abuse and neglect will be firmly addressed in the Bill? We know that the Bill will replace a patchwork of legislation and case law and will require careful progression to safeguard the provision of care needs for those who need support or have limited mobility. We trust that the Deputy Minister will ensure that the inconsistencies in the current system will be addressed and that we can deliver significant improvements across Wales for the protection of some of the most vulnerable older people in society.

Unedig yn ddiweddar. Dim ond ddoe roedd gennym ffigurau ar gam-drin yr henoed. Mae ymchwil gan Age Cymru yn dangos bod llawer o gam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yn digwydd yn eu cartrefi eu hunain gan ffrindiau ac aelodau o'r teulu, sy'n groes i ganfyddiad cyffredinol y cyhoedd mai mewn lleoliadau gofal sefydliadol y mae'r cam-drin yn digwydd. A all y Dirprwy Weinidog gadarnhau y bydd cam-drin ac esgeulustod yn cael sylw cadarn yn y Bil? Rydym yn gwybod y bydd y Bil yn disodli'r clytwaith o ddeddfwriaeth a chyfraith achosion, a bydd angen cynnydd gofalus er mwyn diogelu darpariaeth cymorth gofal ar gyfer y rhai y mae angen cymorth arnynt neu'r rhai sydd ag anawsterau symud. Hyderwn y bydd y Dirprwy Weinidog yn sicrhau y bydd yr anghysondebau yn y system bresennol yn cael sylw ac y gallwn sicrhau gwelliannau sylweddol ledled Cymru ar gyfer amddiffyn rhai o'r bobl hŷn sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

The scale of the challenge that we face is illustrated by the numbers of people that require care support. In 2009-10 nearly 100,000 adults received community-based services from local authorities in Wales. By 31 March 2010, there were nearly 14,000 adults placed in residential care. We note the concerns that the current adult protection arrangements are significantly weaker than those for child protection. The Children Act 2004 placed a duty on key people and bodies to ensure that their functions are discharged with regard to the need to safeguard and promote the welfare of children. However, there is no equivalent requirement in relation to vulnerable adults. That leads to inconsistencies in the assessment of risk and the implementation of care for some people. Will the Deputy Minister amplify how she intends to widen the current definition of a vulnerable adult within adult protection procedures beyond people in need of community care services?

Mae nifer y bobl sydd angen cymorth gofal yn cyfleu maint yr her sy'n ein hwynebu. Yn 2009-10, derbyniodd bron i 100,000 o oedolion wasanaethau yn y gymuned gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Erbyn 31 Mawrth 2010, rhoddwyd bron i 14,000 o oedolion mewn gofal preswyl. Nodwn y pryderon fod y trefniadau cyfredol ar gyfer amddiffyn oedolion yn sylweddol wannach na'r rhai ar gyfer amddiffyn plant. Mae Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar bobl a chyrff allweddol i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni mewn perthynas â'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Fodd bynnag, nid oes gofyniad cyfatebol mewn perthynas ag oedolion sy'n agored i niwed. Mae hynny'n arwain at anghysonderau wrth asesu risg ac o ran darparu gofal ar gyfer rhai pobl. A wnaiff y Dirprwy Weinidog ymhelaethu ar sut y mae'n bwriadu ehangu'r diffiniad cyfredol o oedolyn sy'n agored i niwed o fewn gweithdrefnau amddiffyn oedolion y tu hwnt i bobl sydd angen gwasanaethau gofal cymunedol?

**Gwenda Thomas:** I thank William Graham for those points and for his positive remarks this afternoon. The delivery of care underpins the whole ethos of the Bill. As I have made clear, it will be a people's Bill. It will be about delivering care and protecting and safeguarding the people of Wales. We will consult on the details of the Bill, but, as you say, protection and safeguarding are important aspects of that. The delivery has to be on a needs basis. I have tried to make it clear that we will seek to support local authorities. I am grateful to the Welsh Local Government Association, the Association of Directors of Social Services Cymru and all local authorities in Wales that we have had a unified response to 'Sustainable Social Services for Wales' from all 22 local authorities in Wales via the Welsh Local Government Association. It was a very positive response, and the WLGA and ADSS have worked hard to get to that point.

**Gwenda Thomas:** Diolch i William Graham am y pwyntiau hynny ac am ei sylwadau cadarnhaol y prynhawn yma. Mae darparu gofal yn sail i holl ethos y Bil. Fel yr wyf wedi'i bwysleisio, bydd yn Fil i'r bobl. Bydd yn ymwneud â darparu gofal ac amddiffyn a diogelu pobl Cymru. Byddwn yn ymgynghori ar fanylion y Bil, ond, fel y dywedwch, mae amddiffyn a diogelu yn agweddau pwysig ar hynny. Rhaid i'r ddarpariaeth fod ar sail anghenion. Rwyf wedi ceisio'i wneud yn glir y byddwn yn ceisio cefnogi awdurdodau lleol. Rwyf yn ddiolchgar i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru ein bod wedi cael ymateb unedig i 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru' gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru drwy gyfrwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd yn ymateb cadarnhaol iawn, ac mae CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi gweithio'n galed i gyrraedd y pwynt hwnnw.

We also have a national policy forum, as you know. It is important that we can have all the partners, every political party, the private sector, the voluntary sector, the WLGA, the Care Council for Wales, ADSS and Care Forum Wales, together in a room to drive forward this Bill and ensure that the points that you made about the sustainability of care are addressed. I have said that we will place a duty on local authorities to get to know the needs in their areas and respond to those needs. On the issue of protection of vulnerable adults, I am getting the message that people prefer the term 'adults at risk' and I am sure that we will listen to what people say on that point. I am committed to getting a clear definition of an 'adult at risk' within the development of the Bill. We will be clear about that. We know that local safeguarding children boards have not worked as well as we had hoped. I made a statement in October, in which I made clear my vision for protection and safeguarding in the development of six local safeguarding children boards and six adult protection boards. I know that the WLGA wants to talk about that, and we will do so. However, we are committed to setting up adult protection for the first time in statute, and I believe that,

Mae gennym hefyd fforwm polisi cenedlaethol, fel y gwyddoch. Mae'n bwysig ein bod yn gallu cael yr holl bartneriaid, pob plaid wleidyddol, y sector preifat, y sector gwirfoddol, CLlLC, Cyngor Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Fforwm Gofal Cymru ynghyd mewn ystafell i yrru'r Bil hwn yn ei flaen a sicrhau bod y pwyntiau a wnaethoch am gynaliadwyedd y gofal yn cael sylw. Rwyf wedi dweud y byddwn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddod i adnabod yr anghenion yn eu hardaloedd ac i ymateb i'r anghenion hynny. O ran amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, rwyf ar ddeall bod yn well gan bobl y term 'oedolion sydd mewn perygl', ac rwy'n siŵr y byddwn yn gwrando ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud ar y pwynt hwnnw. Rwyf wedi ymrwymo i gael diffiniad clir o 'oedolyn mewn perygl' yn ystod datblygiad y Bil. Byddwn yn glir am hynny. Rydym yn gwybod nad yw'r byrddau lleol ar gyfer diogelu plant wedi gweithio gystal ag yr oeddem wedi ei obeithio. Mewn datganiad ym mis Hydref, nodais fy ngweledigaeth glir ar gyfer amddiffyn a diogelu wrth ddatblygu chwe bwrdd lleol ar gyfer diogelu plant a chwe bwrdd ar gyfer diogelu oedolion. Gwn

on this point, Wales will be leading the way. Thank you for your comments.

fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eisiau trafod hynny, a byddwn yn gwneud hynny. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i gynnwys amddiffyn oedolion mewn statud am y tro cyntaf, ac rwy'n credu y bydd Cymru, ar y pwynt hwn, yn arwain y ffordd. Diolch am eich sylwadau.

**Julie Morgan:** I welcome the Deputy Minister's statement on the progress of the social services Bill and welcome the fact that it has had, so far, a good reception from local authorities and from the voluntary sector. I particularly welcome her plan to bring in an all-Wales adoption agency. I am sure that this will give children who are available for adoption much more choice. However, has she made any assessment of whether the adoption process can be speeded up in view of the sensitive nature of the issues involved in removing children from their birth families and the fact that the average time between entry to care and adoption in Wales is approximately two years and seven months?

**Julie Morgan:** Croesawaf ddatganiad y Dirprwy Weinidog ar gynnydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol a hefyd y ffaith ei fod wedi cael derbyniad da, hyd yn hyn, gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Croesawaf yn arbennig ei chynllun i sefydlu un asiantaeth fabwysiadu ar gyfer Cymru gyfan. Rwy'n siŵr y bydd hynny'n rhoi llawer mwy o ddewis i'r plant sydd ar gael i'w mabwysiadu. Fodd bynnag, a yw hi wedi gwneud unrhyw asesiad o'r posibilrwydd o gyflymu'r broses fabwysiadu, o ystyried natur sensitif y materion sy'n ymwneud â chymryd plant oddi wrth eu teuluoedd biolegol, a'r ffaith mai'r amser cyfartalog rhwng mynediad i ofal a mabwysiadu yng Nghymru yw oddeutu dwy flynedd a saith mis?

**Gwenda Thomas:** Thank you for that point, Julie Morgan. As you rightly recognise, adoption is a highly complex and sensitive process. I want to link my response to the family justice review. As Members will know, I will respond to the report of the family justice review very soon. We know that that report has highlighted the damage to some children of the long process from being taken into care to adoption. Therefore, we will look closely at that review and link it to the intentions of this Bill. The current arrangements are limited, and the choice of opportunity to offer children more loving and stable futures will be enhanced by the establishment of the national adoption agency.

**Gwenda Thomas:** Diolch am y pwynt hwnnw, Julie Morgan. Fel y bu i chi gydnabod, yn gywir, mae mabwysiadu yn broses hynod gymhleth a sensitif. Rwyf am gysylltu fy ymateb â'r adolygiad cyfiawnder teuluol. Fel y gŵyr Aelodau, byddaf yn ymateb i adroddiad yr adolygiad cyfiawnder teuluol yn fuan iawn. Gwyddom fod yr adroddiad hwnnw wedi tynnu sylw at y niwed a wneir i rai plant o ganlyniad i'r broses hir rhwng pryd y cânt eu rhoi mewn gofal a phryd y cânt eu mabwysiadu. Felly, byddwn yn edrych yn fanwl ar yr adolygiad hwnnw ac yn ei gysylltu â bwriadau'r Bil. Mae'r trefniadau presennol yn gyfyngedig, a bydd y dewis o gyfleoedd i gynnig dyfodol mwy cariadus a sefydlog i blant yn cael ei wella o ganlyniad i sefydlu'r asiantaeth fabwysiadu genedlaethol.

**Lindsay Whittle:** I was just finishing my notes, because some interesting questions are being asked. I am pleased, Deputy Minister, that you had the courtesy to discuss the proposed Bill with party spokespeople this morning. I thank you for that; it was a most informative meeting. There is little in these proposals that people could take any major or

**Lindsay Whittle:** Roeddwn wrthi'n gorffen fy nodiadau, oherwydd mae rhai cwestiynau diddorol yn cael eu gofyn. Rwyf yn falch, Ddirprwy Weinidog, eich bod wedi bod yn ddigon cwrtais i drafod y Bil arfaethedig gyda llefarwyr y pleidiau y bore yma. Diolch am hynny; roedd yn gyfarfod addysgiadol iawn. Nid oes fawr ddim yn y cynigion hyn a

even minor issue with, but there are some proposals that need further consideration.

allai boeni pobl, ond bydd yn rhaid ystyried rhai cynigion ymhellach.

I welcome the proposed 12-week consultation beginning in March, but there is a risk, because we will have the local government elections in May and there will be a change of administration in many Welsh local authorities, I guess, that that will mean that the incoming new majority parties may not agree with the feedback given by their predecessors. Therefore, I hope that those new local authorities will be well advised by their directors, and I am sure that they will be. However, that needs to be taken into account.

Croesawaf yr ymgynghoriad arfaethedig 12 wythnos o hyd a fydd yn dechrau fis Mawrth, ond mae risg, oherwydd cynhelir yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai ac, mae’n debyg, bydd newid gweinyddiaeth yn nifer o awdurdodau lleol Cymru, a fydd yn golygu na fydd y pleidiau mwyafrifol newydd efallai’n cytuno â’r adborth a roddwyd gan eu rhagflaenwyr. Felly, rwy’n gobeithio y bydd yr awdurdodau lleol newydd yn cael eu cynghori’n dda gan eu cyfarwyddwyr, fel rwyf yn sicr y byddant. Fodd bynnag, rhaid ystyried hynny.

One proposal that will attract full support from this side of the Chamber is that service users and carers will have a stronger voice and greater control over the services that they receive. I particularly welcome the right to have cases referred to the ombudsman or ombudswoman in Wales. Local authorities will exercise more power, and their social services budgets will have to be shared with those of the health boards and, I hope, vice versa. The words to emphasise there is ‘will have to be shared’. That is the message that we all need to get across. In addition, as Julie Morgan, the previous speaker, mentioned, there is the proposal of the setting-up of a national adoption agency. I am slightly puzzled that you have decided not to fund Adoption UK in the next round of children and families grant funding. I wonder whether you can explain that. I have received an e-mail from it this morning to say that its funding has been hit in the next round.

Un cynnig a fydd yn denu cefnogaeth lawn o’r ochr hon o’r Siambr yw’r ffaith y bydd defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael llais cryfach a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Rwy’n croesawu’n arbennig yr hawl i gyfeirio achosion at yr ombwdsmon yng Nghymru. Bydd gan awdurdodau lleol fwy o rym, a bydd yn rhaid rhannu eu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol gyda chyllidebau’r byrddau iechyd; bydd hynny, gobeithio, yn gweithio i’r gwrthwyneb hefyd. Y geiriau i’w pwysleisio yno yw ‘bydd yn rhaid rhannu’. Dyna’r neges y bydd yn rhaid inni ei chyflwyno. Yn ogystal, fel y crybwyllodd Julie Morgan, y siaradwr blaenorol, mae cynnig i sefydlu un asiantaeth fabwysiadu genedlaethol. Rwyf mewn penbleth braidd ynghylch y ffaith eich bod wedi penderfynu peidio ag ariannu Adoption UK yn y cylch nesaf o arian grant ar gyfer plant a theuluoedd. Tybed a oes modd i chi esbonio hynny. Derbyniais neges e-bost oddi wrtho’r bore yma yn dweud bod ei gyllid yn is yn y cylch nesaf.

We do not object the establishment of a protection and safeguarding board that will deal with children and all other vulnerable people, although I anticipate, as I am sure that you recognise, Deputy Minister, that there will be a call to set up more than six boards across Wales. I know that you recognise that, and I hope that you will take that into account. In view of some of the recent revelations about the abuse of vulnerable people, especially older people, by paid carers, we need to include in the Bill a

Nid ydym yn gwrthwynebu sefydlu bwrdd amddiffyn a diogelu a fydd yn ymdrin â phlant a’r holl bobl fregus eraill, er hynny rwyf yn rhagweld, fel rwyf yn siŵr y byddwch chi, Ddirprwy Weinidog, y bydd galw i sefydlu mwy na chwe bwrdd ledled Cymru. Gwn eich bod yn cydnabod hynny, a gobeithiaf y byddwch yn ystyried hynny. Ac ystyried rhai o’r datguddiadau diweddar ynghylch cam-drin pobl sy’n agored i niwed, yn enwedig pobl hŷn, gan ofalwyr cyflogedig, rhaid inni osod dyletswydd yn y

duty on local authorities to ensure that all paid carers undergo a more rigorous selection procedure and that they receive the appropriate training.

Bil ar awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl ofalwyr cyflogedig yn mynd drwy broses ddewis mwy trwyadl, a'u bod yn cael yr hyfforddiant priodol.

Following our meeting this morning, Deputy Minister, I met representatives of the British Association of Social Workers Wales, and they stressed the need for the Bill—and this is pretty hot off the press—to place great expectations on employers to support social work staff by adhering to the codes of practice for employers of social care workers. I hope, Deputy Minister, that you will seriously consider this important request by BASW Cymru.

Yn dilyn ein cyfarfod y bore yma, Ddirprwy Weinidog, cyfarfûm â chynrychiolwyr y British Association of Social Workers Cymru, a phwysleisiwyd yr angen i'r Bil—ac nid yw'r inc wedi sychu ar hyn eto—roi disgwyliadau mawr ar gyflogwyr i gefnogi staff gwaith cymdeithasol drwy gadw at y codau ymarfer ar gyfer cyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol. Rwy'n gobeithio, Ddirprwy Weinidog, y byddwch yn ystyried y cais pwysig hwn gan BASW Cymru o ddifrif.

3.00 p.m.

Finally, in the period designated for consultation, it is crucial that it is an honest exercise in listening and not just a ritual in which there is no scope for this Government to amend or scrap elements of the Bill. I am sure, Deputy Minister, that you will do that, and I thank you for this morning's informative meeting.

Yn olaf, yn y cyfnod dynodedig ar gyfer ymgynghori, mae'n hanfodol bod yn gwrando o ddifrif yn digwydd yn hytrach na defod lle nad oes lle i'r Llywodraeth hon ddiwygio na dileu elfennau o'r Bil. Rwyf yn siŵr, Ddirprwy Weinidog, y byddwch yn gwneud hynny, a diolch i chi am gyfarfod llawn gwybodaeth y bore yma.

**Gwenda Thomas:** Thank you. I agree with you that fair and open consultation is important. We are committed to that. Also, as you say, we will have the local government elections at the beginning of May. That is why it is important that we already have cross-party consensus via the WLGA. I am sure there will be the will to take that forward in local government.

**Gwenda Thomas**: Diolch yn fawr. Rwy'n cytuno â chi fod ymgynghoriad teg ac agored yn bwysig. Rydym wedi ymrwymo i hynny. Hefyd, fel yr ydych yn dweud, cawn yr etholiadau llywodraeth leol ar ddechrau mis Mai. Dyna pam mae'n bwysig bod gennym eisoes gonsensws ar draws y pleidiau drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rwy'n siŵr y bydd ewyllys mewn llywodraeth leol i gyflwyno hynny.

On a stronger voice for the ombudsman, I agree with you. We have to be mindful of the fact that people who pay the full cost of their care in a residential setting currently do not have the right to make complaints. That is an important role to develop for the ombudsman.

O ran llais cryfach i'r ombwdsmon, rwyf yn cytuno â chi. Mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol o'r ffaith nad oes gan bobl sy'n talu cost lawn eu gofal mewn lleoliad preswyl ar hyn o bryd yr hawl i wneud cwynion. Mae hynny'n rôl bwysig i'w datblygu ar gyfer yr ombwdsmon.

On Adoption UK, I shall not comment on individual applications, except to say that I am absolutely satisfied that there was a fair and rigorous process, and that all applications were given a thorough airing, with everybody receiving the same consideration.

O ran Adoption UK, ni wnaf sylwadau ar geisiadau unigol, ac eithrio dweud fy mod yn hollol fodlon bod proses deg a thrylwyr wedi digwydd, a bod pob cais wedi cael ei drafod yn drylwyr, gyda phawb yn cael yr un ystyriaeth.

With regard to the protection and safeguarding board, I should have added to my reply to William Graham the important point that we intend to set up a national independent protection board. The fact that it will be independent and based in statute will answer some of your questions, Lindsay Whittle. This board will be made up of experts and it will have executive powers. So, it will be a very new scene, and we will show the way in the UK in moving forward with this important responsibility to protect.

Mewn perthynas â'r bwrdd amddiffyn a diogelu, dylwn fod wedi ychwanegu yn fy ateb i William Graham y pwynt pwysig ein bod yn bwriadu sefydlu bwrdd diogelu annibynnol cenedlaethol. Bydd y ffaith y bydd yn annibynnol ac yn seiliedig mewn statud yn ateb rhai o'ch cwestiynau, Lindsay Whittle. Bydd y bwrdd hwn yn cynnwys arbenigwyr a bydd ganddo bwerau gweithredol. Felly, bydd yn sefyllfa newydd iawn, a byddwn yn dangos y ffordd yn y DU wrth ddatblygu'r cyfrifoldeb pwysig hwn i ddiogelu.

On the issue of the six boards, I have already said that there is an element of contention. We will talk to people; I am committed to listening to everybody's point of view.

O ran mater y chwe bwrdd, rwyf eisoes wedi dweud bod elfen o gynnen. Byddwn yn siarad â phobl; rwyf wedi ymrwymo i wrando ar farn pawb.

With regard to the suitability of people who work in the social care field, that it is not a completely devolved matter. We have CRB checking, and we still await the development of the new vetting and barring process. I am sure that you will be as interested as I am in hearing about developments there.

O ran addasrwydd y bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli yn gyfan gwbl. Rydym yn gwneud gwiriadau CRB, ac rydym yn dal i aros am ddatblygiad y broses fetio a gwahardd newydd. Rwyf yn siŵr y bydd gennych gymaint o ddiddordeb â minnau mewn clywed am y datblygiadau yn hynny o beth.

I hear what you say about the codes of practice for employers. We do have codes of practice at the moment, and we have laws and guidance. One of the main aims of this Bill is to simplify all of that and bring things together so that they are simpler to understand and easier to implement. I would send a very strong message to BASW Cymru to join in this consultation, as I am sure it is.

Rwy'n clywed yr hyn yr ydych yn ei ddweud am y codau ymarfer ar gyfer cyflogwyr. Mae gennym godau ymarfer ar hyn o bryd, ac mae gennym ddeddfau a chanllawiau. Un o brif amcanion y Bil hwn yw symleiddio hynny i gyd a dod â phethau at ei gilydd fel eu bod yn haws eu deall ac yn haws eu gweithredu. Byddwn yn anfon neges gref iawn at BASW Cymru i ymuno â'r ymgynghoriad hwn, ac yr wyf yn siŵr ei fod yn gwneud hynny.

**Mick Antoniw:** Deputy Minister, I very much welcome the statement, and I think that it is important that we recognise that it is a groundbreaking statement and that the legislation you are proposing is innovative, far-reaching and progressive. Clearly, it will lead the way, as far as UK legislation in this field is concerned. That is a tribute to the hard work that you have put in. As a member of the Health and Social Care Committee, I very much look forward to this legislation, because it is exactly for this sort of issue and legislation that many of us put ourselves up for election to the Assembly, to be able to do something different in Wales that is

**Mick Antoniw**: Ddirprwy Weinidog, rwyf yn croesawu'r datganiad, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig inni gydnabod ei fod yn ddatganiad arloesol a bod y ddeddfwriaeth yr ydych yn ei chynnig yn arloesol, yn bellgyrhaeddol ac yn flaengar. Mae'n amlwg y bydd yn arwain y ffordd, cyn belled ag y mae deddfwriaeth y DU yn y maes hwn yn y cwestiwn. Mae hynny'n deyrnged i'ch gwaith caled chi. Fel aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y ddeddfwriaeth hon, gan mai dyma yn union y math o beth a'r math o ddeddfwriaeth sy'n peri i lawer ohonom i gyflwyno ein henwau i gael ein hethol i'r

progressive and not tied down by some of the restriction that have previously affected this area.

Cynulliad, er mwyn gallu gwneud rhywbeth gwahanol yng Nghymru sy'n flaengar ac nad yw wedi'i lesteirio gan rai o'r cyfyngiadau sydd wedi effeithio ar y maes hwn o'r blaen.

One area that you might have expanded on in your statement is to do with the concerns many have had about the corporatisation of some areas of care, as in the case of Southern Cross. There have also been particular concerns about those corporate bodies that took over, such as Four Seasons, to do with the way in which they have tended to treat care homes as investment opportunities. I echo some of the comments made about the way in which staff who are part of this team and who are providing this service need to be protected, trained, and have their opportunities developed. How do you see the regulatory role examining these companies and providing greater regulation and greater protection to avoid some of the terrible situations that have occurred in the past?

Un maes y gallech fod wedi ymhelaethu arno yn eich datganiad yw'r pryderon sydd gan lawer ohonom am gorfforaetholi rhai meysydd gofal, fel yn achos Southern Cross. Bu pryderon penodol hefyd am y cyrff corfforaethol hynny a ddaeth i'r adwy, fel Four Seasons, o ran y ffordd y maent wedi tueddu i drin cartrefi gofal fel cyfleoedd i fuddsoddi. Rwy'n ategu rhai o'r sylwadau a wnaed am y ffordd y mae angen diogelu, hyfforddi a datblygu cyfleoedd y staff sy'n rhan o'r tîm hwn ac sy'n darparu'r gwasanaeth hwn. Sut yr ydych chi'n gweld y rôl reoleiddiol o ran archwilio'r cwmnïau hyn a darparu mwy o reoleiddio a mwy o ddiogelwch i osgoi rhai o'r sefyllfaoedd erchyll sydd wedi digwydd yn y gorffennol?

**Gwenda Thomas:** I thank Mick Antoniw for that contribution and for his positive words. The Southern Cross issue is still fresh in our minds. I said in my introductory remarks that we will consider legislating to include in the regulatory process the power to look at the financial viability of providers. I am committed to that. I also share with the Chamber that the Association of Directors of Social Services now intends to hold a seminar on the aftermath of Southern Cross, to look at all the lessons that can be learned. I would also like to pay tribute to the Health and Social Care Committee as it is already looking at the whole issue of residential care—the availability, the capacity and the regulation. I look forward to working with the committee and to reading the committee's report. When the committee has reported, we will be ready to move forward with the issue of paying for care. We heard from Darren Millar on this issue earlier; I will say that if I had a response from Paul Burstow in regard to the Dilnot report, I would be able to move forward. I am sure that you will support me in taking a message to him and asking him to respond positively to my request for a meeting, because, in the first instance, the response to Dilnot has to come from the UK Government. Thank you for those comments, Mick Antoniw, and I look forward to

**Gwenda Thomas**: Diolch i Mick Antoniw am y cyfraniad hwnnw ac am ei eiriau cadarnhaol. Mae mater Southern Cross yn dal yn fyw yn ein meddyliau. Dywedais yn fy sylwadau agoriadol y byddwn yn ystyried deddfu i gynnwys pwerau yn y broses reoleiddio i edrych ar hyfywedd ariannol y darparwyr. Rwyf wedi ymrwymo i hynny. Rwyf hefyd yn hysbysu'r Siambr fod Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn awr yn bwriadu cynnal seminar yn sgîl digwyddiadau Southern Cross, i edrych ar yr holl wersi y gellir eu dysgu. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gan ei fod eisoes yn ystyried gofal preswyl yn ei gyfanrwydd—argaeledd, capasiti a rheoleiddio. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r pwyllgor ac at ddarllen adroddiad y pwyllgor. Pan fydd y pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad, byddwn yn barod i symud ymlaen gyda chwestiwn talu am ofal. Clywsom gan Darren Millar ar y mater hwn yn gynharach; pe bai gennyf ymateb gan Paul Burstow ynglŷn ag adroddiad Dilnot, byddwn yn gallu symud ymlaen. Rwyf yn siŵr y byddwch yn fy nghefnogi wrth fynd â neges ato a gofyn iddo ymateb yn gadarnhaol i fy nghais am gyfarfod, oherwydd, yn y lle cyntaf, rhaid i'r ymateb i Dilnot ddod gan Lywodraeth y DU. Diolch am y sylwadau

working with the committee in its important role.

hynny, Mick Antoniw, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r pwyllgor yn ei rôl bwysig.

**Peter Black:** I start by welcoming this statement and the level of consensus that the Deputy Minister has gathered around this Bill. It is important that you have the agreement not only of Members across the Chamber, but of the Welsh Local Government Association to the vast majority of it—not everything, but the vast majority—as well as that of ADSS and a number of other bodies. That augurs well for the Bill when it comes in October. I particularly welcome the commitment in the statement to extending the range of services for which people will have the right to a direct payment. That is something that the Welsh Liberal Democrats have been pressing for for some time, and I am pleased that the Deputy Minister has listened to that. I also welcome the strengthening of the complaints procedure and the extension of the public service ombudsman's powers to consider complaints. That is essential, particularly given some of the casework that I have come across, as I am sure have other Members, in terms of social services departments.

**Peter Black**: Dechreuaf drwy groesawu'r datganiad hwn a lefel y consensws y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i gasglu o amgylch y Bil hwn. Mae'n bwysig bod gennych gytundeb yr Aelodau ar draws y Siambr, a hefyd Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r rhan fwyaf o ddigon ohono—nid popeth, ond y rhan fwyaf o ddigon—yn ogystal ag ADSS a nifer o gyrff eraill. Mae hynny'n argoeli'n dda ar gyfer y Bil pan ddaw ym mis Hydref. Rwy'n croesawu'n arbennig yr ymrwymiad yn y datganiad i ymestyn yr ystod o wasanaethau y bydd gan bobl yr hawl i gael taliad uniongyrchol amdanynt. Mae hynny'n rhywbeth y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn pwyso amdano ers peth amser, ac rwyf yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi gwrando ar hynny. Rwyf hefyd yn croesawu cryfhau'r weithdrefn gwynion ac ymestyn pwerau'r ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus i ystyried cwynion. Mae hynny'n hanfodol, yn enwedig o gofio rhai o'r enghreifftiau o waith achosion yr wyf wedi dod ar eu traws, fel Aelodau eraill, rwyf yn siŵr, o ran adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

Minister, I have a number of questions around this statement. I think that the pooling of budgets is important and it is certainly to be commended. However, there is also a need to integrate the care elements of both health and social services over time in a planned and coherent fashion that builds on the community networks in place. I think that we need to wean the NHS in particular away from its dependence on acute services. Could you explain how the pooling of budgets will lead to that further transformation of services, not just in terms of sharing money, but of the way in which they both work together in a more integrated fashion? Could you also say how the work that the Welsh Government is undertaking in terms of the Marmot review will inform this Bill? It is important that we deal with some of the issues of health inequity around Wales, and the Bill needs to recognise that changing that is a generational thing; it is not something that you can do overnight. I would hope that we can look at that in terms of how you structure the way

Weinidog, mae gennyf nifer o gwestiynau ar y datganiad hwn. Rwy'n credu bod cyfuno cyllidebau'n bwysig, ac mae'n sicr i'w ganmol. Fodd bynnag, mae hefyd angen integreiddio elfennau gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol dros gyfnod mewn modd cynlluniedig a chydlynol sy'n adeiladu ar y rhwydweithiau cymunedol sydd ar gael. Rwy'n credu bod angen i ni ddiddyfnu'r GIG yn arbennig oddi ar ei ddibyniaeth ar wasanaethau acíwt. A allech esbonio sut y bydd cyfuno cyllidebau yn arwain at drawsnewid y gwasanaethau ymhellach, nid yn unig o ran rhannu arian, ond y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd fwy integredig? A allech hefyd ddweud sut y bydd y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran adolygiad Marmot yn llywio'r Bil hwn? Mae'n bwysig inni ymdrin â rhai o'r materion sy'n gysylltiedig ag annhegwch iechyd yng Nghymru, ac mae angen i'r Bil gydnabod bod newid hynny yn rhywbeth a fyddai'n digwydd mewn cenhedlaeth; nid

that social services operate in the future.

yw'n rhywbeth y gallwch ei wneud dros nos. Gobeithio y gallwn edrych ar hynny o ran sut yr ydych yn strwythuro'r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu yn y dyfodol.

The big issue that I have come across in terms of my own casework as an Assembly Member is the turnover of social workers in some social service departments, which can have a huge impact on the level of care available, particularly for vulnerable children, but also for vulnerable adults. I welcome the commitment to further professionalise social work and to offer support to social workers as part of that. We certainly need to find ways to stabilise that profession, and I hope that you will be able to bring forward proposals to help social services departments to manage that situation.

Y prif fater yr wyf wedi dod ar ei draws o ran fy ngwaith achosion i fel Aelod Cynulliad yw'r newid ymysg gweithwyr cymdeithasol mewn rhai adrannau gwasanaethau cymdeithasol, a gall hyn gael effaith enfawr ar lefel y gofal sydd ar gael, yn enwedig ar gyfer plant agored i niwed, ond hefyd ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Rwy'n croesawu'r ymrwymiad i broffesiynoli gwaith cymdeithasol ymhellach, a chynnig cefnogaeth i weithwyr cymdeithasol fel rhan o hynny. Mae'n sicr bod angen inni ganfod ffyrdd o sefydlogi'r proffesiwn hwnnw, a gobeithio y byddwch yn gallu cyflwyno cynigion i helpu adrannau gwasanaethau cymdeithasol i reoli'r sefyllfa honno.

Finally, Lindsay Whittle raised the size and number of safeguarding boards, and it is an issue that concerns local government. There have been issues where safeguarding boards work together without stability of personnel, which has meant that important work is not being done and not being sustained. I would hope that we could look at that. Certainly, there is some concern that we have too few safeguarding boards trying to do too much work. Perhaps you could look at that as part of the consultation process.

Yn olaf, cyfeiriodd Lindsay Whittle at faint a nifer y byrddau diogelu, ac mae hynny'n peri pryder i lywodraeth leol. Bu problemau lle y mae byrddau diogelu wedi gweithio gyda'i gilydd heb sefydlogrwydd personél, ac mae hyn yn golygu nad oedd gwaith pwysig yn cael ei wneud nac yn cael ei gynnal. Byddwn yn gobeithio y gellid edrych ar hynny. Mae rhywfaint o bryder yn bendant nad oes gennym ddigon o fyrddau diogelu, a'r rheini'n ceisio gwneud gormod o waith. Efallai y gallech edrych ar hynny fel rhan o'r broses ymgynghori.

The process for serious case reviews, which are charged to those safeguarding boards, is eminently unsatisfactory and cumbersome at present. It does little to protect children in a timely manner; it certainly protects them over the long term, but a number of cases have arisen that required a timely response, yet the response took several years to come. That needs to be looked at as well.

Mae'r broses ar gyfer adolygu achosion difrifol, a gaiff eu cyfeirio at y byrddau diogelu, yn anfoddhaol a thrwsgl yn fwy na dim arall ar hyn o bryd. Ychydig y mae'n ei wneud i amddiffyn plant o fewn amser derbyniol; mae'n bendant yn eu hamddiffyn yn y tymor hir, ond mae nifer o achosion wedi codi lle yr oedd angen ymateb cyflym, ac eto cymerodd sawl blwyddyn i gael yr ateb. Mae angen ystyried hynny hefyd.

**Gwenda Thomas:** I thank Peter Black for his positive comments. I agree with him on direct payments; there is an intention to extend the number of services and to legislate for that in the Bill. He made a point about the public services ombudsman, and I have commented on that. The integrated care element of health

**Gwenda Thomas:** Diolch i Peter Black am ei sylwadau cadarnhaol. Rwy'n cytuno ag ef ynghylch taliadau uniongyrchol; mae bwriad i ymestyn nifer y gwasanaethau ac i ddeddfu ar gyfer hynny yn y Bil. Gwnaeth bwynt am yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus, ac rwyf wedi gwneud sylwadau ar hynny. Mae'r

and social services is key to success in bringing the two services together, and, of course, we must not forget that there are excellent examples of this happening. One is the Gwent frailty project, and there are others right across Wales that show how the care element is being implemented. There are examples in children's services as well. We have already legislated to set up the integrated family support team and to develop the carers regulations.

elfen gofal integredig ym maes gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn allweddol i lwyddiant wrth ddod â'r ddau wasanaeth at ei gilydd, ac, wrth gwrs, rhaid i ni beidio ag anghofio bod enghreifftiau ardderchog o hyn yn digwydd. Un ohonynt yw prosiect eiddilwch Gwent, ac mae eraill ar hyd a lled Cymru sy'n dangos sut y mae'r elfen gofal yn cael ei weithredu. Ceir enghreifftiau yn y gwasanaethau plant hefyd. Rydym eisoes wedi deddfu i sefydlu'r tîm integredig cymorth i deuluoedd a datblygu'r rheoliadau i ofalwyr.

Health inequity is of course an important issue, and I am working closely with the Minister for Health and Social Services on developing preventative early intervention services so that, as far as we can, we support people to stay healthier longer. We will articulate the funding through the regulatory impact assessment when the Bill is introduced. We are committed to the professionalisation of social services through career development, and through the role of an expert in social services within local authorities. I have also commented on competent social services directors, and the power to share directors. I have dealt with the points on safeguarding boards, but I will of course listen to all points of view.

Mae annhegwch iechyd, wrth gwrs, yn fater pwysig, ac rwyf yn gweithio'n agos â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddatblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ataliol fel y gallwn, cyn belled â phosibl, gynorthwyo pobl i aros yn iach yn hirach. Byddwn yn rhoi gwybod am y cyllid drwy'r asesiad effaith rheoleiddiol pan gaiff y Bil ei gyflwyno. Rydym wedi ymrwymo i broffesiynoli gwasanaethau cymdeithasol drwy ddatblygu gyrfa, a thrwy rôl arbenigwr ym maes gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol. Rwyf hefyd wedi gwneud sylwadau am gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol cymwys, a'r pŵer i rannu cyfarwyddwyr. Rwyf wedi ymdrin â'r pwyntiau ynghylch byrddau diogelu ond byddaf, wrth gwrs, yn gwrando ar yr holl safbwyntiau.

The Member made an important point on the serious case reviews. In February last year, I set out plans for the new child practice review framework to replace the serious case reviews. I made a statement to the Assembly on that, saying that I intended to create an improved system of learning and review. This framework will improve the culture of learning from child protection cases and support inter-agency practice to protect children. Practice guidance has been developed with support from practitioners who are testing out the arrangements, and it was published for public consultation last month. Implementation of this will come later in the year. I would like to hear from anybody who wants to comment on the publication of the practice guidance.

Gwnaeth yr Aelod bwynt pwysig ar yr adolygiadau achosion difrifol. Ym mis Chwefror y llynedd, cyflwynais gynlluniau ar gyfer y fframwaith newydd i adolygu ymarfer plant i ddisodli'r adolygiadau achosion difrifol. Gwneuthum ddatganiad i'r Cynulliad ar hynny, gan ddweud fy mod yn bwriadu creu system well ar ddysgu ac adolygu. Bydd y fframwaith hwn yn gwella'r diwylliant o ddysgu yn sgîl achosion amddiffyn plant ac yn cefnogi arferion rhyngasiantaethol i amddiffyn plant. Mae canllawiau ymarfer wedi cael eu datblygu gyda chefnogaeth gan ymarferwyr sy'n profi'r trefniadau, ac fe'i cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus fis diwethaf. Caiff hwn ei weithredu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Hoffwn glywed gan unrhyw un sydd am wneud sylwadau ynghylch cyhoeddi'r canllawiau ymarfer.

**Kenneth Skates:** Deputy Minister, I thank you for your statement and for the clear vision that you have set out in regard to what the social services Bill is designed to achieve. In particular, I welcome the pledge to set up a national adoption agency, and of course the standards and compliance unit for looked-after children. I want to make one point in relation to monitoring and follow-up. One of the issues that I have been working on recently with regard to extending the period of care for looked-after children has been the problems often encountered by care leavers when there is a split in responsibilities in local government departments—for example, between housing, education and social services.

**Kenneth Skates**: Ddirprwy Weinidog, diolch ichi am eich datganiad ac am y weledigaeth glir yr ydych wedi'i chyflwyno o ran yr hyn y bwriedir i'r Bil gwasanaethau cymdeithasol ei gyflawni. Yn benodol, rwy'n croesawu'r addewid i sefydlu asiantaeth fabwysiadu genedlaethol, ac wrth gwrs yr uned safonau a chydymffurfio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Rwyf am wneud un pwynt ynglŷn â monitro a'r camau dilynol. Un o'r materion yr wyf wedi bod yn gweithio arno yn ddiweddar o ran ymestyn y cyfnod gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yw'r problemau y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn eu hwynebu pan mae rhaniad yn y cyfrifoldebau mewn adrannau llywodraeth leol—er enghraifft, rhwng tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

3.15 p.m.

This point has been backed up by the Children's Commissioner for Wales, who pointed out in a report last year that transition support for young people in care is often hampered because, while working relationships between departments were good in many authorities, things were patchier across the board in Wales, with services suffering as a result. Deputy Minister, as the Bill progresses, how will you ensure that integration, equity and simplification run not only through the principles of the Bill, but are also embedded in the culture of local authorities and are effectively monitored for the future?

Mae'r pwynt hwn wedi'i gefnogi gan Gomisiynydd Plant Cymru, a nododd mewn adroddiad y llynedd y rhwystrir cymorth pontio ar gyfer pobl ifanc mewn gofal yn aml oherwydd er bod y cysylltiadau gwaith rhwng adrannau yn dda mewn llawer o awdurdodau, roedd pethau'n fwy clytiog yn gyffredinol yng Nghymru, gyda gwasanaethau yn dioddef o ganlyniad. Ddirprwy Weinidog, wrth i'r Bil fynd rhagddo, sut y byddwch yn sicrhau bod integreiddio, tegwch a symleiddio yn nodweddu nid yn unig egwyddorion y Bil, ond hefyd yn cael eu hymgorffori yn niwylliant awdurdodau lleol ac yn cael eu monitro'n effeithiol ar gyfer y dyfodol?

**Gwenda Thomas:** I thank Ken Skates for those comments; it has already been a pleasure to work with Ken on his Member proposed Bill, the fruits of which I am sure we will see soon. Central and local government hold a unique responsibility as corporate parents for looked-after children. This is a collective role that applies across all areas of local government and local health boards. The director of social services has a key role in championing the removal of obstacles and ensuring that all parts of the local government family, particularly housing, education, their health partners and professionals in the services, act in the best interests of these children.

**Gwenda Thomas:** Diolch i Ken Skates am y sylwadau hynny; mae eisoes wedi bod yn bleser gweithio gyda Ken ar ei Fil arfaethedig Aelod, ac rwyf yn siŵr y byddwn yn gweld ffrwyth y gwaith hwnnw cyn bo hir. Mae gan lywodraeth ganolog a lleol gyfrifoldeb unigryw fel rhieni corfforaethol plant sy'n derbyn gofal. Mae hon yn rôl ar y cyd sy'n berthnasol ar draws pob maes mewn llywodraeth leol a byrddau iechyd lleol. Mae gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol rôl allweddol wrth hyrwyddo diddymu rhwystrau a sicrhau bod holl rannau teulu llywodraeth leol, yn enwedig tai, addysg, eu partneriaid ym maes iechyd a gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau,

yn gweithredu er lles y plant hyn.

## Datganiad: Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru
## Statement: Priorities for the Welsh Historic Environment

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** The historic environment of Wales is rich and varied. It makes Wales distinctive and special. It helps to give us our identity, our pride in place and, crucially, it delivers real and tangible benefits for our people and our communities.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn gyfoethog ac amrywiol. Mae'n gwneud Cymru yn unigryw ac arbennig. Mae'n helpu i roi inni ein hunaniaeth, ein balchder ac, yn hollbwysig, mae'n darparu manteision gwirioneddol a sylweddol ar gyfer ein pobl a'n cymunedau.

When the Welsh Government published its programme for government last September, we made it clear that we saw sustainable development as the central organising principle for everything that we do—that is to say, the social, economic and environmental wellbeing of our people and our communities. This statement outlines further how my vision for a well-protected and accessible historic environment helps to deliver that.

Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen lywodraethu fis Medi diwethaf, fe'i gwnaethpwyd yn glir gennym ein bod yn ystyried datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog i bopeth a wnawn—hynny yw o ran lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ein pobl a'n cymunedau. Mae'r datganiad hwn yn amlinellu ymhellach sut y bydd fy ngweledigaeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol hygyrch ac a ddiogelir yn dda yn helpu i gyflawni hynny.

As Minister for a portfolio that brings heritage together with housing and regeneration, I have the opportunity to develop new integrated strategies that will help my heritage services to work at the heart of wider actions to achieve a more prosperous economy, better places to live and a fairer future. I will be expecting my officials in Cadw and their partners in the historic environment sector to direct their energies to those ends.

Fel Gweinidog dros bortffolio sy'n cyfuno treftadaeth â thai ac adfywio, mae gennyf gyfle i ddatblygu strategaethau integredig newydd a fydd yn helpu fy ngwasanaethau treftadaeth i weithio wrth wraidd y camau gweithredu ehangach i sicrhau economi fwy ffyniannus, lleoedd gwell i fyw a dyfodol tecach. Byddaf yn disgwyl i'm swyddogion yn Cadw a'u partneriaid yn y sector amgylchedd hanesyddol sianelu eu hegni i'r diben hwnnw.

Significantly, this is the first Welsh Government to have powers to seek primary legislation, and we have stated our intention to introduce a heritage Bill for Wales in 2014-15. This gives us a once-in-a-generation opportunity to develop a suite of modern-day measures for our historic environment.

Yn arwyddocaol, hon yw'r Llywodraeth gyntaf yng Nghymru i gael pwerau i ofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, ac rydym wedi datgan ein bwriad i gyflwyno Bil treftadaeth ar gyfer Cymru yn 2014-15. Mae hyn yn rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ddatblygu cyfres o fesurau cyfoes ar gyfer ein hamgylchedd hanesyddol.

We are going to take a fundamental look at current systems and practices in protecting and managing heritage assets. We will also look at the wider social, environmental and other forces that will affect our heritage in the future.

Rydym yn bwriadu cymryd golwg sylfaenol ar systemau ac arferion cyfredol o ran diogelu a rheoli asedau treftadaeth. Byddwn hefyd yn edrych ar y grymoedd cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, ymysg pethau eraill, a fydd yn effeithio ar ein treftadaeth yn

y dyfodol.

In this statement and in the supporting papers that I have published today, I am outlining what I see as the priorities for the Welsh historic environment over the next four years, but with a steady eye on longer-term goals. My statement is intended to inform and stimulate discussion to help us to develop new approaches to managing the historic environment—ones that really work for Wales. I have my own deeply held values and aspirations for Welsh heritage, but I am anxious that others, with their own passion and concerns, have the opportunity to contribute to setting the direction. I will be attending the first workshop on 2 February, and I look forward to hearing peoples' thoughts and ideas then and over the next few months.

Yn y datganiad hwn ac yn y papurau ategol yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw, amlinellaf fy mlaenoriaethau ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru dros y pedair blynedd nesaf, ond gyda golwg gyson ar y nodau tymor hwy. Bwriad fy natganiad yw cynorthwyo ac ysgogi trafodaeth er mwyn ein helpu i ddatblygu dulliau newydd o reoli'r amgylchedd hanesyddol—rhai a fydd yn gweithio'n wirioneddol dros Gymru. Mae gennyf werthoedd a dyheadau angerddol ar gyfer treftadaeth Cymru, ond rwyf yn awyddus i bobl eraill, a chanddynt eu brwdfrydedd a'u pryderon eu hunain, gcael y cyfle i gyfrannu at benderfynu ar y cyfeiriad. Byddaf yn mynychu'r gweithdy cyntaf ar 2 Chwefror, ac edrychaf ymlaen at glywed syniadau pobl bryd hynny a thros y misoedd nesaf.

In the first seven months of 2012, I will be holding consultative workshops and a heritage conference in July to refine our proposals for the heritage Bill and Cadw's work programme, with a view to publishing my historic environment strategy in the autumn.

Yn ystod saith mis cyntaf 2012, byddaf yn cynnal gweithdai ymgynghorol a chynhadledd treftadaeth ym mis Gorffennaf i fireinio'n cynigion ar gyfer y Bil treftadaeth a rhaglen waith Cadw, gyda'r bwriad o gyhoeddi fy strategaeth amgylchedd hanesyddol yn yr hydref.

We are not, of course, approaching this heritage Bill with a blank sheet of paper. Some good work has already been done, and I am pleased to announce today that, following extensive consultation, the Welsh Government will be establishing a register of historic battlefields in Wales. Detailed research on the candidate sites, including fieldwork, has already begun, and I have asked my officials to begin research to inform the registration of the first tranche of historic battlefields, including Pilleth—also known as Bryn Glas—in the course of the next two years. This development may seem modest to some and lengthy, perhaps, to others. However, to many, this move is an acknowledgement of the lasting significance of key moments in our nation's history—victories and defeats by Welsh heroes and villains, and demonstrations of civil protest such as the Newport uprising. These battlefield sites need careful research and investigation if they are to be credibly documented and thereby protected.

Nid ydym, wrth gwrs, yn ymdrin â'r Bil treftadaeth hwn â dalen wag o bapur. Mae rhywfaint o waith da eisoes wedi'i wneud, ac rwyf yn falch o gyhoeddi heddiw, yn dilyn ymgynghori helaeth, y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu cofrestr o feysydd brwydrau hanesyddol yng Nghymru. Mae ymchwil fanwl ar y safleoedd posibl, gan gynnwys gwaith maes, wedi'i dechrau eisoes, ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddechrau ymchwilio er mwyn i hynny fod yn sail i gofrestru'r gyfran gyntaf o'r meysydd brwydrau hanesyddol, gan gynnwys Pyllalai—a elwir hefyd yn Bryn Glas—yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Gall y datblygiad hwn ymddangos yn weddol fach i rai ac yn hirfaith, efallai, i eraill. Fodd bynnag, i lawer, mae'n ddatblygiad sy'n cydnabod arwyddocâd parhaol adegau allweddol yn hanes ein cenedl—buddugoliaethau a gorchfygiadau gan arwyr a dihirod Cymru, a gwrthdystiadau protest sifil megis gwrthryfel Casnewydd. Mae angen ymchwil ac archwiliad gofalus ar leoliadau'r brwydrau hyn os ydynt i'w cofnodi mewn

modd credadwy a thrwy hynny eu gwarchod.

Wales is a proud nation, with a long and dramatic history. It has a historic environment comprising the familiar and the intimate—chapels, ordinary people's terraced houses—as well as sites of world renown. Our heritage has been forged and crafted by the people of Wales, including those who have come here to conquer or to trade, many of whom have stayed. My priorities and vision for this legacy are aimed at delivering policies and practical action focused on our people's wellbeing. I have outlined 10 issues in my priorities document, and I want to end by outlining just three of them here.

Mae Cymru'n genedl falch, sydd â hanes hir a dramatig. Mae ganddi amgylchedd hanesyddol sy'n cynnwys y cyfarwydd a'r cynefin—capeli, tai teras pobl gyffredin—yn ogystal â safleoedd sy'n enwog drwy'r byd. Mae ein treftadaeth wedi'i ffurfio a'i saernïo gan bobl Cymru, gan gynnwys y rhai sydd wedi dod yma i goncro neu i fasnachu—ac mae llawer o'r rheini wedi aros yma. Mae fy mlaenoriaethau a'm gweledigaeth ar gyfer yr etifeddiaeth hon wedi'u hanelu at gyflwyno polisïau a gweithredu ymarferol sy'n canolbwyntio ar les ein pobl. Rwyf wedi amlinellu 10 o faterion yn fy nogfen o flaenoriaethau, ac rwyf am orffen drwy amlinellu tri ohonynt yma.

First, I want to ensure that heritage sites are accessible and enjoyable places to visit, both for visitors to Wales and for people who live here in Wales. Work to develop and enhance the sites in state care, namely those managed by Cadw and those of Amgueddfa Cymru—National Museum Wales, will be a priority. However, I also want my officials to help switch people on to history all over Wales, whoever manages the site. Our all-Wales heritage interpretation plan will set the tone for that, and Cadw will be holding an interpretation strategy workshop to launch this in the autumn.

Yn gyntaf, rwyf am sicrhau bod safleoedd treftadaeth yn lleoedd hygyrch a difyr i ymweld â hwy—ar gyfer ymwelwyr i Gymru ac ar gyfer y bobl sy'n byw yma yng Nghymru. Bydd y gwaith o ddatblygu a gwella'r safleoedd sydd o dan ofal y wladwriaeth, sef y rhai a reolir gan Cadw ac Amgueddfa Cymru, yn cael blaenoriaeth. Fodd bynnag, rwyf hefyd eisiau i'm swyddogion helpu i gyffroi pobl am hanes ledled Cymru, pwy bynnag fo'n rheoli'r safle. Bydd ein cynllun dehongli ar gyfer treftadaeth ledled Cymru yn gosod y naws ar gyfer hynny, a bydd Cadw yn cynnal gweithdy dehongli strategol yn yr hydref i lansio hyn.

Secondly, we will conserve the sites in state care to the best possible standards, working to our published conservation principles and employing a mix of high-quality traditional craftsmanship and innovation to secure our heritage for the future. I will shortly be hosting a heritage skills summit at Caerphilly castle to identify ways in which we can promote and develop heritage building and conservation skills in Wales.

Yn ail, byddwn yn gwarchod y safleoedd sydd o dan ofal y wladwriaeth hyd at y safon orau posibl, gan weithio yn unol â'n hegwyddorion cadwraeth sydd wedi'u cyhoeddi a chan ddefnyddio cymysgedd o grefftwaith traddodiadol o ansawdd uchel ac arloesedd er mwyn sicrhau ein treftadaeth ar gyfer y dyfodol. Cyn bo hir byddaf yn cynnal uwchgynhadledd sgiliau treftadaeth yng nghastell Caerffili i nodi'r ffyrdd y gallwn hyrwyddo a datblygu sgiliau adeiladu a chadwraeth treftadaeth yng Nghymru.

Thirdly, and finally for now, developing new and broader audiences is a priority for me. I will expect Cadw and others in the sector to continue to develop new approaches to engagement, using the arts, performance and spectacle to transform the capacity of our

Yn drydydd, ac yn olaf ar hyn o bryd, mae datblygu cynulleidfaoedd newydd ac ehangach yn flaenoriaeth i mi. Byddaf yn disgwyl i Cadw ac eraill yn y sector barhau i ddatblygu dulliau newydd o ymgysylltu, gan ddefnyddio'r celfyddydau, perfformio a

historic environment, and to reach, excite and involve people.

sioeau i drawsnewid capasiti ein hamgylchedd hanesyddol, ac i gyrraedd, cyffroi a chynnwys pobl.

**Suzy Davies:** I am very pleased that the Minister has made this statement today, and I certainly welcome the announcement regarding the register of battlefields. I hope that he will be open to representations on potential Arthurian sites at some point in due course. I also welcome his very inclusive approach to developing proposals for the heritage Bill, which were set out in today's statement. This is a Bill that will focus on buildings and landscapes of local importance, and it is an opportunity to include all such local sites, so I am a little disappointed that, in his statement today, the Minister focused on three priorities that highlight the work that he plans to do on major sites already in state care. He is right that heritage does not exist in a vacuum. If he is talking about the role of heritage in sustainable development, however, he will need to look outwards to communities. He acknowledges that he cannot assume that long-established ways of working will be viable and relevant—I think that he mentioned that in his supporting papers—so I am pleased that he is going to take a fundamental look at current systems. I am sure that, when he does, he will see that there are already some organisations in our communities that are using arts and performance to engage participation.

**Suzy Davies:** Rwyf yn falch iawn bod y Gweinidog wedi gwneud y datganiad hwn heddiw, ac rwyf yn sicr yn croesawu'r cyhoeddiad ynghylch y gofrestr o feysydd brwydrau. Rwy'n gobeithio y bydd yn fodlon derbyn sylwadau ar safleoedd Arthuraidd posibl ar ryw adeg yn y man. Rwyf hefyd yn croesawu ei ddull cynhwysol iawn o ddatblygu cynigion ar gyfer y Bil treftadaeth, sydd wedi'u nodi yn y datganiad heddiw. Bydd y Bil hwn yn canolbwyntio ar adeiladau a thirweddau o bwysigrwydd lleol, ac mae'n gyfle i gynnwys pob safle lleol o'r fath, felly rwyf ychydig yn siomedig i'r Gweinidog, yn ei ddatganiad heddiw, ganolbwyntio ar dair blaenoriaeth sy'n tynnu sylw at y gwaith y mae'n bwriadu ei wneud ar safleoedd mawr sydd eisoes o dan ofal y wladwriaeth. Mae yn llygad ei le nad yw treftadaeth yn bodoli mewn gwagle. Os ydyw'n sôn am rôl treftadaeth mewn datblygu cynaliadwy, fodd bynnag, bydd angen iddo edrych tuag allan at gymunedau. Mae'n cydnabod nad yw'n gallu cymryd yn ganiataol y bydd y ffyrdd sydd wedi'u hen sefydledu o weithio yn ymarferol a pherthnasol—credaf iddo grybwyll hynny yn ei ddogfennau ategol—felly rwy'n falch ei fod am gymryd golwg sylfaenol ar y systemau cyfredol. Rwyf yn siŵr, pan fydd yn gwneud hynny, y bydd yn gweld bod rhai sefydliadau yn ein cymunedau eisoes yn defnyddio'r celfyddydau a pherfformio i hyrwyddo cyfranogiad.

Could the Minister say how he sees the principles of community asset transfer being incorporated? I note that he has concerns over the resilience of historic environment third sector groups, but does he agree that there are organisations in our communities that could shoulder responsibility for asset maintenance, development, accessibility and enjoyability, and that we should look to them for information on best practice? Could he also reassure us that directing grants towards wider benefits, such as providing housing or community regeneration—another issue cited in the Minister's supporting papers—does not mean a presumption in favour of public bodies, and that the views and plans of viable

A allai'r Gweinidog ddweud sut y mae'n gweld egwyddorion trosglwyddo asedau cymunedol yn cael eu cynnwys? Nodaf ei bryderon ynghylch cadernid grwpiau amgylchedd hanesyddol y trydydd sector, ond a gytuna fod sefydliadau yn ein cymunedau a allai ysgwyddo cyfrifoldeb dros gynnal a chadw asedau, eu datblygu a'u mwynhau, a hygyrchedd yr asedau hynny, ac y dylem edrych atynt hwy am wybodaeth am arferion gorau? A allai hefyd ein sicrhau na fydd cyfeirio grantiau tuag at fanteision ehangach, megis darparu tai neu adfywio cymunedol—sy'n fater arall a nodir yn nogfennau ategol y Gweinidog—yn golygu rhagdybiaeth o blaid cyrff cyhoeddus, ac y

and robust community-based organisations will face an even playing field, or perhaps even greater weighting, in view of their provenance?

bydd safbwyntiau a chynlluniau sefydliadau yn y gymuned sy'n hyfyw ac yn gadarn yn cael yr un chwarae teg, neu y bydd mwy o bwys yn cael ei roi arnynt efallai, o ystyried eu tarddiad?

Finally, could the Minister address a point about certain organisations that already have a role in looking after landscapes, for example? I draw particular attention to the Forestry Commission. The Minister will know that there are plans to create a single environmental body for Wales, so I wonder what his views are on how those plans will affect the Forestry Commission's responsibility for looking after some of our environment heritage.

Yn olaf, a allai'r Gweinidog roi sylw i bwynt sy'n ymwneud â sefydliadau y mae ganddynt eisoes rôl o ran gofalu am dirweddau, er enghraifft? Tynnaf sylw arbennig at y Comisiwn Coedwigaeth. Bydd y Gweinidog yn gwybod bod cynlluniau i greu un corff amgylcheddol i Gymru, felly tybed beth yw ei farn ynghylch sut y bydd y cynlluniau hynny'n effeithio ar gyfrifoldeb Comisiwn Coedwigaeth i ofalu am gyfran o'n treftadaeth amgylcheddol?

**Huw Lewis:** Thank you for a positive opening salvo from the Welsh Conservatives in terms of the period of consultation upon which we now embark. You made relevant points, and it is important that we take them on board. I am sorry that you felt disappointed at the tone of the statement and the documents published today. There is no shutting out of communities and community groups in terms of the agenda before us. One of the most exciting developments, with regard to the heritage aspect of my portfolio, over the last 12 months, has been the wonderful work undertaken by the action group in Cardigan in relation to the town's castle. It was a truly community-driven development, aided and assisted by public bodies. Therefore, there is no closing of the door and there is no presumption in favour of public bodies, necessarily, although everyone has to understand that taking on historic preservation projects often means that involved and complex issues have to be tackled.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am fwrw ati'n gadarnhaol o ran y cyfnod ymgynghori yr ydym yn dechrau arno'n awr. Gwnaethoch bwyntiau perthnasol, ac mae'n bwysig inni eu hystyried. Mae'n ddrwg gennyf eich bod wedi'chsiomi gan naws y datganiad a'r dogfennau a gyhoeddwyd heddiw. Nid oes cymunedau na grwpiau cymunedol yn cael eu cau allan o'r agenda sydd ger ein bron. Un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous yn ystod y 12 mis diwethaf, o ran yr agweddau ar fy mhortffolio sy'n ymwneud â threftadaeth, yw'r gwaith gwych a wnaed gan y grŵp gweithredu yn Aberteifi ynglŷn â chastell y dref. Roedd yn ddatblygiad a symbylwyd yn gyfan gwbl gan y gymuned, gyda chymorth cyrff cyhoeddus. Felly, nid yw'r drws yn cael ei gau o gwbl, ac nid oes rhagdybiaeth o blaid cyrff cyhoeddus, o reidrwydd, er bod rhaid i bawb ddeall bod ymgymryd â phrosiectau cadwraeth hanesyddol yn aml yn golygu bod yn rhaid mynd i'r afael â materion dyrys a chymhleth.

On the Forestry Commission, I will be feeding into the process surrounding the way that the single body is constructed to ensure that issues in relation to the historic environment agenda are preserved.

O ran y Comisiwn Coedwigaeth, byddaf yn cyfrannu at y broses o ran y ffordd y bydd yr un corff yn cael ei lunio i sicrhau bod materion yn ymwneud ag agenda'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu diogelu.

**Mike Hedges:** I congratulate you, Minister, on a well-thought-out and comprehensive document. It has set the tone for something that I, and many other people, feel is very important.

**Mike Hedges:** Rwyf yn eich llongyfarch, Weinidog, am ddogfen gynhwysfawr sydd wedi'i hystyried yn drylwyr. Mae wedi gosod y naws ar gyfer rhywbeth yr wyf i, a llawer o bobl eraill, yn teimlo ei fod yn bwysig iawn.

As you are well aware, I have written an article on chapels in Wales, which I have shared with you, and I have a few points on that subject. In many parts of south Wales—I am sure that your constituency is not that different to mine—there are large, ornate chapels that tower over the old terraced housing. In my constituency, there is the Cwm Chapel in Bonymaen, Tabernacle in Morriston, and Mynyddbach Chapel in Tirdeunaw. The congregations of many of these chapels are seeing a significant decline, and this may be one of the last possible opportunities to keep them in good order for the next 10 or 20 years. I am sure that you share with me the importance of dealing with this, ensuring that we preserve the most important of those chapels. Mynyddbach, for example, was the chapel of Gwyrosydd, the author of *Calon Lân.* There are huge numbers of chapels that are of great historic significance.

Fel yr ydych yn ymwybodol, rwyf wedi ysgrifennu erthygl am gapeli yng Nghymru—ac rydych wedi'i gweld—ac mae gennyf ychydig o bwyntiau ar y pwnc hwnnw. Mewn sawl rhan o dde Cymru—rwy'n siŵr nad yw eich etholaeth chi'n wahanol iawn i'm hetholaeth i—ceir capeli mawr, addurnedig sy'n esgyn uwchlaw'r hen dai teras. Yn fy etholaeth, mae Capel y Cwm ym Môn-y-maen, y Tabernacl yn Nhreforys, a Chapel Mynydd-bach yn Nhirdeunaw. Mae'r gynulleidfa mewn llawer o'r capeli hyn yn crebachu, ac efallai mai hyn fydd un o'r cyfleoedd olaf posibl i'w cadw mewn cyflwr da ar gyfer y 10 neu'r 20 mlynedd nesaf. Rwyf yn siŵr eich bod yn cyd-fynd â mi ynghylch pwysigrwydd ymdrin â hyn, gan sicrhau ein bod yn diogelu'r rhai pwysicaf o blith y capeli hyn. Mynydd-bach, er enghraifft, oedd capel Gwyrosydd, awdur *Calon Lân*. Ceir nifer fawr iawn o gapeli sydd o bwys hanesyddol mawr.

Secondly, would you consider having a review of conservation areas, looking at how they were set up, their size and whether conservation areas, many of which were set up years ago, need their boundaries changed, due to changes that have taken place over recent years? I know that, in the Morriston conservation area, there is a street that ought to be removed, because a lot of things have been done to it that means that it is now no longer part of a conservation area but at the edge of it. There are things like that that you could perhaps look at in the future.

Yn ail, a fyddech yn ystyried cynnal arolwg o ardaloedd cadwraeth, gan edrych ar sut y cawsant eu sefydlu a'u maint, ac, oherwydd iddynt gael eu sefydlu flynyddoedd yn ôl yn aml, a oes angen newid eu ffiniau o ganlyniad i'r newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Gwn y dylid dileu un stryd yn ardal gadwraeth Treforys, oherwydd bod llawer o bethau wedi'u gwneud iddi sy'n golygu nad yw bellach yn rhan o ardal gadwraeth ond, yn hytrach, ar ei hymyl. Efallai y gallech edrych ar bethau felly yn y dyfodol.

**Huw Lewis:** I thank Mike Hedges for his constructive contribution. I have read his article on chapels in Wales, which is thought-provoking; I would recommend it to all Members and members of the public who have an interest in the fate of our chapels and religious buildings. It is a useful contribution to this period in the debate. He is also right to point out in that article that we have something to learn from the Historic Environment Advisory Council for Scotland on the preparatory work that has been done to take a look at the ecclesiastical estate, if you can call it that, in Scotland. We need to work towards that approach here in Wales, also.

**Huw Lewis:** Diolch i Mike Hedges am ei gyfraniad adeiladol. Rwyf wedi darllen ei erthygl am gapeli yng Nghymru, ac mae'n procio'r meddwl; byddwn yn ei hargymell i bob Aelod ac i'r cyhoedd sydd â diddordeb yn nhynged ein capeli a'n hadeiladau crefyddol. Mae'n gyfraniad defnyddiol i'r cyfnod hwn yn y drafodaeth. Mae hefyd yn llygad ei le wrth dynnu sylw yn yr erthygl honno at y ffaith bod gennym rywbeth i'w ddysgu oddi wrth Gyngor Cynghori'r Alban ar yr Amgylchedd Hanesyddol ar y gwaith paratoadol sydd wedi'i wneud i edrych ar yr ystâd eglwysig, os gallwch ei galw felly, yn yr Alban. Rhaid inni weithio tuag at y dull hwnnw yng Nghymru hefyd.

3.30 p.m.

I can inform Mike Hedges that, since he last questioned me on this issue in the Chamber, I have met with the Archbishop of Wales. That will now lead on to regular contact between my officials and the property group of Cytûn—Churches Together in Wales, which includes the Church in Wales and the non-conformist denominations, with a mind to building towards a strategy on churches and chapels within Wales. I also think that we need to add to that list working men's institutes and clubs as buildings that potentially need the same sort of attention, following a visit to Newbridge this week to take a look at the Memo there. I am always struck by the way in which that built heritage has quite often been neglected. In terms of conservation areas, I will add to that list right now for consideration in the consultation process as we go along.

Gallaf ddweud wrth Mike Hedges fy mod, ers iddo fy holi ddiwethaf ar y mater hwn yn y Siambr, wedi cyfarfod ag Archesgob Cymru. Bydd hynny'n awr yn arwain at gyswllt rheolaidd rhwng fy swyddogion a'r grŵp eiddo Cytûn—Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, sy'n cynnwys yr Eglwys yng Nghymru a'r enwadau anghydffurfiol, gyda'r bwriad o adeiladu tuag at strategaeth ar gyfer eglwysi a chapeli yng Nghymru. Rwyf hefyd yn credu bod angen inni ychwanegu sefydliadau a chlybiau'r gweithwyr at y rhestr honno, fel adeiladau sydd â'r potensial y bydd angen rhyw fath o sylw arnynt, yn dilyn ymweliad â Threcelyn yr wythnos hon i edrych ar y Memo yno. Rwyf bob amser yn cael fy nharo gan y ffordd y mae'r dreftadaeth adeiledig yn aml iawn wedi cael ei hesgeuluso. O ran ardaloedd cadwraeth, byddaf yn ychwanegu at y rhestr honno yn awr er mwyn i hynny gael ei ystyried yn y broses ymgynghori wrth inni fynd ymlaen.

**Bethan Jenkins:** It was Plaid Cymru's intention, when in Government in this particular role, to have a say in local historical sites and how they were maintained, and especially how they would benefit local people and local communities, either economically, through tourism, or culturally, in allowing local people to understand fully how the world around them was built. There is much that I would commend in this document, but some of what it promises I found totally at odds with my recent experience in attempting to stop the imminent demolition of the Royal Buildings and Customs House by Coastal Housing Group in my area. The report on Cadw's activities talks about how:

**Bethan Jenkins:** Bwriad Plaid Cymru, pan oedd yn y Llywodraeth yn y rôl benodol hon, oedd cael dweud ei dweud o ran safleoedd hanesyddol lleol a sut y cawsant eu cynnal, ac yn enwedig sut y byddent o fudd i bobl leol a chymunedau lleol, naill ai yn economaidd, drwy dwristiaeth, neu'n ddiwylliannol, drwy alluogi pobl leol i ddeall yn llawn sut y cafodd y byd o'u cwmpas ei adeiladu. Mae llawer y byddwn yn ei gymeradwyo yn y ddogfen hon, ond mae ychydig o'r hyn y mae'n ei addo yn gwbl groes i'm profiad diweddar wrth geisio atal Coastal Housing Group rhag dymchwel y Royal Buildings a Customs House yn fy ardal i. Mae'r adroddiad ar weithgareddau Cadw yn dweud:

'Urban characterisation captures the essence of local distinctiveness to inform regeneration initiatives and provide a baseline for forward planning'

'Drwy ddeall nodweddion trefol rydyn ni'n disgrifio hanfod arbenigrwydd lleol, er mwyn bwydo mentrau adfywio ac mae'n ddull sy'n cynnig sylfaen ar gyfer cynllunio at y dyfodol.'

and how Cadw supports historic buildings that

Dywed hefyd fod Cadw yn cynnal adeiladau hanesyddol sy'n

'bring added value through the regeneration of run-down historic areas'.

'ychwanegu gwerth o ran adfywio ardaloedd hanesyddol sydd wedi dirywio'.

That is all very commendable, but none of

Mae hyn i gyd yn ganmoladwy iawn, ond ni

those pledges were realised by an intransigent Cadw when it came to the Customs House and the Royal Buildings; it ignored its local importance because the windows were wrong. When a local campaigner argued that the building's historical features might be obscured but intact under the more recent plasterboard walls, Cadw, unfortunately, refused to investigate. Minister, how many buildings like the Customs House will be bulldozed before this document becomes effective? How will you assure people that Cadw will abide by its aim of putting local aspirations and concerns at the heart of heritage management across Wales? Can you please instruct Cadw to put a moratorium on all potential demolitions of buildings like the Customs House until this Bill comes to fruition?

chafodd yr un o'r addewidion hynny ei wireddu gan agwedd anhyblyg Cadw mewn cysylltiad â Customs House a'r Royal Buildings; anwybyddodd ei bwysigrwydd lleol am fod y ffenestri yn anghywir. Pan ddadleuodd ymgyrchydd lleol y gallai nodweddion hanesyddol yr adeilad fod yn gyfan, ond wedi'u cuddio o dan y waliau plastr mwy diweddar, gwrthododd Cadw gynnal ymchwiliad, yn anffodus. Weinidog, faint o adeiladau fel Customs House a gaiff eu dymchwel cyn i'r ddogfen hon ddod i rym? Sut y byddwch chi'n sicrhau pobl y bydd Cadw yn cadw at ei nod o roi dyheadau a phryderon lleol wrth wraidd rheoli treftadaeth ar draws Cymru? A allwch chi gyfarwyddo Cadw os gwelwch yn dda i roi moratoriwm ar bob posibilrwydd o ddymchwel adeiladau fel Customs House nes y bydd y Bil hwn wedi dwyn ffrwyth?

I have been kindly invited by Cadw to your horizon scanning workshops. I am curious as to whether the public will be involved and whether campaign groups such as that on the Vulcan Hotel, the one that exists in Port Talbot now, and that which submitted a petition to the Petitions Committee seeking to save its local industrial heritage, will be able to take a key role in that particular scoping exercise. Minister, you need to understand that, while Cadw does a lot of effective work, there is a perception out there that it is not so effective when it comes to its role with regard to some of these schemes. Its public perception role needs to be enhanced if it is to be the key body that will be taking this forward in the future.

Rwyf wedi cael fy ngwahodd yn garedig gan Cadw i'ch gweithdai craffu ar y gorwel. Rwyf yn chwilfrydig ynghylch a fydd y cyhoedd yn cymryd rhan ac a yw grwpiau ymgyrchu fel yr un ar westy'r Vulcan, yr un sy'n bodoli ym Mhort Talbot yn awr, a'r un a gyflwynodd ddeiseb i'r Pwyllgor Deisebau i geisio achub ei dreftadaeth ddiwydiannol leol, yn gallu cymryd rhan allweddol yn y gweithdy penodol hwnnw. Weinidog, er bod Cadw yn gwneud llawer o waith effeithiol, mae angen ichi ddeall bod canfyddiad ar lawr gwlad nad yw ei rôl mor effeithiol mewn perthynas â rhai o'r cynlluniau hyn. Rhaid gwella ei rôl o ran canfyddiad y cyhoedd os yw'n gobeithio bod yn gorff allweddol a fydd yn datblygu hyn yn y dyfodol.

**Huw Lewis:** I thank Bethan Jenkins for her comments. Her preamble, in terms of the need to always have an eye to the benefit to local communities when we undertake this sort of development work in the historic environment, is absolutely at the centre of everything that I am emphasising to my officials, to colleagues in Cadw, and to partner organisations. That is the driver behind a worthwhile heritage/regeneration project—how it benefits local people, and how local people, particularly the young, become involved with their heritage through the project—as well as those nuts and bolts issues of how it benefits the local economy and what it means in terms of jobs and skills,

**Huw Lewis:** Diolch i Bethan Jenkins am ei sylwadau. Mae ei rhagymadrodd, o ran yr angen i gadw golwg bob amser ar y budd i gymunedau lleol wrth gynnal y math hwn o waith datblygu yn yr amgylchedd hanesyddol, yn gwbl ganolog i bopeth rwyf yn ei bwysleisio i'm swyddogion, i gydweithwyr yn Cadw, ac i sefydliadau partner. Dyna sy'n gyrru prosiect treftadaeth/adfywio gwerth chweil—sut y mae o fudd i bobl leol, a sut y mae pobl leol, yn enwedig pobl ifanc, yn cymryd rhan yn eu treftadaeth drwy'r prosiect—yn ogystal â'r manion hynny sy'n ymwneud â sut y mae o fudd i'r economi leol a'r hyn y mae'n ei olygu o ran swyddi a sgiliau, ond, yn fwy na

but, most of all, what it means in terms of civic pride and pride in place.

dim, yr hyn y mae'n ei olygu o ran balchder dinesig a balchder mewn lle.

I am very sorry to hear about your impressions regarding Cadw and the Customs House. It is very much my intention that Cadw should be an effective and enabling organisation. It is worthwhile remembering that, in terms of the future of many of our historic buildings, Cadw is just one player in the picture, and there are other partners with very important roles to play. I welcome, of course, any comments regarding how Members feel the situation might be improved in the future, and those views will be taken very seriously as part of the consultation process. Likewise, campaign groups that wish to use their experience to contribute positively to this process will be more than welcome. The door is open to all citizens of Wales to take part in this consultation.

Mae'n ddrwg gennyf glywed am eich argraffiadau o ran Cadw a Customs House. Fy mwriad yw y dylai Cadw fod yn sefydliad effeithiol ac yn un sy'n galluogi. Mae'n werth cofio nad yw Cadw ond yn un rhan o'r darlun o ran dyfodol llawer o'n hadeiladau hanesyddol, a bod llawer o bartneriaid eraill sydd â rhannau pwysig iawn i'w chwarae. Rwyf yn croesawu unrhyw sylwadau, wrth gwrs, ynghylch sut y mae'r Aelodau'n teimlo y gallai'r sefyllfa gael ei gwella yn y dyfodol, a bydd y safbwyntiau hynny'n cael eu cymryd o ddifrif fel rhan o'r broses ymgynghori. Yn yr un modd, bydd croeso hefyd i grwpiau ymgyrchu sydd am i'w profiad gyfrannu'n gadarnhaol at y broses hon. Mae'r drws yn agored i holl ddinasyddion Cymru gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

**Christine Chapman:** Minister, I pay tribute to you for your very innovative approach to recognising the importance of heritage to our communities and to our sense of identity. It is important that we understand where our roots are to help us to make sense of the present. I have two points to raise, which I hope will contribute to your discussions with officials and to the workshops. First, are you aware that this year marks the one hundred and fortieth anniversary of Côr Mawr, the South Wales Choral Union, winning the large choir class at the National Music Union brass and choral event at the Crystal Palace? The choir, composed of just under 500 singers from the Valleys area, was, of course, conducted by Griffith Rhys Jones, better known as Caradog, a colliery blacksmith from Trecynon, who is commemorated by a statue in Aberdare town centre. Bearing in mind the importance of this achievement to the cultural heritage of the Cynon Valley and the south Wales Valleys more generally, does the Welsh Government have any plans to celebrate this anniversary?

**Christine Chapman**: Weinidog, rwyf yn talu teyrnged ichi am eich dull arloesol iawn o gydnabod pwysigrwydd treftadaeth i'n cymunedau ac i'n synnwyr o hunaniaeth. Mae'n bwysig ein bod yn deall lle y mae ein gwreiddiau er mwyn ein helpu i wneud synnwyr o'r presennol. Mae gennyf ddau bwynt i'w codi, a gobeithio y byddant yn cyfrannu at eich trafodaethau gyda swyddogion ac yn cyfrannu at y gweithdai. Yn gyntaf, a wyddoch fod y flwyddyn hon yn nodi pen-blwydd y Côr Mawr, Undeb Corawl De Cymru, yn 140 oed, gan ennill yn y dosbarth côr mawr yn nigwyddiad pres a chorawl yr Undeb Cerddoriaeth Cenedlaethol yn y Crystal Palace? Roedd y côr, o ychydig o dan 500 o gantorion o ardal y Cymoedd, yn cael ei arwain wrth gwrs gan Griffith Rhys Jones, a adwaenir yn well fel Caradog, gof pwll glo o Drecynon, a chaiff ei goffáu gan gerflun yng nghanol tref Aberdâr. O ystyried pwysigrwydd y llwyddiant hwn i dreftadaeth ddiwylliannol Cwm Cynon a Chymoedd de Cymru yn fwy cyffredinol, a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddathlu'r pen-blwydd hwn?

Secondly, are you aware of the holistic approach to local heritage being taken by Cwm Taf Local Health Board in its plans for the new hospital in the Cynon Valley? Memorabilia from local hospitals,

Yn ail, a ydych yn ymwybodol o ymagwedd gyfannol Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf tuag at dreftadaeth leol yn ei gynlluniau ar gyfer yr ysbyty newydd yng Nghwm Cynon? Mae gwrthrychau cofiadwy o ysbytai lleol, gan

such as plaques, photographs and some furniture, are being moved to the new hospital, with the rest being placed in Aberdare museum. A stained-glass window from Aberdare Hospital is being recommissioned for the new hospital and art work has been commissioned that is based on mouldings taken from historic items, such as old surgical instruments and a staircase. Do you agree, Minister, that this is a very significant way of integrating the old and the new and demonstrating a clear commitment to our past? Do you consider that approach to be a useful one for future public sector building developments?

gynnwys placiau, ffotograffau a rhai dodrefn, yn cael eu symud i'r ysbyty newydd, ac mae'r gweddill yn cael eu rhoi yn amgueddfa Aberdâr. Mae ffenestr liw o Ysbyty Aberdâr yn cael ei hailgomisiynu ar gyfer yr ysbyty newydd ac mae gwaith celf wedi'i gomisiynu sy'n seiliedig ar fowldiau a gymerwyd o eitemau hanesyddol, fel hen offer llawfeddygol a grisiau. A ydych yn cytuno, Weinidog, fod hon yn ffordd arwyddocaol iawn o integreiddio'r hen a'r newydd a dangos ymrwymiad clir i'n gorffennol? A ydych yn credu bod yr ymagwedd honno yn un defnyddiol ar gyfer datblygiadau adeiladu yn y sector cyhoeddus yn y dyfodol?

**Huw Lewis:** I thank Chris Chapman for those insightful observations. I have to admit that I was not aware of the one hundred and fortieth anniversary of Côr Mawr's achievement. I hope that the people of the Cynon Valley will forgive me for that. If the Member is willing to write to me with some details of activities that might be taking place locally, then I would be more than happy to ask officials to take a look at the plans and to consider what the Welsh Government may be able to do to assist.

**Huw Lewis:** Diolch i Chris Chapman am y sylwadau craff hynny. Rhaid imi gyfaddef nad oeddwn yn ymwybodol o ben-blwydd cyflawniad y Côr Mawr yn 140. Gobeithio y bydd pobl Cwm Cynon yn rhoi maddeuant imi am hynny. Os yw'r Aelod yn barod i ysgrifennu ataf gyda rhai manylion am weithgareddau a allai fod yn digwydd yn lleol, byddwn yn fwy na pharod i ofyn i swyddogion edrych ar y cynlluniau ac ystyried yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo.

There is a year of anniversaries approaching rapidly that will be important to all of those who are interested in Welsh heritage, namely 2014, which marks the one hundredth anniversary of the beginning of the first world war, Dylan Thomas's centenary, and the thirtieth anniversary of the miners' strike. My officials and partner organisations such as Amgueddfa Cymru and Cadw are looking at how we will commemorate those three very important anniversaries in Wales's history.

Mae blwyddyn o benblwyddi yn agosáu yn gyflym, a bydd 2014 yn bwysig i bawb sydd â diddordeb yn nhreftadaeth Cymru, gan ei bod yn nodi can mlynedd ers dechrau'r rhyfel byd cyntaf, canmlwyddiant Dylan Thomas, a deng mlynedd ar hugain ers streic y glowyr. Mae fy swyddogion a sefydliadau partner fel Amgueddfa Cymru a Cadw yn edrych ar sut y byddwn yn coffáu'r tri digwyddiad pwysig iawn hyn yn hanes Cymru.

In terms of Cwm Taf LHB, I am marvellously encouraged by its acts in that regard. There is a huge unexploited agenda in terms of how our health services could take best advantage not only of the heritage and history of the communities in which they are embedded, but also of the potential of healthcare settings as venues for the arts—music, in particular, but also the visual arts. I have been working with my colleague, the Minister for Health and Social Services, to take a look at how, even in tough times, we can keep that agenda alive.

O ran BILl Cwm Taf, mae ei weithgareddau yn hynny o beth yn galonogol iawn imi. Mae agenda enfawr nas defnyddwyd hyd yma o ran sut y gallai ein gwasanaethau iechyd fanteisio orau ar dreftadaeth a hanes y cymunedau y maent yn rhan ohonynt, a hefyd ar botensial lleoliadau gofal iechyd fel lleoliadau ar gyfer y celfyddydau—cerddoriaeth, yn benodol, ond hefyd y celfyddydau gweledol. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'm cyd-Aelod, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i edrych ar sut y gallwn, hyd yn oed mewn

cyfnod anodd, gadw'r agenda honno yn fyw.

**Peter Black:** Minister, on Saturday morning, I stood and watched as a grade II listed chapel near my home was, effectively, destroyed, first by fire and then by demolition experts seeking to make it safe. The chapel had been empty for the best part of a decade and had been subject to vandalism and to the elements. However, it still made a major contribution to the architecture and history of the community in which it stood. Its loss is not only sad, but tragic for those who value the heritage that we all enjoy, but which is rapidly vanishing from communities around us because such buildings are neglected or, in the case of the Customs House and Royal Buildings, which Bethan Jenkins mentioned, are deliberately demolished because the people responsible for them do not see their value. I would hope, therefore, that the Bill that you have promised us will start to address some of those problems. It is important that we re-evaluate the value of community buildings, look at how they can be preserved and seek new uses for them. Nobody is really doing that at the moment. Local authorities have some responsibility, but they do not have the resources, or, in many instances, the will to go about doing that. Cadw seems to be focused on the more historic buildings and sites such as castles, many of which were referred to in your statement. There does not seem to be any body that has a proactive role in going out and taking charge of those few remaining community assets and trying to bring them back into use, albeit perhaps a different use than that for which they were originally built.

**Peter Black**: Weinidog, fore Sadwrn, sefais a gwylio capel rhestredig gradd II ger fy nghartref yn cael ei ddinistrio, i bob pwrpas, yn gyntaf gan dân ac yna gan arbenigwyr dymchwel a oedd yn ceisio ei wneud yn ddiogel. Roedd y capel wedi bod yn wag ers bron deng mlynedd ac roedd fandaliaid a'r tywydd wedi gadael eu hôl. Fodd bynnag, roedd yn dal i wneud cyfraniad sylweddol at bensaernïaeth a hanes y gymuned lle roedd yn sefyll. Yn ogystal â'n tristáu, mae ei golled hefyd yn drasiedi i'r rhai sy'n gwerthfawrogi'r dreftadaeth sydd gennym, ond sy'n prysur ddiflannu o'r cymunedau o'n hamgylch gan fod yr adeiladau hyn yn cael eu hesgeuluso neu, yn achos Customs House a'r Royal Buildings, y cyfeiriodd Bethan Jenkins atynt, yn cael eu dymchwel yn fwriadol gan nad yw'r bobl sy'n gyfrifol amdanynt yn gweld eu gwerth. Gobeithio, felly, y bydd y Bil rydych wedi ei addo inni yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r problemau hynny. Mae'n bwysig ein bod yn ailwerthuso gwerth adeiladau cymunedol, yn edrych ar sut y gellir eu cadw ac yn ceisio eu defnyddio o'r newydd. Nid oes neb, mewn gwirionedd, yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae rhywfaint o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol, ond nid oes ganddynt yr adnoddau, neu, mewn llawer o achosion, yr ewyllys i wneud hynny. Ymddengys bod Cadw yn canolbwyntio ar yr adeiladau mwy hanesyddol a safleoedd fel cestyll, a chyfeiriasoch at lawer ohonynt yn eich datganiad. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gorff sydd â rôl ragweithiol i'w chwarae o ran mynd ati i ofalu am yr ychydig asedau cymunedol sydd ar ôl a cheisio'u hailddefnyddio, er y byddai hwnnw'n ddefnydd gwahanol i'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol.

I note that No. 7 of the aims and priorities for the Welsh historic environment sector listed in your discussion document states:

Nodaf fod rhif 7 o'r amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer sector amgylchedd hanesyddol Cymru a restrir yn eich dogfen drafodaeth yn datgan:

'We will continue to allocate grants to support conservation, but the focus of our grant giving will be action to help with assets that are at risk. Grants will also be directed to projects, which provide wider benefit, such as

'Byddwn yn parhau i ddyrannu grantiau i gefnogi cadwraeth ond ffocws ein grantiau fydd gweithredu i helpu gydag asedau sydd mewn perygl. Bydd grantiau hefyd yn cael eu cyfeirio at brosiectau sy'n cynnig budd

providing housing or community regeneration benefits.'

ehangach, megis darparu tai neu fanteision wrth adfywio cymunedau.'

I think that that encapsulates exactly what I have just referred to, but I would be grateful if you could expand on how that will happen, what sort of resource you will be investing, and what responsibilities you will be giving to bodies to go out there and deliver on that for those chapels that are still lying neglected but have not yet suffered the fate of Libanus in Cwmbwrla and for other buildings in a similar situation.

Credaf fod hynny'n crynhoi yn union yr hyn rwyf wedi cyfeirio ato, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ar sut y bydd hynny'n digwydd, pa fath o adnoddau y byddwch yn eu buddsoddi, a pha gyfrifoldebau y byddwch yn eu rhoi i gyrff i fynd ati a chyflawni o ran y capeli sy'n dal i gael eu hesgeuluso, ond nad ydynt eto wedi dioddef yr un dynged â Libanus yng Nghwmbwrla, ac adeiladau eraill sydd mewn sefyllfa debyg.

**Huw Lewis:** I thank Peter Black for his comments. I am sure that many of us, at some point or other, have experienced something similar to your feelings about Libanus chapel in Swansea, which recently burned down. I think that we could all point to historic buildings that we know and love in Welsh communities that have suffered similar fates, and such buildings do have value. However, we must also have an eye to realism when it comes to how we seek out solutions to these problems and find future uses for buildings that are not necessarily ever going to go back, in this instance, to becoming places of worship. That is the difficult issue to address. What matters very much here is that there is active citizenship within the community that cares about buildings such as those. That is where Suzy Davies is quite right to point to the importance of the third sector and of the communities in which these buildings and assets are embedded. In terms of the grants regime, the dose of realism there is that it is very limited in scope and is under pressure in these tough economic times. However, there is scope for the Welsh Government—obviously, we will listen through this consultation—to take on board that we perhaps need some kind of strategic lead when it comes to spreading best practice, identifying which buildings are the best prospects for rapid intervention, and ensuring that we have an appreciation within the entire community of Wales that there are aspects to our built heritage that have traditionally been rather let down, compared with what we have regarded historically as historic. This is not only about cathedrals and castles, but the built environment of much more ordinary communities—communities that nonetheless

**Huw Lewis**: Diolch i Peter Black am ei sylwadau. Rwyf yn siŵr bod llawer ohonom, ar ryw adeg neu'i gilydd, wedi profi teimladau tebyg i'ch rhai chi ynghylch capel Libanus yn Abertawe, a losgodd yn ulw yn ddiweddar. Credaf y gallai pob un ohonom gyfeirio at adeiladau hanesyddol y gwyddom amdanynt ac sy'n annwyl inni mewn cymunedau yng Nghymru, ac sydd wedi dioddef tynged debyg, ac mae'r adeiladau hynny'n werthfawr. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni fod yn wrthrychol hefyd wrth chwilio am atebion i'r problemau hyn a dod o hyd i ddefnydd newydd ar gyfer adeiladau nad ydynt, o reidrwydd, byth am fynd yn ôl, yn yr achos hwn, i fod yn fannau addoli. Dyna sy'n anodd. Yr hyn sy'n bwysig iawn yma yw bod dinasyddiaeth weithgar yn y gymuned, sy'n pryderu am adeiladau fel hyn. Dyna lle y mae Suzy Davies yn hollol iawn i gyfeirio at bwysigrwydd y trydydd sector a'r cymunedau y mae'r adeiladau a'r asedau hyn yn rhan annatod ohonynt. O ran y gyfundrefn grantiau, y gwirionedd yno yw ei bod yn gyfyngedig iawn o ran cwmpas a bod pwysau arni yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Fodd bynnag, mae lle i Lywodraeth Cymru—yn amlwg, byddwn yn gwrando drwy'r ymgynghoriad hwn—dderbyn ei bod yn bosibl y bydd angen rhyw fath o arweiniad strategol o ran lledaenu'r arfer gorau, nodi pa adeiladau sydd â'r rhagolygon gorau ar gyfer ymyrryd yn gyflym, a sicrhau bod cymuned Cymru gyfan yn gwerthfawrogi bod agweddau ar ein treftadaeth adeiledig sydd, yn draddodiadol, wedi cael eu hesgeuluso, o'i gymharu â'r hyn yr ydym wedi ei ystyried yn hanesyddol fel rhywbeth hanesyddol. Nid yw hyn yn ymwneud ag eglwysi cadeiriol a chestyll yn unig, ond amgylchedd adeiledig

have enormous pride in their sense of place.

cymunedau llawer mwy cyffredin—cymunedau sydd, er hynny, yn meddu ar falchder aruthrol yn eu hymdeimlad o le.

3.45 p.m.

**Keith Davies:** Rwyf fi hefyd yn croesawu'r datganiad heddiw, Weinidog. Mae'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn dangos yn glir y pwyslais ar ddatblygiad cynaliadwy sy'n ganolog i holl waith Llywodraeth Cymru. Hoffwn godi dau bwynt. Yn gyntaf, hoffwn gyfeirio at y gwaith o adnewyddu Llanelly House, sef enghraifft wych o reolaeth sympathetig o newidiadau i asedau hanesyddol. Bydd y gwaith hwn yn hwb mawr i'r gymuned leol a'r economi ac yn helpu i adnewyddu canol y dref. Gan fod y gwaith wedi'i ariannu gan bortffolio llywodraeth leol a chymunedau, a yw'r Gweinidog yn cytuno y dylai unrhyw ddatblygiad cynaliadwy, gan gyfeirio'n benodol at dreftadaeth, gael ei gynnwys a'i ystyried ar draws y Llywodraeth? Yn ail, a wnaiff y Gweiniodg ystyried llunio rhestrau lleol ym mhob ardal er mwyn diogelu safleoedd treftadaeth? Mae rhestr o'r fath yng Nghaerfyrddin, er enghraifft, ond nid oes un yn Llanelli.

**Keith Davies:** I also welcome your statement today, Minister. The priorities outlined clearly demonstrate the emphasis on sustainable development, which is central to all the work of the Welsh Government. I want to raise two points. First, I would like to make reference to the regeneration of Llanelly House, an excellent example of sympathetic management of changes to historic assets, which will be a huge boost to the local community and the economy and help to regenerate the town centre. As this was funded by the local government and communities portfolio, will the Minister agree that any sustainable development with specific reference to heritage should be included and considered across Government? Secondly, will the Minister consider creating lists in all areas to safeguard local heritage sites? There is one in Carmarthen, for example, but there is not such a list in Llanelli.

**Huw Lewis:** I thank Keith Davies for his points, which, again, are very relevant to the course of this debate and how it will run. Llanelly House is a shining example of good co-working on the part of a large number of partners in delivering a fantastic result as well as being an integral part of the regeneration of Llanelli town centre. That sort of project must be rapidly learned from with regard to how we as a Government approach our manifesto commitment on the regeneration of town centres up and down Wales. With regard to local lists, it is open to local government to draw up lists of buildings of local importance. That is an option open to people, but, again, I take the point that Keith Davies has made that we have a patchy picture across the country with this sort of proactivity evident in some places but not in others.

**Huw Lewis:** Diolch i Keith Davies am ei bwyntiau, sydd, unwaith eto, yn berthnasol iawn i'r ddadl hon a sut y bydd yn datblygu. Mae Llanelly House yn enghraifft ddisglair o gyd-weithio ar ran nifer fawr o bartneriaid wrth gyflawni canlyniad gwych yn ogystal â bod yn rhan annatod o adfywio canol tref Llanelli. Rhaid dysgu'n gyflym o'r math hwn o brosiect o ran sut yr ydym ni fel Llywodraeth yn ymdrin â'n hymrwymiad maniffesto ynghylch adfywio canol trefi ar hyd a lled Cymru. O ran rhestrau lleol, llywodraeth leol sydd i benderfynu ar lunio rhestrau o adeiladau o bwysigrwydd lleol. Mae hynny'n opsiwn sydd ar gael i bobl, ond, unwaith eto, derbyniaf y pwynt a wnaethpwyd gan Keith Davies fod gennym ddarlun anghyson ar draws y wlad, gyda'r math hwn o weithredu rhagweithiol yn amlwg mewn rhai mannau, ond nid mewn mannau eraill.

## Datganiad: Compact Simpson gyda Llywodraeth Leol
## Statement: The Simpson Compact with Local Government

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** In light of positive recent developments, I want to provide a further update on the progress we are making on reforming public services. Reform is not just a process or a set of words; it is about making a difference to the schools we educate our children in, the hospitals where we treat those who need help, and local government services, such as social services, which help communities across Wales. The financial challenges for the public sector look unlikely to ease over the coming years, and making fundamental changes quickly is therefore critical for protecting and improving public services.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Yng ngoleuni datblygiadau cadarnhaol diweddar, rwyf am roi diweddariad pellach ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Nid proses neu set o eiriau'n unig yw diwygio; mae'n ymwneud â gwneud gwahaniaeth i'r ysgolion sy'n addysgu ein plant, yr ysbytai lle rydym yn trin y rheini y mae angen cymorth arnynt, a gwasanaethau llywodraeth leol, megis gwasanaethau cymdeithasol, sy'n helpu cymunedau ledled Cymru. Mae'n edrych yn annhebygol y bydd yr heriau ariannol o safbwynt y sector cyhoeddus yn lleddfu dros y blynyddoedd nesaf, ac, felly, mae gwneud newidiadau sylfaenol yn allweddol i amddiffyn a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

It is clear that the aggressive cuts to public services funding we see across the border are not reform. That is why, with my Cabinet colleagues, I have protected our front-line services and the people who deliver them. For this Government, delivering reform is about collaboration, simplification and accountability. Collaboration is necessary across all our public services—between our councils, local health boards, the police and the fire service—to deliver for the public. Key to that is successful joint working by local authorities.

Mae'n amlwg nad diwygio yw'r toriadau llym i gyllid gwasanaethau cyhoeddus sydd i'w gweld dros y ffin. Dyna pam, gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet, rwyf wedi diogelu'n gwasanaethau rheng flaen a'r bobl sy'n eu darparu. I'r Llywodraeth hon, mae diwygio yn ymwneud â chydweithredu, symleiddio ac atebolrwydd. Mae cydweithio yn angenrheidiol ar draws ein holl wasanaethau cyhoeddus—rhwng ein cynghorau, byrddau iechyd lleol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân—er mwyn cyflawni ar gyfer y cyhoedd. Mae cydweithio llwyddiannus gan awdurdodau lleol yn allweddol i hynny.

I was pleased that, on 5 December 2011, local government and the Welsh Government, through the partnership council for Wales, took a significant step forward in our collaborative agenda and signed a 'Compact for Change'. This sets out a joint programme of reform to deliver specific commitments, each of which will deliver savings that can be reinvested in front-line services, improved services across Wales or even both. It is a clear programme for delivery over this Government term and a tangible commitment by the Welsh Government and local government to work together to tackle the challenges we face.

Roeddwn yn falch bod llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, ar 5 Rhagfyr 2011, drwy gyngor partneriaeth Cymru, wedi cymryd cam sylweddol ymlaen o ran ein hagenda gydweithredol a llofnodi 'Compact ar gyfer Newid'. Mae hyn yn cyflwyno cyd-raglen ddiwygio i gyflawni ymrwymiadau penodol, a bydd pob un ohonynt yn sicrhau arbedion y gellir eu hailfuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen, gwasanaethau gwell ledled Cymru, neu hyd yn oed y ddau. Mae'n rhaglen glir ar gyfer cyflawni yn ystod tymor hwn y Llywodraeth, ac mae'n ymrwymiad pendant gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gydweithio i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu.

The First Minister's statement on 12 July 2011 set out the Welsh Government's

Bu i ddatganiad y Prif Weinidog ar 12 Gorffennaf 2011 gyflwyno rhaglen

forthcoming five-year legislative programme. It included our intention to bring forward the local government (collaborative measures) Bill. However, the response from local government to the compact negotiations, the positive spirit in which they were conducted and the progress since 5 December have given me assurance that local government is committed to delivering this change with us. It is against this positive progress that I have reconsidered the potential need for further legislation. I am now minded that there is no immediate need for further legislation in the area of collaboration, but I will issue statutory guidance later this year. Through the work of the public service leadership group, I will closely monitor the progress that the various parts of the compact make, and, should it falter or slow, I will reconsider this position on legislation.

ddeddfwriaethol bum mlynedd arfaethedig Llywodraeth Cymru. Roedd yn cynnwys ein bwriad i gyflwyno'r Bil llywodraeth leol (mesurau cydlafurio). Fodd bynnag, mae'r ymateb gan lywodraeth leol i'r trafodaethau ar y compact, ysbryd cadarnhaol y trafodaethau hynny a'r cynnydd ers 5 Rhagfyr wedi rhoi sicrwydd imi fod llywodraeth leol yn ymrwymedig i gyflawni'r newid hwn gyda ni. Rwyf wedi ailystyried yr angen posibl am ddeddfwriaeth bellach o ganlyniad i'r cynnydd cadarnhaol hwn. Rwyf o'r farn nad oes angen uniongyrchol am ddeddfwriaeth bellach ym maes cydweithredu, ond byddaf yn cyhoeddi canllawiau statudol yn ddiweddarach eleni. Drwy waith grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, byddaf yn monitro'n ofalus y cynnydd y mae'r gwahanol rannau o'r compact yn ei wneud, ac, os yw'n methu neu'n araf, byddaf yn ailystyried y safbwynt hwn ar ddeddfwriaeth.

The compact is between the Welsh Government and local government, but effective services that are responsive to the public require wider public service collaboration. The Welsh Government's collaborative footprint for public services is part of my simplification agenda. In standardising collaboration on a common footprint of six specific areas, it enables and supports joint working to meet the needs of individuals and communities across Wales. I am pleased that the recent changes in Supporting People, local safeguarding boards, and social services commissioning have all been based on the footprint.

Compact rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yw hwn, ond mae gwasanaethau effeithiol sy'n ymateb i'r cyhoedd yn gofyn am gydweithio ehangach o ran y gwasanaethau cyhoeddus. Mae ôl-troed cydweithio Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn rhan o'm hagenda symleiddio. Drwy safoni'r cydweithio ar sail ôl-troed cyffredin sy'n cynnwys chwe ardal benodol, mae'n galluogi cydweithio i ddigwydd ac yn ei gefnogi, er mwyn diwallu anghenion unigolion a chymunedau ledled Cymru. Rwyf yn falch bod y newidiadau diweddar mewn perthynas â Cefnogi Pobl, byrddau diogelu lleol, a chomisiynu gwasanaethau cymdeithasol i gyd wedi'u seilio ar yr ôl-troed hwnnw.

The introduction of a single integrated plan and streamlined partnerships is a further demonstration of my commitment to reducing complexity and to simplifying government so that public service and delivery partners can focus on improving outcomes for the people of Wales. Local service boards have made good progress on this agenda, and their leadership is vital in taking this forward.

Mae cyflwyno un cynllun integredig a phartneriaethau syml yn arwydd pellach o'm hymrwymiad i leihau cymhlethdod ac i symleiddio llywodraethu fel y gall gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid sy'n darparu gwasanaethau ganolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl Cymru. Mae byrddau gwasanaethau lleol wedi gwneud cynnydd da ar yr agenda hon, ac mae eu harweinyddiaeth yn hanfodol wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

The third strand of the reform agenda is accountability. The reform of the partnership

Atebolrwydd yw trydydd llinyn yr agenda ddiwygio. Mae diwygio cyngor partneriaeth

council for Wales, which is the statutory forum for central and local partnership, is under way, and I welcome local government's participation in these discussions to ensure a more effective body.

Cymru, sef y fforwm statudol ar gyfer partneriaeth ganolog a lleol, yn mynd rhagddo, ac rwyf yn croesawu cyfranogiad llywodraeth leol yn y trafodaethau hyn er mwyn sicrhau y ceir corff mwy effeithiol.

Effective democratic accountability at a local level is vital to improve service quality and delivery. Effective scrutiny focuses on outcomes for people, not organisations, shifting the perspective from inputs to the delivery of results. I know that scrutiny has acted as a unifying force, helping partners address the complex needs of service users across different political, organisational and geographical boundaries. It has promoted accountability by clarifying different organisations' contributions to delivery. Examples of good practice are emerging across Wales. In south-east Wales, there is joint scrutiny of waste management procurement. In north Wales, a joint LSB between Conwy and Denbighshire is overseen by a shared scrutiny committee.

Mae cael atebolrwydd democrataidd effeithiol yn lleol yn hanfodol i wella ansawdd gwasanaethau a'r modd y'u darperir. Mae craffu effeithiol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer pobl, nid sefydliadau, gan symud y persbectif o fewnbynnau at sicrhau'r canlyniadau. Gwn fod craffu wedi gweithredu fel rhywbeth sy'n uno, gan helpu partneriaid i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth defnyddwyr y gwasanaethau ar draws ffiniau gwleidyddol, sefydliadol a daearyddol gwahanol. Mae wedi hyrwyddo atebolrwydd drwy egluro pa gyfraniad y mae sefydliadau gwahanol yn ei wneud o ran darparu gwasanaethau. Mae enghreifftiau o arfer da yn dod i'r amlwg ledled Cymru. Yn y de-ddwyrain, ceir craffu ar y cyd ar gaffael rheoli gwastraff. Yn y gogledd, mae bwrdd gwasanaethau lleol ar y cyd rhwng Conwy a sir Ddinbych yn cael ei oruchwylio gan bwyllgor craffu a rennir.

Strong collaborative leadership is critical in ensuring delivery going forward. The new structure of the public service leadership group demonstrates a widespread commitment to ensuring that Wales's collaboration agenda moves forward, which contrasts so sharply with the competition and choice agenda pursued across the border. The key role of those who have taken on collective leadership roles cannot be overstated, and I am grateful for their commitment and participation. Through the partnership council, the public service leadership group and its national and regional work streams, we will transparently ensure the delivery of the reform agenda.

Mae arweinyddiaeth gref ar y cyd yn hanfodol wrth sicrhau canlyniadau yn y dyfodol. Mae strwythur newydd grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus yn dangos ymrwymiad cyffredinol i sicrhau bod agenda gydweithio Cymru yn symud yn ei blaen, sy'n cyferbynnu'n llwyr â'r agenda gystadleuaeth a dewis a ddilynir dros y ffin. Ni ellir gorbwysleisio rôl allweddol y rhai sydd wedi ymgymryd â rolau arweinyddiaeth gyfunol, ac rwyf yn ddiolchgar am eu hymrwymiad a'u cyfranogiad. Drwy'r cyngor partneriaeth, grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus a'i ffrydiau gwaith cenedlaethol a rhanbarthol, byddwn yn sicrhau mewn ffordd dryloyw y cyflawnir yr agenda ddiwygio.

The groundwork has been laid for radical reform of the public services in Wales. We have seen commitment clarified in the signing of the compact and a positive response to collaborative leadership. Our task is now to turn these foundations into lasting and sustainable change. I will continue to drive this agenda forward with the support of my cabinet colleagues and of partners across the public services who, I know, are just as

Mae'r gwaith sylfaenol wedi'i wneud ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn modd radical. Dangoswyd ymrwymiad clir wrth arwyddo'r compact ac ymateb cadarnhaol i arwain ar y cyd. Ein tasg yn awr yw sicrhau newid parhaol a chynaliadwy o'r sylfeini hyn. Byddaf yn parhau i yrru'r agenda hon yn ei blaen gyda chefnogaeth fy nghydweithwyr yn y Cabinet a'n partneriaid ar draws y gwasanaethau

committed to better and better-value services as I am.

cyhoeddus sydd, rwyf yn gwybod, yr un mor ymrwymedig ag yr wyf i i weld gwasanaethau gwell sy'n cynnig gwell gwerth.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, I would like to welcome the principles of the Simpson compact, and I support and credit you and your team in your aims in bringing this compact forward.

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, hoffwn groesawu egwyddorion compact Simpson, ac rwyf yn eich cefnogi chi a'ch tim ac yn eich canmol am eich amcanion wrth gyflwyno'r compact hwn.

Collaboration, where services are improved and taxpayers see better value for money, must always remain a priority, and this compact certainly goes some way towards this aim. Proactive public service reform that seeks to bring the public sector, the third sector, our citizens and communities together is a key and fundamental principle of this compact. Collaboration in public service delivery between local authorities is by no means a new idea. It is important that this compact enables greater emphasis on the outcomes rather than the process itself.

Rhaid i gydweithio, lle y bydd gwasanaethau'n cael eu gwella a threthdalwyr yn gweld gwell gwerth am arian, barhau'n flaenoriaeth bob amser, ac mae'r compact hwn yn sicr yn gam tuag at y nod hwn. Diwygio gwasanaethau cyhoeddus mewn modd rhagweithiol, sy'n ceisio dod â'r sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'n dinasyddion a'n cymunedau at ei gilydd, yw egwyddor allweddol a sylfaenol y compact hwn. Nid syniad newydd yw awdurdodau lleol yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig bod y compact hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar y canlyniadau yn hytrach nag ar y broses ei hun.

Paragraph 1.6 of the compact states:

Mae paragraff 1.6 o'r compact yn datgan:

'We have not conducted detailed financial evaluations as to the levels of savings possible'.

Nid ydym wedi cynnal gwerthusiadau ariannol manwl ynghylch yr arbedion posibl.

I look forward to this analysis forming part of the next stage of work. How will you effectively monitor the outcomes of the recommendations of the compact?

Edrychaf ymlaen at weld y dadansoddiad hwn yn ffurfio rhan o gyfnod nesaf y gwaith. Sut y byddwch yn monitro canlyniadau argymhellion y compact?

The fifth principle of the compact states that,

Mae pumed egwyddor y compact yn datgan:

'Local accountability and freedoms must be enhanced'.

Rhaid gwella atebolrwydd a rhyddid lleol.

Empowering communities in the decisions that affect them is a key part of what the people on these benches believe.

Mae rhoi grym i gymunedau o ran y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn rhan allweddol o'r hyn y mae'r bobl ar y meinciau hyn yn ei gredu.

We strongly advocate transparent and democratic accountability in local government, and it is vital that this compact does not undermine those fundamental principles. For example, recommendation 20 of the compact reads:

Rydym yn gryf o blaid atebolrwydd democrataidd a thryloyw mewn llywodraeth leol, ac mae'n hanfodol nad yw'r compact hwn yn tanseilio'r egwyddorion sylfaenol hynny. Er enghraifft, dywedir yn argymhelliad 20 y compact:

‘The Minister should also consider using existing power to support and encourage change through collaboration in the delivery of services.’

Dylai’r Gweinidog hefyd ystyried defnyddio pŵer sy’n bodoli eisoes i gefnogi ac annog newid drwy gydweithredu o ran darparu gwasanaethau.

We do not want to see unilateral action by the Welsh Government to force collaboration or amalgamation. We are agreed on that point. Minister, how will you ensure that collaboration is not unilaterally forced by the Welsh Government, but consulted on appropriately with all stakeholders to include those most affected, namely our residents? The Auditor General for Wales has raised concerns in a letter, as he is unclear in some of the respects. Collaboration has to be the most appropriate method to deliver that purpose. He is concerned that the compact does not sufficiently define the criteria by which councils should judge whether collaboration is or is not the most appropriate action. He goes on to say that it creates a new expectation that councils should make their decisions on the basis of the overall benefit to the public sector. You will be aware of the concerns in that letter. How will you address them? There is much support on these benches for the Simpson compact in its entirety.

Nid ydym am weld gweithredu unochrog gan Lywodraeth Cymru i orfodi cydweithio neu gyfuno. Rydym yn cytuno ar y pwynt hwnnw. Weinidog, sut y byddwch yn sicrhau na fydd cydweithio’n cael ei orfodi’n unochrog gan Lywodraeth Cymru, ond y bydd ymgynghori priodol â’r holl randdeiliaid, gan gynnwys y rheini yr effeithir arnynt fwyaf, sef ein trigolion? Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn llythyr ei fod yn pryderu, gan nad yw’n sicr ynghylch rhai agweddau. Rhaid i gydweithio fod y dull mwyaf priodol i gyflawni’r diben hwnnw. Mae’n pryderu nad yw’r cytundeb yn diffinio’n ddigonol y meini prawf y dylai cynghorau eu defnyddio wrth farnu ai cydweithredu yw’r cam mwyaf priodol neu beidio. Â ymlaen i ddweud bod hynny’n creu disgwyliad newydd y dylai cynghorau wneud eu penderfyniadau ar sail y budd cyffredinol i’r sector cyhoeddus. Byddwch yn gwybod am y pryderon yn y llythyr. Sut y byddwch yn mynd i’r afael â hwy? Mae llawer o gefnogaeth ar y meinciau hyn i gompact Simpson yn ei gyfanrwydd.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for a positive contribution this week for a change. I do not say that lightly, because your support is important. Collectively, across this Chamber, we must seek to enhance service benefits, both financially and in delivery. You are right to raise issues around the delivery elements, and not the policy agenda. That is what the Simpson compact is about. It is about how to measure the improvements to service delivery. You mentioned Government interventions. I, or any future Minister, would not want to be in a position of having to enact the Local Government (Wales) Measure for failure to comply or improve. It is an effective tool to have in the box to ensure that local authorities consider the proposal of collaboration on an outcome basis and fully understand the benefits or otherwise of collaboration, and be able to demonstrate that. I will not accept any authority snubbing the concept of change because that suits it politically. That is a bad place to be, and that

**Carl Sargeant:** Diolch i’r Aelod am gyfraniad cadarnhaol yr wythnos hon, sy’n beth newydd. Nid wyf yn dweud hynny’n ddifeddwl, oherwydd mae eich cefnogaeth yn bwysig. Gyda’n gilydd, ar draws y Siambr hon, rhaid inni geisio gwella’r manteision mewn gwasanaethau, yn ariannol ac o ran eu darparu. Rydych yn gywir i godi materion ynghylch yr elfennau cyflenwi, ac nid yr agenda bolisi. Dyna y mae compact Simpson yn ymwneud ag ef: sut y dylid mesur y gwelliannau o ran darparu gwasanaethau. Gwnaethoch grybwyll ymyriadau gan y Llywodraeth. Ni fyddwn i, ac ni fyddai unrhyw Weinidog yn y dyfodol ychwaith, eisiau gorfod gweithredu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) oherwydd achosion o fethu â chydymffurfio neu wella. Mae’n arf effeithiol i’w gael er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried y cynnig ynghylch cydweithredu ar sail canlyniadau ac yn llwyr ddeall manteision cydweithio neu’r agweddau eraill arno, ac yn gallu dangos

is where the local government Measure could be used. However, I would not lead with that. Signing the compact is a huge step forward in terms of the way in which local government and the Welsh Government will work together to drive the new agenda for public service delivery change.

hynny. Ni fyddaf yn derbyn unrhyw awdurdod yn dirmygu'r cysyniad o newid ar y sail mai dyna sy'n addas iddynt yn wleidyddol. Byddai honno'n sefyllfa wael i fod ynddi, a dyna lle y gellid defnyddio'r Mesur llywodraeth leol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn arwain ar y sail honno. Mae llofnodi'r compact yn gam mawr ymlaen yn y ffordd y bydd llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i fwrw ymlaen â'r agenda newydd ar gyfer newid y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.

On monitoring the outcomes, an important role of the newly formed public service leadership group will be to test the process to see how we drive the compact forward efficiently. The new-style partnership council will also be a test to see whether there are any issues with driving this agenda forward. This is a new style of doing business for the Welsh public. I am encouraged by the engagement of local authorities with the Welsh Government. Together, this will make a difference to service delivery for the citizens whom we work for.

O ran monitro'r canlyniadau, rôl bwysig a fydd gan grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, a ffurfiwyd yn ddiweddar, yw rhoi prawf ar y broses hon i weld sut y gellir bwrw ymlaen â'r compact yn effeithlon. Bydd y cyngor partneriaeth ar ei newydd wedd hefyd yn brawf i weld a oes unrhyw broblemau o ran bwrw ymlaen â'r agenda hon. Mae hwn yn fath newydd o wneud busnes ar gyfer cyhoedd Cymru. Rwyf wedi fy nghalonogi gan yr ymgysylltiad rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd hynny i gyd yn gwneud gwahaniaeth yn y modd y darperir gwasanaethau i'r dinasyddion rydym yn eu cynrychioli.

On your comments about the auditor general, I have seen the letter. I meet the auditor general on a regular basis to discuss any issues and concerns that he may have. The measuring of improvement is a matter for him, but I would not want to see bureaucracy or legislation surrounding the measuring of improvement getting in the way of improvement itself. I will discuss further with the auditor general how to overcome the legislative obstacles to driving improvement forward. I look forward to working with him to see how we can overcome some of the problems.

O ran eich sylwadau am yr archwilydd cyffredinol, rwyf wedi gweld y llythyr. Rwyf yn cyfarfod â'r archwilydd cyffredinol yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion a phryderon sydd ganddo. Mater iddo ef yw mesur y gwelliant, ond ni fyddwn yn dymuno gweld biwrocratiaeth neu ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â mesur gwelliant yn llesteirio unrhyw welliant. Byddaf yn trafod ymhellach â'r archwilydd cyffredinol sut y gellir goresgyn y rhwystrau deddfwriaethol rhag hybu gwelliannau. Edrychaf ymlaen at weithio gydag ef i weld sut y gallwn oresgyn rhai o'r problemau.

**Jenny Rathbone:** I welcome your statement, which is a reflection of the level of collaboration that you are getting across all local authorities, among all public servants, as they engage in this work across regional or national partnerships. We heard useful details on the collaboration in social services earlier by the Deputy Minister for social services. When will we see more of the detail of the proposals that you are working on for areas

**Jenny Rathbone:** Croesawaf eich datganiad, sy'n adlewyrchu'r lefel o gydweithredu a welir ar draws yr holl awdurdodau lleol, ymhlith yr holl weithwyr cyhoeddus, wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith hwn ar draws partneriaethau rhanbarthol neu genedlaethol. Clywsom fanylion defnyddiol am y cydweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn gynharach gan y Dirprwy Weinidog dros wasanaethau cymdeithasol.

such as emergency planning, environmental health and legal services, which could potentially achieve a better, more cost-effective service through collaboration between local authorities?

Pryd y byddwn yn gweld mwy o fanylion y cynigion rydych yn gweithio arnynt ar gyfer meysydd fel cynllunio ar gyfer argyfwng, iechyd yr amgylchedd a gwasanaethau cyfreithiol, a allai, o bosibl, sicrhau gwasanaeth gwell a mwy cost-effeithiol drwy gydweithio rhwng awdurdodau lleol?

4.00 p.m.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her positive contribution. On implementation, the compact has milestone dates for delivery across all interventions with local government. I am happy to furnish Assembly Members with those details, which will give a more thorough view of all the interventions, as opposed to the three that the Member mentioned specifically.

**Carl Sargeant**: Diolch i'r Aelod am ei chyfraniad cadarnhaol. O ran gweithredu, mae gan y compact ddyddiadau cerrig milltir ar gyfer ei gyflwyno ar draws yr holl ymyriadau gyda llywodraeth leol. Rwy'n hapus i roi'r manylion hynny i Aelodau'r Cynulliad, a byddant yn rhoi cyflwyniad mwy trylwyr o'r holl ymyriadau, yn hytrach na'r tri y cyfeiriodd yr Aelod atynt yn benodol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n croesawu'r datganiad hwn. Wrth gwrs, rydym i gyd yn croesawu unrhyw beth sydd yn sôn am fwy o gydweithredu ac yn sôn am geisio darparu gwasanaethau mewn ffordd llawer mwy effeithiol ac effeithlon. Mae'r Gweinidog wedi llwyddo i gyflwyno'r datganiad hwn gyda chryn frwdfrydedd, ond nid oes rhyw lawer ynddo, a bod yn onest.

**Rhodri Glyn Thomas:** I welcome this statement. Of course, anyone of us would welcome something that proposed greater collaboration and sought to provide services in a much more effective and efficient way. The Minister has managed to present this statement with considerable enthusiasm, but it is a bit thin on content, to be honest.

Rydych wedi rhoi'r argraff bod rhyw gydweithrediad hyfryd yn datblygu rhyngoch fel Llywodraeth, a chi fel Gweinidog, ac awdurdodau lleol ledled Cymru. O drafod y compact hwn gydag aelodau o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae'n rhaid imi ddweud wrthych fod ganddynt bryderon. Yn y lle cyntaf, maent yn poeni nad ydych yn barod i gydnabod y gwnaed llawer o waith arloesol ymhell cyn ichi ddechrau sôn am gydweithredu rhwng awdurdodau lleol. Roedd partneriaethau ar waith ac mae'r hyn rydych yn ceisio ei gyflawni yn y fan hon yn anwybyddu'r partneriaethau hynny a'r gweithio ar draws ffiniau sydd wedi bod yn digwydd ymhlith awdurdodau yng Nghymru yn hanesyddol. Maent hefyd yn poeni bod geiriad y compact hwn yn tueddu i gynnwys yr un elfennau o orfodaeth a bygythiad sydd wedi nodweddu'r berthynas rhyngoch ac awdurdodau lleol.

You have given the impression that some delightful collaboration is developing between you as a Government, and you as a Minister, and local authorities throughout Wales. Having discussed this compact with members of local authorities throughout Wales, I must tell you that they have concerns. To begin with, they are concerned that you are not prepared to acknowledge the fact that a great deal of innovative work took place long before you started to talk about collaboration between local authorities. Partnerships were in place, and what you are trying to introduce ignores those partnerships and the cross-border work that has taken place historically between authorities in Wales. They also worry that the wording of this compact tends towards those elements of compulsion and threat that have become the hallmark of the relationship between you and local authorities.

Maent yn poeni hefyd bod y compact hwn yn seilio darpariaeth gwasanaethau yn gyfan

They also have concerns that this compact will base the provision of services entirely on

gwbl ar yr ardaloedd sy'n cael eu cynrychioli gan y byrddau iechyd lleol. Nid yw hynny yn adlewyrchu'r modd y mae pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Felly, mae'n creu problemau pan ydych yn sôn yn barhaus am ardaloedd y byrddau iechyd lleol.

the areas represented by the local health boards. That does not reflect the way in which every service is delivered. Your constant talk of local health board areas therefore gives rise to problems.

Mae pryder hefyd ynglŷn â'r amseru. Mae'n amser rhyfedd i gyflwyno compact sy'n sôn am gydweithrediad rhwng Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol—ychydig fisoedd cyn etholiadau llywodraeth leol. Yn yr un modd â phob etholiad, siŵr o fod, bydd newidiadau. A fyddwch yn ailagor trafodaethau gydag arweinwyr newydd yr awdurdodau, ynteu a ydych yn hyderus y byddant yn derbyn y penderfyniad rydych wedi ei wneud?

There is also a concern about the timing. This is an odd time to be introducing a compact for collaboration between central Government and local government—a few months before local government elections. As with all elections, changes are likely. Will you reopen negotiations with new authority leaders, or are you confident that they will accept the decision that you have made?

Mae pryder hefyd, Weinidog, nad ydych wedi amlinellu eto sut yn union rydych yn bwriadu cyflwyno'r elfennau hyn o gydweithredu. Rydych yn galw ar awdurdodau lleol i gydweithredu ond nid ydych wedi dweud wrthynt beth yw eich cynllun, nac i ba gyfeiriad y dylent fynd—hynny yw, beth yr ydych yn gobeithio ei gyflawni yn y pen draw. Rydym yn clywed llawer am yr angen i lywodraeth leol gydweithio, ond, yn y pen draw, mae angen creu gwasanaethau effeithiol. Beth yw eich bwriadau yn hynny o beth?

There is a further concern, Minister, that you have not yet outlined how exactly you intend to introduce these elements of collaboration. You call on local authorities to collaborate, but you have not told them what your plan is, or which direction they should go in—that is, what you hope to achieve in the long run. We hear a great deal about the need for local government to collaborate, but ultimately, we need to create effective services. What are your intentions in that regard?

Yn olaf, mae cwestiynau wedi'u gofyn eto ynglŷn ag atebolrwydd a chynrychiolaeth. Os ydych yn mynd i ehangu'r ardaloedd lle mae gwasanaethau yn cael eu cyflwyno, beth fydd yn digwydd i atebolrwydd llywodraeth leol? Fel y gofynnodd un cynghorydd imi, beth sydd wedi digwydd i'r syniad o ddarparu gwasanaethau ar gyfer angen y dinesydd? Ymddengys eich bod yn ymdrechu yn y fan hon i ddarparu gwasanaethau er budd y Llywodraeth yn hytrach nag eu budd y bobl sy'n dibynnu arnynt.

Finally, questions have again been asked about accountability and representation. If you are to expand the areas in which services are to be delivered, what will happen to local government accountability? As one councillor put it to me, what has happened to the notion of services provided to meet the needs of the citizen? It would seem that you are endeavouring to provide services for the benefit of the Government rather than for the benefit of the people who depend on them.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his contribution. I would like to say that he is normally very good at scrutinising my statements to the Assembly. Today, however, I was disappointed by his negative and weak contribution, and by many of the angles of questioning, which were unfounded.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Hoffwn ddweud ei fod, fel arfer, yn dda iawn am graffu ar fy natganiadau i'r Cynulliad. Heddiw, fodd bynnag, cefais fy siomi gan ei gyfraniad negyddol a gwan, a llawer o'r cwestiynau, a oedd yn ddi-sail.

The Member suggested that I have ignored—

Awgrymodd yr Aelod fy mod wedi

[*Interruption.*] You might like to listen as well. The Member suggested that I have ignored the previous collaboration agenda between local authorities. That is not true. I have always clearly acknowledged the work that has gone on beyond Simpson, which is only a small part of the work that goes on between local authorities and the broader public sector.

anwybyddu—[*Torri ar draws*.] Efallai yr hoffech chi wrando hefyd. Awgrymodd yr Aelod fy mod wedi anwybyddu'r agenda gydweithio flaenorol rhwng awdurdodau lleol. Nid yw hynny'n wir. Rwyf bob amser wedi cydnabod yn glir y gwaith sydd wedi ei wneud y tu hwnt i Simpson, nad yw ond yn rhan fach o'r gwaith sy'n digwydd rhwng awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach.

The Member also suggested that local authorities have signed a compact that they do not agree with. I would be very disappointed to find that local authorities are signing documents that they do not agree with. It is clearly not true. More locally for the Member, Ceredigion and Powys were yesterday very positive about the whole Simpson agenda and working together to provide the better public service for the citizen that the Member mentioned.

Awgrymodd yr Aelod hefyd fod awdurdodau lleol wedi arwyddo compact nad ydynt yn cytuno ag ef. Buaswn yn siomedig iawn i ganfod bod awdurdodau lleol yn llofnodi dogfennau nad ydynt yn cytuno â hwy. Mae'n amlwg nad yw'n wir. Yn fwy lleol i'r Aelod, roedd Ceredigion a Phowys ddoe yn gadarnhaol iawn ynghylch yr holl agenda Simpson ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwell gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y dinesydd y cyfeiriodd yr Aelod atynt.

The Simpson document has been very clear in demonstrating the spirit of goodwill between the Welsh Government and local government with regard to developing a new style of working together to deliver services. I do not recognise many of the points that the Member made about the negative perception of collaboration and his belief that local authorities have somehow signed up to a document they do not agree with, but which is, after all, jointly owned by the local authorities.

Mae dogfen Simpson wedi dangos yn glir iawn yr ysbryd o ewyllys da rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol o ran datblygu dull newydd o gydweithio i ddarparu gwasanaethau. Nid wyf yn derbyn nifer o'r pwyntiau a wnaeth yr Aelod ynghylch y canfyddiad negyddol o gydweithio a'i gred fod awdurdodau lleol, rywsut, wedi llofnodi dogfen nad ydynt yn cytuno â hi, ond sydd, wedi'r cwbl, yn eiddo ar y cyd i awdurdodau lleol.

I would also suggest that, where Members have councillors asking them about the democratic process in this matter, they should ask them to engage, because the compact is not a threatening issue. This is to do with developing a new way of working, and there is nothing wrong with delivering a better, much more effective and cheaper service for the citizens that they, and we, represent.

Buaswn yn awgrymu, hefyd, lle mae cynghorwyr yn holi'r Aelodau am y broses ddemocrataidd yn y mater hwn, y dylent ofyn iddynt gymryd rhan, gan nad yw'r compact yn fater bygythiol. Mae hyn yn ymwneud â datblygu ffordd newydd o weithio, ac nid oes dim o'i le mewn darparu gwasanaeth gwell, llawer mwy effeithiol a rhatach ar gyfer y dinasyddion y maent hwy, ac yr ydym ninnau, yn eu cynrychioli.

**Peter Black:** I welcome this statement, and in particular the Minister's positive response to the signing of the compact by local government. I also welcome this commitment to shelve, for the time being, the local government collaborative measures Bill, as it would have proved controversial in this Chamber. Certainly, the positive response by

**Peter Black**: Rwyf yn croesawu'r datganiad hwn, ac yn arbennig ymateb cadarnhaol y Gweinidog ynghylch y ffaith bod llywodraeth leol wedi llofnodi'r compact. Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i ohirio'r Bil mesurau cydweithredu llywodraeth leol, am y tro, gan y byddai wedi bod yn ddadleuol yn y Siambr hon. Mae'r ymateb cadarnhaol gan

local government to this agenda, not just in the signing of this compact, but through a range of different measures, justifies the Minister's not proceeding with that Bill.

lywodraeth leol i'r agenda hon, nid yn unig wrth lofnodi'r compact hwn, ond drwy ystod o fesurau gwahanol, yn sicr yn cyfiawnhau penderfyniad y Gweinidog i beidio â bwrw ymlaen â'r Bil hwnnw.

Minister, I have raised this issue on a number of occasions, and I will raise it again now. The key part in terms of collaboration is not just the willingness of local authorities to collaborate with each other, but also the willingness of Welsh Government departments and organisations funded by the Welsh Government, such as the Welsh NHS, to collaborate positively and proactively with local government. There are instances of very good collaboration—the Deputy Minister for social services talked earlier about how we can make progress in that regard—but can you again give a commitment that all of this Government's Ministers are on board with this? Is every aspect of the Welsh Government—each silo, if you like—being told that it has to go out to seek this sort of collaborative approach with local government? Are they actively going out and doing it, and would you be able to provide evidence of that?

Weinidog, rwyf wedi codi'r mater hwn ar sawl achlysur, ac fe'i codaf eto yn awr. Nid parodrwydd yr awdurdodau lleol i gydweithio yw unig ran allweddol cydweithredu ond, hefyd, parodrwydd adrannau Llywodraeth Cymru a sefydliadau a gaiff eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, fel GIG Cymru, i gydweithio'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol gyda llywodraeth leol. Ceir rhai enghreifftiau da iawn o gydweithio—soniodd y Dirprwy Weinidog dros wasanaethau cymdeithasol yn gynharach am sut y gallwn wneud cynnydd yn hynny o beth—ond a allwch chi, unwaith eto, roi ymrwymiad bod holl Weinidogion y Llywodraeth hon yn cytuno â hyn? A yw pob agwedd ar Lywodraeth Cymru—pob uned, os y mynnwch—yn cael gwybod fod yn rhaid iddi fynd allan i chwilio am y math hwn o ymagwedd gydweithredol gyda llywodraeth leol? A ydynt yn mynd ati i wneud hyn, ac a allech ddarparu tystiolaeth o hynny?

**Carl Sargeant:** Thank you, Peter, for your contribution. Of course, I always try to act reasonably in my relationship with local government, and I am glad that you recognise that.

**Carl Sargeant**: Diolch i chi, Peter, am eich cyfraniad. Wrth gwrs, rwyf bob amser yn ceisio gweithredu'n rhesymol yn fy mherthynas â llywodraeth leol, ac rwyf yn falch eich bod yn cydnabod hynny.

What I am trying to develop is a relationship in which we can all see light at the end of the tunnel with regard to service delivery change. If we can approach that together, it might make it much easier.

Yr hyn rwyf yn ceisio ei ddatblygu yw perthynas lle y gall pob un ohonom weld golau ym mhen draw'r twnnel o ran newid y ffordd y darperir gwasanaethau. Os gallwn symud gyda'n gilydd, gallai hynny ei gwneud yn llawer haws.

In terms of the legislation, you are right to recognise the positive contribution of local authorities in working with the Welsh Government and in signing the compact. Again, I was greatly encouraged by that process.

O ran y ddeddfwriaeth, rydych yn iawn i gydnabod cyfraniad cadarnhaol awdurdodau lleol o ran gweithio gyda Llywodraeth Cymru a llofnodi'r compact. Eto, cefais fy nghalonogi gan y broses honno.

The public service leadership group includes representatives from local health boards, local authorities and members of the police and fire service, all of them working together to ensure a joined-up approach to collaboration and improvement across all

Mae'r grŵp arweinyddiaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys cynrychiolwyr o fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol, yr heddlu a'r gwasanaeth tân, a phob un ohonynt yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau dull cydgysylltiedig o gydweithio a gwella ar

public services, right at the delivery end of expectation. I can give you my assurance, and the assurance of Cabinet, that there is collective responsibility for the delivery of the Simpson agenda. It is supported by all of my colleagues and we work together closely to drive this new positive way of delivering services. This is an exciting opportunity for taking public service delivery to a different level in Wales. We can work much more effectively across boundaries. Doing that is sometimes complex, but I do not think that that should stand in the way of making a change for the right reasons.

draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, hyd at y darpariaethau a ddisgwylir. Gallaf i, a gall y Cabinet, eich sicrhau bod cyd-gyfrifoldeb dros gyflwyno agenda Simpson. Mae pob un o fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet yn ei gefnogi ac rydym yn cydweithio'n agos i gyflwyno'r ffordd gadarnhaol newydd hon o ddarparu gwasanaethau. Mae hwn yn gyfle cyffrous i godi'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus i lefel wahanol yng Nghymru. Gallwn weithio yn llawer mwy effeithiol ar draws ffiniau. Mae hynny, weithiau, yn gymhleth, ond nid wyf yn credu y dylai hynny ein rhwystro rhag newid am y rhesymau cywir.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.11 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.11 p.m.*

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lles
## Legislative Consent Motion on the Welfare Reform Bill

*Cynnig NDM4888 Gwenda Thomas*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y Deyrnas Unedig ystyried y darpariaethau pellach y cyfeirir atynt yn y Bil Diwygio Lles sy'n ymwneud â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, yn ogystal â'r darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynnig NDM4713, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Motion NDM4888 Gwenda Thomas*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 29.6 agrees that in addition to the provisions referred to in motion NDM4713 the further provisions referred to in the Welfare Reform Bill relating to the Social Mobility and Child Poverty Commission, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.*

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I move the motion.

Thank you for this opportunity to explain the background to the supplementary legislative consent motion in relation to the Welfare Reform Bill. I also wish to thank the Children and Young People Committee for its consideration of the memorandum at short notice. This supplementary LCM is required because some of the Welfare Reform Bill's provision in respect of the UK child poverty commission falls within the Assembly's legislative competence. Clause 140 and Schedule 13 to the Welfare Reform Bill will amend the Child Poverty Act 2010 so as to expand the remit of the UK child poverty

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas)**: Cynigiaf y cynnig.

Diolch ichi am y cyfle hwn i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol mewn perthynas â'r Mesur Diwygio Lles. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am ystyried y memorandwm ar fyr rybudd. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn yn ofynnol oherwydd bod rhai o ddarpariaethau'r Mesur Diwygio Lles o ran comisiwn tlodi plant y DU yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Bydd Cymal 140 ac Atodlen 13 i'r Bil Diwygio Lles yn diwygio Deddf Tlodi Plant 2010 er mwyn ehangu cylch gwaith comisiwn tlodi plant y

commission to become the UK social mobility and child poverty commission. Since May 2011, discussions have been taking place about further amendments to these provisions, which would restore the balance that was achieved in the Child Poverty Act 2010, between creating a body with a UK-wide remit and respecting the role and accountability of the devolved administrations.

DU i ddod yn gomisiwn symudedd cymdeithasol a thlodi plant y DU. Ers mis Mai 2011, bu trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch diwygiadau pellach i'r darpariaethau hyn, a fyddai'n adfer y cydbwysedd a gafodd ei gyflawni yn Neddf Tlodi Plant 2010, rhwng creu corff gyda chylch gwaith ar gyfer y DU gyfan a pharchu rôl ac atebolrwydd y gweinyddiaethau datganoledig.

Subject to the will of Parliament, instead of the social mobility and child poverty commission's annual report presenting views on progress in implementing the strategies for Wales, Northern Ireland and Scotland, the report will be required to describe the measures taken by the devolved administrations in accordance with their strategies. This would ensure that the commission's report refers to the Welsh strategy, while leaving the assessment of the effectiveness of that strategy as a devolved matter. The wording would be consistent with that which applied to the Secretary of State's annual report in the original Child Poverty Act 2010, for which the National Assembly previously granted consent. The proposed changes would not reinstate the duty to consult with Welsh Ministers, as per the Child Poverty Act 2010, on the appointment of additional members to the commission. However, UK Government and Welsh Ministers will consult each other on the proposed appointments to the commission.

Yn amodol ar ewyllys y Senedd, yn hytrach na chyflwyno sylwadau ar y cynnydd o ran gweithredu'r strategaethau ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, bydd yn ofynnol i adroddiad blynyddol y comisiwn symudedd cymdeithasol a thlodi plant ddisgrifio'r hyn y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn ei wneud yn unol â'u strategaethau. Byddai hyn yn sicrhau bod adroddiad y comisiwn yn cyfeirio at strategaeth Cymru, gan adael yr asesiad o effeithiolrwydd y strategaeth honno fel mater datganoledig. Byddai'r geiriad yn gyson â'r hyn a oedd yn gymwys i adroddiad blynyddol yr Ysgrifennydd Gwladol yn y Ddeddf Tlodi Plant 2010 wreiddiol, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi rhoi cydsyniad iddi. Ni fyddai'r newidiadau arfaethedig yn adfer y ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, yn unol â'r Ddeddf Tlodi Plant 2010, wrth benodi aelodau ychwanegol i'r comisiwn. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth y DU a Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'i gilydd ar y penodiadau arfaethedig i'r comisiwn.

The proposed changes to the Child Poverty Act 2010 do not seek to alter the targets for reducing child poverty, as provided in the 2010 Act. The duty of the Secretary of State to ensure that these targets are met by 2020-21 remains unaltered, and the Welsh Government remains committed to this aim. The Secretary of State will no longer be required to produce annual progress reports on the child poverty targets, but will be required to make a statement on progress made towards the targets by 2020. In terms of reporting arrangements in Wales, the Welsh Government will continue to follow those arrangements set out at section 3(6) of the Children and Families (Wales) Measure 2010. This specifies that Welsh Ministers must, in 2013 and every third year after 2013,

Nid yw'r newidiadau arfaethedig i Ddeddf Tlodi Plant 2010 yn ceisio newid y targedau ar gyfer lleihau tlodi plant, fel y darperir yn Neddf 2010. Mae dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyrraedd erbyn 2020-21 yn aros yr un fath, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i'r nod hwn. Ni fydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, bellach, lunio adroddiadau blynyddol ar y cynnydd o ran y targedau tlodi plant, ond bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud datganiad ar y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y targedau erbyn 2020. O ran trefniadau adrodd yng Nghymru, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn y trefniadau hynny a nodwyd yn adran 3 (6) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

publish a report that contains an assessment of the extent to which the objectives within the strategy have been achieved.

Mae hwn yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, yn 2013 a phob trydedd flwyddyn ar ôl 2013, gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o'r graddau y mae'r amcanion yn y strategaeth wedi'u cyflawni.

4.15 p.m.

The commission's information on indicators will be very useful to us, and continued Welsh involvement in the commission will also ensure that views from Wales feature in future debates on the most effective ways to combat child poverty. Although the provisions concerned are within the Assembly's competence in so far as they relate to Wales, they are set within a UK context. The Social Mobility and Child Poverty Commission will give a picture of what is happening at UK level and at a devolved level. It is only in this way that it can present a complete picture of the action being taken in the UK. It is therefore appropriate for the provision relating to Wales to be included in this Bill. This broadly mirrors what the previous Assembly agreed in the context of the Child Poverty Act 2010.

Bydd gwybodaeth y comisiwn am ddangosyddion yn ddefnyddiol iawn i ni, a bydd cyfranogiad parhaus Cymru yn y comisiwn hefyd yn sicrhau bod sylwadau o Gymru yn rhan o ddadleuon yn y dyfodol ynghylch y ffyrdd mwyaf effeithiol o frwydro yn erbyn tlodi plant. Er bod y darpariaethau o dan sylw o fewn cymhwysedd y Cynulliad i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru, maent yn cael eu gosod o fewn cyd-destun y DU. Bydd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn rhoi darlun o'r hyn sy'n digwydd yn y DU ac ar lefel ddatganoledig. Dim ond yn y modd hwn y gall gyflwyno darlun cyflawn o'r camau a gymerir yn y DU. Mae'n briodol, felly, bod y ddarpariaeth sy'n ymwneud â Chymru yn cael ei chynnwys yn y Bil hwn. Mae hyn yn adlewyrchu'n fras yr hyn y cytunodd y Cynulliad blaenorol arno yng nghyd-destun Deddf Tlodi Plant 2010.

I feel that, in this instance, it would be expedient for us to allow the Westminster Government to legislate on our behalf. This legislative consent motion is therefore placed before you for approval.

Rwy'n teimlo y byddai'n fuddiol, yn yr achos hwn, i ni ganiatáu i Lywodraeth San Steffan ddeddfu ar ein rhan. Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, felly, yn cael ei osod ger eich bron i gael ei gymeradwyo.

**Christine Chapman:** I thank the Deputy Minister for her opening statement. The supplementary memorandum to which today's motion relates was referred to the Children and Young People Committee on 10 January, with a reporting deadline of 20 January. We considered the memorandum at our meetings of 12 and 18 January, but, within the limited time available, we were not able to undertake any public consultation or invite witnesses to give evidence. We wrote to the Deputy Minister to ask for some clarification in relation to two of the three provisions that are the subject of the consent motion, and her letter is annexed to our report. The committee concluded that there is little controversy in respect of the provisions in the Welfare Reform Bill to which the supplementary memorandum relates, and as

**Christine Chapman**: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad agoriadol. Cafodd y memorandwm atodol y mae cynnig heddiw yn berthnasol iddo ei gyfeirio at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 10 Ionawr, ac roedd gofyn cyflwyno adroddiad arno erbyn 20 Ionawr fan bellaf. Cafodd y memorandwm ei ystyried gennym yn ein cyfarfodydd ar 12 a 18 Ionawr, ond, o fewn yr amser cyfyngedig a oedd ar gael, nid oeddem yn gallu cynnal unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus na gwahodd tystion i roi tystiolaeth. Gwnaethom ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i ofyn am eglurhad mewn perthynas â dwy o'r tair darpariaeth sy'n destun y cynnig cydsyniad, ac mae ei llythyr wedi ei atodi at ein hadroddiad. Daeth y pwyllgor i'r casgliad mai ychydig iawn sy'n ddadleuol o ran y darpariaethau yn y Mesur Diwygio Lles y

such, no impediment to the Assembly agreeing the motion before us today. However, in our report, we expressed concerns about the process and timescales for bringing forward the supplementary memorandum and the related motion. I will focus on those two points.

mae'r memorandwm atodol yn ymwneud ag ef ac, felly, nid oes unrhyw rwystr i'r Cynulliad gytuno ar y cynnig sydd ger ein bron heddiw. Fodd bynnag, rydym yn mynegi pryderon yn ein hadroddiad am y broses a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r memorandwm atodol a'r cynnig cysylltiedig. Byddaf yn canolbwyntio ar y ddau bwynt hynny.

First, in relation to process, the supplementary memorandum laid by the Deputy Minister states that the UK Government is considering tabling further amendments to the Bill at the House of Lords Report Stage relating to the annual reporting requirements of the Social Mobility and Child Poverty Commission, and two amendments to that effect were tabled on 17 January. The committee has not been able to consider those amendments in the time available. However, it appears from the Deputy Minister's letter that these new amendments are intended to be encompassed within this legislative consent motion. In relation to these amendments, which were tabled after the supplementary memorandum was laid, we do not believe that it is appropriate for the Assembly or one of its committees to be asked to consider the giving of legislative consent without first being given full details of the provisions to be inserted into the relevant UK Bill.

Yn gyntaf, o ran y broses, mae'r memorandwm atodol a osodwyd gan y Dirprwy Weinidog yn datgan bod Llywodraeth y DU yn ystyried cyflwyno gwelliannau pellach i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adroddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi, yn ymwneud â gofynion adrodd blynyddol y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, a chafodd dau welliant i'r perwyl hwnnw eu cyflwyno ar 17 Ionawr. Nid yw'r pwyllgor wedi gallu ystyried y gwelliannau hynny yn yr amser a ganiatawyd. Fodd bynnag, ymddengys o lythyr y Dirprwy Weinidog y bwriedir i'r gwelliannau newydd hyn gael eu cynnwys yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. O ran y gwelliannau hyn, a gyflwynwyd ar ôl i'r memorandwm atodol gael ei osod, nid ydym yn credu ei bod yn briodol gofyn i'r Cynulliad nac i un o'i bwyllgorau ystyried rhoi cydsyniad deddfwriaethol heb eu bod, yn gyntaf, yn cael manylion llawn am y darpariaethau sydd i gael eu gosod ym Mil perthnasol y DU.

Secondly, in relation to timescales, most of the provisions to which the supplementary memorandum relates were the subject of amendments tabled in the House of Commons on 17 May 2011. However, the memorandum was not laid in the Assembly until 3 January 2012. We know that the Scottish Parliament considered the Welfare Reform Bill at length last year, and it has been the subject of several committee reports between October and December, including consideration of equivalent provisions to those laid in the Assembly on 3 January. In her letter to us, the Deputy Minister has said that the delay in bringing forward the supplementary memorandum was to enable the conclusion of negotiations with the UK Government in order to secure amendments. In this case, we have been asked to consider and report on a memorandum that seeks consent for provisions that were inserted into

Yn ail, mewn perthynas ag amserlenni, roedd y rhan fwyaf o'r darpariaethau y mae'r memorandwm atodol yn ymwneud â hwy yn destun gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mai 2011. Fodd bynnag, ni chafodd y memorandwm ei osod yn y Cynulliad hyd nes 3 Ionawr 2012. Rydym yn gwybod bod Senedd yr Alban wedi ystyried y y Mesur Diwygio Lles yn helaeth y llynedd, a'i fod wedi bod yn destun nifer o adroddiadau pwyllgorau rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, gan gynnwys ystyried darpariaethau sy'n cyfateb i'r rhai a osodwyd yn y Cynulliad ar 3 Ionawr. Yn ei llythyr atom, dywedodd y Dirprwy Weinidog mai'r rheswm dros yr oedi wrth gyflwyno'r memorandwm atodol oedd er mwyn caniatáu i'r trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ddod i ben er mwyn sicrhau gwelliannau. Yn yr achos hwn, rydym wedi cael cais i ystyried a chyflwyno adroddiad ar femorandwm sy'n

the Bill in May last year and for amendments to the Bill that were tabled two days before the committee's reporting deadline. The committee fully acknowledges the explanation provided by the Deputy Minister for the delay in laying the supplementary memorandum and the motion, but we believe that it has impacted on our ability to give the matter appropriate consideration. We consider that, in addition to being given full details of the relevant provisions to be inserted into a UK Bill, the Assembly, or one of its committees, should also be given sufficient time to consider them.

ceisio caniatâd ar gyfer darpariaethau a gafodd eu gosod yn y Bil ym mis Mai y llynedd ac ar gyfer gwelliannau i'r Bil a gafodd eu cyflwyno ddau ddiwrnod cyn y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad arno gan y pwyllgor. Mae'r pwyllgor yn cydnabod yn llawn yr esboniad a roddwyd gan y Dirprwy Weinidog dros yr oedi cyn gosod y memorandwm atodol a'r cynnig, ond rydym yn credu ei fod wedi effeithio ar ein gallu i roi ystyriaeth briodol i'r mater. Yn ogystal â chael manylion llawn y darpariaethau perthnasol sydd i'w cynnwys ym Mil y DU, credwn y dylai'r Cynulliad hefyd, neu un o'i bwyllgorau, gael digon o amser i'w hystyried.

Finally, the Deputy Minister informed the committee that there are different procedures in the Scottish Parliament and the National Assembly for Wales relating to the giving of legislative consent. In the time available to us, we were not able to consider that in any detail. However, we have drawn our report to the attention of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, given its inquiry into the procedures for legislative consent motions and the position in other devolved legislatures.

Yn olaf, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y pwyllgor fod gweithdrefnau gwahanol yn Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru o ran rhoi cydsyniad deddfwriaethol. Yn yr amser a roddwyd i ni, nid oedd yn bosibl i ni ystyried hynny'n fanwl. Fodd bynnag, rydym wedi tynnu sylw'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at ein hadroddiad, o ystyried ei ymchwiliad i'r gweithdrefnau ar gyfer cynigion cydsyniad deddfwriaethol a'r sefyllfa mewn deddfwrfeydd datganoledig eraill.

**Mark Isherwood:** I thank the Deputy Minister for her statement. We know that this only relates to provisions in the Welfare Reform Bill relating to the Social Mobility and Child Poverty Commission, insofar as they fall within the legislative competence of this place, for consideration by the UK Parliament.

**Mark Isherwood**: Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad. Rydym yn gwybod mai dim ond i'r darpariaethau yn y Bil Diwygio Lles sy'n ymwneud â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y mae hyn yn berthnasol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y lle hwn, i'w hystyried gan Senedd y DU.

The advent of the Social Mobility and Child Poverty Commission will see a strengthening of the role of the Child Poverty Commission in holding the UK Government to account, and the commission will report to the UK Parliament and monitor and drive progress towards ending child poverty, improving life chances and increasing social mobility. In that regard, will there be a mechanism for reporting to Welsh Government Ministers or to the Assembly on those matters affecting Wales?

Bydd dyfodiad y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn golygu cryfhau rôl y Comisiwn Tlodi Plant o ran dwyn Llywodraeth y DU i gyfrif, a bydd y comisiwn yn adrodd yn ôl i Senedd y DU ac yn monitro a llywio'r cynnydd tuag at ddileu tlodi plant, gwella cyfleoedd bywyd a chynyddu symudedd cymdeithasol. Yn hynny o beth, a fydd peirianwaith ar gyfer adrodd yn ôl i Weinidogion Llywodraeth Cymru neu i'r Cynulliad ar y materion hynny sy'n effeithio ar Gymru?

I understand that the commission will have a set of key indicators included within the

Rwy'n deall y bydd gan y comisiwn gyfres o ddangosyddion allweddol a gynhwysir o

strategy, which will, for the first time, define how social mobility is measured so that the UK Government can see where it is having the most impact and where it needs to adjust its approach. The Deputy Minister refers to the Children and Families (Wales) Measure 2010 and the reporting required by the Welsh Government from 2013 onwards. On a future occasion, it would be interesting to learn how the reporting required under that Measure will contrast or compare with the reporting undertaken at a UK level.

fewn y strategaeth, a fydd, am y tro cyntaf, yn diffinio sut y caiff symudedd cymdeithasol ei fesur, fel y gall Llywodraeth y DU weld lle mae'n cael yr effaith fwyaf a lle mae angen ei addasu. Cyfeiria'r Dirprwy Weinidog at Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a'r gofyniad bod Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl o 2013 ymlaen. Rywbryd yn y dyfodol, byddai'n ddiddorol dysgu sut y bydd yr adroddiadau sy'n ofynnol o dan y Mesur hwnnw yn cyferbynnu neu'n cymharu â'r adroddiadau a wneir ar lefel y DU.

We note that the social mobility strategy at UK level, to which this relates, sets out progressively to tackle the causes of poverty, rather than just the symptoms, which is something that we applaud. We will support this legislative consent motion, because we need to restore the balance between a body with a UK-wide remit, as you said, Deputy Minister, and the need to refer to the Welsh strategy as a devolved matter. We therefore need to give a picture at both a UK level and devolved level of progress in these important areas.

Rydym yn nodi bod y strategaeth symudedd cymdeithasol ar lefel y DU, y mae hyn yn berthnasol iddi, yn mynd ati'n raddol i fynd i'r afael ag achosion tlodi, yn hytrach na'r symptomau yn unig, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei gymeradwyo. Byddwn yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, oherwydd bod angen adfer y cydbwysedd rhwng corff gyda chylch gwaith ar gyfer y DU gyfan, fel y dywedasoch chi, Ddirprwy Weinidog, a'r angen i gyfeirio at strategaeth Cymru fel mater datganoledig. Felly mae angen rhoi darlun ar lefel y DU a lefel ddatganoledig o'r cynnydd yn y meysydd pwysig hyn.

**Simon Thomas:** Byddwn yn cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Serch hynny, mae gan Blaid Cymru nifer o bryderon ynglŷn â'r ffordd yr aethpwyd ati i wneud y cynnig. Mae gennym hefyd nifer o bryderon ynglŷn â chyd-destun y cynnig.

**Simon Thomas:** We will be supporting the legislative consent motion before us today. However, Plaid Cymru has a number of concerns about the approach to this motion. We also have concerns about the motion's context.

Mae'n briodol ein bod yn trafod y mater hwn drannoeth y penderfyniad a wnaethpwyd neithiwr yn Nhŷ'r Arglwyddi i atal, o leiaf dros dro, rhai o gynlluniau'r Llywodraeth o fewn y Bil Diwygio Lles. Mae hyn yn bryder i Blaid Cymru, gan mai cyd-destun hwn yw'r cwestiwn ynglŷn â sut yr ydym yn mynd i'r afael â thlodi plant a pha un a fyddwn mewn sefyllfa i wneud hynny yng Nghymru wrth i wasanaethau lles ar draws y Deyrnas Gyfunol gael eu tanseilio'n sylweddol.

It is appropriate that we should discuss this issue the day after the decision was made in the House of Lords to halt at least temporarily some of the UK Government's proposals within the Welfare Reform Bill. This is a cause of concern for Plaid Cymru, given that the context of all of this is the question of how we are to tackle child poverty and whether we will be in a position to do that in Wales if welfare services are significantly undermined across the United Kingdom.

Wrth edrych ar y cynnig arbennig hwn, mae sawl peth anffodus amdano. Rwy'n derbyn efallai nad yw pob un agwedd o dan reolaeth y Dirprwy Weinidog, ond, serch hynny, mae angen cofnodi ein pryderon. Yn gyntaf oll, yn

There are several unfortunate elements to this motion. I accept that perhaps not all of them are within the Deputy Minister's control, but we need to put our concerns on record. First of all, contrary to what Mark Isherwood said,

wahanol i'r hyn a ddywedodd Mark Isherwood, mae'r Bil Diwygio Lles yn glastwreiddio rôl y comisiwn. Y ffaith amdani yw na fydd y comisiwn yn adrodd yn annibynnol ar y cynnydd tuag at waredu tlodi plant. Yn hytrach, bydd y comisiwn ar ei newydd wedd yn adrodd ar nifer o agweddau yn ymwneud â'r gwaith o waredu tlodi plant. Gweinidog y Deyrnas Gyfunol yn unig fydd yn gyfrifol am benderfynu a yw tlodi plant wedi cael ei waredu ai peidio. Hynny yw, mae rôl annibynnol y comisiwn yn cael ei thanseilio. Rydym yn gyfeillion, ond gofynnir inni drwy gyfrwng y Bil i gydsynio â'r tanseilio hwnnw; mae'n bwysig inni gydnabod hynny. Nid wyf am eiliad yn awgrymu ein bod yn gwrthod y Bil ac yn gwrthod y cynnig hwn, oherwydd rydym am weld rôl Gweinidogion Cymru yn y gwaith hwn yn parhau. Wedi dweud hynny, mae'r comisiwn yn cael ei lastwreiddio, ac rydym yn cydsynio â hynny drwy gytuno â'r cynnig, mewn ffordd.

the Bill waters down the role of the commission. The fact of the matter is that the commission will not report independently on progress towards eradicating child poverty, but rather the new-look commission will report on a number of aspects related to the eradication child poverty. It is the UK Minister who will have sole responsibility for deciding whether child poverty has been eradicated or not. That means that the commission's independent role is being undermined. We are colleagues, but we are being asked in the Bill to consent to that undermining; it is important that we recognise that point. I am not for one second suggesting that we oppose the Bill and that we should reject this motion, because we want Welsh Ministers to continue to have a role in this work. Having said that, the role of the commission is being watered down and, in a way, we are consenting to that by agreeing to this motion.

Yr ail ffordd mae glastwreiddio'n digwydd yw, er bod y Dirprwy Weinidog wedi dweud fod y dyletswydd ar Weinidogion heb gael ei ddileu—hynny yw, bod dyletswydd o hyd ar Weinidogion i waredu tlodi plant erbyn 2020—nid oes yn rhaid adrodd ar hynny ac nid oes rhaid bod yn atebol i gomisiwn annibynnol yn yr un modd ag y gwelwyd o dan y drefn flaenorol. Rwy'n credu bod hynny'n anffodus.

Even though the Deputy Minister has said that the duty on Ministers has not been removed—that is to say that there is still a duty on Ministers to work towards the eradication of child poverty by 2020—this watering down can also be seen in the very fact that there is no requirement to report on progress and that Ministers will not be accountable to an independent commission, as was the case under the previous system. I think that that is unfortunate.

Yr ail agwedd anffodus ar y broses hon yw'r ffaith bod y ddyletswydd a oedd wedi'i nodi ar wyneb y Bil i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wedi'i dileu. Deallaf fod y Gweinidog a Llywodraeth Cymru wedi dod i ddealltwriaeth gyda Llywodraeth San Steffan y bydd ymgynghori'n digwydd rhwng y Gweinidogion priodol. Os felly, nid wyf yn gwybod pam na allwn gadw'r ddyletswydd honno ar wyneb y Bil, yn hytrach na chydsynio drwy'r cynnig hwn i'w dileu. I bob pwrpas, dyna beth yr ydym yn ei wneud: rydym yn dileu'r ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru, gan ddibynnu ar drefniant rhwng y Llywodraethau yn lle hynny. Mae hynny'n siwtio'r Llywodraethau dan sylw. Fodd bynnag, fel corff deddfu, dylem chwilio bob amser am y ddeddfwriaeth gryfaf posibl. Dyna fy mhryder arall yn y

The second unfortunate aspect of this process is the fact that the duty on the face of the Bill to consult Welsh Ministers has been removed. I understand that the Minister and the Welsh Government have come to an understanding with the Westminster Government that there will be consultation between the relevant Ministers. If that is the case, I cannot see why we could not retain that duty on the face of the Bill, rather than consenting by means of this motion to abolish the duty. To all intents and purposes, that is what we are doing: we are abolishing the duty to consult Welsh Ministers and will therefore depend on an agreement between Governments. That suits the Governments concerned, but, as a legislative body, we should always look for the strongest legislation possible. That is the other concern

cyd-destun hwnnw.

Yn olaf, fel y dywedodd Christine Chapman, fel Cadeirydd y pwyllgor yr wyf yn aelod ohono, mae'r pwyllgor yn pryderu na chawsom ddigon o amser i ystyried yr agweddau hyn yn ddigonol. Byddai wedi bod o fudd i gael tystiolaeth, er enghraifft, er mwyn ceisio penderfynu a yw'r newid cywair hwn o ran y comisiwn yn debygol o effeithio ar effeithiolrwydd polisïau Llywodraeth Cymru o ran gwaredu tlodi plant. Fodd bynnag, nid oedd modd inni gael y dystiolaeth honno. Mae'r newidiadau hyn wedi bod ar y gweill ers y llynedd, a phryderaf yn fawr eu bod ond yn dod i'r Siambr heddiw i ni benderfynu arnynt. Dylem edrych ar hyn mewn perthynas â'n Rheolau Sefydlog, gan ei bod yn ymddangos bod Senedd yr Alban yn delio â materion felly yn fwy effeithiol na'r sefydliad hon. Cafodd y Senedd honno fwy o amser i drafod y mater hwn, er enghraifft. Mae'r pwyllgor y mae'r Dirprwy Lywydd yn ei gadeirio yn edrych ar y Rheolau Sefydlog o ran y materion hyn ar hyn o bryd. Gobeithiaf yn fawr y cawn gyfle i ddysgu gwersi o'r broses anffodus hon.

**Aled Roberts:** Weinidog, fel grŵp, rydym hefyd yn ddigon parod i gefnogi eich cynnig y prynhawn yma. Fel Simon Thomas, rwy'n aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Mae'r pwyllgor hwnnw yn teimlo na chawsom gyfle i drafod y Bil mewn unrhyw fanylder. Mae hynny'n wahanol iawn i'r sefyllfa sy'n bodoli yn Senedd yr Alban. Mae'n fater o bryder i ni bod nifer o adroddiadau wedi dod gerbron y pwyllgor cyfatebol yn Senedd yr Alban a bod y pwyllgor hwnnw wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau ac i dderbyn tystiolaeth ynghylch sut y bydd y Bil hwn yn amharu, efallai, ar bolisïau'r Senedd. Serch hynny, nid wyf am drafod hyn ymhellach. Cefnogaf yn llwyr y sylwadau a wnaed gan Christine Chapman, a gobeithiaf y bydd y pwyllgor y mae'r Dirprwy Lywydd yn ei gadeirio yn barod i ddod ymlaen. Roedd cynnig cydsyniad deddfwriaeth ynghylch Bil rhai misoedd yn ôl a oedd yn ymwneud â byrddau arholiad yn Lloegr, credaf, ac nid oedd y Bil hwnnw'n ddadleuol ychwaith. Fodd bynnag, mae'r broses hon wedi dangos bod yn rhaid inni ystyried ein Rheolau Sefydlog fel sefydliad i weld a oes modd i bwyllgor gael digon o

I have in this context.

Finally, as was said by Christine Chapman, as Chair of the committee of which I am a member, the committee is concerned that we did not have enough time to adequately consider these aspects. It would have been beneficial to hear evidence, for example, in order to try to decide whether this change in tone from the commission is likely to affect the effectiveness of Welsh Government policies on eradicating child poverty. However, it was not possible for us to gather that evidence. These changes have been in the pipeline since last year, and I am very concerned that they are only being brought to the Chamber today for us to make a decision. We should look at this in the context of our Standing Orders, as it appears that the Scottish Parliament deals with these issues much more effectively than is the case here. That Scottish Parliament had more time to discuss this issue, for example. The committee chaired by the Deputy Presiding Officer is looking at our Standing Orders in this regard at the moment. I very much hope that we will be able to learn the lessons of this unfortunate process.

**Aled Roberts:** Deputy Minister, as a group, we too are happy to support your motion this afternoon. Like Simon Thomas, I am a member of the Children and Young People Committee. That committee feels that we were not given an opportunity to discuss the Bill in any detail. That is very different to the situation in the Scottish Parliament. It is a matter of concern to us that a number of reports were put before the corresponding committee in Scotland and that that committee was able to ask questions and receive evidence on how the Bill would impact, perhaps, upon the Scottish Parliament's policies. However, I will say no more about that. I fully support the comments made by Christine Chapman, and I hope that the committee chaired by the Deputy Presiding Officer will make progress. There was a legislative consent motion a few months ago on a Bill dealing with examination boards in England, I believe, which was not controversial either. However, this process demonstrates that we have to look again at our Standing Orders as an institution to see whether it would be possible

amser i drafod Biliau o'r math hwn a chymryd tystiolaeth yn eu cylch yn y dyfodol.

for a committee to be given adequate time to discuss Bills of this kind and to take evidence on them in the future.

**Suzy Davies:** I endorse what everyone has said about timing with regard to this motion. I make it plain that we will be supporting the motion. However, it could have been something far more controversial that the Children and Young People Committee was asked to consider over just two days. We must look now at ensuring that such timing issues do not arise again, lest we fall foul of the accusation that the Assembly is not carrying out its scrutiny role terribly efficiently.

**Suzy Davies**: Rwyf yn cadarnhau yr hyn y mae pawb wedi'i ddweud ynghylch amseru o ran y cynnig hwn. Rwyf yn ei gwneud yn glir y byddwn yn cefnogi'r cynnig. Fodd bynnag, gallai'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fod wedi cael cais i ystyried rhywbeth llawer mwy dadleuol dros ddau ddiwrnod yn unig. Rhaid inni edrych yn awr ar sicrhau nad yw materion amseru o'r fath yn codi eto, rhag inni orfod wynebu'r cyhuddiad nad yw'r Cynulliad yn effeithlon o gwbl o ran cyflawni ei rôl o graffu.

I draw Members' attention to the fact that the Constitutional and Legislative Affairs Committee will be producing a report that covers the matters that have been of concern to people today. When the report comes out, we should all look at it closely to ensure that this kind of problem with timing does not occur again.

Tynnaf sylw'r Aelodau at y ffaith y bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys y materion sydd wedi peri pryder i bobl heddiw. Pan gyhoeddir yr adroddiad, dylai pob un ohonom ei ystyried yn graff er mwyn sicrhau nad yw'r math hwn o broblem ynghylch amseru yn codi eto.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I thank all those who have contributed and also take this opportunity to thank all of the officials for their dedicated and hard work on this task. In relation to the point made by the Chair of the committee, I will clarify the timescale. These amendments were laid during the period of the Assembly elections. There were long negotiations over the summer months. I was not prepared to relinquish the right of this Assembly to monitor and hold the Ministers here to account. That was the issue, and the amendments sought to allow the Commission to report on the progress of this Assembly and other devolved administrations. I felt that that was the result of this Assembly and I do not think that you would have forgiven me if I had not held out on that issue. Also, referring to the point on the reporting arrangements, they are as I set out in my opening remarks.

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas)**: Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu, a manteisiaf ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'r holl swyddogion am eu gwaith ymroddgar a chaled ar y dasg hon. Mewn perthynas â'r pwynt a wnaed gan Gadeirydd y pwyllgor, rwyf am egluro'r amserlen. Cafodd y gwelliannau hyn eu gosod yn ystod cyfnod etholiad y Cynulliad. Cafwyd trafodaethau hir dros fisoedd yr haf. Nid oeddwn yn barod i ildio hawl y Cynulliad hwn i fonitro a dwyn y Gweinidogion yma i gyfrif. Dyna oedd y mater o dan sylw, ac roedd y gwelliannau yn ceisio caniatáu i'r Comisiwn adrodd ar gynnydd y Cynulliad hwn a gweinyddiaethau datganoledig eraill. Roeddwn yn teimlo mai dyna oedd canlyniad y Cynulliad hwn ac nid wyf yn credu y byddech wedi maddau i mi os na fuaswn wedi dal ati ar y mater hwnnw. Hefyd, gan gyfeirio at y pwynt ynghylch y trefniadau adrodd, maent fel y nodais yn fy sylwadau agoriadol.

4.30 p.m.

The issue about Scotland is that it has different Standing Orders, as Simon has said. In Scotland, to the best of my understanding,

Y mater ynghylch yr Alban yw fod ganddi Reolau Sefydlog gwahanol, fel y dywedodd Simon. Yn yr Alban, hyd y gwn, gellir

a motion can be put down at the same time as the memorandum. That is not how we operate here. Therefore, Scotland was able to put down the motion. Also, the Scottish Parliament's previous term was longer than ours; it did not rise until 22 December. Therefore, that is the difference between the two legislatures. As soon as I got agreement from Maria Miller MP and the coalition Government, I asked for it in writing. We got that in the middle of December. A motion was put down immediately and hence the debate today. It is now approaching the third stage of the Lords' process, and I think it is unprecedentedly late for amendments to be put, but, nevertheless, support for this motion today will place Wales in a better position with regard to moving forward on this important agenda.

cyflwyno cynnig ar yr un pryd â'r memorandwm. Nid dyna sut rydym yn gweithredu yma. Felly, roedd yr Alban yn gallu cyflwyno'r cynnig. Hefyd, roedd tymor blaenorol Senedd yr Alban yn hwy na'n tymor ni; ni chododd hyd nes 22 Rhagfyr. Felly, dyna'r gwahaniaeth rhwng y ddwy ddeddfwrfa. Cyn gynted ag y cefais gytundeb gan Maria Miller AS a'r Llywodraeth glymbleidiol, gofynnais amdano yn ysgrifenedig. Cawsom hynny ganol mis Rhagfyr. Cafodd y cynnig ei gyflwyno ar unwaith, ac felly dyna pam y ceir y ddadl heddiw. Mae bellach yn agosáu at gyfnod tri proses Tŷ'r Arglwyddi, ac rwy'n credu ei fod yn anarferol o hwyr i welliannau gael eu rhoi, ond, serch hynny, byddai cefnogi'r cynnig hwn heddiw yn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa well o ran symud ymlaen ar yr agenda bwysig hon.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The proposal is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd**: Y cynnig yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Rhaglenni Ewropeaidd
## European Programmes

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 3 a 4 yn enw Peter Black.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of William Graham, amendment 2 in the name of Jocelyn Davies and amendments 3 and 4 in the name of Peter Black.

*NDM4897 Jane Hutt*

*NDM4897 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi:*

*1. Notes:*

*a) cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Rhaglenni Gwledig a Physgodfeydd;*

*a) the European Commission's legislative proposals for Structural Fund, and Rural and Fisheries programmes;*

*b) 'cyfnod ystyried' Llywodraeth Cymru sy'n ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch y*

*b) the Welsh Government's "Reflection exercise" which seeks stakeholders' views on*

*blaenoriaethau strategol ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd arfaethedig yng Nghymru (2014–2020);*

*the strategic priorities for the prospective European programmes in Wales (2014–2020); and*

*c) ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau cysylltiadau Cymru â sefydliadau'r UE ymhellach wrth ddatblygu a gweithredu ei Rhaglenni Ewropeaidd.*

*c) the Welsh Government's commitment to strengthening further Wales' links with the EU institutions in the development and implementation of its European Programmes.*

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I move the motion.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies)**: Cynigiaf y cynnig.

The purpose of the debate this afternoon is to outline the actions that the Government is taking in our response to the recently published regulations governing the new European programmes. The purpose is also to listen to Members' views and what they have to say this afternoon. I had previously given undertakings to Members that I would give them the opportunity to discuss these matters and hear what they have to say. I hope the debate this afternoon goes some way to ensuring that Members feel that they are fully involved and engaged in this debate.

Diben y ddadl y prynhawn yma yw amlinellu'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd yn ein hymateb i'r rheoliadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n rheoli'r rhaglenni Ewropeaidd newydd. Y diben hefyd yw gwrando ar farn yr Aelodau a'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud y prynhawn yma. Roeddwn wedi rhoi addewid i'r Aelodau eisoes y buaswn yn rhoi cyfle iddynt drafod y materion hyn a chlywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Gobeithio y bydd y ddadl y prynhawn yma yn rhoi ychydig o sicrwydd i'r Aelodau eu bod yn cymryd rhan lawn ac yn cael eu cynnwys yn y ddadl hon.

Before I make my preliminary remarks, I will outline the Government's response to the motions that have been laid for this debate. We will be opposing amendment 1 in the name of William Graham, more because of what it deletes from the motion, than because of what it says. Clearly, we agree that we need to deliver European programmes efficiently and effectively and ensure the maximum benefit for the people of Wales. We agree with that but we do not wish to delete what is there. We believe that those programmes are being delivered in that way at present.

Cyn imi wneud fy sylwadau rhagarweiniol, amlinellaf ymateb y Llywodraeth i'r cynigion a osodwyd ar gyfer y ddadl hon. Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 1 yn enw William Graham, yn bennaf oherwydd yr hyn y mae'n ei ddileu o'r cynnig, yn hytrach nag oherwydd yr hyn mae'n ei ddweud. Rydym yn amlwg yn cytuno bod angen inni gyflwyno rhaglenni Ewropeaidd mewn modd effeithlon ac effeithiol a sicrhau'r budd mwyaf i bobl Cymru. Rydym yn cytuno â hynny ond nid ydym am ddileu yr hyn sydd yno. Credwn fod y rhaglenni hynny yn cael eu darparu yn y ffordd honno ar hyn o bryd.

We will be accepting amendment 2 in the name of Jocelyn Davies. While it is all very well for Plaid Cymru Members to say that they want direct representations to be made to European and EU institutions, it is important to remember that Plaid Cymru had the oppportunity to do this in Government and it did not do it. My predecessor, as the Minster for agriculture, attended three Council of Ministers meetings in four years. I have attended more than that in six months.

Byddwn yn derbyn gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies. Er ei bod yn ddigon derbyniol bod Aelodau Plaid Cymru yn dweud eu bod am i sylwadau gael eu gwneud yn uniongyrchol i sefydliadau Ewropeaidd a'r UE, mae'n bwysig cofio bod Plaid Cymru wedi cael y cyfle i wneud hynny pan oedd mewn Llywodraeth ac ni wnaeth hynny. Aeth fy rhagflaenydd, fel y Gweinidog amaeth, i dri chyfarfod o Gyngor y Gweinidogion mewn pedair blynedd. Rwyf wedi bod i fwy

The former Deputy First Minister took no opportunity to attend a General Affairs Council to speak on structural funds for Wales. Therefore, there are real differences between the rhetoric and the reality of the opportunities available at the time.

na hynny mewn chwe mis. Ni fanteisiodd y cyn Ddirprwy Brif Weinidog ar unrhyw gyfle i fynd i'r Cyngor Materion Cyffredinol i siarad am gronfeydd strwythurol ar gyfer Cymru. Mae gwahaniaethau mawr, felly, rhwng y rhethreg a gwirionedd y cyfleoedd sydd ar gael ar y pryd.

We will be accepting both amendments in the name of Peter Black. We agree that we need to ensure that outputs and opportunities improve the impact of the next round of structural funding. That is a fair point to make. The way in which the regulations have been proposed will enable that to happen, and that is something with which we very much agree. We also agree that money should all be targeted at schemes that create sustainable jobs. It is worth noting that we believe that 10,000 new jobs have been created as a consequence of the current programmes. Therefore, we will be accepting both of these amendments.

Byddwn yn derbyn y ddau welliant yn enw Peter Black. Rydym yn cytuno bod angen inni sicrhau bod cynnyrch a chyfleoedd yn gwella effaith y cylch nesaf o gyllid strwythurol. Mae hynny yn bwynt teg i'w wneud. Bydd y ffordd y cynigir y rheoliadau yn galluogi hyn i ddigwydd, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn cytuno'n bendant arno. Rydym hefyd yn cytuno y dylai'r holl arian gael ei dargedu at gynlluniau sy'n creu swyddi cynaliadwy. Mae'n werth nodi ein bod yn credu bod 10,000 o swyddi newydd wedi cael eu creu o ganlyniad i'r rhaglenni cyfredol. Byddwn, felly, yn derbyn y ddau welliant hyn.

This afternoon, I would like to outline our approach and emerging views on the Commission's proposals. Wales currently benefits, over a seven-year period, from £1.9 billion under the structural funds programmes and £300 million under the rural development programme. European funding has contributed significantly to the overall socioeconomic and environmental wellbeing of Wales. I am determined that Wales's voice will be heard in the discussions that are now taking place on the legislative proposals that were recently put forward by the European Commission, that we engage in a meaningful discussion with partners across Wales on the shape of future programmes, and that Wales maintains its vitally important and productive relationships with both the United Kingdom Government and the institutions of the European Union.

Y prynhawn yma, hoffwn amlinellu ein hymagwedd a'r safbwyntiau sy'n dod i'r amlwg ar gynigion y Comisiwn. Ar hyn o bryd, dros gyfnod o saith mlynedd, mae Cymru yn elwa ar £1.9 biliwn o dan raglenni'r cronfeydd strwythurol a £300 miliwn o dan y rhaglen datblygu gwledig. Mae arian Ewropeaidd wedi cyfrannu'n sylweddol at les economaidd-gymdeithasol cyffredinol ac amgylcheddol Cymru. Rwy'n benderfynol y bydd llais Cymru yn cael ei glywed yn y trafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd ynghylch y cynigion deddfwriaethol a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, ein bod yn cymryd rhan mewn trafodaeth ystyrlon gyda phartneriaid ledled Cymru ynghylch ffurf rhaglenni yn y dyfodol, a bod Cymru yn dal gafael ar y berthynas hanfodol bwysig a chynhyrchiol sydd ganddi â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

The European Commission's proposals were widely welcomed at the General Affairs Council in December, and we believe that they provide a good, solid starting point for negotiations. There is much to be welcomed in the proposals and we believe that they present a number of new opportunities and challenges for Wales.

Cafodd cynigion y Comisiwn Ewropeaidd groeso cyffredinol yn y Cyngor Materion Cyffredinol ym mis Rhagfyr, ac rydym yn credu eu bod yn cynnig man cychwyn cadarn ar gyfer trafodaethau. Mae llawer i'w groesawu yn y cynigion ac rydym yn credu eu bod yn cynnig nifer o gyfleoedd a heriau newydd i Gymru.

The goals of Europe 2020, which include the promotion of smart, sustainable and inclusive growth, are fully aligned with the Welsh Government's aims and aspirations for Wales. I am therefore pleased to see that the Commission's draft regulations contain a very strong focus on supporting the Europe 2020 programme and vision. Our current programmes are supporting significant investments to promote innovation, to address environmental challenges and to promote greater social cohesion. I am pleased to announce this afternoon that EU funding of £1.8 million for an innovative Cardiff University-led £3 million project will, through piloting ways of creating clean, renewable energy within buildings, help us to deliver our goals for innovation and the goals of the EU 2020 vision.

Mae amcanion Ewrop 2020, sy'n cynnwys hyrwyddo twf doeth, cynaliadwy a chynhwysol, yn cyd-fynd yn llawn ag amcanion a dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Rwy'n falch, felly, o weld bod rheoliadau drafft y Comisiwn yn cynnwys ffocws cryf iawn ar gefnogi rhaglen a gweledigaeth Ewrop 2020. Mae ein rhaglenni cyfredol yn cefnogi buddsoddiadau sylweddol i hybu arloesedd, i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol ac i hyrwyddo mwy o gydlyniant cymdeithasol. Rwyf yn falch o gyhoeddi'r prynhawn yma y bydd £1.8 filiwn o arian yr UE ar gyfer prosiect arloesol gwerth £3 miliwn a gaiff ei arwain gan Brifysgol Caerdydd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion ar gyfer arloesedd ac amcanion gweledigaeth Ewrop 2020 drwy dreialu ffyrdd o greu ynni glân, adnewyddadwy mewn adeiladau.

I also welcome the Commission's emphasis on the improved integration of the structural funds with the rural development and fisheries funds through a common strategic framework. In many ways, this has been the holy grail of the development of European regional policy—to bring together different funds and programmes, to integrate them and then to simplify their delivery. If it is done well, it will offer opportunities to simplify access to funding and to enhance the delivery of programmes through closer collaboration and co-operation. The Government has already taken action through the creation of the new European programmes directorate to position ourselves to capitalise on the opportunities that greater integration presents.

Rwyf hefyd yn croesawu pwyslais y Comisiwn ar integreiddio'r cronfeydd strwythurol gyda'r gronfa datblygu gwledig a'r gronfa pysgodfeydd yn well, drwy fframwaith strategol cyffredin. Mewn sawl ffordd, bu hyn yn ganolog i ddatblygiad polisi rhanbarthol Ewropeaidd—i ddwyn ynghyd y gwahanol gronfeydd a rhaglenni, eu hintegreiddio ac yna symleiddio'r gwaith o'u cyflawni. Os caiff ei wneud yn dda, bydd yn cynnig cyfleoedd i symleiddio mynediad at gyllid a gwella'r modd o ddarparu'r rhaglenni drwy gydweithio a chydweithredu agosach. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi dechrau gweithredu, drwy greu'r gyfarwyddiaeth rhaglenni Ewropeaidd newydd er mwyn ein rhoi mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd a fydd yn deillio o gael mwy o integreiddio.

**Nick Ramsay:** Thank you for giving way. I am intervening because I agree with what you have just said. You said that you want to improve the efficiency of European programmes. On that basis, I do not understand why you are rejecting our amendment, because your motion, as it stands, does not refer in any way to the development of efficient European programmes.

**Nick Ramsay**: Diolch i chi am ildio. Rwyf yn ymyrryd oherwydd fy mod yn cytuno â'r hyn rydych newydd ei ddweud. Rydych yn dweud eich bod am gael gwella effeithlonrwydd y rhaglenni Ewropeaidd. Ar y sail honno, nid wyf yn deall pam eich bod yn gwrthod ein gwelliant, oherwydd nid yw eich cynnig chi, fel ag y mae, yn cyfeirio mewn unrhyw ffordd at ddatblygu rhaglenni Ewropeaidd effeithlon.

**Alun Davies:** I think that I explained that in my opening remarks, Nick. What I am trying

**Alun Davies**: Rwyf yn meddwl i mi esbonio hynny yn fy sylwadau agoriadol, Nick. Yr

to do here is to talk at a much higher level about the simplification and integration of the funds on a statutory basis and about the plans that were published by the Commission in October.

hyn yr wyf yn ceisio ei wneud yma yw siarad ar lefel llawer uwch am symleiddio ac integreiddio'r cronfeydd ar sail statudol ac am y cynlluniau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ym mis Hydref.

I hope that the structural funds for rural development and fisheries programmes will help to deliver for Wales. An integrated approach also needs to go further. For example, we want to secure improved access to wider European programmes, including the Horizon 2020 programme for research and innovation. A more focused approach should produce dividends and help to increase the impact of future EU funded programmes. I would also extend this approach to the Connecting Europe facility that we discussed earlier this afternoon. This is a matter that was discussed at the Joint Ministerial Council held last November and it is a matter that we are continuing to pursue with the United Kingdom Government.

Rwy'n gobeithio y bydd y cronfeydd strwythurol ar gyfer y rhaglen datblygu gwledig a'r rhaglen pysgodfeydd yn helpu i gyflawni dros Gymru. Mae angen i ddull integredig fynd ymhellach hefyd. Er enghraifft, rydym am sicrhau mwy o fynediad at raglenni Ewropeaidd ehangach, gan gynnwys y rhaglen Horizon 2020 ar gyfer ymchwil ac arloesi. Dylai ymagwedd fwy penodol sicrhau canlyniadau a helpu i gynyddu effaith rhaglenni a ariennir gan yr UE yn y dyfodol. Buaswn yn ymestyn hyn hefyd at y cyfleuster Cysylltu Ewrop a drafodwyd gennym yn gynharach y prynhawn yma. Mae hwn yn fater a drafodwyd yn y Cydgyngor Gweinidogion a gynhaliwyd fis Tachwedd diwethaf ac mae'n fater yr ydym yn parhau i'w drafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

I want future programmes to take full account of the specific features of each area—that is, each part of Wales—to tackle the barriers to economic growth, to focus on opportunities for growth and to reflect the important linkages that exist between rural and urban areas. Crucially, I want to make it crystal clear this afternoon that this Government has the clear aim of moving west Wales and the Valleys out of convergence eligibility status by the end of the next programme period in 2020. I want to be absolutely clear that that is the Government's objective.

Rwyf am i raglenni'r dyfodol roi ystyriaeth lawn i nodweddion penodol pob ardal—sef pob rhan o Gymru—er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro twf economaidd, i ganolbwyntio ar gyfleoedd i dyfu ac i adlewyrchu'r cysylltiadau pwysig sy'n bodoli rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Yr hyn sy'n bwysig yw fy mod am ei gwneud yn hollol glir y prynhawn yma fod gan y Llywodraeth hon amcan clir o symud gorllewin Cymru a'r Cymoedd allan o statws cymhwyster cydgyfeiriant erbyn diwedd cyfnod y rhaglen nesaf yn 2020. Rwyf am fod yn gwbl glir mai hynny yw nod y Llywodraeth.

The European Commission has called for the greater use of financial engineering instruments. This is something that Wales has been at the forefront of promoting in Europe. We understand that the JEREMIE and JESSICA schemes have already been delivering for businesses and investments in Wales. These programmes could leave lasting legacies, although we understand that much depends on how the European Commission will underpin their legal status in the next round. We will be arguing to ensure that we have a set of rules that allows us to maximise

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi galw am wneud mwy o ddefnydd o offerynnau peirianyddol ariannol. Bu Cymru ar flaen y gad o ran hyrwyddo hynny yn Ewrop. Rydym yn deall bod y cynlluniau JEREMIE a JESSICA eisoes wedi bod yn cyflawni ar gyfer busnesau a buddsoddiadau yng Nghymru. Gallai'r rhaglenni hyn adael gwaddol parhaol, er ein bod yn deall bod llawer yn dibynnu ar sut y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn rhoi sail i'w statws cyfreithiol yn y cylch nesaf. Byddwn yn dadlau er mwyn sicrhau bod gennym reolau sy'n ein galluogi i

the true potential of such schemes. The Commission's proposals also contain a number of measures aimed at simplifying arrangements and processes for project promoters. This is something that we have been pressing for for many years in Wales. We need to ensure that these proposals result in genuine simplification for project sponsors in Wales.

fanteisio'n llawn ar wir botensial cynlluniau o'r fath. Mae cynigion y Comisiwn hefyd yn cynnwys nifer o fesurau sy'n anelu at symleiddio trefniadau a phrosesau ar gyfer hyrwyddwyr y prosiectau. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi bod yn pwyso amdano ers nifer o flynyddoedd yng Nghymru. Mae angen inni sicrhau bod y cynigion hyn yn arwain at symleiddio gwirioneddol ar gyfer noddwyr prosiectau yng Nghymru.

The draft regulations also call for a greater concentration on a small number of priorities in order to achieve better impact, and we agree with this approach. We have to focus on delivery and the achievement of improved outputs and results from every penny of our investments. We also need to focus on opportunities for long-term growth in the Welsh economy. The need to focus in this way brings with it difficult choices. With this in mind, I launched a wide-ranging and inclusive reflection exercise on 1 December. This, I hope, is an opportunity for people across Wales to help shape the strategic thinking on the ways in which future European programmes can support sustainable jobs and economic growth. This exercise, which covers future structural funds programmes, as well as rural and fisheries programmes, is not the full consultation, as that will follow later in the year, but it does, I hope, demonstrate a clear intention from this Government to involve people in this debate at an early stage. We also launched a similar exercise on the CAP funds, both for direct payments under pillar 1 programmes and the rural development plan under pillar 2 programmes. I hope that people across Wales will help to shape the strategic thinking on the rural economy and on the future of our rural communities.

Mae'r rheoliadau drafft hefyd yn galw ar ganolbwyntio mwy ar nifer fach o flaenoriaethau er mwyn sicrhau mwy o effaith, ac rydym yn cytuno â'r ymagwedd hon. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio ar ddarparu a chyflawni canlyniadau gwell o bob ceiniog o'n buddsoddiadau. Mae angen inni hefyd ganolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer twf hirdymor yn economi Cymru. Mae'r angen i ganolbwyntio fel hyn yn golygu gwneud dewisiadau anodd. Gyda hyn mewn golwg, cafodd prosiect adlewyrchu eang a chynhwysol ei lansio gennyf ar 1 Rhagfyr. Fy ngobaith yw bod hyn yn gyfle i bobl ledled Cymru helpu i lunio syniadau strategol ar y ffyrdd y gall rhaglenni Ewropeaidd gefnogi swyddi cynaliadwy a thwf economaidd yn y dyfodol. Mae hwn yn cwmpasu rhaglenni cronfeydd strwythurol y dyfodol, yn ogystal â rhaglenni gwledig a physgodfeydd, ond nid yw'n ymgynghoriad llawn, gan y bydd hwnnw'n dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ond y gobaith yw ei fod yn dangos bwriad clir gan y Llywodraeth hon i gynnwys pobl yn y drafodaeth hon yn gynnar. Cafodd prosiect tebyg ei lansio mewn cysylltiad ag arian y PAC, ar gyfer taliadau uniongyrchol o dan raglenni colofn 1 a'r cynllun datblygu gwledig o dan raglenni colofn 2. Rwy'n gobeithio y bydd pobl ledled Cymru yn helpu i lunio'r syniadau strategol ar yr economi wledig ac ar ddyfodol ein cymunedau gwledig.

Deputy Presiding Officer, I have said before that I believe that these proposals for a new CAP not only give us the opportunity to help shape the future of the agricultural industry, but to reshape the rural economy. I hope that people will play an active and full role in helping us to deliver that. We are looking at the strategic investment choices for the

Dirprwy Lywydd, rwyf wedi dweud o'r blaen fy mod yn credu bod y cynigion hyn ar gyfer PAC newydd yn gyfle inni helpu i lunio dyfodol y diwydiant amaethyddol, ond mae hefyd yn gyfle i ail-lunio'r economi wledig. Gobeithio y bydd pobl yn chwarae rhan weithredol a llawn wrth ein helpu i gyflawni hynny. Rydym yn edrych ar y dewisiadau

various programmes and the decisions on how best to focus investments—whether spatially or sectorally. We are looking at how we can fully engage business to be able to lead projects and programmes. This is a matter to which we will return in the next few weeks. We want to be able to deliver a number of programmes post 2013, and we hope to involve people in all sectors across Wales in order to enable us to do that.

buddsoddi strategol ar gyfer y gwahanol raglenni a'r penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o ganolbwyntio buddsoddiadau—pa un a yw hynny'n ofodol neu fesul sector. Rydym yn edrych ar sut y gallwn annog busnesau i gymryd rhan lawn er mwyn gallu arwain prosiectau a rhaglenni. Mae hwn yn fater y byddwn yn dychwelyd ato yn yr wythnosau nesaf. Rydym am allu cyflwyno nifer o raglenni ar ôl 2013, ac rydym yn gobeithio cynnwys pobl ym mhob sector ledled Cymru er mwyn ein galluogi i wneud hynny.

Members may be aware that I have established a number of groups in the past few months to help prepare for any future programmes. I have already made a statement on the post-2013 programme forum, which is chaired by Mark Drakeford. The purpose of this is to engage with partners across Wales in the development of new programmes. This group is currently reflecting on the lessons learnt from the delivery of our current programmes and upon best practice and innovative approaches from across Europe. Deputy Presiding Officer, I am also chairing and leading the work of the ministerial advisory group within Government to help ensure that Government is ready to work on the management and, possibly, delivery of projects post 2013. This group has already met once, and we will be meeting for a second time later this week.

Efallai y bydd yr Aelodau yn ymwybodol fy mod wedi sefydlu nifer o grwpiau yn y misoedd diwethaf i helpu i baratoi ar gyfer unrhyw raglenni yn y dyfodol. Rwyf eisoes wedi gwneud datganiad ar y fforwm rhaglenni ôl-2013, a gaiff ei gadeirio gan Mark Drakeford. Diben hwn yw ymgysylltu â phartneriaid ledled Cymru wrth ddatblygu rhaglenni newydd. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp hwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd wrth ddarparu ein rhaglenni cyfredol a'r arfer gorau a dulliau arloesol o bob cwr o Ewrop. Ddirprwy Lywydd, rwyf hefyd yn cadeirio ac yn arwain gwaith y grŵp cynghori gweinidogion o fewn y Llywodraeth i helpu i sicrhau bod y Llywodraeth yn barod i weithio ar reoli prosiectau ar ôl 2013, a'u harwain, o bosibl. Mae'r grŵp hwn eisoes wedi cyfarfod unwaith, a byddwn yn cyfarfod am yr eildro yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Clearly, there are some elements of the Commission's proposals with which we do not agree or which we want to see in more detail. We are concerned that the proposals for the concentration and ring-fencing within the regulations for both the European regional development fund and the European social fund are too prescriptive, and we are pressing for greater flexibility in this area. We hope that we will have the opportunity to continue these discussions over the next few months. Members will already be aware that, in terms of CAP reform, I am also pressing for greater flexibility within the transition period for the change to an area-based direct payments system. We believe that the five years proposed for this transition by the Commission at present is insufficient. We also feel that the proposals for greening present too rigid an approach. We would

Mae'n amlwg nad ydym yn cytuno â rhai elfennau o gynigion y Comisiwn neu yr ydym am weld rhagor o fanylion amdanynt. Rydym yn pryderu bod y cynigion ar gyfer crynhoi a neilltuo arian o fewn y rheoliadau ar gyfer y gronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd a'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd yn rhy benodol, ac rydym yn pwyso am fwy o hyblygrwydd yn y maes hwn. Rydym yn gobeithio y cawn gyfle i barhau â'r trafodaethau hyn dros y misoedd nesaf. Bydd yr Aelodau eisoes yn ymwybodol fy mod hefyd, o ran diwygio'r PAC, yn pwyso am fwy o hyblygrwydd o fewn y cyfnod pontio ar gyfer newid i system daliadau uniongyrchol ar sail ardal. Rydym yn credu bod y pum mlynedd arfaethedig ar gyfer y newid hwn gan y Comisiwn ar hyn o bryd yn annigonol. Rydym hefyd yn teimlo bod y cynigion ar gyfer materion gwyrdd

prefer the Commission to provide a greater menu of options and opportunities, and we hope that the Commission will recognise the progress that we have made in our existing agri-environmental schemes and those which are planned for Glastir. I am pressing for membership of Glastir to be accepted as a qualification for greening. These are matters that we have already raised with the Commission, and we are continuing to debate and discuss with it.

presennol yn cyflywno dull rhy anhyblyg. Byddai'n well gennym i'r Comisiwn ddarparu mwy o opsiynau a chyfleoedd, ac rydym yn gobeithio y bydd y Comisiwn yn cydnabod y cynnydd a wnaed gennym yn ein cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol a'r rheini a fwriedir ar gyfer Glastir. Rwyf yn pwyso i aelodaeth o Glastir gael ei dderbyn fel cymhwyster ar gyfer taliad gwyrdd. Mae'r rhain yn faterion yr ydym eisoes wedi eu codi gyda'r Comisiwn, ac rydym yn parhau i ddadlau a thrafod ag ef.

The case for Wales is already being put forward. We will continue to do so, both in discussions with the United Kingdom Government as well as with different EU institutions: the Council, the Commission and the Parliament. Deputy Presiding Officer, it is a matter of public record and knowledge that the Welsh Government does not share the United Kingdom Government's view on reducing the size of the European budget overall, nor its related views on budgets around structural funds or CAP. We do not support its demand for real reductions in pillar 1 direct payments to farmers. The Welsh national interest is best served by a United Kingdom at the heart of negotiations with the European Commission. It is also important that Wales's voice is heard directly in Europe.

Mae'r achos dros Gymru eisoes yn cael ei gynnig. Byddwn yn parhau i wneud hynny, mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ogystal â gwahanol sefydliadau'r UE: y Cyngor, y Comisiwn a'r Senedd. Ddirprwy Lywydd, mae'n fater o gofnod a gwybodaeth gyhoeddus nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran lleihau maint y gyllideb Ewropeaidd yn gyffredinol, na'i barn gysylltiedig ar gyllidebau mewn perthynas â chronfeydd strwythurol a'r PAC. Nid ydym yn cefnogi ei galwad am ostyngiadau gwirioneddol mewn taliadau colofn 1 uniongyrchol i ffermwyr. Ceir gwell budd cenedlaethol i Gymru os yw'r Deyrnas Unedig wrth galon y trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae hefyd yn bwysig bod llais Cymru yn cael ei glywed yn uniongyrchol yn Ewrop.

4.45 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Deputy Minister, you will be perilously close to running out of time for your reply if you do not wind up soon.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ddirprwy Weinidog, byddwch yn ddychrynllyd o agos at redeg allan o amser ar gyfer eich ymateb os nad ydych yn dirwyn i ben cyn bo hir.

**Alun Davies:** I will. I have already met with commissioners and attended meetings within the Commission and the Council of Ministers and have attended the European Parliament. I can assure Members that the Welsh Government's initial positions and perspectives are well understood in Brussels. I hope now that Members will be able to join the debate with us and that I will be able to reply in due course.

**Alun Davies:** Gwnaf. Rwyf eisoes wedi cwrdd â chomisiynwyr, bod i gyfarfodydd yn y Comisiwn a Chyngor y Gweinidogion ac wedi bod yn bresennol yn Senedd Ewrop. Gallaf roi sicrwydd i'r Aelodau bod dealltwriaeth dda o safbwyntiau cychwynnol Llywodraeth Cymru ym Mrwsel. Rwy'n gobeithio yn awr y bydd Aelodau yn gallu ymuno â ni yn y drafodaeth ac y byddaf yn gallu ymateb maes o law.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Ym mhwynt c), dileu popeth ar ôl*

*In point c) delete all after 'institutions' and*

*'ymhellach,' a rhoi yn ei le:*

*'a'r ffordd orau o wneud hynny yw drwy gyflawni Rhaglenni Ewropeaidd yn effeithlon ac yn effeithiol a sicrhau'r budd mwyaf posibl i bobl Cymru'.*

*replace with:*

*'is best achieved by delivering European Programmes efficiently, effectively and ensuring maximum benefit for the people of Wales'.*

**Byron Davies:** I move amendment 1 in the name of William Graham.

**Byron Davies:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham.

I am very happy to propose this amendment, and I am very pleased to take part in another debate this term about European programmes. We had a far-reaching debate about these issues on 10 January of course. On reflection, however, many of the contributions made in that debate were focused perhaps more on style than substance. I am sure that the reverse will be true today. The issues before us have far-reaching consequences for the people of Wales—consequences that warrant proper discussion. I am sure that we all appreciate and have an insight into the draft legislative proposals for the future EU cohesion policy funds for the period 2014-20, which were published late last year by the European Commission. During this year, we will see these proposals discussed and negotiated in Brussels. This will determine the framework within which the future EU structural funds programmes will operate on the ground, including, crucially, which regions will benefit from these, the amount of funding for which they will be eligible and the range of actions that they will be able to support using this funding.

Rwyf yn hapus iawn i gynnig y gwelliant hwn, ac rwy'n falch iawn o gymryd rhan mewn dadl arall y tymor hwn am raglenni Ewropeaidd. Cawsom drafodaeth bellgyrhaeddol ar y materion hyn ar 10 Ionawr, wrth gwrs. Erbyn meddwl, fodd bynnag, roedd llawer o'r cyfraniadau a wnaed yn y drafodaeth honno'n canolbwyntio'n fwy efallai ar arddull yn hytrach na sylwedd. Rwy'n siŵr mai'r gwrthwyneb fydd yn wir heddiw. Mae gan y materion sydd ger ein bron ganlyniadau pellgyrhaeddol i bobl Cymru—canlyniadau sy'n gwarantu trafodaeth briodol. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn gwerthfawrogi ac yn meddu ar fewnwelediad i'r cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer cronfeydd polisi cydlyniant yr UE yn y dyfodol ar gyfer y cyfnod 2014-20, a gyhoeddwyd ddiwedd y llynedd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Eleni, byddwn yn gweld y cynigion hyn yn cael eu trafod a'u negodi ym Mrwsel. Bydd hyn yn pennu'r fframwaith ar gyfer gweithredu rhaglenni cronfeydd strwythurol yr Ue yn y dyfodol ar lawr gwlad, gan gynnwys, yn hanfodol, pa ranbarthau fydd yn elwa ohonynt, y gyfran o gyllid y byddant yn gymwys i'w derbyn a'r ystod o gamau gweithredu y byddant yn gallu'i gefnogi drwy ddefnyddio'r cyllid hwn.

The EU structural funds reforms are driven by two main factors: simplification and enhancing the effectiveness of the impact of the policy on the ground in terms of jobs and growth, delivering the overarching aims of Europe 2020 to deliver smart, sustainable and inclusive growth. I welcome the Welsh Government's moves to recognise this early on. I know that we have touched previously on the sad accolade of west Wales and the Valleys being likely to continue to qualify for the most intensive level of support, renamed as 'less developed region' status, alongside east Wales qualifying for more prosperous

Mae diwygiadau cronfeydd strwythurol yr UE yn cael eu hysgogi gan ddau brif ffactor: symleiddio a gwella effeithiolrwydd effaith y polisi ar lawr gwlad o ran swyddi a thwf, cyflawni nodau cyffredinol Ewrop 2020 i gyflwyno twf craff, cynaliadwy a chynhwysol. Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn yn gynnar. Gwn ein bod eisoes wedi crybwyll yr anrhydedd trist a roddir i orllewin Cymru a'r Cymoedd yn sgîl y ffaith eu bod yn debygol o barhau i fod yn gymwys ar gyfer y lefel fwyaf dwys o gefnogaeth, y rhoddwyd y statws 'rhanbarth llai datblygedig', iddi ochr

regional status, meaning that it would receive a smaller share of the funding and have less flexibility in terms of the types of actions that could be supported on the ground.

yn ochr â dwyrain Cymru sy'n gymwys ar gyfer statws rhanbarth mwy ffyniannus, sy'n golygu y byddai'n derbyn cyfran lai o'r arian, gyda llai o hyblygrwydd o ran y mathau o weithredoedd y gellid eu cefnogi ar lawr gwlad.

Politics aside about whether it is good or bad to qualify for this money, and with the onset of conditionalities to access this money, we must prepare ourselves to meet the demands that will be made of us and use this money effectively to assist regions and ensure our nation's prosperity. I again welcome the inquiry that the Enterprise and Business Committee, on which I sit, is holding on the future of EU structural funds and look forward very much to getting much further into the detail on this important issue. Indeed, I say with all sincerity that the Deputy Minister, Alun Davies, was most helpful and informative during his recent appearance before the committee.

Gan roi gwleidyddiaeth o'r neilltu ynghylch p'un a yw'n beth da neu'n beth gwael i fod yn gymwys i gael yr arian hwn, a chyda chyflwyniad amodau i gael gafael ar yr arian hwn, rhaid inni baratoi ein hunain i gwrdd â'r gofynion a fydd arnom, ac i ddefnyddio'r arian hwn yn effeithiol i gynorthwyo rhanbarthau ac i sicrhau ffyniant ein cenedl. Croesawaf unwaith eto'r ymchwiliad y mae'r Pwyllgor Menter a Busnes, sef pwyllgor yr wyf innau'n eistedd arno, yn ei gynnal ynghylch dyfodol cronfeydd strwythurol yr UE, ac edrychaf ymlaen yn fawr at edrych ar fanylion y mater pwysig hwn. Yn wir, dywedaf yn gwbl ddidwyll bod Alun Davies, y Dirprwy Weinidog, wedi bod o gymorth mawr ac wedi rhannu llawer o wybodaeth pan ddaeth gerbron y pwyllgor yn ddiweddar.

However, in a broader context, we must start asking key questions in order to prepare ourselves. What will the amount of funding be that comes to Wales? What will the introduction of conditionalities attached to funding—ex-ante, ex-post and macroeconomic conditionalities—really mean for Wales and how will we organise our programmes? We must work with the UK Government to put together the new governance framework—a common strategic framework at EU level, partnership contracts at member state level and operational programmes at regional level. We should also press for Holyhead to be recognised as a strategic European port. There is a great danger, economically, if Liverpool is recognised and Holyhead is not. We must also ensure that the voluntary sector is prepared alongside Government for these changes and that we maximise these funds through private and voluntary sector involvement.

Fodd bynnag, mewn cyd-destun ehangach, rhaid inni ddechrau gofyn cwestiynau allweddol er mwyn paratoi ein hunain. Beth fydd swm yr arian a fydd yn dod i Gymru? Beth fydd cyflwyno'r amodau sydd ynghlwm wrth yr arian—ex-ante, ex-post a macroeconomaidd—yn ei olygu mewn gwirionedd i Gymru a sut y byddwn yn trefnu ein rhaglenni? Rhaid inni weithio gyda Llywodraeth y DU i lunio'r fframwaith lywodraethu newydd—fframwaith strategol gyffredin ar lefel yr UE, cytundebau partneriaeth ar lefel aelod-wladwriaeth a rhaglenni gweithredol ar lefel ranbarthol. Dylem hefyd bwyso i gael cydnabyddiaeth i Gaergybi fel porthladd Ewropeaidd strategol. Mae perygl economaidd mawr os caiff Lerpwl ei chydnabod ond nid Caergybi. Mae'n rhaid inni hefyd sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cael ei baratoi ochr yn ochr â'r Llywodraeth ar gyfer y newidiadau hyn a'n bod yn gwneud y gorau o'r cronfeydd hyn drwy gynnwys y sector preifat a gwirfoddol.

**Mark Isherwood:** Voluntary, third-sector-led projects have accessed 6% of European structural funds—almost £100 million, supporting 76,600 people. Will you therefore

**Mark Isherwood:** Mae prosiectau a arweinir gan y sector gwirfoddol a'r trydydd sector wedi cael mynediad at 6% o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd—bron i £100

join me in welcoming their contribution to changing lives, providing pathways to employment and creating jobs for some of Wales's most vulnerable and disadvantaged groups?

miliwn, gan gefnogi 76,600 o bobl. A wnewch chi ymuno â mi, felly, i groesawu eu cyfraniad at newid bywydau, gan ddarparu llwybrau at gyflogaeth a chreu swyddi ar gyfer rhai o grwpiau mwyaf bregus a difreintiedig Cymru?

**Byron Davies:** Yes, I most certainly do. The voluntary sector has a large part to play in this. The EU sees the UK as one member state in these negotiations, which is rightfully so. That is why we must oppose amendment 2. It is important in that light to work together to look at how we have put these partnership contracts together at member state level. Credit where credit is due: the Welsh Government is doing a good job this far. I stress that partnership with the UK Government will be crucial.

**Byron Davies:** Rwy'n sicr yn eu gwerthfawrogi yn hynny o beth. Mae gan y sector gwirfoddol rhan fawr i'w chwarae yn hyn. Mae'r UE yn gweld y DU fel un aelod-wladwriaeth yn y trafodaethau hyn, sy'n gywir. Dyna pam y mae'n rhaid inni wrthwynebu gwelliant 2. Mae'n bwysig oherwydd hynny i weithio gyda'n gilydd i edrych ar sut rydym wedi rhoi'r contractau partneriaeth hyn ynghyd ar lefel aelod-wladwriaeth. Dylem roi clod lle y mae'n ddyledus: mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da hyd yma. Pwysleisiaf y bydd partneriaeth â Llywodraeth y DU yn hanfodol.

I want to conclude on the proposals published by the European Commission for the Horizon 2020 framework programme for research and innovation, which will replace the current framework research programme and the competitiveness and innovation framework programme, which is targeted at SMEs. Horizon 2020 is being presented as the main financial instrument for implementing the innovation union flagship initiative of the Europe 2020 strategy. The European Commission has proposed a budget of £80 billion, most of which will go towards financing research and development, with a small amount earmarked for supporting competitiveness and innovation in SMEs. The former Committee on European and External Affairs undertook an inquiry into Welsh participation in EU research, innovation and lifelong learning programmes. This produced a worrying conclusion, especially given the renewed important research and innovation with underperforming EU research programmes. The higher education sector now appears to have grasped the nettle.

Hoffwn orffen drwy sôn am y cynigion a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Horizon 2020, sef y rhaglen fframwaith ar gyfer ymchwil ac arloesi a fydd yn disodli'r rhaglen ymchwil fframwaith gyfredol a'r rhaglen fframwaith cystadleurwydd ac arloesedd, sydd wedi'i thargedu at fusnesau bach a chanolig. Cyflwynir Horizon 2020 fel y prif offeryn ariannol ar gyfer gweithredu menter flaenllaw'r undeb arloesi o strategaeth Ewrop 2020. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig cyllideb o £80 biliwn, a bydd y rhan fwyaf ohono'n mynd tuag at ariannu gwaith ymchwil a datblygu, gyda chyfran fach yn cael ei chlustnodi ar gyfer cefnogi cystadleurwydd ac arloesedd mewn busnesau bach a chanolig. Cynhaliodd y cyn Bwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ymchwiliad i gyfranogiad Cymru yn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr UE. Daethpwyd i gasgliad pryderus, yn enwedig o ystyried y gwaith ymchwil ac arloesi newydd pwysig gyda rhaglenni ymchwil yr UE sy'n tanberfformio. Ymddengys fod y sector addysg uwch erbyn hyn wedi cydio yn y broblem.

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn cydnabod efallai nad yw polisi Ewropeaidd y DU er budd gorau Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r capasiti i gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i sefydliadau'r UE.*

*Acknowledges that UK European policy may not be in the best interests of Wales and calls on the Welsh Government to develop the capacity for direct representations to EU institutions.*

**Llyr Huws Gruffydd:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Jocelyn Davies.

**Llyr Huws Gruffydd:** I move amendment 2 in the name of Jocelyn Davies.

Nid oes amheuaeth am bwysigrwydd rhaglenni Ewropeaidd i Gymru, yn enwedig i'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Maent hefyd wedi cynnal ein ffermydd yn wyneb methiannau'r farchnad dros y blynyddoedd ac maent yn help i'r economi ehangach yn wyneb heriau difrifol. Felly, bydd unrhyw newidiadau i'r ffynonellau cymorth hyn yn golygu goblygiadau pellgyrhaeddol i Gymru. O gael y newidiadau yn iawn, bydd cyfle inni gryfhau a dwysáu ein hymdrechion i wella'r sefyllfa. Fodd bynnag, o wneud y newidiadau anghywir, caiff yr effaith ei theimlo ledled Cymru, ond yn bennaf yn y cymunedau hynny sydd eisoes ymhlith y tlotaf a'r rhai mwyaf difreintiedig yn yr Undeb Ewropeaidd.

There is no doubt of the importance of European programmes to Wales, particularly to our most disadvantaged communities. They have also supported our farms in the face of the failures of the market over the years and they have assisted the wider economy in the face of serious challenges. Therefore, any changes to these sources of support will have far-reaching implications for Wales. In getting the changes right, there will be an opportunity for us to intensify our efforts to improve the situation. However, in making the wrong changes, the impact will be felt across Wales, but mainly in those communities that are already among the poorest and most disadvantaged in the European Union.

Mae prif amcanion Ewrop 2020 yn ddigon derbyniol, ond mae'r prif ffocws i mi yn canolbwyntio ar ddwy elfen: yn gyntaf, sut y gallwn sicrhau y caiff llais a buddiannau Cymru eu cynrychioli yn effeithiol wrth gytuno ar ffurf derfynol y rhaglenni hyn, ac yn ail, sut y bydd unrhyw newidiadau yn delifro allbynnau a sut y byddant yn effeithio ar y busnesau, cyrff, mudiadau ac unigolion a fydd yn gweithredu'r rhaglen hon ar lawr gwlad.

The main objectives of Europe 2020 are acceptable enough, but the main focus for me falls on two elements: first, how we can ensure that the Welsh voice and interests are represented effectively in agreeing on the final form of these programmes, and secondly, how any changes will deliver outputs and impact upon businesses, organisations and individuals responsible for implementing the programme on the ground.

Yn fy marn i, mae'r drafodaeth ar ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin wedi dangos nad yw polisi Ewropeaidd Llywodraeth y Deyrnas Unedig er budd gorau Cymru, sydd felly yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod gan Gymru lais mwy uniongyrchol gyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Felly, rwy'n hapus i gynnig y gwelliant i'r perwyl hwnnw yn enw Jocelyn Davies.

In my view, the debate on common agricultural policy reform has shown that the UK Government's European policy is not in the Welsh interest, thereby underlining the need for Wales to have a more direct voice with European Union institutions. Therefore, I am pleased to move the amendment to that end in the name of Jocelyn Davies.

Mewn ymateb i rai o sylwadau'r Dirprwy Weinidog, fe'i hatgoffaf mai Rhodri Morgan a oedd yn gyfrifol am raglenni Ewropeaidd yn flaenorol a bod agwedd Llywodraeth San Steffan yn wahanol iawn erbyn hyn i'r hyn yr

In response to some of the comments made by the Deputy Minister, I remind him that it was Rhodri Morgan who was responsible for European programmes previously and that the attitude of the Westminster Government

oedd pan roedd Elin Jones yn Weinidog. Rydym hefyd yn wynebu trafodaethau PAC, felly bydd yn gyfnod o gynrychiolaeth llawer dwysach. Fel rhywun nad yw'n aelod o'r Cabinet, mae'n debyg bod ganddo ddigon o amser i fynd i nifer o'r cyfarfodydd hyn.

is now very different to what it was when Elin Jones was Minister. We are also facing CAP negotiations, so it will be a period of far more intensive representation. As he is not a member of the Cabinet, I am sure that he has plenty of time to attend a number of these meetings.

Rydym eisoes wedi clywed nifer o weithiau yn y Siambr y gofid ynglŷn â safbwyntiau'r Gweinidogion Ceidwadol yn San Steffan, sy'n galw am dorri cyllideb PAC er gwaethaf goblygiadau hynny i dros 80% o ffermydd Cymru sy'n ddibynnol ar daliadau uniongyrchol i oroesi fel busnesau. Yr wythnos diwethaf, ailadroddodd David Cameron pa mor benderfynol ydoedd i leihau'r gyllideb honno. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi ein hatgoffa heddiw nad yw Llywodraeth Cymru yn rhannu'r safbwynt hwnnw. Yn flaenorol, mae wedi galw ar y Ceidwadwyr yma i ddadlau'r achos gyda'u Haelodau Seneddol eu hunain dros sicrhau'r gyllideb PAC a'r cronfeydd strwythurol sydd eu hangen ar Gymru i'w buddsoddi mewn twf economaidd ar draws y wlad. Gallwch ddychmygu syndod a siom nifer ohonom wrth glywed bod Aelodau Seneddol Llafur o Gymru wedi pleidleisio dros leihau cyllideb PAC yn San Steffan yr wythnos diwethaf. Mae hynny'n mynd yn llwyr yn erbyn buddiannau cymunedau gwledig Cymru, datganiadau'r Dirprwy Weinidog a safbwynt Llywodraeth Cymru. Gobeithiaf yn fawr, felly, y bydd y Dirprwy Weinidog, yn yr ychydig amser sydd ganddo ar ôl i ymateb i'r ddadl hon, yn gwneud datganiad clir, fel y gwnaeth y Prif Weinidog ar fater preifateiddio'r gwasanaeth iechyd yr wythnos diwethaf, ei fod yn gwrthod polisi Aelodau Seneddol Llafur Cymru.

We have already heard many times in the Chamber concerns about the views of Conservative Ministers in Westminster, who are calling for cuts in the CAP budget despite the implications of such a move for 80% of Welsh farms, which are dependent on direct payments for their survival. Last week, David Cameron repeated how determined he was to reduce that budget. The Deputy Minister has reminded us today that the Welsh Government does not share that view. Previously, he has called on the Conservatives here to argue the case with their own MPs in order to ensure that the CAP budget and the structural funds required in Wales are invested in economic growth across Wales. You can imagine the surprise and disappointment of many of us that Labour MPS last week voted for a reduction in the CAP budget in Westminster. That runs entirely contrary to the interests of Welsh rural communities, the statements made by the Deputy Minister and the views of the Welsh Government. I very much hope, therefore, that the Deputy Minister, in the little time that he has left to respond to this debate this afternoon, will make a clear statement, as the First Minister did last week on the issue of privatising the health service, that he rejects the policy of Labour MPs.

Ffactor allweddol arall yw sut mae'r newidiadau hyn effeithio ar ddelifro'r rhaglenni yn ymarferol. Mae'n rhaid gwneud popeth i osgoi sefyllfa o barlys wrth symud o un cyfnod ariannu i'r llall. Dan y rhaglenni blaenorol, nid oedd nifer o brosiectau wedi dechrau ar eu gwaith mor fuan ag y byddai rhai wedi dymuno, o ganlyniad i gymhlethdodau creu prosesau newydd a'r angen i wella sgiliau staff i reoli a chyflawni prosiectau mewn amgylchedd rheoli ac archwilio llym. Byddai dilyniant a chysondeb yn yr agweddau rheolaethol yn ystyriaeth

Another key factor is how these changes impact upon practical delivery of the programmes. We have to do everything to avoid a situation of paralysis as we move from one financial period to another. Under previous programmes, many projects had not started their work as early as many would have liked, as a result of the complexities of creating new processes and the need to improve staff skills in managing and achieving projects in a harsh management and regulatory environment. Consistency and continuity in the management arrangements

bwysig, ynghyd ag eglurdeb am drefniadau'r cyfnod interim rhwng diwedd y rhaglenni presennol a dechrau'r rhaglenni newydd.

will be important, as we reach the end of the current programmes and the start of the new programmes.

Mae disgwyl y bydd 5% o'r arian yn cael ei gadw yn ôl fel *performance reserve*. Mae hynny'n cynrychioli rhyw £90 miliwn i Gymru yn ogystal â chyllid cyfatebol, ond mae'r cytundeb partneriaeth yn cael ei gytuno gan yr Undeb Ewropeaidd a'r aelod wladwriaeth. Mae angen gochel rhag sefyllfa lle gallai Cymru gael ei chosbi am fethu â chyrraedd targedau y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn falch i glywed sylwadau ynglŷn â hynny.

It is expected that 5% of the funding will be held back as a performance reserve. That represents some £90 million for Wales, as well as the match funding, but the partnership agreement is agreed between the European Union and the member state. We need to be wary of a situation in which Wales could be penalised for failing to reach targets agreed by the UK Government. I would be pleased to hear comments on that issue.

Mae Plaid Cymru yn awyddus i annog buddsoddiad a chanolbwyntio ar brosiectau a chynlluniau hirdymor a fydd yn cryfhau strwythur economi Cymru, o gwmpas adnoddau naturiol Cymru a swyddi gwyrdd. Wrth sôn am isadeiledd, fel rhan o'r cronfeydd strwythurol presennol yn Llydaw, mae'n debyg bod €100 miliwn o arian ERDF yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd rhwng Rennes a Brest a Rennes a Kemper. Nid yw'r rhain yn estyniadau TGV; maent yn drenau cyflym Llydewig, sef BGV. Hoffwn glywed a fyddai Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi yn yr isadeiledd trafnidiaeth yn yr un modd.

Plaid Cymru is eager to encourage investment and to concentrate on long-term projects that will strengthen the structure of the Welsh economy, around the natural resources of Wales and green jobs. In looking at infrastructure, as part of the current structural funds in Brittany, €100 million of ERDF money is used for improvements to the rail infrastructure between Rennes and Brest and Rennes and Kemper. These are not TGV developments, but Brittany's fast trains, BGV. I would like to hear whether the Welsh Government intends to invest in the transport infrastructure in the same way.

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Amendment 3 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r newid arfaethedig i fonitro canlyniadau yn hytrach nag allbynnau a'r cyfle y gallai hyn ei greu i wella effaith y rownd nesaf o ariannu strwythurol.*

*Welcomes the proposed move to monitor outcomes rather than outputs and the opportunity this could create to improve the impact of the next round of structural funding.*

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Amendment 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl arian sy'n weddill yn y rownd ariannu bresennol yn cael ei dargedu at gynlluniau sy'n creu swyddi cynaliadwy.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that all remaining money in the current round of funding is targeted at schemes which create sustainable jobs.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 3 and 4 in the name of Peter Black.

**Eluned Parrott:** Cynigiaf welliannau 3 a 4 yn enw Peter Black.

I thank the Government for bringing this debate today. I welcome the chance to look at the future of EU programmes in Wales and hope that it is indicative of a desire to move the debate forward from the cycle of attack and defend to a more open consideration of the opportunities that EU funding will bring to us. In the spirit of glasnost and perestroika, I want to offer some ideas to the Deputy Minister with specific regard to the structural funds, in the hope that he will respond to them in the one minute and 30 seconds that he has later.

Diolch i'r Llywodraeth am ddod â'r ddadl hon gerbron heddiw. Croesawaf y cyfle i edrych ar ddyfodol rhaglenni'r UE yng Nghymru, a gobeithiaf fod hyn yn arwydd o'r awydd i symud y drafodaeth ymlaen o'r cylch ymosod ac amddiffyn i ystyriaeth fwy agored o'r cyfleoedd y gall arian yr UE eu rhoi inni. Yn ysbryd glasnost a perestroika, hoffwn gynnig rhai syniadau i'r Dirprwy Weinidog, gan roi sylw penodol i'r cronfeydd strwythurol, yn y gobaith y bydd yn ymateb iddynt yn y funud a hanner y bydd ganddo'n ddiweddarach.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I am the timekeeper as far as this debate is concerned. I know how long the Deputy Minister has, and it is a little more than that.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Fi sy'n cadw amser cyn belled ag y mae'r ddadl hon yn y cwestiwn. Gwn faint o amser fydd gan y Dirprwy Weinidog, a bydd ganddo ychydig yn fwy na hynny.

**Eluned Parrott:** Apologies. In the Enterprise and Business Committee last week, you expressed the hope, Deputy Minister, that this would be the last time that Wales would qualify for structural funds. I am sure that that is a hope that we all share in the Chamber. For hope to become reality, we must reflect honestly and openly on the reasons why we have qualified again. For that reason, I welcome the reflection exercise that you have announced in principle, but I would like to learn more about the broader consultation process that you have mentioned. There have been successes, but the overall GDP—which is the most fundamental measure of the impact of previous programmes—has not improved relative to other regions. We need to understand why.

**Eluned Parrott:** Ymddiheuraf am hynny. Yn y Pwyllgor Menter a Busnes yr wythnos diwethaf, roeddech yn gobeithio, Ddirprwy Weinidog, mai dyma fyddai'r tro olaf y byddai Cymru yn gymwys ar gyfer cronfeydd strwythurol. Rwy'n siŵr y rhennir y gobaith hwnnw yn y Siambr hon. Er mwyn i'r gobaith hwnnwa ddod yn realiti, rhaid inni ystyried yn onest ac yn agored y rhesymau pam rydym yn gymwys unwaith eto. Am y rheswm hwnnw, croesawaf y cyfle i fynegi barn rydych wedi'i gyhoeddi mewn egwyddor, ond hoffwn ddysgu mwy am y broses ymgynghori ehangach rydych wedi sôn amdani. Cafwyd llwyddiannau, ond nid yw'r cynnyrch mewnwladol crynswth cyffredinol—sef y mesur mwyaf sylfaenol o effaith rhaglenni blaenorol—wedi gwella o gymharu â rhanbarthau eraill. Mae angen inni ddeall pam.

Deputy Minister, my first suggestion is that, as part of this reflection process, perhaps between the first exercise and the formal consultation later, you consider establishing a formal research exercise to give us an objective assessment of current and previous programmes, including what elements were critical to success, what pitfalls lead to failure, and how would such programmes be affected by a move to an outcome-based assessment as opposed to an output-based assessment regime. Collecting and listening to stakeholder opinions can give you a wealth

Ddirprwy Weinidog, fy awgrym cyntaf yw y dylech, fel rhan o'r broses hon, efallai rhwng yr ymarfer cyntaf a'r ymgynghoriad ffurfiol yn ddiweddarach, ystyried sefydlu ymarfer ymchwil ffurfiol i roi asesiad gwrthrychol inni o raglenni cyfredol a blaenorol, gan gynnwys pa elfennau oedd yn hanfodol i lwyddiant, pa beryglon a arweiniodd at fethiant, a sut y byddai symud tuag at asesiad yn seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach na g asesiad sy'n seiliedig ar allbynnau yn effeithio ar raglenni o'r fath. Mae casglu a gwrando ar farn rhanddeiliaid yn gallu rhoi

of anecdotal information, but the scale of the challenge that we face is immense. I ask you to give serious consideration to commissioning a more focused, scientific and objective examination of where we are now and how we are going to get to where we want to go. That is the background to amendment 3. I welcome the change of focus to the big picture—the idea that we are going to look not only at what has been done but what has changed as a result of what we have done. I firmly believe that that will help us to develop more effective and more impactful programmes in future. It will help us to focus minds on the right kind of targets, namely what difference is actually made.

cyfoeth o wybodaeth anecdotaidd ichi, ond mae maint yr her sy'n ein hwynebu yn anferth. Gofynnaf ichi ystyried, yn ddifrifol, gomisiynu archwiliad mwy gwyddonol a gwrthrychol sy'n canolbwyntio mwy o'n sefyllfa ar hyn o bryd a sut rydym yn mynd i gyrraedd ein nod. Dyna gefndir gwelliant 3. Croesawaf y newid yn y ffocws o ran edrych ar y darlun mawr—y syniad ein bod yn mynd i edrych nid yn unigar yr hyn sydd wedi'i wneud ond ar yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'r hyn rydym wedi'i wneud. Rwy'n credu'n gryf y bydd hynny'n ein helpu i ddatblygu rhaglenni mwy effeithiol a dylanwadol yn y dyfodol. Bydd yn ein helpu i ganolbwyntio fwy ar y math cywir o dargedau, sef pa wahaniaeth a wneir mewn gwirionedd.

5.00 p.m.

However, we must recognise that this change of focus will bring challenges. The Deputy Minister might be aware that the higher education sector has faced a similar sea change recently, moving from an output-based to an outcomes-based assessment process for assessing the quality of its research. In my previous role at Cardiff University, I was employed as part of that agenda. Therefore, in my experience, successfully moving from output-based to outcomes-based assessment requires not only a change of organisational culture, but a change of mindset from the leadership and significant changes to the way that you design, implement and then measure your programmes. My second suggestion, therefore, Deputy Minister, would be that you might find it helpful to look at the experience of the HE sector in responding to that kind of sea change, because it might give you some ideas on how to achieve that kind of cultural change as well as on the practicalities of how you go about measuring impact, which is much more difficult than it might immediately appear.

Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod y bydd y newid hwn mewn ffocws yn arwain at heriau. Efallai y bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol bod y sector addysg uwch wedi wynebu gweddnewidiad tebyg yn ddiweddar, gan symud o broses asesu sy'n seiliedig ar allbynnau i broses asesu sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer asesu ansawdd ei waith ymchwil. Yn fy swydd flaenorol ym Mhrifysgol Caerdydd, roeddwn yn cael fy nghyflogi fel rhan o'r agenda honno. Felly, yn fy mhrofiad i, mae symud llwyddiannus o asesiadau sy'n seiliedig ar allbynnau i rai sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn gofyn nid yn unig am newid diwylliant sefydliadol, ond hefyd am newid meddylfryd o ran yr arweinyddiaeth, a newidiadau sylweddol yn y ffordd yr ydych yn cynllunio, yn gweithredu ac yna'n mesur eich rhaglenni. Fy ail awgrym, felly, Ddirprwy Weinidog, yw y byddai efallai'n ddefnyddiol ichi edrych ar brofiad y sector addysg uwch wrth ymateb i'r math hwnnw o weddnewidiad, oherwydd gallai hynny roi rhai syniadau ichi ynghylch sut i sicrhau'r math hwnnw o newid diwylliannol yn ogystal ag ynghylch yr agweddau ymarferol o ran sut y byddwch yn mesur yr effaith, sy'n llawer anos nag y gallai ymddangos yn syth.

Also, as cultural change takes time, will you look at ways to start that process now so that we are ready to hit the ground running in 2014? If this is to be our last round, we need

Hefyd, gan fod newid diwylliannol yn cymryd amser, a edrychwch ar ffyrdd o gychwyn y broses honno yn awr, fel y byddwn yn gallu bwrw iddi'n syth yn 2014?

to ensure that we make every single day count and that we are ready to go from day one, hence amendment 4, which I am pleased that you have agreed to support, Deputy Minister.

Os mai hyn fydd ein cylch olaf, rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o bob diwrnod, a'n bod yn barod o'r diwrnod cyntaf, a dyna'r rheswm dros welliant 4, ac rwyf yn falch eich bod wedi cytuno i'w gefnogi, Ddirprwy Weinidog.

You have called relative GDP per capita a blunt tool in this Chamber and elsewhere, but, as you have now stated on the record that your ultimate aim is to ensure that we never again qualify for structural funds, and as relative GDP per capita is the measure that the EU uses to decide who qualifies for them, it is inevitable that it will be the measure by which your success will be judged. With this new focus on the impact of our programmes, I suggest that we prioritise those that will demonstrate the most positive outcome on that ultimate aim and that ultimate measure. Let us be ready for that change and let us start now. Thank you for giving us this opportunity today, Deputy Minister.

Rydych wedi dweud, yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill, mai offeryn di-awch yw cynnyrch mewnwladol crynswth cymharol y pen, ond, fel yr ydych wedi datgan yn awr yn swyddogol, eich nod yn y pen draw yw sicrhau na fyddwn fyth eto'n gymwys ar gyfer cronfeydd strwythurol, a chan mai CMC cymharol y pen yw'r mesur y mae'r UE yn ei ddefnyddio i benderfynu pwy sy'n gymwys ar eu cyfer, mae'n anochel y bydd yn cael ei ddefnyddio i fesur eich llwyddiant. Gyda'r ffocws newydd hwn ar effaith ein rhaglenni, awgrymaf ein bod yn blaenoriaethu'r rhai a fydd yn dangos y canlyniadau mwyaf cadarnhaol o ran y nod a'r mesur hwnnw yn y pen draw. Gadewch inni fod yn barod ar gyfer y newid a gadewch inni ddechrau yn awr. Diolch am roi inni'r cyfle hwn heddiw, Ddirprwy Weinidog.

**Mark Drakeford:** Dywedodd y Dirprwy Weinidog cyn y Nadolig ei fod wedi sefydlu fforwm newydd er mwyn cynghori'r Llywodraeth ynglŷn â dyfodol y rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru. Fel mae wedi dweud heddiw, rwy'n cadeirio'r fforwm hwnnw. Y prynhawn yma, rwyf eisiau rhoi gwybod i'r Cynulliad am y gwaith mae'r fforwm wedi ei wneud yn barod ac am y cynllun gwaith sydd gennym ar y gweill eleni.

**Mark Drakeford:** The Deputy Minister said before Christmas that he had established a new forum in order to advise the Government on the future of European programmes in Wales. As he has said today, I chair that forum. This afternoon, I wish to give the Assembly information about the work that the forum has already done and the future work programme that we have for this year.

I want to take a few moments this afternoon to let Members know about the work of the European programmes partnership forum. To begin with, it has been fortunate with regard to the calibre of the individuals who have been recruited to sit on the forum. They represent all the major sectors that you would expect to see advising the Government on the future of European programmes. There is substantial membership from the private sector, including representatives of umbrella organisations and individuals who have led successful businesses within European programme funding areas. We have trade union representation, very senior representation from higher education, and

Rwyf am gymryd ychydig o funudau'r prynhawn yma i roi gwybod i'r Aelodau am waith fforwm partneriaeth y rhaglenni Ewropeaidd. I ddechrau, mae wedi bod yn ffodus o ran safon yr unigolion sydd wedi eu recriwtio i eistedd ar y fforwm. Maent yn cynrychioli'r holl sectorau mawr y disgwyliech eu gweld yn cynghori'r Llywodraeth ar ddyfodol rhaglenni Ewropeaidd. Mae aelodaeth sylweddol o'r sector preifat, gan gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau ymbarél ac unigolion sydd wedi arwain busnesau llwyddiannus mewn ardaloedd sy'n cael arian rhaglenni Ewropeaidd. Mae gennym gynrychiolaeth gan undebau llafur, cynrychiolaeth dra

representation from the third sector, local government and from within the Welsh Government.

blaenllaw o faes addysg uwch , a chynrychiolaeth o'r trydydd sector, llywodraeth leol ac o fewn Llywodraeth Cymru.

The forum has met twice so far. It has been quite a challenge to ensure that there is a shared understanding of the emerging picture of the potential for a further round of European funding and then to go on and agree our key areas of work. We will meet next at the start of March this year, and I am determined that at that meeting we will move on from ensuring that we are fully briefed on the task to capturing the views and experiences of forum members, and to ensure that in considering, for example, the emerging findings of the reflection exercise, we bring their expertise to bear on helping to shape the future. There is a substantial challenge in keeping abreast of the developments that are going on around us, which include the state of play at the European level, the policy development that is happening at UK level and the substantial amount of work that is going on here in Wales. The forum is looking forward, for example, to reading the report of the Enterprise and Business Committee, which Nick Ramsay chairs, on its inquiry into the draft legislative proposals for structural funds after 2014. There is work going on about procurement, which Julie James is chairing, and there is work going on within the Environment and Sustainability Committee. Given that thematic concentration is a particular ambition of the Commission for the next round of funding, we are taking a close interest in the work that is going on with regard to the common agricultural policy and the common fisheries policy. Beyond the work that is going on in Assembly committees, we are keeping in close contact with other pieces of work that have been set in train by the Welsh Government, such as the group chaired by Elizabeth Haywood, which is looking into the relevance of city regions to shaping the future economy of Wales.

Mae'r fforwm wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma. Mae wedi bod yn dipyn o her sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r darlun sy'n dod i'r amlwg o ran y potensial ar gyfer cylch arall o gyllid Ewropeaidd, ac wedyn mynd ati i gytuno ar ein meysydd gwaith allweddol. Byddwn yn cyfarfod nesaf ar ddechrau mis Mawrth eleni, ac rwyf yn benderfynol y byddwn yn y cyfarfod hwnnw yn bwrw ati, wedi sicrhau ein bod wedi cael ein briffio'n llawn ar y dasg, i gasglu barn a phrofiadau aelodau'r fforwm, a sicrhau, wrth ystyried y canfyddiadau a ddaw i'r amlwg yn sgîl yr ymarfer myfyrio, er enghraifft, ein bod yn defnyddio'u harbenigedd i helpu i lywio'r dyfodol. Mae her sylweddol wrth geisio cadw llygad ar y datblygiadau sy'n digwydd o'n cwmpas, sy'n cynnwys y sefyllfa bresennol ar y lefel Ewropeaidd, y datblygu polisi sy'n digwydd ar lefel y DU a'r swm sylweddol o waith a wneir yma yng Nghymru. Mae'r fforwm yn awyddus, er enghraifft, i ddarllen adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes, o dan gadeiryddiaeth Nick Ramsay, ar ei ymchwiliad i'r cynigion deddfwriaethol drafft ynghylch cronfeydd strwythurol yr UE ar ôl 2014. Mae gwaith yn mynd rhagddo ynghylch caffael, o dan gadeiryddiaeth Julie James, ac mae gwaith yn mynd rhagddo o fewn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. O ystyried bod crynhoi themâu yn un o uchelgeisiau penodol y Comisiwn ar gyfer y cylch cyllido nesaf, rydym yn ymddiddori'n frwd yn y gwaith a wneir ynglŷn â'r polisi amaethyddol cyffredin a'r polisi pysgodfeydd cyffredin. Y tu hwnt i'r gwaith a wneir ym mhwyllgorau'r Cynulliad, rydym yn cadw mewn cysylltiad agos â darnau eraill o waith sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru, megis y grŵp o dan gadeiryddiaeth Elizabeth Haywood, sy'n edrych ar berthnasedd rhanbarthau dinasoedd i lunio economi Cymru yn y dyfodol.

I have said to the forum that I want our discussions to be difficult and challenging. We will be forming our advice against a background of the most uncertain and threatening economic context of our

Rwyf wedi dweud wrth y fforwm fy mod eisiau i'n trafodaethau fod yn rhai anodd a heriol. Yn gefndir i'r dasg o benderfynu ar y cyngor a roddwn bydd y cyd-destun economaidd mwyaf ansicr a bygythiol yn

lifetimes. We will need to be clear-sighted and hard-headed about the challenges facing us, both within and outside of Wales. It is only by having those sorts of discussions, which are not comfortable, but which confront the challenges that we have to think through if we are to make the most of future opportunities, that we will then be able to offer the best possible advice to Ministers in their difficult but essential task of maximising the opportunities that can come to Wales from a future round of convergence funding and of making the most of those opportunities once we have secured them.

ystod ein hoes. Bydd angen inni fod yn eglur ac yn graff ynghylch yr heriau sy’n ein hwynebu, o fewn Cymru a’r tu allan iddi. Dim ond drwy gael y mathau hynny o drafodaethau, nad ydynt yn rhai cyfforddus ond sy’n wynebu’r heriau y mae’n rhaid inni eu hystyried os ydym am wneud yn fawr o gyfleoedd yn y dyfodol, y byddwn wedyn yn gallu cynnig y cyngor gorau posibl i Weinidogion yn eu tasg anodd ond hanfodol o wneud fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd a allai ddod i Gymru o ganlyniad i gylch cyllid cydgyfeirio yn y dyfodol ac o wneud y gorau o’r cyfleoedd hynny wedi inni eu sicrhau.

**Antoinette Sandbach:** I am grateful for the opportunity to speak in this debate, because European programmes are enormously important to Wales, particularly to our rural communities, as well as to the agriculture sector. I therefore welcome the reflection exercise announced by the Deputy Minister, and the opportunity that it provides for people to contribute to the development of the Welsh Labour Government’s approach. I wonder whether the Deputy Minister might consider extending the consultation period to April, when the implementing regulations are due to be published. As many people know, the devil is in the detail, and, until we see the detail, it is very hard to know how it may impact on matters such as Glastir.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl hon, gan fod rhaglenni Ewropeaidd yn hynod bwysig i Gymru, yn enwedig i’n cymunedau gwledig, yn ogystal ag i’r sector amaethyddol. Rwyf felly’n croesawu’r ymarfer myfyrio a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog, a’r cyfle a ddarperir ganddo i bobl gyfrannu at ddatblygu ymagwedd Llywodraeth Lafur Cymru. Tybed a fyddai’r Dirprwy Weinidog yn ystyried ymestyn y cyfnod ymgynghori hyd fis Ebrill, pan fwriedir cyhoeddi’r rheoliadau gweithredu? Fel y mae llawer o bobl yn gwybod, y manylion sy’n bwysig, a, hyd nes y byddwn yn gweld y manylion, mae’n anodd iawn gwybod sut y gallai effeithio ar faterion megis Glastir.

I was slightly surprised to hear what the Deputy Minister said about the UK Government’s position, which has always been to seek more fairness in the CAP payments between countries, particularly in light of the fact that we are still losing £1 billion in rebate a year, and will continue to do so until 2013, because of Tony Blair’s decision to hand back the rebate as a result of our traditional underfunding in respect of pillar 2 programmes. As William Hague said at the time:

Roeddwn yn synnu ychydig o glywed yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog am safbwynt Llywodraeth y DU, a fu erioed i gael mwy o degwch o ran taliadau PAC mewn gwahanol wledydd, yn enwedig o gofio ein bod yn parhau i golli £1 biliwn mewn ad-daliadau bob blwyddyn, a bydd hynny’n parhau tan 2013, oherwydd penderfyniad Tony Blair i ddychwelyd yr ad-daliad o ganlyniad i’r tanariannu traddodiadol o ran rhaglenni colofn 2. Fel y dywedodd William Hague ar y pryd:

‘Seldom in the course of European negotiations has so much been surrendered for so little.’

Yn anaml iawn yn ystod trafodaethau Ewropeaidd y mae cymaint wedi cael ei ildio am gyn lleied.

In relation to pillar 2, the Deputy Minister will be aware that we are historically underfunded, and that we are one of the very few countries to use modulation to assist our rural development programmes. I am certain

O ran colofn 2, bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol ein bod yn cael ein tanariannu’n hanesyddol, a’n bod ymysg yr ychydig iawn o wledydd sy’n defnyddio modiwleiddio i gynorthwyo’n rhaglenni datblygu gwledig.

that he and others will argue that the Government's contribution towards funding—or the modulated amount—should be taken into account in the consideration of pillar 2 funding.

Rwy'n sicr y bydd ef ac eraill yn dadlau y dylai cyfraniad y Llywodraeth tuag at ariannu—neu'r swm a gaiff ei fodiwleiddio—gael ei ystyried wrth ystyried cyllid colofn 2.

As the Deputy Minister knows, there are substantial concerns about Glastir, and take-up of the contract up until December has been relatively low. It may well be that the implementing regulations will provide more clarity on this matter in April, so I would again urge you to consider extending the consultation period until then, so that both matters can be dealt with at the same time.

Fel y gŵyr y Dirprwy Weinidog, mae pryderon sylweddol ynghylch Glastir, ac mae'r nifer sydd wedi manteisio ar y contract hyd at fis Rhagfyr yn gymharol isel. Mae'n bosibl y bydd y rheoliadau gweithredu yn cynnig mwy o eglurder ar y mater hwn ym mis Ebrill, felly fe'ch anogaf eto i ystyried ymestyn y cyfnod ymgynghori tan hynny, fel y gellir delio â'r ddau fater ar yr un pryd.

With regard to fisheries funding, there is a clear need for Wales to take a more strategic approach and to move away from payments to individual businesses and look at delivering better outcomes for the wider sector, in terms of added value, marketing and benefits to coastal communities. I know that the Deputy Minister has been looking in particular at the importance of the under-10m fishing fleet to Wales and how it can best be represented by European policy makers.

O ran cyllid pysgodfeydd, mae'n amlwg bod angen i Gymru weithredu mewn dull mwy strategol ac i symud i ffwrdd oddi wrth daliadau i fusnesau unigol ac edrych ar sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer y sector ehangach, o ran gwerth ychwanegol, marchnata a manteision i gymunedau arfordirol. Gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi bod yn edrych yn benodol ar bwysigrwydd y fflyd bysgota o dan 10m i Gymru a'r ffordd orau y gall hynny gael ei gynrychioli gan y rhai sy'n llunio polisi Ewropeaidd.

Concerns have been expressed to me that many stakeholders make contributions to these types of consultations but often feel that their contributions are not listened to. That was certainly a concern expressed to me recently and I hope that the Deputy Minister will give careful consideration to the consultation responses that he will receive, because often they highlight matters that may not have immediately sprung to mind when looking at the consequences of possible changes. I hope that you will take those fully into account, Deputy Minister.

Mynegwyd pryderon i mi fod llawer o randdeiliaid yn cyfrannu at y mathau hyn o ymgynghoriadau, ond eu bod yn teimlo'n aml na wrandewir ar eu cyfraniadau . Dyna'n sicr un o'r pryderon a fynegwyd imi yn ddiweddar, a gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog yn ystyried yn ofalus yr ymatebion y bydd yn eu cael drwy'r ymgynghoriad, oherwydd maent yn aml yn tynnu sylw at faterion na fyddai rhywun wedi meddwl amdanynt yn syth efallai wrth edrych ar ganlyniadau'r newidiadau posibl. Gobeithio y byddwch yn ystyried y rheini'n llawn, Ddirprwy Weinidog.

**William Graham:** Deputy Minister, you will know that, tomorrow, the Universal Church commemorates the conversion of Saint Paul. Clearly, in the best Welsh and British tradition, we always welcome the return of a prodigal son or daughter, or parties that change their minds. The Labour Party has always had what I believe is termed, in common parlance, a flaky reputation in terms

**William Graham:** Ddirprwy Weinidog, byddwch yn gwybod bod yr Eglwys Gyffredinol yfory'n coffáu tröedigaeth Sant Paul. Yn amlwg, yn nhraddodiad gorau Cymru a Phrydain, rydym bob amser yn croesawu mab neu ferch afradlon a ddychwelodd, neu bleidiau sy'n newid eu meddyliau. Credaf i Blaid Lafur wastad gael yr enw, ar lafar gwlad, o fod yn anwadal o

of its commitment to Europe. After all, it is the only party that has held a special conference on Britain being a member of the EC. At the end of that conference, it voted 2:1 for Britain to leave the European community. In its famous 1979 manifesto, known as the longest political suicide note in history, the party declared that it opposed any move towards turning the community into a federation. [*Interruption*.]

ran ei hymrwymiad i Ewrop. Wedi'r cyfan, hi yw'r unig blaid sydd wedi cynnal cynhadledd arbennig ar aelodaeth Prydain o'r Comisiwn Ewropeaidd. Ar ddiwedd y gynhadledd, pleidleisiodd 2:1 o blaid bod Prydain yn gadael y gymuned Ewropeaidd. Yn ei maniffesto enwog yn 1979, a lysenwir y nodyn hunanladdiad gwleidyddol hwyaf mewn hanes, datganodd y blaid ei bod yn gwrthwynebu unrhyw symudiad tuag at droi'r gymuned yn ffederasiwn. [*Torri ar draws.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. The Member is moving on from Saint Paul and will rapidly come onto the subject of this debate, and then I want to hear him.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'r Aelod yn symud ymlaen o Sant Paul a bydd yn dod at bwnc y ddadl hon yn gyflym, ac yna rwyf am ei glywed.

**William Graham:** In that manifesto, the party opposed any move towards turning the community into a federation. That has certain recognition in other parties. Clearly, under the leadership of Neil Kinnock, the party developed a better relationship. Today, we are grateful to Gordon Brown for keeping us out of the euro. I would also extend my gratitude to the Deputy Minister this afternoon for confirming that, yet again, west Wales and the Valleys will qualify for further aid, but this is not a badge of honour; it is very much a badge of shame. We know full well that the gross value added figures will, once again, allow these parts to qualify for assistance.

**William Graham:** Yn y maniffesto hwnnw, gwrthwynebodd y blaid unrhyw symudiad tuag at droi'r gymuned yn ffederasiwn. Caiff hynny gydnabyddiaeth sicr mewn rhai pleidiau eraill. Yn amlwg, o dan arweiniad Neil Kinnock, datblygodd y blaid berthynas well. Heddiw, rydym yn ddiolchgar i Gordon Brown am ein cadw allan o'r ewro. Estynnaf hefyd fy niolch i'r Dirprwy Weinidog y prynhawn yma am gadarnhau y bydd gorllewin Cymru a'r Cymoedd unwaith eto'n gymwys i dderbyn rhagor o gymorth, ond nid rhywbeth i ymfalchïo ynddo yw hynny; testun cywilydd ydyw. Rydym yn gwybod yn iawn y bydd y ffigurau gwerth ychwanegol crynswth, unwaith eto, yn caniatáu i'r rhannau hyn fod yn gymwys i gael cymorth.

Let us reflect on the budget itself. Hopefully, the budget will be agreed by October. It will provide €1,025 billion for commitments and €972 billion for payments. Ahead of the budget, a national delivery plan must be agreed and this may well mean an increase in the United Kingdom's receipts. It must be borne in mind that, for every extra £1 gained, at least 70p is lost in rebate. A number of member states—the United Kingdom, Germany, France, Italy, the Netherlands and Sweden—have called for significant reductions in the European Commission's proposals. The multiannual financial framework is explicitly aligned to the Europe 2020 strategy. Under FP4, by 2014, it is anticipated that €13 billion per annum will be available for innovation and research, specialisation of regional policy will be a

Gadewch inni ystyried y gyllideb ei hun. Y gobaith yw y bydd cytuno ar y gyllideb erbyn mis Hydref. Bydd yn darparu €1,025 biliwn ar gyfer ymrwymiadau a €972 biliwn ar gyfer taliadau. Cyn y gyllideb, rhaid cytuno ar gynllun cyflenwi cenedlaethol, a gallai hynny olygu cynnydd o ran derbyniadau'r Deyrnas Unedig. Rhaid cadw mewn cof, am bob £1 ychwanegol a enillir, y bydd o leiaf 70c yn cael ei golli mewn ad-daliad. Mae nifer o aelod-wladwriaethau—y Deyrnas Unedig, yr Almaen, Ffrainc, yr Eidal, yr Iseldiroedd a Sweden—wedi galw am ostyngiadau sylweddol o ran cynigion y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r fframwaith ariannol amlflwydd yn cyd-fynd yn benodol â strategaeth Ewrop 2020. O dan FP4, erbyn 2014, rhagwelir y bydd €13 biliwn y flwyddyn ar gael ar gyfer arloesi ac ymchwil,

prerequisite, and regional operational programmes, including innovation strategies, must be in place. It is hoped that they will be consultant led. An entrepreneurial approach is obviously recommended, and perhaps the Minister would care to tell the Chamber in his short concluding remarks whether links have been made with Brittany or Galicia, which are regions of the European Union that have a number of projects linked to specialisation, particularly in terms of innovation in the supply chain.

bydd arbenigo'r polisi rhanbarthol yn hanfodol, a rhaid i raglenni gweithredol rhanbarthol, gan gynnwys strategaethau arloesi, fod ar waith. Y gobaith yw y byddant o dan arweiniad ymgynghorwyr. Argymhellir ymagwedd entrepreneuraidd yn amlwg, ac efallai yr hoffai'r Gweinidog ddweud wrth y Siambr yn ei sylwadau byr wrth gloi a oes cysylltiadau wedi eu gwneud â Llydaw neu Galicia, sy'n rhanbarthau o'r Undeb Ewropeaidd sydd â nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig ag arbenigo, yn enwedig o ran arloesi yn y gadwyn gyflenwi.

It is encouraging that one of the main themes emerging is the success of small and medium-sized enterprises. We heard in our visit to Brussels before Christmas that the slogan 'think small first' will be a test applied to all commercial policies. In terms of regional policy, Horizon 2020 will have a thematic agenda designed around cohesion policy, and it is hoped that that this will again be performance related. The link between structural funds and Horizon 2020 has been raised by the European Parliament and by the high-level group on synergies. It was set up to contribute to the preparation of future EU structural funds and future EU research programmes. It is now known that the European Commission favours an approach that focuses research on funding for 2020 excellence and the use of other EU funding, such as structural funds, to develop capacity. It includes the concept of the stairways to excellence, where regions develop their research capacity, potentially as part of a smart realisation strategy to enable them to compete nationally, within Europe, and internationally. Once again, we would welcome the Deputy Minister's clarification on this point.

Mae'n galonogol mai un o'r prif themâu sy'n dod i'r amlwg yw llwyddiant y mentrau bach a chanolig . Clywsom yn ein hymweliad â Brwsel cyn y Nadolig y bydd y slogan 'meddyliwch yn fach yn gyntaf' yn brawf a fydd yn berthnasol i bob polisi masnachol. O ran polisi rhanbarthol, bydd gan Horizon 2020 agenda thematig wedi'i chynllunio ar sail polisi cydlyniant, a'r gobaith yw y bydd hyn eto'n gysylltiedig â pherfformiad. Codwyd y cysylltiad rhwng cronfeydd strwythurol a Horizon 2020 gan Senedd Ewrop a chan y grŵp lefel uchel ar synergeddau. Fe'i sefydlwyd i gyfrannu at baratoi cronfeydd strwythurol yr UE yn y dyfodol a rhaglenni ymchwil yr UE yn y dyfodol. Mae'n hysbys erbyn hyn fod y Comisiwn Ewropeaidd yn ffafrio dull sy'n canolbwyntio ar waith ymchwil ar ariannu ar gyfer rhagoriaeth 2020 a defnyddio cyllid arall yr UE, megis cronfeydd strwythurol, i ddatblygu gallu. Mae'n cynnwys y cysyniad o gael grisiau i ragoriaeth, lle y bydd rhanbarthau'n datblygu eu gallu i ymchwilio, o bosibl fel rhan o strategaeth wireddu er mwyn eu galluogi i gystadlu yn genedlaethol, yn Ewrop, ac yn rhyngwladol. Unwaith eto, byddem yn croesawu eglurhad gan y Dirprwy Weinidog ar y pwynt hwn.

5.15 p.m.

**Nick Ramsay:** It is always difficult following St Paul in any debate, but I will do my best. This is an important and timely debate, and follows one just a couple of weeks ago on structural funds. I am pleased to see that today's debate has not been highjacked by the First Minister, as it was last time, and we did get some real policy and ideas from the Deputy Minister rather than

**Nick Ramsay**: Mae bob amser yn anodd dilyn Sant Paul mewn unrhyw ddadl, ond fe wnaf fy ngorau. Mae hon yn ddadl bwysig ac amserol, ac yn dilyn un ond ychydig wythnosau yn ôl ar y cronfeydd strwythurol. Rwyf yn falch o weld nad yw'r Prif Weinidog wedi herwgipio'r ddadl heddiw, fel y tro diwethaf, a chafwyd rhywfaint o bolisi a syniadau go iawn gan y Dirprwy Weinidog

the grandstanding that we are sadly used to. I would like to say that I know that the Deputy Minister for European programmes spends many hours on the road and in the air—even though he does not like flying—to attend meetings with both UK and European Union colleagues, and I think that we are all agreed that the voice that he spoke about in terms of working alongside the UK Government in Brussels to represent Wales, is beneficial to everyone living in Wales.

yn hytrach na'r ymgais fawr i greu argraff a gawn fel arfer yn anffodus. Hoffwn ddweud fy mod yn gwybod bod y Dirprwy Weinidog rhaglenni Ewropeaidd yn treulio oriau lawer ar y ffordd ac yn yr awyr—er nad yw'n hoffi hedfan—i fynd i gyfarfodydd â chyd-Weinidogion y DU a'r Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n credu ein bod i gyd yn cytuno bod y llais a siaradodd amdano o ran gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU ym Mrwsel i gynrychioli Cymru, yn fuddiol i bawb sy'n byw yng Nghymru.

I have questioned in the Enterprise and Business Committee, as he knows, whether others are listening to him as much as he would like. I think that he has discovered, as the national Government has, that you can only work with the tools and the inheritance that you have, but he has good intentions.

Rwyf wedi holi yn y Pwyllgor Menter a Busnes, fel mae'n gwybod, a yw pobl eraill yn gwrando arno gymaint ag y byddai'n dymuno. Rwy'n credu ei fod ef, fel y Llywodraeth genedlaethol, wedi darganfod na allwch ond weithio gyda'r offer a'r etifeddiaeth sydd gennych, ond mae ei galon yn y lle iawn.

I would like to return to the point that I intervened on earlier, regarding our amendment. I think that the Government is going to accept two of the amendments, but not ours. I have looked at that amendment again and I really cannot see the Government's problem with it. The motion was probably a bit sloppy to start with in that it did not mention efficiency. Point (c) says that

Hoffwn ddychwelyd at y pwynt y gwneuthum ymyrryd arno yn gynharach, ynghylch ein gwelliant. Rwy'n credu bod y Llywodraeth am dderbyn dau o'r gwelliannau, ond nid ein gwelliant ni. Rwyf wedi edrych eto ar y gwelliant hwnnw, ac ni allaf, mewn gwirionedd, weld beth yw problem y Llywodraeth. Efallai fod y cynnig ychydig yn flêr i ddechrau gan nad oedd yn sôn am effeithlonrwydd. Dywed pwynt (c)

'the Welsh Government's commitment to strengthening further Wales' links with EU institutions'.

'ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau cysylltiadau Cymru â sefydliadau'r UE ymhellach'.

We want to keep that bit, but then we want to change

Rydym am gadw hynny, ond yna rydym am newid

'in the development and implementation of its European programmes'

'wrth ddatblygu a gweithredu ei Rhaglenni Ewropeaidd'

to

i

'is best achieved by delivering European Programmes efficiently, effectively and ensuring maximum benefit for the people of Wales'.

'a'r ffordd orau o wneud hynny yw drwy gyflawni Rhaglenni Ewropeaidd yn effeithlon ac yn effeithiol a sicrhau'r budd mwyaf posibl i bobl Cymru'.

What on earth is the matter with that? It is not even changing too much of the spirit of the original. I urge the Deputy Minister to reconsider the Welsh Government's opposition to that.

Beth ar y ddaear sy'n bod ar hynny? Nid yw hyd yn oed yn newid gormod ar yra ysbryd y gwreiddiol. Rwy'n annog y Dirprwy Weinidog i ailystyried gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i hynny.

In his opening remarks, he spoke about west Wales and the Valleys. It is sad that they are not out of the danger zone, and we continually speak about the need for these areas to be lifted so that they do not qualify for funding. Yes, we are in the position that we are, so we want those areas to get the funding that they should—whatever the new regime for funding might be—but those areas should not have qualified. As I said in the Enterprise and Business Committee, I do not doubt the Deputy Minister's enthusiasm for dealing with this; he portrayed that quite clearly in the meeting last week. However, these are long-standing structural problems. How many times have we heard in this Chamber over the past 10 years about a commitment to deal with these long-standing problems? It simply has not happened. I hope that it happens this time, and that, in 2020, the Deputy Minister can stand here and say, 'I did that'. As I say, it has not happened before, but let us hope that it does now.

Yn ei sylwadau agoriadol, siaradodd am y gorllewin a'r Cymoedd. Mae'n drist nad ydynt allan o'r ardal beryglus, ac rydym yn siarad yn barhaus am yr angen i'r ardaloedd hyn gael eu codi fel nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid. Ydym, rydym yn y sefyllfa yr ydym ynddi, felly rydym am i'r ardaloedd hynny gael y cyllid y dylent—beth bynnag yw'r gyfundrefn newydd ar gyfer cyllid—ond ni ddylai'r ardaloedd hynny fod yn gymwys. Fel y dywedais yn y Pwyllgor Menter a Busnes, nid wyf yn amau brwdfrydedd y Dirprwy Weinidog yn ymdrin â hyn, dangosodd hynny'n glir yn y cyfarfod yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, ceir problemau strwythurol hirsefydlog. Sawl gwaith y clywsom yn y Siambr hon yn ystod y 10 mlynedd diwethaf am ymrwymiad i fynd i'r afael â'r problemau hirsefydlog hyn? Nid yw wedi digwydd. Gobeithio y bydd yn digwydd y tro hwn, ac y gall y Dirprwy Weinidog sefyll yma yn 2020 a dweud, 'Fi wnaeth hynny'. Fel y dywedaf, nid yw wedi digwydd o'r blaen, ond gadewch inni obeithio y bydd yn digwydd nawr.

I know that you have been working with Mark Prisk at Westminster. As Eluned Parrott said, we want this to be a positive debate so that the Deputy Minister goes back not just with criticisms, but goes back to my party, and the other parties working in Westminster, to provide an input that, when it is taken to Brussels, will really put the voice of Wales on the map. That has not always happened, and is to be welcomed.

Gwn eich bod wedi bod yn gweithio gyda Mark Prisk yn San Steffan. Fel y dywedodd Eluned Parrott, rydym am i hon fod yn ddadl gadarnhaol fel bod y Dirprwy Weinidog yn mynd yn ôl at fy mhlaid i, a'r pleidiau eraill sy'n gweithio yn San Steffan, gyda chyfraniad, nid beirniadaeth, a fydd wir yn rhoi llais Cymru ar y map pan gaiff ei gario i Frwsel. Nid yw hynny wedi digwydd bob tro, ac mae hynny i'w groesawu.

Mark Drakeford mentioned the priorities of the Government, and in the Enterprise and Business Committee session that we had with you, Deputy Minister, we had all sorts of wonderful expressions such as 'thematic concentration'; we have all learned a lot from those meetings. One part of your evidence informed committee that you felt that thematic concentration was too prescriptive, and that you are pressing for greater flexibility in that area. I would be grateful if you could tell Plenary exactly what you mean by that, because you know that there is a difference of opinion, certainly with the HE sector, and DG Employment, Social Affairs and Inclusion officials have said that Welsh programmes are already delivering support

Soniodd Mark Drakeford am flaenoriaethau'r Llywodraeth, ac yn sesiwn y Pwyllgor Menter a Busnes a gawsom gyda chi, Ddirprwy Weinidog, cawsom bob math o ymadroddion arbennig fel 'crynodiad thematig'; rydym i gyd wedi dysgu llawer o'r cyfarfodydd hynny. Roedd un rhan o'r dystiolaeth a roddwyd gennych i'r pwyllgor yn ei hysbysu eich bod yn teimlo bod crynodiad thematig yn rhy benodol, a'ch bod yn pwyso am fwy o hyblygrwydd yn y maes hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrth y Cyfarfod Llawn yn union beth rydych yn ei olygu wrth hynny, gan eich bod yn gwybod bod gwahaniaeth barn, yn sicr o ran y sector AU, ac mae swyddogion Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth,

above the minimum threshold of the draft proposals. I was not entirely clear about your response to the Enterprise and Business Committee, so I would be grateful if you could clarify that.

Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant wedi dweud bod rhaglenni Cymru eisoes yn darparu cefnogaeth uwch na throthwy isaf y cynigion drafft. Nid oeddwn yn gwbl glir ynghylch eich ymateb i'r Pwyllgor Menter a Busnes, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro hynny.

Finally, I saw you nodding vigorously, Deputy Minister, when it was said that this was the measure on which you intend your success to be judged. I have never known for you to shy away from a challenge. You were the subject of several taunts during the last Assembly over certain challenges that you undertook, and you seemed to come through those. I hope that you are right this time—the jury is still very much out—but I look forward to this becoming a reality, as does everyone in this Chamber.

Yn olaf, fe'ch gwelais yn amneidio'n frwd, Ddirprwy Weinidog, pan ddywedwyd mai hwn yw'r mesur rydych yn bwriadu i'ch llwyddiant gael ei feirniadu arno. Nid wyf erioed wedi eich gweld yn gwrthod her. Roeddech yn destun gwawd sawl gwaith yn ystod y Cynulliad diwethaf dros heriau penodol y gwnaethoch eu derbyn, ac ymddengys eich bod wedi dod drwyddynt. Gobeithio eich bod yn iawn y tro hwn—nid yw'r rheithgor wedi penderfynu eto—ond rwy'n edrych ymlaen i hyn gael ei wireddu, fel y mae pawb yn y Siambr hon.

**The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies):** I assume that those remarks were meant kindly, so I will thank my friend for making them.

**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies**): Rwyf yn tybio bod y sylwadau hynny i fod yn garedig, felly diolch i fy ffrind am eu gwneud.

A number of issues were raised by the Conservative spokesperson, which are the types of issues that we are listening to people raise at the moment, and we will respond in due course. The Conservative spokesperson for rural affairs asked us to extend the consultation to include the publication of the implementing regulations in the spring. We are not able to do that, because we are negotiating at the moment, and we need to be working hard on a detailed negotiating position. It is something that we are discussing at the moment with the UK Government. When the implementing regulations for CAP are published, we will ensure that there is an opportunity for people to contribute to the development of a Welsh view on those.

Cododd llefarydd y Ceidwadwyr nifer o faterion, sef y mathau o faterion rydym yn clywed pobl yn eu codi ar hyn o bryd, a byddwn yn ymateb maes o law. Gofynnodd llefarydd y Ceidwadwyr dros faterion gwledig inni ymestyn yr ymgynghoriad i gynnwys cyhoeddi'r rheoliadau gweithredu yn y gwanwyn. Ni allwn wneud hynny, oherwydd ein bod yn trafod ar hyn o bryd, a rhaid inni fod yn gweithio'n galed ar sefyllfa negodi fanwl. Mae'n rhywbeth rydym yn ei drafod ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y DU. Pan gyhoeddir y rheoliadau gweithredu ar gyfer y PAC, byddwn yn sicrhau bod cyfle i bobl gyfrannu at y gwaith o ddatblygu barn Cymru arnynt.

While I am addressing these matters, let me say that we have a good working relationship with the departments that we deal with in the UK Government. The speaking notes delivered by UK Ministers are developed in consultation with our officials. The speaking note that Mark Prisk used at the EU General Affairs Council in December was one which

Tra rwyf yn trafod y materion hyn, gadewch imi ddweud bod gennym berthynas waith dda gyda'r adrannau rydym mewn cysylltiad â hwy yn Llywodraeth y DU. Caiff y nodiadau siarad a gyflwynir gan Weinidogion y DU eu datblygu mewn ymgynghoriad â'n swyddogion. Roedd y nodyn siarad a ddefnyddiodd Mark Prisk yng Nghyngor

I had agreed and discussed with him prior to the council. So, we have a good working relationship with people at a political and official level. That does not always necessarily lead to agreement—we still have areas of disagreement—but the working relationship is good. In many ways, the UK Government is working well in terms of delivering a strong Welsh view when we attend these meetings.

Materion Cyffredinol yr UE ym mis Rhagfyr yn un a gytunais arno ac a drafodais gydag ef cyn y cyngor. Felly, mae gennym berthynas waith dda â phobl ar lefel wleidyddol a swyddogol. Nid yw hynny bob amser yn arwain at gytundeb, wrth gwrs— ydym yn dal anghytuno ar rai meysydd—ond mae'r berthynas waith yn un dda. Mewn sawl ffordd, mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n dda o ran darparu safbwynt Cymreig cref pan fyddwn yn mynd i'r cyfarfodydd hyn.

I was disappointed to hear the Welsh Conservatives say that they will not support amendment 2, which calls for a direct voice for Wales in Europe. As I understand, this is a new departure for the Welsh Conservatives, and I hope it is one they will reconsider because I do not believe that not having that direct voice is in the best interests of any of the political parties represented here.

Cefais fy siomi wrth glywed Ceidwadwyr Cymru yn dweud na fyddant yn cefnogi gwelliant 2, sy'n galw am lais uniongyrchol i Gymru yn Ewrop. Fy nealltwriaeth i yw bod hon yn fenter newydd i'r Ceidwadwyr Cymreig, a gobeithio ei bod yn un y byddant yn ei hailystyried gan nad wyf yn credu nad yw cael y llais uniongyrchol hwnnw o fudd gorau i unrhyw un o'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yma.

As I hope I made clear in my opening remarks, the Welsh Government does not support the reduction in budgets proposed by the current UK Government nor does it support the reductions proposed in pillar 1 direct payments to farmers. That is not the position of this Government, and we have made that clear to the UK Government.

Fel y gwneuthum yn amlwg yn fy sylwadau agoriadol gobeithio, nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gostyngiad yn y cyllidebau a gaiff ei gynnig gan Lywodraeth bresennol y DU ac nid yw'n cefnogi'r gostyngiadau a gaiff eu cynnig yn y taliadau uniongyrchol colofn 1 i ffermwyr. Nid dyna sefyllfa'r Llywodraeth hon, ac rydym wedi gwneud hynny'n glir i Lywodraeth y DU.

I will close by saying that the Liberal Democrats spokesperson was right in what she said about undertaking a critical analysis of where we are and what we have achieved. However, spending in the current programmes will not be completed until 2015, so we will not be in a position to take a harder view of those things. However, the points about looking hard at what has worked and what has not were good points well made, and we will be doing that.

Byddaf yn cloi drwy ddweud bod llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn iawn yn yr hyn a ddywedodd ynghylch ymgymryd â dadansoddiad beirniadol o ble rydym nawr a beth rydym wedi ei gyflawni. Fodd bynnag, ni fydd gwariant yn y rhaglenni cyfredol wedi'i gwblhau tan 2015, felly ni fyddwn mewn sefyllfa i edrych yn fanylach ar y pethau hynny. Fodd bynnag, roedd y pwyntiau ynghylch edrych yn fanwl ar yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn nad oedd wedi gweithio, yn bwyntiau da, a byddwn yn gwneud hynny.

I am anxious that in taking these matters forward, Members feel that they will be active participants in this debate. I am determined to ensure that we develop programmes that have a real impact on the lives of people in the communities that we represent. I represent the area in which I was born, and I want to make sure that the people

Wrth symud y materion hyn ymlaen, rwyf yn awyddus i'r Aelodau deimlo y byddant yn cymryd rhan weithredol yn y ddadl hon. Rwyf yn benderfynol o sicrhau ein bod yn datblygu rhaglenni a gaiff effaith wirioneddol ar fywydau pobl yn y cymunedau rydym yn eu cynrychioli. Rwyf yn cynrychioli'r ardal lle cefais fy ngeni, ac rwyf am sicrhau bod y

who live there have opportunities we did not in the past. That commitment is absolute, and it will be delivered.

bobl sy'n byw yno yn cael cyfleoedd na chawsom ni yn y gorffennol. Mae hynny yn ymrwymiad llawn, a bydd yn cael ei gyflwyno.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? I see that there is objection. I therefore defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cymunedau yn Gyntaf
## Communities First

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of William Graham, amendment 2 in the name of Jocelyn Davies and amendments 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of Peter Black.

**Y Dirprwy Lywydd**: Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham, gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 3, 4, 5, 6 a 7 yn enw Peter Black.

*Cynnig NDM4896 Jane Hutt*

*Motion NDM4896 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd, a fydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi, gyda chynnwys y gymuned yn egwyddor allweddol iddi.*

*Notes the new Communities First Programme, which will focus on tackling poverty with community involvement being a key principle.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

As Members will be aware, I launched the consultation on the future of Communities First in July of last year. It was a popular consultation to which we received 339 responses. All of the responses were reviewed, and I announced the key changes to the Communities First programme in November. These will take effect from April 2012 and will provide a firm foundation for this Government to meet our manifesto commitment to retain the Communities First programme, and for us to move forward in delivering a programme with a renewed emphasis on tackling poverty while maintaining community involvement, which will be critical to its success.

Fel y gŵyr yr Aelodau, lansiais yr ymgynghoriad ar ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf ym mis Gorffennaf y llynedd. Roedd yn ymgynghoriad poblogaidd a chawsom 339 o ymatebion. Cafodd pob un o'r ymatebion eu hadolygu, a chyhoeddais y prif newidiadau i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ym mis Tachwedd. Bydd y rhain yn dod i rym o fis Ebrill 2012 a byddant yn sicrhau sylfaen gadarn i'r Llywodraeth hon i gyflawni ein hymrwymiad maniffesto i gadw'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac inni symud ymlaen o ran darparu rhaglen a fydd yn rhoi pwyslais o'r newydd ar fynd i'r afael â thlodi yn ogystal â chynnal cyfranogiad y gymuned. Bydd hyn yn hanfodol i'w llwyddiant.

The programme will build on the commitment of Communities First and preserve the best of the current programme. However, it will be a new programme in many respects, with a renewed focus on meeting this Government's priorities to create healthier communities, prosperous communities and learning communities. Therefore, while I note that amendment 6 from Peter Black is not drafted in a positive way, I am not afraid of supporting it. We are striving to improve the programme and to make things better for communities across Wales. We are committed to tackling the difficult and complex problems around bringing communities out of poverty.

Bydd y rhaglen yn adeiladu ar ymrwymiad Cymunedau yn Gyntaf a chadw'r gorau o'r rhaglen bresennol. Fodd bynnag, bydd yn rhaglen newydd ar lawer ystyr, gyda ffocws newydd ar gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth hon i greu cymunedau iach, cymunedau llewyrchus a chymunedau dysgu. Er fy mod yn nodi nad yw gwelliant 6 gan Peter Black wedi'i ddrafftio mewn modd cadarnhaol, nid oes arnaf ofn ei gefnogi. Rydym yn ymdrechu i wella'r rhaglen a gwneud pethau'n well i gymunedau ar draws Cymru. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r problemau anodd a chymhleth sy'n gysylltiedig â helpu cymunedau allan o dlodi.

It is clear that Peter wants to hark back to the past without any solutions for the future, and that is why I will be opposing amendments 3, 4 and 5. We are looking to the future while maintaining our commitment to the most deprived areas of Wales, unlike the Liberal Democrats, who seem to favour bolstering their Westminster counterparts' attacks on the most vulnerable in our communities.

Mae'n amlwg bod Peter am gyfeirio nôl at y gorffennol heb unrhyw atebion ar gyfer y dyfodol, a dyna pam y byddaf yn gwrthwynebu gwelliannau 3, 4 a 5. Rydym yn edrych i'r dyfodol tra'n cynnal ein hymrwymiad i ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, yn wahanol i'r Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n ymddangos fel pe baent o blaid cryfhau ymosodiadau eu cymheiriaid yn San Steffan ar y mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Alongside our focus on this new programme, we are focusing on three fundamental requirements: community involvement; the delivery of 'Tackling Poverty' outcomes; and good governance. Respondents to the consultation told us that community involvement is a vital element of the programme, which aims to lift communities out of poverty. I agree with them. We are seeking to strike the right balance between community-led initiatives and a strategic approach to tackling poverty within communities, which can only be achieved by communities working with government at a local and national level, along with the third sector and business community. All of these groups will have a voice on the regional boards that will be established, and the participation of community representatives will ensure that the community-focused nature of the programme is not lost. It remains essential that communities are empowered under the programme, especially the most vulnerable communities.

Ochr yn ochr â chanolbwyntio ar y rhaglen newydd hon, rydym yn canolbwyntio ar dri o ofynion sylfaenol: cynnwys y gymuned; cyflwyno canlyniadau 'Mynd i'r Afael â Thlodi'; a llywodraethu da. Dywedodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod cynnwys y gymuned yn elfen hanfodol o'r rhaglen, sy'n anelu at godi cymunedau allan o dlodi. Rwy'n cytuno â hwy. Rydym yn ceisio cael y cydbwysedd cywir rhwng mentrau a gaiff eu harwain gan y gymuned a dull strategol o fynd i'r afael â thlodi mewn cymunedau, a dim ond wrth i gymunedau weithio gyda'r llywodraeth ar lefel leol a chenedlaethol y gellir cyflawni hyn, ynghyd â'r trydydd sector a'r gymuned fusnes. Bydd gan bob un o'r grwpiau hyn lais ar y byrddau rhanbarthol a gaiff eu sefydlu, a bydd cyfranogiad y cynrychiolwyr cymunedol yn sicrhau nad yw natur gymunedol y rhaglen yn mynd ar goll. Mae'n parhau'n hanfodol bod cymunedau yn cael eu grymuso o dan y rhaglen, yn enwedig y cymunedau mwyaf agored i niwed.

The delivery of 'Tackling Poverty' outcomes

Bydd cyflwyno canlyniadau 'Mynd i'r Afael

through the new Communities First outlook framework will also be critical, and the new outlook framework for the programme will include a new set of key indicators that show how the variety of local activity is contributing to strategic outcomes. That is why I am happy to accept amendment 2 from Jocelyn and amendment 7 from Peter Black. Our approach will be a challenging approach, and we should not underestimate the effort required to ensure that we will be able to demonstrate the full value and benefit of our investment in Communities First. As we have found with the existing programme, the sort of work the programme does in changing communities, while not always measurable, should not be underestimated. Therefore, while I envisage the continuation of some of the good work already going on to tackle poverty in the existing programme, I am clear that work that does not support the strategic aims of the new programme will not be funded by the Communities First programme.

â Thlodi' drwy'r fframwaith rhagolygon newydd Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn hanfodol, a bydd y fframwaith rhagolygon newydd ar gyfer y rhaglen yn cynnwys set newydd o ddangosyddion allweddol sy'n dangos sut mae'r amrywiaeth o weithgareddau lleol yn cyfrannu at ganlyniadau strategol. Dyna pam yr wyf yn hapus i dderbyn gwelliant 2 gan Jocelyn a gwelliant 7 gan Peter Black. Bydd ein hymagwedd yn ymagwedd heriol, ac ni ddylem danbrisio'r ymdrech sydd ei hangen i sicrhau y gallwn ddangos gwerth llawn a manteision ein buddsoddiad yn Cymunedau yn Gyntaf. Fel yr ydym wedi canfod gyda'r rhaglen bresennol, ni ddylid tanbrisio'r math o waith y mae'r rhaglen yn ei wneud o ran newid cymunedau, er nad yw bob amser yn fesuradwy. Er fy mod, felly, yn rhagweld parhad rhywfaint o'r gwaith da sydd eisoes yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â thlodi yn y rhaglen bresennol, yr wyf yn glir na fydd gwaith nad yw'n cefnogi amcanion strategol y rhaglen newydd yn cael ei ariannu gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

This will apply equally for the funding for staff. I know that the people who work and volunteer at the heart of the programme are our most important asset. Not only is this the case, but the programme makes an important contribution to the economy in Wales through the employment of 850 staff. Maintaining and building on the skills base of our staff will continue in the new programme, as I want to see the staff working closely with local people and other agencies, and supporting them in carrying on to deliver real change. However, I will be making it clear that every application for funding will need to demonstrate the contribution that each post will make to the aims of the programme, and meet the key standards required to deliver the programme in the cluster area.

Bydd hyn yr un mor berthnasol i'r cyllid ar gyfer staff. Gwn mai'r bobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli wrth galon y rhaglen yw ein hased pwysicaf. Ar ben hynny, mae'r rhaglen yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi yng Nghymru drwy gyflogi 850 o staff. Bydd cynnal y sgiliau sydd gan ein staff ac adeiladu arnynt yn parhau yn y rhaglen newydd, gan fy mod am weld y staff yn gweithio'n agos â phobl leol ac asiantaethau eraill, ac yn eu cefnogi i barhau i gyflawni newid gwirioneddol. Fodd bynnag, byddaf yn ei gwneud yn glir y bydd angen i bob cais am arian ddangos y cyfraniad y bydd pob swydd yn ei wneud i amcanion y rhaglen, a bydd angen iddynt gwrdd â'r safonau allweddol sydd eu hangen i gyflwyno'r rhaglen yn yr ardal clwstwr.

We will, however, be building on some of the successes of the current programme, and we will also introduce new opportunities for Communities First clusters through greater join-up across the Welsh Government and other sponsored bodies. A good example of this work is the integrated children's centres pilot scheme, where we have worked in partnership with Jobcentre Plus to place a dedicated personal adviser in children's

Byddwn, fodd bynnag, yn adeiladu ar rai o lwyddiannau'r rhaglen bresennol, a byddwn hefyd yn cyflwyno cyfleoedd newydd ar gyfer clystyrau Cymunedau yn Gyntaf drwy fwy o gydlynu ar draws Llywodraeth Cymru a'r cyrff eraill a noddir. Enghraifft dda o'r gwaith hwn yw cynllun peilot y canolfannau plant integredig, lle rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith i roi ymgynghorydd personol penodol mewn

centres within four Communities First areas. This has now helped more than 100 workless families back into work. That is quite an achievement. My officials have also worked with the Department for Education and Skills in the Welsh Government to introduce a project that works with those not in employment, education or training. The project will support 180 young people in Communities First areas. To build on this, we will be working closely with the Jobs Growth Wales fund to ensure that Communities First clusters benefit from this major programme.

canolfannau plant o fewn pedair ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn bellach wedi helpu dros 100 o deuluoedd di-waith yn ôl i'r gwaith. Mae hynny'n dipyn o gamp. Mae fy swyddogion hefyd wedi gweithio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru i gyflwyno prosiect sy'n gweithio gyda'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Bydd y prosiect yn cefnogi 180 o bobl ifanc mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Er mwyn adeiladu ar hyn, byddwn yn gweithio'n agos â chronfa Twf Swyddi Cymru er mwyn sicrhau bod clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn elwa o'r rhaglen fawr hon.

I now wish to focus on governance. For Communities First to flourish, it is essential that everyone has full confidence that the programme is consistently well-managed and that public funds are always safeguarded. In this regard, I agree with the sentiments of William Graham's amendment. However, his amendment goes further in suggesting that independent community organisations should be created. The focus and emphasis of the new programme in the early stages must be on ensuring that existing organisations that want to be lead delivery bodies have the appropriate systems in place as opposed to focusing on creating new organisations.

Rwyf am ganolbwyntio nawr ar lywodraethu. Er mwyn i Cymunedau yn Gyntaf ffynnu, mae'n hanfodol bod pawb yn gwbl hyderus bod y rhaglen yn cael ei rheoli'n dda yn gyson a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser. Yn hyn o beth, rwy'n cytuno ag ysbryd gwelliant William Graham. Fodd bynnag, aiff ei welliant ymhellach drwy awgrymu y dylid creu sefydliadau cymunedol annibynnol. Ar y dechrau, rhaid i'r rhaglen newydd ganolbwyntio a phwysleisio ar sicrhau bod gan sefydliadau sy'n bodoli eisoes sydd am fod yn gyrff cyflenwi arweiniol y systemau priodol ar waith yn hytrach na'u bod yn canolbwyntio ar greu cyrff newydd.

5.30 p.m.

Nevertheless, governance will be robust. In future, grant funding from the Welsh Government will be awarded directly to lead delivery bodies for a cluster area. However, I will only allow an organisation to become a lead delivery body if it passes stringent due diligence checks and has a strong track record of managing public funding, demonstrating its commitment to community involvement. The regional dimension is not going to be lost and I will be establishing regional programme boards, in line with the regional footprints that I announced last July, to monitor the work of clusters and also share good practice.

Serch hynny, bydd trefn lywodraethol gadarn. Yn y dyfodol, bydd arian grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i gyrff arweiniol ar gyfer ardal glwstwr. Fodd bynnag, ni fyddaf ond yn caniatáu i sefydliad ddod yn gorff arweiniol os bydd yn pasio gwiriadau diwydrwydd dyladwy llym a bod ganddo hanes cryf o reoli arian cyhoeddus, gan ddangos ei ymrwymiad i gyfranogiad cymunedol. Ni fydd y dimensiwn rhanbarthol yn cael ei golli a byddaf yn sefydlu byrddau rhaglen rhanbarthol, yn unol â'r olion traed rhanbarthol a gyhoeddais fis Gorffennaf diwethaf, er mwyn monitro gwaith clystyrau a hefyd i rannu arferion da.

Colleagues, this is an exciting time for Communities First and I am determined that our new programme will be at the forefront

Gydweithwyr, mae hwn yn amser cyffrous i Cymunedau yn Gyntaf ac rwyf yn benderfynol y bydd ein rhaglen newydd ar

of tackling poverty across Wales. I hope that each and every Member can support this.

flaen y gad o ran mynd i'r afael â thlodi ledled Cymru. Rwyf yn gobeithio y gall pob Aelod gefnogi hyn.

*Gwelliant 1 William Graham*

*Amendment 1 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi y bydd rhaid i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd gael sylfaen llywodraethu corfforaethol effeithiol er mwyn gallu creu Mudiadau Cymunedol annibynnol.*

*Notes that the new Communities First Programme will require a foundation of effective corporate governance to enable the creation of independent Community Organisations.*

**Mark Isherwood:** I move amendment 1 in the name of William Graham.

**Mark Isherwood:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham.

The future delivery of the new Communities First programme must support an anti-poverty agenda and alleviate severe and persistent poverty. Contrary to claims in the Welsh Labour manifesto last year, Welsh Conservatives would have left more money than Labour in the supporting communities and people's budget, which funds Communities First. Further, unlike Welsh Labour's manifesto, the Welsh Conservative manifesto recognised that the second phase of Communities First comes to an end in 2012. Conscious of the evidence findings in a succession of reports on the Communities First programme, our manifesto stated that we would set-up a network of community anchor organisations to support and encourage community enterprise and social entrepreneurship. We are also conscious of a need to maximise outcomes from the reduced funding for Communities First detailed in Welsh Labour Government budgets. Although some £300 million has been spent on Communities First so far, adult learning participation rates in these areas have gone down.

Rhaid i'r modd y cyflwynir rhaglen newydd Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol gefnogi agenda gwrthdlodi a lleddfu tlodi difrifol a pharhaus. Yn groes i honiadau ym maniffesto Llafur Cymru y llynedd, byddai'r Ceidwadwyr Cymreig wedi gadael mwy o arian na'r Blaid Lafur yn y gyllideb ar gyfer cefnogi cymunedau a phobl, sy'n ariannu Cymunedau yn Gyntaf. Ymhellach i hynny, yn wahanol i faniffesto Llafur Cymru, cydnabu maniffesto'r Ceidwadwyr Cymreig fod ail gam Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben yn 2012. Nododd ein maniffesto, wrth ystyried y canfyddiadau o'r dystiolaeth mewn cyfres o adroddiadau ar raglen Cymunedau yn Gyntaf, y byddem yn sefydlu rhwydwaith o sefydliadau angor cymunedol i gefnogi mentrau cymunedol ac entrepreneuriaeth gymdeithasol a'u hannog. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau y ceir y canlyniadau gorau posibl o'r cyllid ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, sydd wedi gostwng, a nodwyd yng nghyllidebau Llywodraeth Lafur Cymru. Er bod tua £300 miliwn wedi'i wario ar Cymunedau yn Gyntaf hyd yma, mae cyfraddau cyfranogi ym maes dysgu i oedolion yn yr ardaloedd hyn wedi gostwng.

The 2006 interim evaluation of Communities First found little evidence of rigorous monitoring and evaluation and that Communities First was still a long way away from producing the regeneration outcomes that were, and still are, its main aims. The Joseph Rowntree Foundation found that Communities First had led to quite marginal improvements only, while positive changes

Ni chanfu gwerthusiad interim 2006 Cymunedau yn Gyntaf fawr ddim tystiolaeth o fonitro a gwerthuso trylwyr, a chanfu fod camau mawr i'w cymryd cyn y bydd Cymunedau yn Gyntaf yn cyflawni'r canlyniadau mewn perthynas ag adfywio a oedd, ac sy'n parhau i fod, yn brif amcanion y rhaglen. Darganfu Sefydliad Joseph Rowntree fod Cymunedau yn Gyntaf wedi

were mainly down to a mix of housing tenures and younger populations with higher skill levels moving in. As a member of the Audit Committee in the second Assembly, I successfully called for an inquiry into Communities First to be included in the Wales Audit Office's forward work programme. The resulting Wales Audit Office report, published in July 2009, stated that

arwain at welliannau eithaf ymylol yn unig, tra bo newidiadau cadarnhaol yn deillio yn bennaf o gymysgedd o ddaliadaethau tai a phoblogaethau iau â lefelau sgiliau uwch yn symud i mewn. Fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio yn ystod yr ail Gynulliad, galwais yn llwyddiannus am i ymchwiliad i Cymunedau yn Gyntaf gael ei gynnwys ym mlaenraglen waith Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd yn sgil hynny ym mis Gorffennaf 2009:

'serious weaknesses in financial planning and the processes for funding the programme led to widespread variation in funding with no clear rationale for funding decisions'.

'Arweiniodd gwendidau difrifol yn y gwaith cynllunio ariannol a'r prosesau ar gyfer ariannu'r rhaglen at amrywiad eang yn yr arian a roddwyd heb unrhyw sail resymegol glir dros benderfyniadau'n ymwneud ag ariannu.'

It found that there was an absence of basic human resource and financial planning, that monitoring was weak and that there was no evidence that anything was done with the feedback. Hence, our amendment 1, which not only notes that the new Communities First programme will require a foundation of effective corporate governance but also that that will enable the creation of independent community organisations.

Canfu fod diffyg adnoddau dynol sylfaenol a chynllunio ariannol, fod monitro yn wan ac nad oedd dim tystiolaeth bod yr adborth yn cael ei ddefnyddio. Dyna pam y gwnaethom gyflwyno gwelliant 1, sydd nid yn unig yn nodi y bydd angen sylfaen o lywodraethu corfforaethol effeithiol ar raglen newydd Cymunedau yn Gyntaf, ond hefyd y bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl creu sefydliadau cymunedol annibynnol.

We must be concerned by the Wales Audit Office findings that identified corporate governance failings and worse in the Plas Madoc Communities First scheme. We must also be concerned about alleged corporate governance failings in other Communities First grant recipient bodies since, and that the Welsh Government appointed the Association of Voluntary Organisations in Wrexham, as grant recipient body for Plas Madoc Communities First, after AVOW's own serious governance problems had been identified and exposed in an employment tribunal judgment. Neither AVOW nor the Welsh Government has provided an answer to the question: when did AVOW inform the Welsh Government about the employment tribunal and its findings, which were known on 14 March 2011?

Rhaid iddo fod yn destun pryder inni fod canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi methiannau mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol, a methiannau gwaeth, yng nghynllun Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc. Rhaid iddo fod yn destun pryder inni hefyd y cafwyd methiannau honedig ers hynny ynghylch llywodraethu corfforaethol mewn cyrff Cymunedau yn Gyntaf eraill sy'n derbyn grantiau, a bod Llywodraeth Cymru wedi penodi'r Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam, neu AVOW, yn gorff sy'n derbyn grant ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc. Gwnaeth hynny ar ôl i broblemau llywodraethu difrifol AVOW gael eu nodi a'u datgelu mewn dyfarniad gan dribiwnlys cyflogaeth. Nid yw AVOW na Llywodraeth Cymru wedi ateb y cwestiwn hwn: pryd y bu i AVOW hysbysu Llywodraeth Cymru am y tribiwnlys cyflogaeth a'i ganfyddiadau, a oedd yn hysbys ar 14 Mawrth 2011?

The joint paper published by the Wales

Bu i'r papur ar y cyd a gyhoeddwyd gan

Council for Voluntary Action and Community Development Cymru, 'Communities First: A Way Forward', detailed proposals for an achievable future vision for communities that would be more effective at tackling deprivation and building stronger communities with less bureaucracy and cost, and more community ownership. The paper sought to chart a way forward that builds upon existing successes, overcoming the design flaws inherent in the programme and seeking to create an achievable vision for the future that is more effective, at least 20% cheaper and less bureaucratic. They found that

Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Datblygu Cymunedol Cymru, 'Cymunedau yn Gyntaf: Ffordd Ymlaen', fanylu ar gynigion ar gyfer gweledigaeth gyraeddadwy o'r dyfodol i gymunedau a fyddai'n fwy effeithiol wrth fynd i'r afael ag amddifadedd ac adeiladu cymunedau cryfach gyda llai o fiwrocratiaeth a chost, a mwy o berchnogaeth gymunedol. Roedd y papur yn ceisio canfod ffordd ymlaen sy'n adeiladu ar lwyddiannau presennol, gan oresgyn y gwendidau cynllunio sy'n gynhenid yn y rhaglen a cheisio llunio gweledigaeth gyraeddadwy o'r dyfodol sy'n fwy effeithiol, o leiaf 20% yn rhatach ac yn llai biwrocrataidd. Gwelsant fod

'the original design of the programme was flawed in that it did not have clear aims but, nevertheless, created over ambitious expectations'.

'cynllun gwreiddiol y rhaglen yn ddiffygiol gan nad oedd yn cynnwys amcanion clir ac, yn ogystal â hynny, am ei bod yn creu disgwyliadau a oedd yn rhy uchelgeisiol'.

The design meant that ownership was confused between local community, local authority and central Government. They said that the missing link in achieving community ownership was the lack of a longer-term vision in the programme, enabling communities to move beyond programmes to establish their own independent institutions, which can then, in turn, work as equal partners in delivering real outcomes that the community values and owns and is willing to mobilise around.

Roedd y cynllun yn golygu bod dryswch o ran y berchnogaeth rhwng y gymuned leol, yr awdurdod lleol a Llywodraeth ganolog. Dywedasant mai'r ddolen goll o ran llwyddo i greu perchnogaeth gymunedol oedd diffyg gweledigaeth tymor hwy yn y rhaglen, a fyddai'n galluogi cymunedau i symud y tu hwnt i raglenni i sefydlu eu sefydliadau annibynnol eu hunain, a all wedyn, yn eu tro, weithio fel partneriaid cyfartal wrth gyflawni canlyniadau go iawn y mae'r gymuned yn eu gwerthfawrogi, yn berchen arnynt ac yn barod i'w hannog.

They propose that one way forward to fill the missing link is through a community anchor, where community organisations in each area would be invited to apply for anchor status as a focus for services and activities meeting local need. They concluded that this approach would lead to more independent, resilient communities owning and controlling their own organisations as assets. They stated that it would move beyond programme and Government dependency and provide the community-owned dimension that is often sought, but seldom achieved in creating a better Wales.

Maent yn cynnig mai un ffordd o lenwi'r bwlch o ran y ddolen goll honno fyddai drwy gael angor cymunedol. Byddai mudiadau cymunedol ym mhob ardal yn cael eu gwahodd i wneud cais am statws angor, gan fod yn ffocws i wasanaethau a gweithgareddau sy'n diwallu anghenion lleol. Daethant i'r casgliad y byddai'r dull hwn yn arwain at gymunedau mwy annibynnol a gwydn sy'n berchen ar eu sefydliadau eu hunain fel asedau, ac sy'n eu rheoli. Gwnaethant ddatgan y byddai hynny'n symud y tu hwnt i ddibyniaeth ar raglenni a'r Llywodraeth ac yn cynnig dimensiwn sy'n eiddo i'r gymuned, sef rhywbeth a geisir yn aml, ond a gyflawnir yn anaml wrth greu Cymru well.

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwerthusiad priodol yn rhan annatod o'r holl brosiectau Cymunedau yn Gyntaf er mwyn mesur llwyddiant ac i allu gwneud gwelliannau yn ystod oes y prosiectau.*

**Rhodri Glyn Thomas:** Cynigiaf welliant 2 yn enw Jocelyn Davies.

Rwy'n falch fy mod wedi cael fy ngalw i gyfrannu at y ddadl hon. Rwy'n croesawu'r ddadl a sylwadau agoriadol y Gweinidog. Rwy'n flin fy mod wedi ei siomi wrth gwestiynu rhai agweddau ar ei ddatganiad blaenorol. Er fy mod wedi croesawu'r datganiad, mae'n amlwg nad oedd yn gwerthfawrogi'r cwestiynau a ofynnais ynglŷn â'r datganiad hwnnw. Ceisiaf fod yn fwy adeiladol yn y ddadl hon.

Rydym yn rhannu'r weledigaeth a arweiniodd at sefydlu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae gweithredu mewn cymunedau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau gwirioneddol tlodi yn eithriadol o bwysig. Rydym hefyd yn rhannu'r weledigaeth y dylai'r prosiectau hyn godi o'r cymunedau eu hunain a chael eu harwain gan bobl yn eu cymunedau—gan bobl sy'n deall eu cymunedau.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am gefnogi gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies. Mae'r gwelliant hwn yn mynd i'r afael â rhai o wendidau'r cynllun blaenorol. Mae'r Gweinidog wedi bod yn ddigon gonest i gydnabod nad oedd y cynllun Cymunedau yn Gyntaf gwreiddiol wedi llwyddo i'r graddau roedd y Llywodraeth wedi gobeithio, ac rydym yn hapus iawn i weithio gyda'r Gweinidog i sicrhau bod y cynllun newydd hwn yn fwy llwyddiannus ac yn gadael ar ei ôl ganlyniadau a fydd yn dangos yn glir bod gwelliant, bod y cymunedau hynny wedi tyfu a datblygu ac wedi ymgyfoethogi o ganlyniad i weithgaredd prosiectau Cymunedau yn Gyntaf.

O ran y gwelliannau, rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 1 yn enw William Graham. Mae gan Peter Black bump o welliannau;

*Add new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to ensure that the appropriate evaluation is built into all Communities First projects in order to measure success and to enable improvements to be made during the lifetime of the projects*

.

**Rhodri Glyn Thomas:** I move amendment 2 in the name of Jocelyn Davies.

I am pleased that I have been called to contribute to this debate. I welcome the debate and the Minister's opening remarks. I am sorry that I disappointed him in questioning some aspects of his previous statement. Although I did welcome the statement, it is obvious that he did not appreciate the questions that I posed regarding that statement. I will try to be more constructive in this debate.

We share the vision that led to the establishment of Communities First. Working within communities in order to address the very real problems of poverty is extremely important. We also share the vision that these projects should spring from the communities themselves and be led by people within their communities—by people who understand those communities.

I am grateful to the Minister for supporting amendment 2 in the name of Jocelyn Davies. That amendment addresses some of the weaknesses that existed in the previous scheme. The Minister has been honest enough to acknowledge that the original Communities First scheme did not succeed to the extent that the Government had hoped that it would, and we are very happy to work with the Minister to ensure that the new scheme is more successful and that it leaves a legacy that demonstrates clearly that there has been improvement, and that those communities have grown and developed and have become enriched as a result of the activities of Communities First projects.

Turning to the amendments, we are happy to support amendment 1 in the name of William Graham. Peter Black has five amendments; it

mae'n ymddangos mai'r egwyddor mae Peter yn ei ddilyn yw bod yn rhaid iddo gynhyrchu o leiaf tri gwelliant yn fwy nag unrhyw reolydd busnes arall. Pe bai'r nifer yn ychwanegu at eu gwerth, byddem yn barod i'w hystyried. Fodd bynnag, byddwn yn atal ein plediais ar welliant 3, gan ei fod yn amherthnasol yn awr oherwydd bod y Gweinidog wedi derbyn gwelliant 2, sy'n nodi'r pwynt hwnnw mewn ffordd llawer iawn mwy creadigol ac adeiladol na gwelliant 3. Mae Peter Black yn ailadrodd gwelliant 4 yng ngwelliant 7, i bob pwrpas, mewn ffordd gadarnhaol yn hytrach na negyddol. Mae'n amlwg ei fod wedi penderfynu bod isafswm o bump gwelliant yn angenrheidiol ac felly mae wedi rhannu'r pwynt rhwng y ddau welliant. Byddwn yn cefnogi gwelliannau 5, 6 a 7.

seems that the principle that Peter Black follows is that he has to table three more amendments than any other business manager. If the quantity added to the quality, we would be willing to consider them. However, we will abstain on amendment 3, as it is now irrelevant given that the Minister is supporting amendment 2, which notes the same point in a much more creative and constructive manner than amendment 3. To all extents and purposes, in amendment 7, Peter Black is repeating what he has in amendment 4, but in an affirmative rather than negative way. It is clear that he has decided that a minimum of five amendments is essential, so he has divided the point between the two amendments. We will support amendments 5, 6 and 7.

Mae'r syniad o alluogi cymunedau i ddarganfod ffyrdd o orchfygu'r tlodi sy'n eu gormesu yn eithriadol o bwysig. Hoffwn godi rhai pwyntiau gyda chi, Weinidog. Mae'r cynllun newydd yn symud y pwyslais o gymunedau i ardaloedd. Mae hynny'n ymwneud â'r weledigaeth sylfaenol. Sut yr ydych am sicrhau bod yr elfen gymunedol honno'n parhau, bod pobl yn gweithio yn eu cymunedau eu hunain, a bod pobl sy'n adnabod eu cymunedau yn gweithio gyda'u cymuned er mwyn sicrhau bod y gymuned honno yn elwa ar y cynlluniau hyn? Pan ydych yn meddwl am rai o'r clystyrau hyn yr ydych yn dweud bod rhaid eu creu, byddai hynny'n uno ardaloedd sydd nid yn unig yn bell yn ddaearyddol oddi wrth ei gilydd ond sy'n dra gwahanol i'w gilydd o ran natur. Yr ydych hefyd yn cyfyngu i bedwar clwstwr ar gyfer pob sir. O ystyried bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn nyffrynnoedd de Cymru, a yw cyfyngu i bedwar clwstwr yn mynd i olygu y bydd rhai cymunedau'n colli allan oherwydd y rheol honno'n unig, ac nid oherwydd unrhyw angen ar eu rhan nhw? A oes perygl, wrth symud i'r pwyslais newydd hwn, ein bod yn symud o sefyllfa lle roedd y prosiectau yn codi o'r gymuned i fyny i sefyllfa lle mae prosiectau'n cael eu rheoli o'r Llywodraeth i lawr?

The idea of enabling communities to discover ways of overcoming the poverty that is oppressing them is vitally important. I would like to raise some points with you, Minister. The new scheme shifts the emphasis away from communities to areas. That is based upon the underlying vision. How are you going to ensure that that community vision continues, that people work in their own community, and that people who know their community work with that community in order to ensure that it benefits from these schemes? When you think of some of the clusters that you say must be created, that would merge areas that are not only spread out geographically but that are quite different in nature. You are also restricting it to four clusters per county. Given that the majority of the schemes are in the south Wales Valleys, does restricting it to four clusters not mean that some communities will lose out because of that rule alone, rather than because of any of their needs? Is there not a risk that, in shifting to this new emphasis, we will be moving from a position on projects arising from the communities up to a position of projects being managed from the top down by the Government?

**The Deputy Presiding Officer:** I call on Peter Black to move amendments 3, 4, 5, 6 and 7, tabled in his name, and which are all in order.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 3, 4, 5, 6 a 7, a gyflwynwyd yn ei enw, ac sydd oll mewn trefn.

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu nad oedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wreiddiol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi.*

*Amendment 3 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that the original Communities First programme did not focus on tackling poverty.*

*Gwelliant 4 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi bod adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf wedi dod i'r casgliad 'ni all rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ddangos gwerth am arian'.*

*Amendment 4 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes that the Public Accounts Committee's report into Communities First concluded that 'the Communities First programme cannot demonstrate value for money.'*

*Gwelliant 5 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi, yn ei adroddiad 'Regenerating Communities First Neighbourhoods', mai gwelliannau bychain yn unig a ganfuwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.*

*Amendment 5 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes that, in its report, 'Regenerating Communities First Neighbourhoods', the Joseph Rowntree Foundation identified only 'marginal improvements' in Communities First areas.*

*Gwelliant 6 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd yn cyflawni gwell canlyniadau na'i rhagflaenydd.*

*Amendment 6 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to ensure that its new Communities First programme delivers better results than its predecessor.*

*Gwelliant 7 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd dargedau clir, perthnasol a mesuradwy i fynd i'r afael â thlodi.*

*Amendment 7 Peter Black*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to ensure that its new Communities First programme has clear, relevant and measurable targets to tackle poverty.*

**Peter Black:** I move amendments 3, 4, 5, 6 and 7.

Thank you, Deputy Presiding Officer, for confirming that these amendments are in

**Peter Black:** Cynigiaf welliannau 3, 4, 5, 6 a 7.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, am gadarnhau bod y newidiadau hyn mewn trefn. Rwyf

order. I am also grateful to Rhodri Glyn Thomas for confirming that he will support at least some of those amendments and for proving, once again, that he can at least count.

hefyd yn ddiolchgar i Rhodri Glyn Thomas am gadarnhau y bydd yn cefnogi o leiaf rai o'r gwelliannau hynny ac am brofi, unwaith eto, ei fod, o leiaf, yn gallu cyfrif.

There is a common agenda across the Chamber in that we all support the need and desire to help raise the most vulnerable people in our communities so as to fulfil their potential. However, I think that blindly promoting an ineffective scheme helps no-one, and we should not become entrenched in promoting an initiative that does not work, even after many changes. That is not saying that we are not going to support this motion or that we do not support the changes that the Minister has brought in. We are giving notice that—I have lost count of the number of times that this scheme has been revised: maybe three or four—it is going to come to a point where we have to say that the scheme itself is not working and that we need to look at a different way of doing things. As it happens, I am concerned—

Mae agenda gyffredin ar draws y Siambr gan ein bod i gyd yn cefnogi'r angen a'r awydd i ddyrchafu'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial. Fodd bynnag, yn fy marn i, nid yw hyrwyddo cynllun aneffeithiol yn ddifeddwl yn helpu neb, ac ni ddylem wreiddio'n hunain mewn sefyllfa o hyrwyddo menter nad yw'n gweithio, hyd yn oed ar ôl nifer o newidiadau. Nid yw hynny'n golygu na fyddwn yn cefnogi'r cynnig hwn, neu nad ydym yn cefnogi'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Gweinidog. Rydym yn rhybuddio—ni allaf gyfrif y nifer o weithiau y mae'r cynllun hwn wedi'i ddiwygio: efallai tair neu bedair o weithiau—y byddwn yn dod at bwynt pan fydd yn rhaid inni ddweud nad yw'r cynllun yn gweithio a bod yn rhaid inni edrych ar ffordd wahanol o wneud pethau. Fel y mae'n digwydd, rwyf yn pryderu—

**David Rees** *rose*—

**David Rees** *a gododd*—

**Peter Black:** I will just finish this point first. I am concerned that, when you look at the ministerial decisions document, which is linked to the motion, the Minister appears to have constructed an elaborate edifice with very little local accountability or transparency, in the sense that it is very top-down as opposed to involving local authorities. I am still concerned that there are no clear and measurable targets attached to this scheme by which you can evaluate how successful it has been.

**Peter Black:** Hoffwn orffen y pwynt hwn yn gyntaf. Mae'n peri pryder imi ei bod yn ymddangos, wrth edrych ar y ddogfen ynghylch penderfyniadau gweinidogol, sy'n gysylltiedig â'r cynnig, fel pe bai'r Gweinidog wedi llunio adeiladwaith cymhleth sydd ag ychydig iawn o atebolrwydd lleol a thryloywder, yn yr ystyr ei fod yn gweithredu o'r brig i lawr yn hytrach na'n cynnwys awdurdodau lleol. Mae'n dal yn destun pryder i mi nad oes unrhyw dargedau clir a mesuradwy ynghlwm wrth y cynllun hwn fel y gallwch werthuso ei lwyddiant.

**David Rees:** You say that it is not working, but in my constituency—and in your region—there are Communities First programmes, such as those in New Sandfields Aberavon, Briton Ferry West and the Aberafan valley, which are actually succeeding and achieving, getting people back into work and making communities feel better about themselves. Do you not agree that that is the case?

**David Rees:** Rydych yn dweud nad yw'n gweithio, ond yn f'etholaeth i—ac yn eich rhanbarth chi—mae rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, megis y rhai yn Sandfields Newydd yn Aberafan, yng Ngorllewin Llansawel a dyffryn Aberafan, sydd yn llwyddo ac yn cyflawni; maent yn cael pobl yn ôl i'r gwaith ac yn gwneud i gymunedau deimlo'n well amdanynt eu hunain. Oni fyddech yn cytuno bod hynny'n wir?

**Peter Black:** I agree that some communities have seen improvements. However, as of March of last year, over £342 million had been spent on Communities First, with no discernable reduction in poverty across most of the 155 areas that it supports. I have another example in the county of Bridgend, which is also in my region. Look at some of the Communities First areas there and their relative positions in terms of the index of multiple deprivation. Bettws and Brackla 3 are more deprived now than they were in 2005. Caerau 1 and 2 are now in the bottom 2%, having dropped from thirty-fifth and sixty-sixth to eighth and thirty-eighth respectively. Clearly, there are issues in many of the communities where Communities First is in place of not achieving the objectives of eliminating poverty, raising people up, helping them to get back on their feet or delivering the fundamental change that Communities First was first intended to address. I have concerns that, despite the many changes that have been put in place, we have not yet got a scheme that is going to deliver what we need it to deliver.

**Peter Black:** Cytunaf fod gwelliannau wedi'u gweld mewn rhai cymunedau. Fodd bynnag, erbyn mis Mawrth y llynedd, roedd dros £342 miliwn wedi'i wario ar Cymunedau yn Gyntaf, ond ni chafwyd unrhyw ostyngiad canfyddadwy mewn tlodi ar draws y mwyafrif o'r 155 o ardaloedd y mae'n eu cefnogi. Mae gennyf enghraifft arall yn sir Pen-y-bont ar Ogwr, sydd hefyd yn fy rhanbarth. Edrychwch ar rai o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yno, a'u safleoedd cymharol o ran y mynegai amddifadedd lluosog. Mae Betws a Bracla 3 yn fwy difreintiedig yn awr nag yr oeddent yn 2005. Mae Caerau 1 a 2 yn awr yn y 2% isaf, ar ôl iddynt ostwng o'r pymthegfed safle ar hugain a'r chweched safle a thrigain, yn y drefn honno, i'r wythfed safle a'r deunawfed safle ar hugain. Yn amlwg, mae problemau mewn sawl cymuned lle y mae Cymunedau yn Gyntaf ar waith, lle nad yw'r amcanion o ddileu tlodi, dyrchafu pobl a'u rhoi yn ôl ar ben ffordd neu gyflwyno'r newid sylfaenol yr oedd Cymunedau yn Gyntaf i fod i fynd i'r afael ag ef yn cael eu cyflawni. Mae gennyf bryderon nad oes gennym eto gynllun a fydd yn cyflawni'r hyn y mae angen inni ei gyflawni, er gwaethaf y sawl newid a wnaed.

The Minister referred to me harking back to previous schemes. I think that that is still relevant, because, although we have this model in front of us—I suppose that we have moved from a Ford Focus to a Prius, perhaps—we still have no guarantees that it is going to work, and I still have concerns that, unless we start to involve local government and the money it spends—unless we start bending its programmes as well as our own—we will still not achieve that. If you are going to introduce a top-down structure, effectively controlled from the centre, you are not going to get that buy-in from those other partners who operate on a local level, who will feel disenchanted and disempowered by the way that this new scheme will be delivered.

Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith fy mod yn rhygnu ymlaen am gynlluniau blaenorol. Credaf fod hynny'n dal yn berthnasol, oherwydd er bod gennym y model hwn o'n blaenau—ac mae'n debyg ein bod wedi symud o'r Ford Focus i'r Prius, efallai—nid oes gennym unrhyw sicrwydd o hyd y bydd yn gweithio, ac, oni bai ein bod yn dechrau cynnwys llywodraeth leol a'r arian y mae'n ei wario—oni bai ein bod yn dechrau addasu ei rhaglenni yn ogystal â'n rhai ein hunain—ni fyddwn yn dal i gyflawni hynny. Os ydych yn mynd i gyflwyno strwythur o'r brig i lawr, a reolir i bob pwrpas o'r canol, ni fyddwch yn cael cefnogaeth y partneriaid eraill hynny sy'n gweithredu ar lefel leol, a fydd yn teimlo'n ddadrithiedig ac yn ddi-rym oherwydd y ffordd y cyflwynir y cynllun newydd hwn.

5.45 p.m.

We believe that one of the biggest weaknesses of the Communities First programme since its inception has been the failure to engage with the private sector,

Credwn mai un o wendidau mwyaf y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ers ei sefydlu yw'r methiant i ymgysylltu â'r sector preifat, yn arbennig busnesau lleol, i adfywio

particularly local businesses, in regenerating local communities. There needs to be a set of indicators that shows specifically how money that is being spent in the Communities First area will produce an outcome and which will measure how successful it is. Clear targets must be set for that money and not necessarily for the whole range of programmes of which it performs a small part. Empowerment is very much a part of that and of how we deliver it.

cymunedau lleol. Mae angen set o ddangosyddion sy'n dangos yn benodol sut y bydd yr arian sy'n cael ei wario yn yr ardal Cymunedau yn Gyntaf yn sicrhau canlyniad ac a fydd yn mesur ei lwyddiant. Rhaid gosod targedau clir ar gyfer yr arian hwnnw ac nid o reidrwydd ar gyfer yr ystod eang o raglenni y mae'n chwarae rôl fach ynddynt. Mae grymuso yn sicr yn rhan o hynny, ac yn rhan o sut rydym yn ei gyflwyno.

We have already referred to the Wales Audit Office and its view, as well as that of the Joseph Rowntree Foundation, which said that, between 2001 and 2008, some conditions have improved in first-generation Communities First areas and that, on average, population and house prices have increased and economic inactivity has declined. However, it said that, in comparison to similar neighbourhoods, the gains that have been made in the first-generation Communities First areas have been relatively marginal. What we want from this new scheme is to go above the marginal. We need to start introducing a step change in the way that communities are empowered and improved. The latest incarnation has a great deal to prove to deliver on that.

Rydym eisoes wedi cyfeirio at Swyddfa Archwilio Cymru a'i safbwynt, yn ogystal â safbwynt Sefydliad Joseph Rowntree, a ddywedodd fod rhai amodau, rhwng 2001 a 2008, wedi gwella yn ardaloedd cenhedlaeth gyntaf Cymunedau yn Gyntaf, a bod y boblogaeth a phrisiau tai, ar gyfartaledd, wedi cynyddu tra bo anweithgarwch economaidd wedi lleihau. Fodd bynnag, wrth gymharu cymunedau tebyg, dywedodd fod y cynnydd a wnaed yn ardaloedd cenhedlaeth gyntaf Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn gymharol fach. Rydym am i'r cynllun newydd hwn wneud yn well na hynny. Rhaid inni ddechrau cyflwyno newid sylweddol i'r ffordd y galluogir cymunedau i rymuso ac i wella. Mae gan y cynllun diweddaraf lawer iawn i'w brofi er mwyn cyflawni hynny.

**The Deputy Presiding Officer:** I have a lot of people who want to speak and I want to call as many Members as possible, so please be succinct if you are called.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae gennyf nifer o bobl sydd eisiau siarad ac rwyf am alw cymaint o Aelodau â phosibl, felly byddwch yn gryno os cewch eich galw.

**Kenneth Skates:** I welcome the opportunity that this debate provides to examine the future of Communities First. I also want to praise the commitment that the Minister has shown to reforming the programme and the excellent assistance that he has given to Communities First wards in my constituency in the recent past. It is important to recognise the progress that has been made in the first generation of Communities First. Although amendment 5 seeks to highlight the criticisms made in the 2010 Joseph Rowntree report on Communities First, as we have just heard, in its evaluation, the report points out that Communities First areas experienced an overall decline in the percentage of inactive working-age populations over a seven-year period after 2001 and that economic inactivity declined in these areas up to 2008.

**Kenneth Skates:** Croesawaf y cyfle a roddir gan y ddadl hon i archwilio dyfodol Cymunedau yn Gyntaf. Rwyf hefyd yn awyddus i ganmol yr ymrwymiad a ddangoswyd gan y Gweinidog i ddiwygio'r rhaglen a'r cymorth rhagorol y mae wedi'i roi i wardiau Cymunedau yn Gyntaf yn fy etholaeth i yn ddiweddar. Mae'n bwysig cydnabod y cynnydd a wnaed yn ardaloedd cenhedlaeth gyntaf Cymunedau yn Gyntaf. Er bod gwelliant 5 yn ceisio tynnu sylw at y feirniadaeth a wnaed yn adroddiad 2010 Joseph Rowntree ar Cymunedau yn Gyntaf, fel rydym wedi'i glywed, mae'r adroddiad yn nodi, yn ei werthusiad, bod ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi profi gostyngiad cyffredinol yn y ganran o boblogaethau anweithgar o oedran gweithio dros gyfnod o saith mlynedd ar ôl 2001 a bod

In addition, in my area of Clwyd South, I can point to important areas in which the Communities First programme has had a really positive impact on the lives of local people, helping to promote community involvement and empowering residents in deprived neighbourhoods to take control of their lives.

anweithgarwch economaidd wedi dirywio yn yr ardaloedd hyn hyd at 2008. Yn ogystal, yn fy ardal i, sef De Clwyd, gallaf nodi meysydd pwysig lle cafodd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf effaith gadarnhaol iawn ar fywydau pobl leol, gan helpu i hyrwyddo cyfranogiad cymunedol a rhoi grym i drigolion mewn cymunedau difreintiedig reoli eu bywydau.

However, we must remember what we are up against in 2012. Although many Communities First areas have benefited from population gains and increased house prices in recent years, unemployment is still a major factor in these areas and the bleak economic climate risks undermining the aims of the programme and the ability of the people within those communities to work themselves free of poverty and deprivation.

Fodd bynnag, rhaid inni gofio’r hyn a wynebwn yn 2012. Er bod llawer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi elwa ar gynnydd yn y boblogaeth a phrisiau tai uwch yn y blynyddoedd diwethaf, mae diweithdra yn parhau’n ffactor pwysig yn yr ardaloedd hyn ac mae perygl y bydd yr hinsawdd economaidd lwm yn tanseilio amcanion y rhaglen a gallu’r bobl o fewn y cymunedau hynny i ddod yn rhydd o dlodi ac amddifadedd.

The danger that we must avoid in developing a new programme in this climate is that of not properly evaluating or unpicking those parts of the programme that will work in the long term, but which struggle to show immediate political pay-off in a difficult and depressed economic environment. The areas that we are talking about today will be those hardest hit by job losses, benefit changes and the public sector spending cuts affecting the wider economy. Therefore, this successor programme must be focused on the medium and long term.

Y perygl y mae’n rhaid inni ei osgoi wrth ddatblygu rhaglen newydd yn yr hinsawdd hon yw ein bod yn peidio â gwerthuso neu nodi’r rhannau hynny o’r rhaglen a fydd yn gweithio yn y tymor hir, ond sy’n ei chael yn anodd dangos elw gwleidyddol yn syth mewn amgylchedd economaidd anodd a dirwasgedig. Y meysydd rydym yn sôn amdanynt heddiw yw’r rhai sy’n dioddef fwyaf yn sgîl colli swyddi, newidiadau mewn budd-daliadau a’r toriadau gwariant yn y sector cyhoeddus sy’n effeithio ar yr economi ehangach. Felly, rhaid i’r rhaglen olynol hon ganolbwyntio ar y tymor canolig a’r tymor hir.

Clearly, as the Minister has pointed out, the problems experienced by some Communities First projects provide us with important lessons about how the financial control and governance of the new Communities Next initiative should work. One point that I want to raise is that there must be clear and direct lines of accountability in the successor programme so that the early warnings about failures in such schemes are flagged up sooner and prompt and swift action is taken to resolve the problems identified. The lesson for the future is that we require more effective oversight and stewardship at a senior level of the programmes and a more rigorous and ongoing assessment of the day-to-day work of the projects. I would stress here that, in my constituency, Plas Madoc

Yn amlwg, fel y mae’r Gweinidog wedi’i nodi, mae’r problemau a brofwyd gan rai prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn cynnig gwersi pwysig i ni ynghylch sut y dylai rheolaeth a llywodraethiant ariannol menter newydd Cymunedau Nesaf weithio. Un pwynt rwyf am ei godi yw’r angen am linellau atebolrwydd clir ac uniongyrchol yn y rhaglen olynol fel yr amlygir yn gynt y rhybuddion cynnar ynghylch methiannau mewn cynlluniau o’r fath a bod y gweithredu’n digwydd yn brydlon ac yn gyflym i ddatrys y problemau a nodwyd. Y wers ar gyfer y dyfodol yw ein bod yn gofyn am oruchwyliaeth a stiwardiaeth fwy effeithiol o’r rhaglenni ar lefel uwch ac asesiad mwy trylwyr a pharhaus o waith dyddiol y prosiectau. Pwysleisiaf yma fod

Communities First has moved on significantly. The action taken by the Minister to begin a programme of detailed audit and inspection has helped to ensure that more appropriate governance arrangements are now in place and that we are on the right track.

Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc, sydd yn fy etholaeth i, wedi cymryd camau sylweddol ymlaen. Mae'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog i ddechrau rhaglen o archwilio ac arolygu manwl wedi helpu i sicrhau bod trefniadau llywodraethu mwy priodol ar waith bellach a'n bod ar y trywydd iawn.

The motivation for getting this right is clear for all to see. The tax and benefit changes outlined in the UK coalition Government's autumn statement will place the greatest burden squarely on the poorest people. The new scheme must focus on building social capital in our communities, enhancing democratic community involvement and tackling the specific determinants of deprivation in the areas. I believe, importantly, that we can find agreement in this Chamber that, where community development has worked, that has been as a result of communities themselves identifying their priorities and acting upon them in a way that works.

Mae'r cymhelliad ar gyfer gwneud hyn yn iawn yn glir i bawb ei weld. Bydd y newidiadau treth a budd-daliadau a amlinellwyd yn natganiad Llywodraeth glymblaid y DU yn yr hydref yn gosod y baich mwyaf ar y bobl dlotaf yn llwyr. Rhaid i'r cynllun newydd ganolbwyntio ar adeiladu cyfalaf cymdeithasol yn ein cymunedau, gwella cyfranogiad cymunedol democrataidd a mynd i'r afael â phenderfynyddion penodol amddifadedd yn yr ardaloedd. Credaf y gallwn—mae hyn yn bwysig iawn—gael cytundeb yn y Siambr hon bod datblygu cymunedol wedi gweithio mewn ardaloedd penodol o ganlyniad i'r ffaith bod y cymunedau eu hunain yn nodi eu blaenoriaethau ac yn gweithredu arnynt mewn ffordd sy'n gweithio.

In short, communities and projects have succeeded where they have had genuine democratic control. A sense of ownership increases participation, improves the prioritisation of local problems, creates a community spirit, and builds trust and a belief in the programme that can then be a vehicle for wider community change. That is the vision for Communities First that we need to see in Wales, and that is the vision that I hope that Communities Next can deliver.

Yn fyr, mae cymunedau a phrosiectau wedi llwyddo lle bu rheolaeth ddemocrataidd go iawn. Mae ymdeimlad o berchnogaeth yn cynyddu cyfranogiad, mae'n gwella'r broses o flaenoriaethu problemau lleol, mae'n creu ysbryd cymunedol, ac mae'n meithrin ymddiriedaeth a chred yn y rhaglen a all wedyn fod yn gyfrwng ar gyfer newid yn y gymuned ehangach. Dyna'r weledigaeth ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf y mae angen inni ei gweld yng Nghymru, a dyna'r weledigaeth rwyf yn gobeithio y gall Cymunedau Nesaf ei chyflawni.

**Suzy Davies:** Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r ddadl hon heddiw. Fel Aelod rhanbarthol dros ran o Gymru sydd â nifer fawr o wardiau Cymunedau yn Gyntaf, gwn fod llawer o bobl yn falch bod yr ansicrwydd yn dod i ben.

**Suzy Davies:** I am pleased that the Welsh Government has tabled this debate today. As a regional Member for a part of Wales that has a large number of Communities First wards, I know that many people are pleased that the uncertainty is coming to an end.

Mae hefyd yn gyfle i greu enw da newydd ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Yn debyg i Dechrau'n Deg, a gafodd ei drafod yr wythnos diwethaf, nid oes neb yn amau'r bwriad uchelgeisiol y tu ôl i sefydlu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

It is also an opportunity to give Communities First a new reputation. As with Flying Start, which was discussed last week, no-one doubts the ambition behind the establishment of the Communities First programme.

All Communities First areas will have achieved something. In the Afan valley, in my region, 92 people gained work between the winter of 2009 and the summer of 2011 as a result of the Communities First programme and partnership working.

Bydd holl ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi cyflawni rhywbeth. Yng nghwm Afan, yn fy rhanbarth i, cafodd 92 o bobl waith rhwng gaeaf 2009 a haf 2011 o ganlyniad i raglen a gwaith partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf.

Changes in attitude are just as important. As one participant said, people must change their ways of thinking if they are to get themselves going: it is little things that get people out of a rut and get them up in the morning and get them to have some pride in themselves. We will all have heard something similar from our constituents but, overall, the impact is not what could be expected. There is significant evidence that the programme has not been value for money and those criticisms will be aired again in this debate.

Mae newidiadau mewn agwedd yr un mor bwysig. Fel y dywedodd un cyfranogwr, rhaid i bobl newid eu ffyrdd o feddwl os ydynt am roi hwb i'w hunain: y pethau bach sy'n cael pobl allan o dwll ac sy'n peri iddynt godi yn y bore ac i gael rhywfaint o falchder yn eu hunain. Bydd pob un ohonom wedi clywed rhywbeth tebyg oddi wrth ein hetholwyr, ond, yn gyffredinol, nid yw'r effaith yr hyn y gellid ei ddisgwyl. Mae tystiolaeth sylweddol i ddangos nad yw'r rhaglen wedi dangos gwerth am arian a bydd y feirniadaeth honno'n cael ei chodi eto yn y ddadl hon.

Do the Welsh Government's plans, which flow from the consultation, address those criticisms? Some changes leap out as being very positive, such as the larger, flexible boundaries, which will, hopefully, resolve the problem that the majority of poor children live outside the supported areas. It also accommodates the reality that areas adjacent to the most deprived wards can provide economic opportunity. We heard what Peter Black said on poor private sector involvement to date; these changes should remove those inconvenient barriers.

A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru, a ddaw yn sgîl yr ymgynghoriad, yn mynd i'r afael â'r feirniadaeth honno? Mae rhai newidiadau yn amlwg yn rhai cadarnhaol iawn, megis y ffiniau mwy a hyblyg, a fydd, gobeithio, yn datrys y broblem bod y mwyafrif o blant tlawd yn byw y tu allan i'r ardaloedd a gefnogir. Mae hefyd yn cwmpasu'r realiti y gall ardaloedd ger y wardiau mwyaf difreintiedig gynnig cyfleoedd economaidd. Clywsom yr hyn a ddywedodd Peter Black ar gyfraniad gwael y sector preifat hyd yn hyn; dylai'r newidiadau hyn ddileu'r rhwystrau anghyfleus hynny.

The Welsh Government has faced up to the need for stronger governance and clearer financial accountability and line management, and consistent monitoring is also to be welcomed. The focus on poverty and the three routes to delivery provide a much clearer focus for Communities First. However, has the Government's response perhaps moved a little too far? Are regional boards absolutely necessary? Promotion of Communities First programmes in disseminating good practice does not require a whole new layer of bureaucracy. Why does Communities First need an 'interface' with the Welsh Government? The Government needs to be asking questions directly of lead delivery bodies. Effective corporate governance is indeed a crucial factor in the

Mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu'r angen am lywodraethu cryfach ac atebolrwydd ariannol a rheoli llinell mwy eglur, ac mae monitro cyson hefyd i'w groesawu. Mae'r ffocws ar dlodi a'r tri llwybr i gyflawni yn rhoi ffocws llawer cliriach ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, a yw ymateb y Llywodraeth efallai wedi mynd ychydig yn rhy bell? A yw byrddau rhanbarthol yn gwbl angenrheidiol? Nid yw hyrwyddo rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf wrth ledaenu arfer da yn gofyn am haen newydd o fiwrocratiaeth. Pam fod angen 'rhyngwynebu' â Llywodraeth Cymru ar Cymunedau yn Gyntaf? Mae angen i'r Llywodraeth ofyn cwestiynau uniongyrchol i gyrff arweiniol sy'n darparu. Mae llywodraethu corfforaethol effeithiol yn

success of new programmes but an interface is not the answer to the Welsh Government's well-documented failure to scrutinise properly last time. In communities where there are already many other strategy and delivery programmes, and where money is being cut from Communities First from 2012, the Welsh Government needs to move away from its default setting of creating new chunks of the public sector.

ffactor gwirioneddol allweddol yn llwyddiant y rhaglenni newydd, ond nid rhyngwyneb yw'r ateb i fethiant amlwg Llywodraeth Cymru i graffu'n iawn y tro diwethaf. Mewn cymunedau lle ceir llawer o raglenni strategaeth a darparu eisoes, a lle bydd arian yn cael ei dorri o Cymunedau yn Gyntaf o 2012, mae angen i Lywodraeth Cymru symud i ffwrdd o'i safbwynt arferol o greu darnau newydd o'r sector cyhoeddus.

I welcome the Welsh Government's commitment to community focus. The existing programme was supposed to be all about communities and sectors working together for a common aim, yet a closer look at the wording of the consultation and consequent papers reveals that they speak of community-supported work and community involvement; I would have much rather heard of community-led and community-driven work.

Croesawaf ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar gymunedau. Bwriadwyd i'r rhaglen bresennol fod i gyd ynghylch cymunedau a sectorau yn gweithio gyda'i gilydd tuag at un nod cyffredin, ond, wrth edrych yn agosach ar eiriad yr ymgynghoriad a'r papurau dilynol, dengys eu bod yn siarad am waith a gefnogir gan y gymuned a chyfranogiad cymunedol; byddai'n well gennyf glywed am waith a arweinir ac a ysgogir gan y gymuned.

There is scope for communities to be first in the community hubs. Even though the consultation papers warned against individuals and organisations predominating, they recognise that there are some seriously muscular community organisations out there, independent of the state, which are tackling poverty, renewing confidence, revving up the local economy and proving that local people can create success, for example, organisations such as Creation in my region and Valleys Kids in the Rhondda. Those are organisations that do not fear owning property, embrace social enterprise, believe in the power of earning a future and refuse to accept to being trapped in dependency. Such organisations should be the first port of call in tackling local need.

Mae lle i gymunedau gael bod y rhai cyntaf yn y canolfannau cymunedol. Er i'r papurau ymgynghori rybuddio yn erbyn cael unigolion a sefydliadau sy'n tra-arglwyddiaethu, maent yn cydnabod bod rhai sefydliadau cymunedol hynod gryf i'w cael, sy'n annibynnol ar y wladwriaeth, ac sy'n mynd i'r afael â thlodi, sy'n adnewyddu hyder, sy'n sbarduno'r economi leol ac sy'n profi y gall pobl leol greu llwyddiant, sy'n cynnwys sefydliadau fel Creation yn fy rhanbarth i a Valleys Kids yn y Rhondda. Nid yw sefydliadau felly yn ofni bod yn berchen ar eiddo nac yn ofni arddel menter gymdeithasol. Credant ym mhŵer ennill dyfodol ac maent yn gwrthod derbyn fod yn rhaid iddynt fod yn gaeth i fod yn ddibynnol. Dylid cysylltu â sefydliadau o'r fath i ddechrau o ran mynd i'r afael ag angen lleol.

For Communities First to work, these community anchors and generals need to be free to create networks of similar independent community organisations across Wales. While the Welsh Government has to up its game in terms of accountability, responsibility for designing how to deliver outcomes should lie firmly with the community hubs.

Er mwyn i Cymunedau yn Gyntaf weithio, rhaid i'r arweinwyr cymunedol hyn fod yn rhydd i greu rhwydweithiau o sefydliadau cymunedol annibynnol tebyg ledled Cymru. Er bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wella'i gêm o ran atebolrwydd, dylai'r cyfrifoldeb dros gynllunio sut i sicrhau canlyniadau orwedd yn gadarn gyda'r canolfannau cymunedol.

When the Public Accounts Committee recommended top-down direction to

Pan argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddull gweithio o'r brig i lawr i

facilitate bottom-up regeneration, I hope that it recognised that top-down direction only works when it comes from the right place—the very communities that Communities First is supposed to empower and help.

hwyluso adfywio o’r gwaelod i fyny, rwy’n gobeithio iddo gydnabod bod gweithio o’r brig i lawr yn unig yn gweithio pan ddaw o’r lle cywir—y cymunedau hynny yw’r union gymunedau y dylai Cymunedau yn Gyntaf eu grymuso a’u helpu.

**Mike Hedges:** I welcome this debate and the Minister’s opening speech. Communities First is an important concept, and we need to do more for the most disadvantaged communities in our society. I intend to outline three examples of successful outcomes in Swansea East, and I have a request for the Minister.

**Mike Hedges:** Croesawaf y ddadl ac araith agoriadol y Gweinidog. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gysyniad pwysig, a rhaid inni wneud mwy ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas. Rwy’n bwriadu amlinellu tair enghraifft o ganlyniadau llwyddiannus yn Nwyrain Abertawe, ac mae gennyf gais i’r Gweinidog hefyd.

The first example is Penlan community job fair. Penlan is a large council estate in north Swansea and is well into Communities First. A job fair was held, and 163 local residents attended. As a direct result of the job fair, 13 gained employment, 13 enrolled in training, six started volunteering, three parents started accessing local childcare provision, six residents became members of the library, and 59 residents were formally referred to partner employment agencies for ongoing support.

Yr enghraifft gyntaf yw ffair swyddi gymunedol Penlan. Ystâd cyngor mawr yng ngogledd Abertawe yw Penlan, a fu’n rhan o Cymunedau yn Gyntaf am amser. Cynhaliwyd ffair swyddi, ac aeth 163 o drigolion lleol iddi. O ganlyniad uniongyrchol i’r ffair swyddi, cafodd 13 o bobl swydd, gwnaeth 13 o bobl gofrestru i gael hyfforddiant, gwnaeth chwech o bobl ddechrau gwirfoddoli, dechreuodd dri rhiant gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant lleol, gwnaeth chwech o bobl ddod yn aelodau o’r llyfrgell, a chafodd 59 o drigolion eu cyfeirio’n ffurfiol at gyrff cyflogaeth mewn partneriaeth i gael cefnogaeth barhaus.

The second example, also in Penlan, was a project to tackle doorstep lending. I know that we will have a debate on loans with high interest rates tomorrow, but the reality for a large number of people in our poorest areas is that they do not even get the opportunity to pay the very high rates being offered for pay-day loans and end up being picked upon by people who offer loans at even higher rates than the pay-day loan people manage to achieve. Those people are then trapped in financial poverty for a long time. The project tackled doorstep lending and sought to get cheaper credit for local people and to encourage saving. The initiative saved young mothers just under £8,000 in interest rates. That money can now remain in the community, in the pockets of local families who cannot afford to be paying those kind of rates. The credit union also signposted two young parents to the Department of Work and Pensions, because they were not

Mae’r ail enghraifft, sydd hefyd ym Mhenlan, yn brosiect i fynd i’r afael â benthyca ar garreg y drws. Gwn y bydd gennym ddadl ar fenthyciadau â chyfraddau llog uchel yfory, ond y gwirionedd i nifer fawr o bobl yn ein hardaloedd tlotaf yw nad ydynt hyd yn oed yn cael y cyfle i dalu’r cyfraddau uchel iawn a gynigir ar gyfer benthyciadau diwrnod tâl ac felly maent yn cael eu poeni gan y bobl sy’n cynnig benthyciadau ar gyfraddau hyd yn oed yn uwch na’r rhai y mae’r bobl benthyciad diwrnod tâl yn llwyddo i’w cynnig. Mae’r bobl hynny felly’n cael eu dal mewn tlodi ariannol am amser hir. Aeth y prosiect i’r afael â benthyca ar garreg y drws a cheisiodd gael credyd rhatach i bobl leol ac annog cynilo. Mae’r fenter wedi arbed ychydig o dan £8,000 mewn cyfraddau llog i famau ifanc. Gall yr arian hwnnw bellach aros yn y gymuned, ym mhocedi teuluoedd lleol na allant fforddio talu’r mathau hynny o

claiming the benefits to which they were entitled. After the successful delivery of that initiative, a similar exercise will be undertaken throughout Swansea.

gyfraddau. Bu i'r undeb credyd hefyd gyfeirio dau riant ifanc at yr Adran Gwaith a Phensiynau, gan nad oeddent yn hawlio'r budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt. Ar ôl cyflwyniad llwyddiannus i'r fenter, bydd ymarfer tebyg yn cael ei gynnal ledled Abertawe.

The third example is from Port Tennant. The change-to-save project supported local residents to reduce their energy usage levels, encouraged community members to reduce waste levels, and encouraged recycling. Port Tennant is a Communities First area, and the project had an impact on child poverty in that fuel costs were reduced in 29 households. Those are examples of real people who have benefitted from Communities First. It is easy to be critical of organisations, but, because of Communities First, the lives of those people are better than they would otherwise have been. My plea is that we apply some logic when it comes to dealing with setting the areas.

Daw'r drydedd enghraifft o Bort Tennant. Mae'r prosiect newid i arbed wedi cefnogi trigolion lleol i leihau eu defnydd o ynni, ac wedi annog aelodau o'r gymuned i ostwng lefelau gwastraff ac i ailgylchu. Mae Port Tennant yn ardal Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'r prosiect wedi cael effaith ar dlodi plant oherwydd bod costau tanwydd wedi eu gostwng mewn 29 o gartrefi. Mae'r rhain yn enghreifftiau o bobl go iawn sydd wedi elwa ar Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n hawdd beirniadu sefydliadau, ond, oherwydd Cymunedau yn Gyntaf, mae bywydau'r bobl hynny'n well nag y byddent wedi bod fel arall. Fy nghais i yw y dylem fod yn rhesymegol pan ddaw'n fater o ymdrin â lleoliad yr ardaloedd.

**Jocelyn Davies:** I agree with a great deal of what you have said. However, the problem is that the Government says that it is its anti-poverty strategy, not a 'let's make lives better' strategy.

**Jocelyn Davies:** Rwyf yn cytuno â llawer iawn o'r hyn rydych wedi'i ddweud. Fodd bynnag, y broblem yw bod y Llywodraeth yn dweud mai ei strategaeth wrthdlodi ydyw, nid strategaeth 'gadewch inni wneud bywydau'n well'.

**Mike Hedges:** It is both, is it not? Coming back to applying logic in dealing with setting the areas, I can take you into Communities First areas where there are mansions, as they happen to be included within the census area. I could take you to one of the poorest parts of Swansea, the terraces of Plasmarl, which has been excluded from Communities First because it was in the Treboeth area when the census was done. Yet there are large mansions—houses costing £300,000 to £400,000—on Trewyddfa Road, which are included, because they happen to be included in with other parts of Plasmarl. Therefore, some logic needs to be applied to this. If you go to the area, you can see what should be included within a Communities First area, and what should not, just by looking at it. We are dealing with census areas of 1,000 or 1,200 houses, which affects the average. Some logic needs to be applied, therefore, to

**Mike Hedges:** Onid y ddau beth yw? I ddychwelyd at fod yn rhesymegol wrth ymdrin â lleoliad yr ardaloedd, gallaf fynd â chi i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lle ceir plastai, oherwydd eu bod yn digwydd cael eu cynnwys o fewn ardal y cyfrifiad. Gallaf fynd â chi i un o rannau tlotaf Abertawe, terasau Plas-marl, sydd wedi ei gwahardd o Cymunedau yn Gyntaf oherwydd ei bod yn rhan o ardal Treboeth pan wnaed y cyfrifiad. Eto i gyd, mae plastai mawr—tai sy'n costio rhwng £300,000 a £400,000—ar Heol Trewyddfa, sy'n cael eu cynnwys, a hynny am eu bod yn digwydd cael eu cynnwys gyda rhannau eraill o Blas-marl. Felly, rhaid defnyddio peth rhesymeg yn hyn. Os ewch i'r ardal, gallwch weld beth y dylid ei gynnwys o fewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, a beth na ddylid ei gynnwys, a hynny wrth edrych arni'n unig. Rydym yn delio â meysydd cyfrifiad sy'n cynnwys 1,000 neu 1,200 o

what should be included and what should not. I know of a block of flats in the Cwmbwrla ward that is outside the Communities First area. If you saw it, you would say that it should obviously be included in Communities First, but it does not meet the criteria because it is included with the rest of Cwmbwrla, which pushes up the value. It is important that some logic is applied. My plea to the Minister is to give some thought to what should be included and what should not. I think that you could probably tell just by looking.

dai, sy'n dylanwadu ar y cyfartaledd. Rhaid bod yn rhesymegol, felly, ynghylch beth ddylai a beth na ddylai gael ei gynnwys. Gwn am floc o fflatiau yn ward Cwmbwrla sydd y tu allan i'r ardal Cymunedau yn Gyntaf. Pe byddech yn ei weld, byddech yn dweud y dylai'n amlwg gael ei gynnwys yn Cymunedau yn Gyntaf, ond nid yw'n bodloni'r meini prawf oherwydd caiff ei gynnwys gyda gweddill Cwmbwrla, sy'n cynyddu'r gwerth. Mae'n bwysig bod rhywfaint o resymeg yn cael ei ddefnyddio. Fy nghais i'r Gweinidog yw iddo feddwl am yr hyn y dylid ac na ddylid ei gynnwys. Rwy'n credu y gallech ddweud, yn ôl pob tebyg, drwy edrych yn unig.

6.00 p.m.

**Lindsay Whittle:** I agree with much of what you said about the streets issue, Mike. Two recent reports, one in 2010 and the other last autumn, have drawn attention to some serious weaknesses in the operation of the Communities First programme, a programme that is now more than 10 years old and which should be assessed on the tangible outcomes that it has achieved in those areas suffering from economic disadvantage and deprivation. However, the fact is that there is not much evidence of any real, measurable outcomes. Should we scrap the programme and leave it to local authorities to work out their own salvation? That would be a good debate to have, because the engagement of local authorities with Communities First programmes has been patchy, to say the least. I believe that they are the organisations that should have been pushing the LSBs to steer and facilitate Communities First schemes in their areas. Sadly, some local authorities have clearly failed to do this.

**Lindsay Whittle:** Rwyf yn cytuno â llawer o'r hyn a ddywedoch am fater y strydoedd, Mike. Mae dau adroddiad diweddar, un yn 2010 a'r llall yn ystod yr hydref diwethaf, wedi tynnu sylw at rai gwendidau difrifol o ran gweithredu rhaglen Cymunedau yn Gyntaf—rhaglen sy'n fwy na 10 mlwydd oed yn awr a rhaglen y dylid ei hasesu ar sail y canlyniadau gweladwy a gyflawnwyd yn yr ardaloedd hynny sy'n dioddef anfanteision economaidd ac amddifadedd. Fodd bynnag, mae'n ffaith nad oes llawer o dystiolaeth o unrhyw wir ganlyniadau sy'n fesuradwy. A ddylem ddiddymu'r rhaglen a gadael i awdurdodau lleol sicrhau eu hiachawdwriaeth eu hunain? Byddai honno'n drafodaeth dda i'w chynnal, gan y bu ymgysylltiad awdurdodau lleol â rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf yn anghyson, a dweud y lleiaf. Credaf mai dyma'r sefydliadau a ddylai fod wedi bod yn gwthio'r byrddau gwasanaethau lleol i lywio a hwyluso cynlluniau Cymunedau yn Gyntaf yn eu hardaloedd. Yn anffodus, mae'n amlwg bod rhai awdurdodau lleol wedi methu â gwneud hyn.

One recommendation that the Government is seriously considering is the merger of local partnerships into what amount to regional partnerships, overseen by regional boards. What will happen then to the concept of 'our community'? Is this another example, Minister, of the Government moving increasingly away from a commitment to local involvement towards the

Un argymhelliad y mae'r Llywodraeth yn ei ystyried o ddifrif yw uno partneriaethau lleol mewn cyfundrefn a fyddai'n gyfystyr â chael partneriaethau rhanbarthol, gyda byrddau rhanbarthol yn eu goruchwylio. Beth fyddai'n digwydd i'r cysyniad 'ein cymuned' yn yr achos hwnnw? A yw hyn yn enghraifft arall, Weinidog, o'r Llywodraeth yn symud i ffwrdd yn gynyddol oddi wrth ymrwymiad i

regionalisation of Wales? As Suzy Davies alluded to, we do not need shotgun marriages imposed by the Welsh Government. Even in these times of economic hardship, unless Communities First as a national strategy focuses on increasing opportunities for local people to gain work in their own communities, then it will have failed. It is no good expecting people who live too far away from the major cities to be prepared to commute to find work, because all that will do is turn our communities into dormitory areas. They will die as surely as night follows day.

gyfranogiad lleol a thuag at ranbartholi Cymru? Fel y soniodd Suzy Davies, nid oes angen i Lywodraeth Cymru orfodi priodasau er cyfleustra arnom. Hyd yn oed yn y cyfnod hwn o galedi economaidd, os nad yw Cymunedau yn Gyntaf, fel strategaeth genedlaethol, yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl leol weithio yn eu cymunedau eu hunain, yna bydd y rhaglen yn fethiant. Nid oes diben inni ddisgwyl i bobl sy'n byw yn rhy bell i ffwrdd o'r dinasoedd mawr fod yn barod i deithio er mwyn dod o hyd i waith—byddai hynny ond yn troi ein cymunedau i fod yn ardaloedd noswylio. Byddai'r cymunedau hyn yn marw, heb os nac oni bai.

In another 10 years, I fear that a Welsh Government will still be debating the value and impact of the Communities First programme. I am concerned about that, and I will explain why. I live in a Communities First area. It is an identifiable, small and close-knit community. We call it the Aber valley—nice and simple. The Welsh index of multiple deprivation, which is our official measure of deprivation in small areas of Wales, tells me that my country is now divided into 1,896 lower-layer super-output areas. That is fascinating. I am now not sure where I live. Do I live in the Aber valley, do I live in a Communities First area or do I live in a lower-layer superoutput area? It is nonsense, is it not? It is bureaucracy gone mad. It is *Mary Poppins* talk. I was half expecting to read 'supercalifragilisticexpialidocious'—you never thought you would hear that word said in the Chamber, and I am sure that the translators will go wild. However, it is politics gone mad; it really is. We must rein in this nonsense. As far as I am concerned, Communities First should be just that: small communities coming first, not all this gobbledygook and bureaucracy. Communities First is about supporting community-led initiatives that demonstrate real outcomes, and that is what my party will always support.

Rwyf yn ofni y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i drafod gwerth ac effaith y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf mewn 10 mlynedd. Pryderaf am hynny, a cheisiaf egluro pam yn awr. Rwyf yn byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r gymuned yn un adnabyddadwy, bach a chlòs. Fe'i hadwaenir yn gwm Aber—enw hyfryd a syml. Mae mynegai amddifadedd lluosog Cymru, sef ein mesur swyddogol o amddifadedd mewn rhannau bychain o Gymru, yn dweud wrthyf fod fy ngwlad wedi'i rhannu'n 1,896 o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn awr. Mae hynny'n ddiddorol. Yn awr, nid wyf yn sicr lle'r wyf yn byw. A wyf yn byw yng nghwm Aber, a wyf yn byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, neu a wyf yn byw mewn ardal cynnyrch ehangach haen is? Onid lol yw hyn? Mae hyn yn fiwrocratiaeth wallgof. Mae'n debyg i wrando ar Mary Poppins yn siarad. Rwyf yn hanner disgwyl darllen y gair 'supercalifragilisticexpialidocious'—nid oeddech byth yn meddwl y byddech yn clywed y gair hwnnw'n cael ei ddweud yn y Siambr, ac rwyf yn siŵr y bydd y cyfieithwyr yn cael modd i fyw. Fodd bynnag, mae'r math hwn o wleidyddiaeth yn wirioneddol wallgof. Mae'n rhaid inni roi gorau i'r nonsens hwn. Credaf y dylai Cymunedau yn Gyntaf fod yn hynny'n union: cymunedau bychain yn dod yn gyntaf, ac nid y rwtsh a'r fiwrocratiaeth hyn. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn ymwneud â chefnogi mentrau sy'n cael eu harwain gan y gymuned ac sy'n arwain at ganlyniadau gwirioneddol, a dyna'r hyn y bydd fy mhlaid bob amser yn ei gefnogi.

**Rebecca Evans:** I welcome Communities First's stronger emphasis on outcomes for the disadvantaged communities in which it operates and the strong emphasis that the Minister has now put on good governance and community involvement. The Government has got its priorities right in focusing support for those individuals, groups and families who have the poorest education and skills and the poorest economic and health outcomes, especially in places where deprivation is most concentrated. I also welcome the focus on prioritising increasing individuals' life skills, self-esteem and self-resilience, including their financial capabilities. It is right to prioritise supporting and strengthening the local activity that does the most to tackle poverty and deprivation, with community organisations and communities themselves as key partners in this. I am encouraged that the First Minister will take a role in ensuring cross-ministerial commitment to achieving the programme's aim of improving the education, skills, economic situation and health of people in the most deprived areas.

**Rebecca Evans:** Croesawaf y pwyslais cryfach a roddir gan Cymunedau yn Gyntaf ar ganlyniadau ar gyfer y cymunedau difreintiedig y mae'n gweithredu ynddynt, a'r pwyslais cryf y mae'r Gweinidog bellach wedi'i roi ar lywodraethu da a chyfranogiad cymunedol. Mae'r Llywodraeth wedi blaenoriaethu'n gywir o ran canolbwyntio ar ddarparu cymorth i unigolion, grwpiau a theuluoedd sydd â'r addysg a'r sgiliau gwaethaf a'r canlyniadau gwaethaf o ran yr economi ac iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffocws ar roi blaenoriaeth i gynyddu sgiliau bywyd unigolion, eu hunan-barch a'u hunan-wydnwch, gan gynnwys eu gallu ariannol. Mae'n gywir rhoi blaenoriaeth i gefnogi a chryfhau'r gweithgareddau lleol sy'n chwarae'r rhan fwyaf o ran mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd, a hynny gan ddefnyddio sefydliadau cymunedol a chymunedau eu hunain fel partneriaid allweddol yn y broses hon. Rwyf wedi fy nghalonogi y bydd y Prif Weinidog yn chwarae rhan yn y broses o sicrhau ymrwymiad traws-weinidogaethol i gyflawni nod y rhaglen, sef gwella addysg, sgiliau, sefyllfa economaidd ac iechyd pobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

It would be helpful, however, for Members to know how and when Ministers will report to the Assembly on progress on the Communities First agenda as part of their portfolios. Communities First delivery plans may include a variety of initiatives, including childcare support to help parents back to work, parenting skills classes, engaging young people in positive activities, and support for older people to help them access the community.

Byddai o gymorth, fodd bynnag, i'r Aelodau wybod sut a phryd y bydd y Gweinidogion yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y cynnydd a wnaed ar yr agenda Cymunedau yn Gyntaf fel rhan o'u portffolios. Gall gynlluniau cyflenwi Cymunedau yn Gyntaf gynnwys amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys darparu cymorth gofal plant i helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith, dosbarthiadau sgiliau magu plant, ennyn diddordeb pobl ifanc mewn gweithgareddau cadarnhaol, a rhoi cymorth i bobl hŷn i'w helpu i gael mynediad at y gymuned.

I am confident that existing good practice will be built upon and that new good practice will emerge. It is positive that mechanisms will be in place for the sharing of good practice between clusters, but I would like assurances that the structures will be in place for the sharing of good practice across regions, too.

Hyderaf y gellir adeiladu ar arfer da presennol ac y bydd arfer da newydd yn dod i'r amlwg. Mae'r ffaith y bydd dulliau ar waith ar gyfer rhannu arfer da rhwng clystyrau yn rhywbeth cadarnhaol, ond hoffwn gael sicrwydd y bydd strwythurau ar waith i rannu arfer da ar draws rhanbarthau hefyd.

I was pleased that local representation and consultation have been prioritised, and that the need to accommodate and encourage young people and children to have their voices heard in this has been recognised, as well as those people who are considered hard to reach. Communities First programmes must receive all the support and direction they need in order to do this. Likewise, they must be properly resourced to get the best out of the volunteers who play such an important role in the scheme. I was pleased to hear the Minister talk earlier about the role they play.

Rwyf yn falch bod cynrychiolaeth leol ac ymgynghori wedi'u blaenoriaethu, a bod yr angen i gynnwys pobl ifanc a phlant a'u hannog i ddweud eu dweud wedi cael ei gydnabod, yn ogystal â'r bobl hynny sy'n cael eu hystyried yn anodd eu cyrraedd. Rhaid i raglenni Cymunedau yn Gyntaf gael yr holl gefnogaeth a'r cyfarwyddyd sydd eu hangen arnynt er mwyn gwneud hyn. Yn yr un modd, rhaid iddynt gael yr adnoddau priodol er mwyn cael y gorau o'r gwirfoddolwyr sy'n chwarae rhan mor bwysig yn y cynllun. Roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn siarad yn gynharach am y rôl y maent yn ei chwarae.

I welcome the greater flexibility of boundaries to ensure that the programme supports the individuals, families and groups that are most disadvantaged. Like other Members, I hope that this greater flexibility will address some of the problems in delivery that have arisen in the past from inflexible boundaries.

Rwyf yn croesawu cael ffiniau mwy hyblyg er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cefnogi'r unigolion, y teuluoedd a'r grwpiau sydd o dan yr anfantais fwyaf. Fel Aelodau eraill, gobeithiaf y bydd yr hyblygrwydd ychwanegol hwn yn datrys rhai o'r problemau darparu sydd wedi codi yn y gorffennol, o ganlyniad i gael ffiniau anhyblyg.

Finally, Minister, I would ask you to ensure that existing Communities First areas that have not been approved for inclusion in the new scheme are given support to ensure that the progress that they have made so far can be built upon, and that sufficient exit funding and assistance is provided to ensure that the improvements they have made thus far do not get lost.

Yn olaf, Weinidog, gofynnaf ichi sicrhau bod yr ardaloedd sy'n rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun newydd, yn cael cymorth i'w galluogi i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, a bod arian ymadael digonol a chymorth yn cael eu darparu er mwyn sicrhau nad yw'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn cael eu colli.

**Darren Millar:** It is certainly fair to say that Communities First has evoked a range of opinions in the Chamber this afternoon. There is no doubt whatsoever that Communities First has had its problems in the past. These have been exposed, as some have said, by the Wales Audit Office and the Public Accounts Committee, and third sector organisations have uncovered flaws in Communities First, and some whistleblowers have quite correctly exposed some of the problems. Fortunately, many of the problems have been localised to particular Communities First schemes, such as Plas Madog, which is a perfect case in point. However, some of the issues have been more general, and I think that there is consensus that there has perhaps been a lack of

**Darren Millar:** Yn sicr, mae'n deg dweud bod Cymunedau yn Gyntaf wedi ennyn ystod o farnau yn Siambr y prynhawn yma. Nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl bod Cymunedau yn Gyntaf wedi dioddef problemau yn y gorffennol. Fel y soniodd rhai, cafodd y problemau hyn eu datgelu gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae sefydliadau trydydd sector hefyd wedi dod o hyd i ddiffygion yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac mae rhai o'r rheini sydd wedi chwythu'r chwiban wedi datgelu rhai problemau, yn gwbl gywir. Yn ffodus, mae nifer o'r problemau hyn wedi wedi effeithio ar gynlluniau Cymunedau yn Gyntaf penodol, fel Plas Madog, a oedd yn enghraifft berffaith o'r fath achos. Fodd bynnag, bu rhai o'r materion hyn yn fwy

direction and a lack of accountability, which needed to be addressed.

cyffredinol, a chredaf fod consensws y bu diffyg cyfeiriad ac atebolrwydd, a bod angen rhoi sylw i'r sefyllfa hon.

It has sometimes been difficult to nail down evidence of success, even where we know there has been success in a Communities First area. It is fair to say that we can all, as individual Assembly Members who have visited Communities First areas, pick up evidence of the good practice and good work being done. I have two Communities First areas in my constituency, and I have referred to them many times over the years in this Chamber. One is in Kinmel Bay, not far from where I live, and the other is in Colwyn Bay. In those areas, we have seen a physical transformation, particularly on the estate in Kinmel Bay designated a Communities First area. The community has come together to tackle problems on the estate's Chester Avenue. There has been more volunteering and more upskilling. Some of the health inequalities have been addressed, and we have seen investment in better money management skills in the form of training for the local community, and so on. That has been great.

Ar brydiau, bu'n anodd canfod tystiolaeth o lwyddiant, hyd yn oed mewn achosion lle gwyddom fod ardal Cymunedau yn Gyntaf wedi mwynhau llwyddiant. Mae'n deg dweud y gall pob un ohonom, fel Aelodau Cynulliad unigol sydd wedi ymweld ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gasglu tystiolaeth o'r arferion da sy'n bodoli a'r gwaith da sy'n cael ei wneud. Mae dwy ardal Cymunedau yn Gyntaf yn fy etholaeth, ac rwyf wedi cyfeirio atynt sawl gwaith dros y blynyddoedd yn y Siambr hon. Mae un ohonynt ym Mae Cinmel, heb fod ymhell o'r fan lle'r wyf yn byw, ac mae'r llall ym Mae Colwyn. Yn yr ardaloedd hynny, rydym wedi gweld trawsnewidiad materol, yn enwedig ar yr ystâd ym Mae Cinmel a gafodd ei dynodi'n ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r gymuned wedi dod at ei gilydd i fynd i'r afael â phroblemau ar Rodfa Caer ar yr ystâd. Cafwyd mwy o wirfoddoli a mwy o ymdrech i wella sgiliau. Rhoddwyd sylw i rai o'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli, a chafwyd buddsoddiad mewn gwella sgiliau rheoli arian, ar ffurf hyfforddiant ar gyfer y gymuned leol, ac yn y blaen. Bu hynny'n wych.

Likewise, in Colwyn Bay, we have seen a greater sense of community come about. It is a little more difficult there, because it is in a much bigger urban setting, but there, too, things have been coming together, and there is no doubt that people have personally benefited tremendously through their involvement in Communities First. One particularly good example to cite from Colwyn Bay is the tremendous community engagement work that has been undertaken by the Communities First co-ordinators. To be fair to Conwy County Borough Council, it has been excellent in taking the lead on Communities First and in making sure that it has been a tremendous success in those areas.

Yn yr un modd, ym Mae Colwyn, mae gwell ymdeimlad o gymuned wedi dod i'r amlwg. Mae'r broses hon ychydig yn fwy anodd yno, am ei fod mewn lleoliad llawer mwy trefol. Serch hynny, bu pethau'n dod at ei gilydd yno hefyd, ac nid oes amheuaeth bod pobl wedi elwa'n aruthrol ar lefel bersonol ar eu hymwneud â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Un enghraifft arbennig o dda ym Mae Colwyn yw'r gwaith ymgysylltu cymunedol gwych a wnaed gan gydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf. I fod yn deg, bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhagorol wrth gymryd yr awenau ar raglen Cymunedau yn Gyntaf ac wrth sicrhau bod y rhaglen wedi bod yn llwyddiant ysgubol yn yr ardaloedd hynny.

Now, I cannot speak of examples of Communities First from outside my constituency, because I am not familiar with them. I do know, however, that there have been general problems with the programme

Ni allaf siarad am enghreifftiau o waith Cymunedau yn Gyntaf sydd y tu allan i fy etholaeth, gan nad wyf yn gyfarwydd â hwy. Fodd bynnag, rwyf yn gwybod y bu problemau cyffredinol gyda'r rhaglen a bod

that needed to be addressed. To be fair to the Minister, he announced a consultation and he recognised that some changes were needed. As a result of the consultation, he has introduced proposals to change the programme, many of which I welcome, such as the key indicators, which will now be part of the evidence base for outcomes. It is important to have the short, medium and long-term goals to be able to track improvement in a Communities First area.

angen rhoi sylw iddynt. I fod yn deg, cyhoeddodd y Gweinidog ymgynghoriad a chydnabu bod angen rhai newidiadau. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae'r Gweinidog wedi cyflwyno cynigion ar gyfer newid y rhaglen, a chroesawaf nifer ohonynt, fel y dangosyddion allweddol, a fydd bellach yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer canlyniadau. Mae'n bwysig cael amcanion yn y tymor byr, canolig a hir er mwyn gallu olrhain gwelliant mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf.

However, there are still two issues that perhaps need to be addressed. The first is the issue of continuity of funding. Often with Communities First groups, particularly given the latest announcements, uncertainty about the future was a real concern, but that uncertainty is hopefully now being put to bed. I know that some groups began to lose their focus and the engagement of volunteers. I do not want that to happen again. I want people to maintain their focus on keeping their community together, building on that community spirit and their success.

Fodd bynnag, mae dau fater y mae angen mynd i'r afael â hwy, o bosibl. Y cyntaf yw'r mater o barhad ariannu. Bu ansicrwydd ynghylch y dyfodol yn aml yn bryder gwirioneddol i grwpiau Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig o ystyried y cyhoeddiadau diweddaraf, ond gobeithiaf fod yr ansicrwydd hwn bellach yn cael ei leddfu. Gwn fod rhai grwpiau wedi dechrau colli eu ffocws ac ymgysylltiad ymhlith eu gwirfoddolwyr. Nid wyf am i hynny ddigwydd eto. Rwyf am i bobl barhau i ganolbwyntio ar gadw eu cymunedau ynghyd, gan adeiladu ar eu hysbryd cymunedol a'u llwyddiant.

Secondly, I have a much wider point. Across the Welsh Government, there is a need for a joined-up approach, particularly in terms of the strategic regeneration areas and how they marry up with Communities First areas. For example, both of the Communities First areas in my constituency are within the north Wales coast strategic regeneration area, and I welcome that fact that I have a regeneration area in my constituency. However, there is very little in terms of a joined-up approach between the Communities First projects and the strategic regeneration area in the way that it plans its work. That is why I welcome the cluster-type approach, provided that it maintains a local focus in those communities that have been designated—

Yn ail, mae gennyf bwynt llawer ehangach. Ar draws Llywodraeth Cymru, mae angen dull cydgysylltiedig o weithredu, yn enwedig o ran yr ardaloedd adfywio strategol a sut y maent yn cydweddu â'u hardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, mae'r ddwy ardal Cymunedau yn Gyntaf yn fy etholaeth i o fewn ardal adfywio strategol arfordir gogledd Cymru, a chroesawaf y ffaith bod gennyf ardal adfywio yn fy etholaeth. Fodd bynnag, o ran y modd y mae gwaith yn cael ei gynllunio, ychydig iawn o gydgysylltu sydd i'w weld rhwng y prosiectau Cymunedau yn Gyntaf a'r ardal adfywio strategol. Dyna pam rwyf yn croesawu'r dull clwstwr, ar yr amod ei fod yn cynnal ffocws lleol yn y cymunedau hynny sydd wedi'u dynodi—

**The Deputy Presiding Officer:** Conclude now, please; there will be no tolerance.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rhaid ichi orffen yn awr, os gwelwch yn dda; ni fydd unrhyw oddefgarwch.

**Darren Millar:** The flexible boundaries will certainly help to address that.

**Darren Millar:** Bydd y ffiniau hyblyg yn sicr yn gymorth o ran mynd i'r afael â hynny.

**Jenny Rathbone:** I do not think that any of us should be arguing against evaluation of what we are spending our money on, and I am sure that none of us will be doing that. We need to know what works so that we can then develop that and drop other things that are not working so well. I would just like to make some remarks about the proposed cluster arrangements, which have some benefits and some challenges. In my area, Splott, Adamsdown and Plasnewydd Communities First groups are already working well together, and their governance arrangements have already been brought together. So, I can see that it works well in a geographically cohesive area like Splott, Adamsdown and Plasnewydd, where it is perfectly possible for people to walk from one place to another and where they have families across these boundaries. However, there is some concern in those areas that the delivery of services might by confined to one contact point, which would be a problem. I remind you that the Peckham principle established in the second world war is that services have to be within 1 mile pram-pushing distance if they are going to be accessible to the sorts of people whose needs we need to be meeting.

**Jenny Rathbone:** Ni chredaf y dylai unrhyw un ohonom fod yn dadlau yn erbyn gwerthuso sut rydym yn gwario ein harian, ac rwyf yn sicr na fydd yr un ohonom yn gwneud hynny. Mae angen inni wybod beth sy’n gweithio er mwyn inni ei ddatblygu a hepgor pethau eraill nad ydynt yn gweithio cystal. Hoffwn wneud sylwadau ynghylch y trefniadau clwstwr arfaethedig, a fydd yn arwain at rai buddion a heriau. Yn fy ardal i, mae grwpiau Cymunedau yn Gyntaf y Sblot, Adamsdown a Phlasnewydd eisoes yn gweithio’n dda gyda’i gilydd, ac mae eu trefniadau llywodraethu eisoes wedi’u dwyn ynghyd. Felly, gallaf weld bod y system hon yn gweithio’n dda mewn ardal ddaearyddol gydlynol fel y Sblot, Adamsdown a Phlasnewydd, lle mae’n ddigon posibl i bobl gerdded o un lle i’r llall a lle mae ganddynt deulu ar draws y ffiniau hyn. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bryder yn yr ardaloedd hynny y gallai’r ddarpariaeth o wasanaethau gael ei chyfyngu i un pwynt cyswllt; byddai hynny’n broblem. Hoffwn eich atgoffa o’r egwyddor a sefydlwyd yn Peckham yn ystod yr ail ryfel byd, sef bod yn rhaid i wasanaethau fod o fewn pellter o 1 filltir i rywun sy’n gwthio pram os ydynt am fod yn hygyrch i’r math o bobl y mae angen inni ddiwallu eu hanghenion.

So, the cluster works well there, but it remains to be seen how it will work in an area that is geographically more diverse. For example, Pentwyn is now one of the areas that, in the absence of Communities First, is well into the 10% most deprived areas in Wales and seriously needs a Communities First project to address many of the issues that arise as a result. However, I do not understand how Pentwyn could work with Llandaff North or Whitchurch, because they are communities that have very little to say to each other or very little contact. So, I would be interested to know how that cluster could work, given that the Government wants each local authority to be confined to no more than four clusters. Is Cardiff a special case given its size? Could the Minister consider having a fifth cluster?

Felly, mae’r clwstwr yn gweithio’n dda yno, ond mae angen o hyd inni weld sut y bydd yn gweithio mewn ardal fwy amrywiol o ran daearyddiaeth. Er enghraifft, yn absenoldeb prosiect Cymunedau yn Gyntaf, mae Pentwyn bellach yn un o’r ardaloedd hynny sydd wedi’u cynnwys yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae angen prosiect Cymunedau yn Gyntaf yn ddifrifol ar Bentwyn er mwyn i’r ardal fynd i’r afael â nifer o’r materion sydd wedi codi o ganlyniad i’r sefyllfa hon. Fodd bynnag, nid wyf yn deall sut y gallai Pentwyn weithio gydag Ystum Taf neu’r Eglwys Newydd, oherwydd maent yn gymunedau sydd ag ychydig iawn i’w ddweud wrth ei gilydd ac ychydig iawn o gysylltiad. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod sut y gallai’r clwstwr hwnnw weithio, o gofio bod y Llywodraeth am gyfyngu ar nifer y clystyrau ym mhob awdurdod lleol i bedwar ar y mwyaf. A yw Caerdydd yn achos arbennig o ystyried ei faint? A fyddai’r Gweinidog yn fodlon ystyried cael pumed clwstwr?

Good governance is also important. Clearly, we need to ensure that the lead bodies have a track record in delivering on what they say they are going to do and that they have proper governance arrangements in place. However, I hope that that does not mean that a small organisation cannot bid to deliver some of the services, because often small organisations are the very ones who are most in touch with the needs of local communities. I refer you to a small playgroup called Izzy Wizzy, which Huw Lewis has visited with me, where childminders are operating a stay-and-play service for families with very small children. The service really does meet the needs of families who are struggling, but I appreciate that it would not have the governance arrangements to satisfy your requirements. Hopefully, a lead body could be appointed, which would be able to supervise what it is doing.

Mae llywodraethu da hefyd yn bwysig. Yn amlwg, mae angen inni sicrhau bod gan y cyrff arweiniol brofiad o ran darparu’r hyn y maent yn ei ddweud y byddant yn ei ddarparu, a bod ganddynt drefniadau llywodraethu priodol ar waith. Fodd bynnag, gobeithiaf nad yw hynny’n golygu na all sefydliad bach wneud cais i ddarparu rhai o’r gwasanaethau hyn; yn aml, sefydliadau bach sy’n deall anghenion cymunedau lleol orau. Fe’ch cyfeiriaf at gylch chwarae bach o’r enw Izzy Wizzy, sef cylch chwarae y mae Huw Lewis wedi ymweld ag ef gyda mi, lle mae gwarchodwyr plant yn darparu gwasanaeth aros-a-chwarae ar gyfer teuluoedd sydd â phlant ifanc iawn. Mae’r gwasanaeth hwn yn gwir ddiwallu anghenion teuluoedd sy’n cael trafferthion, ond rwyf yn ymwybodol na fyddai ganddo’r trefniadau llywodraethu i fodloni eich gofynion. Y gobaith yw y gellir penodi corff arweiniol, a fyddai’n gallu goruchwylio’r hyn y mae’n ei wneud.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I thank Members for their contributions to the debate and I would like to address some of the issues they have raised.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolchaf i’r Aelodau am eu cyfraniadau i’r ddadl hon, a hoffwn fynd i’r afael â rhai o’r materion a godwyd ganddynt.

6.15 p.m.

Let me be clear to Members in the Chamber: Labour is the only party that gave a firm manifesto commitment to maintaining support for the most deprived communities in Wales through Communities First. Not one of the other parties maintained that commitment to driving this agenda forward. I will expand on that shortly.

Gadewch imi fod yn glir i’r Aelodau yn y Siambr: Llafur yw’r unig blaid a roddodd ymrwymiad maniffesto cadarn i barhau i gefnogi’r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru drwy Cymunedau yn Gyntaf. Ni chadwodd yr un o’r pleidiau eraill yr ymrwymiad hwnnw i yrru’r agenda hon yn ei blaen. Byddaf yn ehangu ar y pwynt hwnnw yn y man.

I will pick up on a few points that Members made in their contributions. I thank Darren Millar for his consistent approach to support for Communities First in his constituency. As always, he took a measured approach on this topic. I may not share his opinion in other debates, but on Communities First he is consistent, and I note that today. He is right: we have to be able to demonstrate to the public at large how we spend public money, and how these interventions make a real difference in the communities, which we all

Hoffwn ymdrin â rhai o’r pwyntiau a wnaed gan Aelodau yn eu cyfraniadau. Diolchaf i Darren Millar am ei safbwynt cyson ar y mater o gefnogi Cymunedau yn Gyntaf yn ei etholaeth. Fel y bydd yn ei wneud bob amser, mynegodd safbwynt cyson ar y mater hwn. Efallai nad wyf yn rhannu ei farn mewn perthynas â dadleuon eraill, ond mae ei safbwynt ar Cymunedau yn Gyntaf yn gyson, a nodaf hynny heddiw. Mae’n gywir: mae’n rhaid inni allu dangos i’r cyhoedd yn gyffredinol sut rydym yn gwario arian

want to see.

cyhoeddus, a sut y mae'r ymyriadau hyn yn gwneud gwir wahaniaeth yn y cymunedau hynny, fel y mae pawb am ei weld.

Rebecca Evans raised some important points around tackling poverty, and although this is a difficult subject to broach, we should not shy away from the difficult decisions that we have to make. Let us make no mistake about this: we find ourselves trying to change communities over a long-term period because of the devastation left by the party opposite when it ravaged our mining communities and steel-making communities, and took industry away from Wales. They should be ashamed of themselves for grandstanding this afternoon. [*Interruption.*]

Cododd Rebecca Evans rai pwyntiau pwysig ynghylch mynd i'r afael â thlodi, ac er bod hwn yn bwnc sy'n anodd ei drafod, ni ddylem osgoi'r penderfyniadau anodd y mae'n rhain inni eu gwneud. Gadewch imi fod yn glir am hyn: rydym yn ceisio newid cymunedau dros gyfnod hir yn sgîl y dinistr a adawyd gan y blaid gyferbyn, pan ddinistriodd y blaid honno ein cymunedau glo a dur, gan ddifetha diwydiant yng Nghymru. Dylai fod cywilydd arnynt am eu hymorchestu y prynhawn yma. [*Torri ar draws.*]

**Mohammad Asghar** *rose—*

**Mohammad Asghar** *a gododd—*

**Carl Sargeant:** I would be delighted to take an intervention from the Member.

**Carl Sargeant:** Byddaf yn falch iawn o ildio i'r Aelod.

**Mohammad Asghar:** I am sure that you are doing a very good job with the Communities First programme, but your budget is £240 million and you have spent £140 million on salaries, staff and administration. The part of the budget that is left for the programme is not enough.

**Mohammad Asghar:** Rwyf yn sicr eich bod yn gwneud gwaith da iawn mewn perthynas â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Serch hynny, mae gennych gyllideb o £240 miliwn, ac rydych wedi gwario £140 miliwn ar gyflogau staff a gweinyddu. Nid yw'r gyllideb sy'n weddill ar gyfer y rhaglen yn ddigonol.

**Carl Sargeant:** I would take the Member seriously, but when he sat on the Plaid Cymru benches he was very supportive of Communities First. Over there, he has changed his mind. There you go; these things happen.

**Carl Sargeant:** Buaswn yn cymryd yr Aelod o ddifrif, ond pan roedd yn eistedd ar feinciau Plaid Cymru, roedd yn gefnogol iawn o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Gan ei fod yn eistedd ar y meinciau gyferbyn, mae'r Aelod wedi newid ei feddwl. Dyna chi; mae'r pethau hyn yn digwydd.

I will pick up on a few issues around contributions from Members. Suzy Davies is quite right about softer boundaries. I hope that it will make it easier for these programmes to tackle poverty beyond the boundaries that we have been working to. I know that Mike Hedges and other Members also made contributions on that point. However, this does not mean that this programme is open to all. It is about attracting money to our most deprived communities, wherever they may be; the local authorities or the lead delivery bodies must be keen to include additional areas in the programme. It is about delivering, as we have seen with Valleys Kids, making a

Byddaf yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan yr Aelodau yn eu cyfraniadau. Mae Suzy Davies yn hollol gywir am gael ffiniau mwy meddal. Gobeithiaf y bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r rhaglenni fynd i'r afael â thlodi y tu hwnt i'r ffiniau y buom yn gweithio o'u mewn. Gwn fod Mike Hedges ac Aelodau eraill hefyd wedi cyfrannu ar y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod y rhaglen hon yn agored i bawb. Mae'n ymwneud â denu arian i'n cymunedau mwyaf difreintiedig, lle bynnag y bônt; mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol neu'r prif gyrff cyflenwi fod yn awyddus i gynnwys ardaloedd ychwanegol yn y rhaglen. Mae'n ymwneud â darparu, fel y gwelsom gydag

difference in Leighton Andrews's constituency.

elusen Plant y Cymoedd, sy'n gwneud gwahaniaeth yn etholaeth Leighton Andrews.

Lindsay Whittle used some interesting words in his contribution about how local a strategy can be. This is all about delivery at a local level, but of course, the Government is right in proposing a national strategy on health, wellbeing, education and the economy as the driving force behind turning our communities round. We can continue to fund communities to stay poor, or we can invest in them to grow. We have to have vision as an administration to enable communities to grow.

Defnyddiodd Lindsay Whittle eiriau diddorol yn ei gyfraniad ynghylch pa mor lleol y gall strategaeth fod. Mae hyn yn ymwneud â darparu ar lefel leol ond, wrth gwrs, mae'r Llywodraeth yn iawn i gynnig strategaeth genedlaethol ar iechyd, lles, addysg a'r economi er mwyn ysgogi'r broses o drawsnewid ein cymunedau. Gallwn barhau i ariannu cymunedau mewn modd sy'n eu cadw'n dlawd, neu gallwn fuddsoddi ynddynt i'w tyfu. Fel gweinyddiaeth, mae'n rhaid inni gael gweledigaeth er mwyn galluogi cymunedau i dyfu.

Ken Skates was absolutely right to say that this is about turning communities around. As a Member, I welcome his comments. He is a true socialist and a man who truly values his community. [*Interruption.*] He is absolutely right, colleagues, to highlight the danger of welfare reform to the people of Wales, because that is the next challenge from the UK Government. It will have a direct effect on his constituents and mine.

Roedd Ken Skates yn gwbl gywir i ddweud bod y mater hwn yn ymwneud â thrawsnewid cymunedau. Fel Aelod, rwyf yn croesawu ei sylwadau. Mae'n wir sosialydd ac yn ddyn sy'n wir werthfawrogi ei gymuned. [*Torri ar draws.*] Mae'n gwbl gywir, gydweithwyr, i dynnu sylw at y perygl i bobl Cymru o ddiwygio'r gyfundrefn les, oherwydd dyna yw'r her nesaf gan Lywodraeth y DU. Bydd y broses hon yn cael effaith uniongyrchol ar ei etholwyr ef a'm hetholwyr i.

I am glad that David Rees raised the issue of Sandfields. I visited Sandfields not so long ago, and saw the excellent work that goes on there. This is about empowering local communities in a structured way. You cannot have it all ways. You cannot say, like Suzy Davies, 'I want community X or organisation Y to have funding to deliver Z, but I want governance arranged differently'. It has to be structured, and I hope that that is what colleagues will see as they look at this programme.

Rwyf yn falch bod David Rees wedi sôn am Sandfields. Ymwelais â Sandfields heb fod mor bell yn ôl a hynny, a gwelais y gwaith rhagorol sy'n digwydd yno. Mae hyn yn ymwneud â grymuso cymunedau lleol mewn modd strwythuredig. Ni allwch ei chael hi bob ffordd. Ni allwch ddweud, fel y dywedodd Suzy Davies, 'Rwyf am i gymuned X neu sefydliad Y gael cyllid i ddarparu gwasanaeth Z, ond rwyf am weld trefn lywodraethu wahanol'. Mae'n rhaid i'r broses hon fod yn strwythuredig, a gobeithiaf mai dyna yw'r hyn y bydd fy nghydweithwyr yn ei weld wrth edrych ar y rhaglen hon.

Rhodri Glyn Thomas raised some important issues about how local communities will be involved in that decision-making process. That is absolutely the right thing to do. They will be the people who will change our communities through this process. This will be done through the local delivery bodies. I am not sure that I agree with you on the cluster size—if I had said that it was six, seven or eight, you probably would not agree with whatever number I came up with.

Cododd Rhodri Glyn Thomas rai materion pwysig ynghylch sut y bydd cymunedau lleol yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Heb os nac oni bai, dyna'r peth iawn i'w wneud. Dyma'r bobl a fydd yn newid ein cymunedau drwy'r broses hon. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r cyrff cyflenwi lleol. Nid wyf yn sicr a wyf yn cytuno gyda chi ar faint y clwstwr—pe byddem wedi dweud ei fod yn chwech, saith neu wyth, mae'n debyg na fyddech wedi

However, if there are still issues around cluster sizes, I will consider them, because I do not want to construct a programme that does not fit our communities; it is extremely important that it works in our communities.

cytuno â'r rhif hwnnw beth bynnag. Fodd bynnag, os yw problemau'n dal i fodoli mewn perthynas â maint y clwstwr, byddaf yn eu hystyried, gan nad wyf am lunio rhaglen nad yw'n gweddu â'n cymunedau; mae'n eithriadol o bwysig bod y rhaglen hon yn gweithio yn ein cymunedau.

Finally, on the contribution by Mark Isherwood—some would say Mark 'grim reaper' Isherwood, but I would not—it is all doom and gloom from him when it comes to community investment.

Yn olaf, trof at y cyfraniad a wnaed gan Mark Isherwood—neu Mark 'y medelwr mawr' Isherwood, fel y byddai rhai yn ei alw, er na fyddwn i. Mae darlun Mark o fuddsoddi cymunedol yn ddarlun cwbl ddu.

**Mark Isherwood** *rose—*

**Mark Isherwood** *a gododd—*

**Carl Sargeant:** I would be delighted to take an intervention from the Member in a minute.
He gave the same old story. I was pleased with the interventions about looking forward and the way in which we can take our communities from where we are now in a 10-year period of change, moving forward on this agenda. However, he brought up the same old story about how it used to be.

**Carl Sargeant:** Byddwn yn falch iawn o ildio i'r Aelod mewn munud.

Cafwyd yr un hen stori gan Mark. Roeddwn yn falch o glywed yr ymyriadau a wnaed ynghylch edrych ymlaen, a'r modd y gallwn ddatblygu ein cymunedau o'r man cychwyn hwn dros gyfnod o 10 mlynedd o newid, gan symud ymlaen ar yr agenda hwn. Fodd bynnag, cododd Mark yr un hen stori am sut yr arferai fod.

**Mark Isherwood:** I talked about building upon successes and about a way forward. Everything that I said came from independent reports. Why do you not listen to those independent reports, and instead seem only to listen to those who are telling you what you want to hear?

**Mark Isherwood:** Siaradais am adeiladu ar lwyddiannau ac am y ffordd ymlaen. Daeth popeth a ddywedais o adroddiadau annibynnol. Pam nad ydych yn gwrando ar yr adroddiadau annibynnol hynny, yn hytrach nag ymddangos fel eich bod yn gwrando'n unig ar y rhai sy'n dweud yr hyn yr ydych am ei glywed?

**Carl Sargeant:** Let me tell you what the Tories have said. In October 2010, the leader of the Welsh Conservatives said that Communities First would be the first thing to be axed if the Tories were to gain power in 2011. He also said that they would have to look at some of the big programmes on how they could make savings, and that Communities First was an obvious one. That was reported by the *Guardian* on 6 October 2010. It goes on, Mark. You should tell the truth to the people of Wales that you do not want Communities First. That is the process that we have been through.

**Carl Sargeant:** Gadewch imi ddweud wrthych beth a ddywedodd y Torïaid. Ym mis Hydref 2010, dywedodd arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig mai Cymunedau yn Gyntaf fyddai'r peth cyntaf a fyddai'n dod i ben pe byddai'r Torïaid yn ennill grym yn 2011. Dywedodd hefyd y byddai'n rhaid iddynt edrych ar rai o'r rhaglenni mawr wrth ystyried sut i wneud arbedion, a bod Cymunedau yn Gyntaf yn un rhaglen amlwg yn hynny o beth. Cyhoeddwyd y datganiad hwnnw gan y *Guardian* ar 6 Hydref 2010. Mae'n mynd yn ei flaen, Mark. Dylech ddweud y gwir wrth bobl Cymru, sef nad ydych am gael rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Dyna'r broses rydym wedi dod drwyddi.

The Welsh Liberal Democrats were not so positive about the programme either; they also said in their manifesto that they would scrap Communities First and pass the money to local authorities. However, I recognise that Peter Black said in his contribution that local authorities should be involved in the decision-making process about how we can enable local people to make determinations about opportunities in their communities. I have taken that on board in this process.

Nid oedd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mor gadarnhaol â hynny am y rhaglen ychwaith; maent hefyd yn dweud yn eu maniffesto y byddent yn diddymu Cymunedau yn Gyntaf ac yn trosglwyddo’r arian i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod Peter Black wedi dweud yn ei gyfraniad y dylai awdurdodau lleol fod yn rhan o’r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â sut y gallwn alluogi pobl leol i wneud penderfyniadau am gyfleoedd yn eu cymunedau. Derbyniwyd hynny gennyf yn ystod y broses hon.

As I said, Communities First was only ever safe under a Labour administration, and we will not turn our back on the most deprived communities in Wales.

Fel y dywedais, dim ond o dan weinyddiaeth Lafur y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ddiogel, ac ni fyddwn yn troi ein cefnau ar gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection. I therefore defer all voting under this item until voting time, which now directly follows. Are there three Members who wish for the bell to be rung? As there are not, we can proceed to voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriwn bob pleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, a fydd yn dilyn yn syth. A oes tri Aelod sy’n dymuno i’r gloch gael ei chanu? Gan nad oes, gallwn symud ymlaen i’r cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 1 i NDM4897: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 25.*
*Amendment 1 to NDM4897: For 23, Abstain 0, Against 25.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie

Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4897: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Amendment 2 to NDM4897: For 35, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4897: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3 to NDM4897: For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4897: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM4897: For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.

Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

Cynnig NDM4897 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM4897 as amended:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi:*

*Notes:*

*a) cynigion deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Rhaglenni Gwledig a Physgodfeydd;*

*a) the European Commission's legislative proposals for Structural Fund, and Rural and Fisheries programmes;*

*b) 'cyfnod ystyried' Llywodraeth Cymru sy'n ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch y blaenoriaethau strategol ar gyfer y rhaglenni Ewropeaidd arfaethedig yng Nghymru (2014-2020);*

*b) the Welsh Government's "Reflection exercise" which seeks stakeholders' views on the strategic priorities for the prospective European programmes in Wales (2014-2020);*

*c) ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gryfhau*

*c) the Welsh Government's commitment to*

*cysylltiadau Cymru â sefydliadau'r UE ymhellach wrth ddatblygu a gweithredu ei Rhaglenni Ewropeaidd.*

*strengthening further Wales' links with the EU institutions in the development and implementation of its European Programmes.*

*2. Yn cydnabod efallai nad yw polisi Ewropeaidd y DU er budd gorau Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r capasiti i gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i sefydliadau'r UE.*

*2. Acknowledges that UK European policy may not be in the best interests of Wales and calls on the Welsh Government to develop the capacity for direct representations to EU institutions.*

*3. Yn croesawu'r newid arfaethedig i fonitro canlyniadau yn hytrach nag allbynnau a'r cyfle y gallai hyn ei greu i wella effaith y rownd nesaf o ariannu strwythurol.*

*3. Welcomes the proposed move to monitor outcomes rather than outputs and the opportunity this could create to improve the impact of the next round of structural funding.*

*4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl arian sy'n weddill yn y rownd ariannu bresennol yn cael ei dargedu at gynlluniau sy'n creu swyddi cynaliadwy.*

*4. Calls on the Welsh Government to ensure that all remaining money in the current round of funding is targeted at schemes which create sustainable jobs.*

*Cynnig NDM4897 fel y'i diwygiwyd: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Motion NDM4897 as amended: For 35, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y cynnig NDM4897 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4897 as amended agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4896: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 25.*
*Amendment 1 to NDM4896: For 23, Abstain 0, Against 25.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4896: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 2 to NDM4896: For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan

Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4896: O blaid 18, Ymatal 6, Yn erbyn 25.*
*Amendment 3 to NDM4896: For 18, Abstain 6, Against 25.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4896: O blaid 18, Ymatal 6, Yn erbyn 25.*
*Amendment 4 to NDM4896: For 18, Abstain 6, Against 25.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM4896: O blaid 24, Ymatal 0, Yn erbyn 25.*
*Amendment 5 to NDM4896: For 24, Abstain 0, Against 25.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM4896: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 6 to NDM4896: For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn

Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 7 i NDM4896: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 7 to NDM4896: For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Andrew R.T.
Davies, Alun
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned

Powell, William
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

| | |
|---|---|
| Cynnig NDM4896 fel y'i diwygiwyd | Motion NDM4896 as amended |
| *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:* | *To propose that the National Assembly for Wales:* |
| *Yn nodi'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd, a fydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi, gyda chynnwys y gymuned yn egwyddor allweddol iddi.* | *Notes the new Communities First Programme, which will focus on tackling poverty with community involvement being a key principle.* |
| *Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwerthusiad priodol yn rhan annatod o'r holl brosiectau Cymunedau yn Gyntaf er mwyn mesur llwyddiant ac i allu gwneud gwelliannau yn ystod oes y prosiectau.* | *Calls on the Welsh Government to ensure that the appropriate evaluation is built into all Communities First projects in order to measure success and to enable improvements to be made during the lifetime of the projects.* |
| *Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd yn cyflawni gwell canlyniadau na'i rhagflaenydd.* | *Calls on the Welsh Government to ensure that its new Communities First programme delivers better results than its predecessor.* |
| *Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd dargedau clir, perthnasol a mesuradwy i fynd i'r afael â thlodi.* | *Calls on the Welsh Government to ensure that its new Communities First programme has clear, relevant and measurable targets to tackle poverty.* |

*Cynnig NDM4896 fel y'i diwygiwyd: O blaid 36, Ymatal 13, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM4896 as amended: For 36, Abstain 13, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan

Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y cynnig NDM4896fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4896 as amended agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's proceedings.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny a thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.26 p.m.*
*The meeting ended at 6.26 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)